# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 25AIN IONAWR, 2024**

**(NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.15YB A BWRIEDIR CAEL TORIAD I GINIO AM 12.00YP – 1.00YP)**

Lleoliad

**Cyfarfod Aml-leoliad**
**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon**
**ac yn rhithiol ar Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 17 Ionawr 2024)

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

Jina Gwyrfai
Dawn Lynne Jones
Gareth Tudor Jones
Gwynfor Owen
Huw Rowlands
Rhys Tudur

Iwan Huws
Dewi Jones
Olaf Cai Larsen
Llio Elenid Owen
Paul John Rowlinson
Sasha Williams

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Beth Lawton
John Pughe Roberts

Gwilym Jones
Dewi Owen
Richard Glyn Roberts

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

**Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig**

| | |
|---|---|
| [sedd wag] | Eglwys yng Nghymru |
| Colette Owen | Yr Eglwys Gatholig |
| [sedd wag] | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd |
| Karen Vaughan Jones | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor |
| Manon Williams | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon |

**Heb Bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Elise Poulter | NEU |
| Gwilym Jones | NASUWT |

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 6 - 20

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd, 2023 fel rhai cywir.

**5. PROSIECT DATBLYGU ECONOMI GWYNEDD** 21 - 32

**Aelod Cabinet – Y Cynghorwyr Nia Jeffreys a Dyfrig Siencyn**

Cyflwyno adroddiad ar yr uchod.

**6. DOGFEN YMGYNGHORI AMCANION CYDRADDOLDEB 2024-28** 33 - 114

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Menna Trenholme**

Cyflwyno adroddiad ar yr uchod.

**<u>Bwriedir cael toriad i ginio am 12.00yp – 1.00yp</u>**

**7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL ADDYSG**

**(A) ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG 2022-23** 115 - 182

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Beca Brown**

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Addysg 2022-23.

**(B) ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE 2022-23** 183 - 214

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2022-23.

**8. PROSIECT ADDYSG OL-16 YN ARFON** 215 - 218

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Beca Brown**

Cyflwyno adroddiad ar yr uchod.

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**
**9/11/23**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Jones (Cadeirydd)
Paul Rowlinson (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Jina Gwyrfai, Iwan Huws, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dewi Owen, Llio Elenid Owen, John Pughe Roberts, Huw Llwyd Rowlands a Rhys Tudur.

**Aelodau Cyfetholedig:** Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) a Gwilym Jones (NASUWT).

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:-** Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg).
***Adran Addysg***:- Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol), Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol: Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Cynorthwyol: Cynradd), Gwyn Tudur (Pennaeth Cynorthwyol: Uwchradd), Llion Williams (Pennaeth Cynorthwyol: Llesiant a Chydraddoldeb) a Rhys Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd).
***GwE:-*** Elfyn Vaughan Jones (Uwch Arweinydd Rhanbarthol – Ysgolion Uwchradd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion) ac Euros Davies (Uwch Arweinydd Rhanbarthol – Ysgolion Cynradd ac Arbennig).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:-** Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Dros Faterion Gweithredol Economi), Amanda Davies (Rheolwr Gyfarwyddwr Byw'n Iach) a Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:-** Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Dros Faterion Gweithredol Economi), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Llyr Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned) a Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol).

Croesawyd Gwilym Jones, NASUWT, fel cynrychiolydd newydd undebau athrawon ar y pwyllgor.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gwynfor Owen, Richard Glyn Roberts a Sasha Williams a hefyd gan Elise Poulter (NEU).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorwyr Beth Lawton, Llio Elenid Owen a Gareth Tudor Jones fuddiant personol yn eitem 6 oherwydd eu bod yn Gyfarwyddwyr Cwmni Byw'n Iach.

Nid oedd yr aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ond er na adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth, ni fu iddynt gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio. Yn unol ag Adran 7.6 y Cyfansoddiad, ni chaiff unrhyw Aelod ymwneud â chraffu ar benderfyniadau y mae ef/hi wedi bod yn uniongyrchol gysylltiedig â hwy.

Datganodd y Cynghorydd Dewi Jones fuddiant personol yn eitem 6 oherwydd ei fod yn aelod o Byw'n Iach.

Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Medi, 2023 fel rhai cywir.

**5. ADRODDIAD ESTYN AR WASANAETHAU ADDYSG YNG NGHYNGOR GWYNEDD**

Croesawyd yr Aelod Cabinet Addysg a swyddogion yr Adran Addysg a GwE i'r cyfarfod.
Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn cyflwyno adroddiad Estyn o wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd ac yn gofyn i'r pwyllgor ddarparu sylwadau ar gynnwys yr adroddiad ac ystyried unrhyw drefniadau i graffu ar gynnydd yn erbyn argymhellion yr adroddiad yn amserol.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun gan ddiolch i'r Adran Addysg a GwE am eu gwaith trylwyr yn cefnogi'r ysgolion ar hyd y blynyddoedd, yn enwedig yn ystod y cyfnod heriol sydd wedi dilyn Cofid. Talodd deyrnged hefyd i waith athrawon a staff yr ysgolion, ac i'r plant a'r bobl ifanc am eu holl ymdrechion er gwaetha'r pandemig a'i sgil-effeithiau dwys.

Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd bod yr adroddiad yn un cryf iawn a diolchwyd i swyddogion yr Awdurdod ac i swyddogion GwE am eu holl gefnogaeth.

Holwyd sut y bwriadai'r Awdurdod weithredu ar argymhellion Estyn o ran gwella trefniadau monitro, gwerthuso a hyrwyddo presenoldeb disgyblion a chryfhau'r ddarpariaeth i ymateb i anghenion disgyblion â chanddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y gostyngiad ym mhresenoldeb disgyblion yn duedd a welir yn genedlaethol.
- Y defnyddiwyd grant sy'n cyd-fynd â'r maes yma i benodi 3 swyddog yn y Tîm Lles i edrych ar absenoldebau parhaus, absenoldebau mwy aml neu anawsterau sylweddol presenoli yn yr ysgol, gan ryddhau'r swyddogion lles arferol sydd ynghlwm ag ysgolion i dargedu absenoldebau fel cymryd gwyliau yn ystod tymor ysgol neu fethu'r un diwrnod dros gyfnod o amser ynghyd ag edrych ar y codau mae'r ysgolion yn defnyddio o ran y cofrestrau.
- Bod adroddiadau manwl yn cael eu darparu o ran presenoldeb yn fisol, a bod yna ddata wythnosol hefyd sy'n edrych ar y tueddiadau, yn targedu ysgolion penodol ac yn gweithio gyda theuluoedd mewn ymgais i gynyddu presenoldeb.
- Bod presenoldeb yn ddyletswydd ar bawb, ac nid y swyddogion lles yn unig, a bwriedid cynnal ymgyrch presenoldeb dros y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â phwysigrwydd bod yn bresennol yn yr ysgol yn rheolaidd a sut mae peidio bod yn bresennol yn cael effaith ar ddeilliannau'r ysgol a'r disgyblion.

- O ran cynhwysiad, y byddai Mrs Caroline Rees, oedd wedi llunio adroddiad ar y gwasanaeth yn 2019-20, yn cynnal arolwg arall ym mis Rhagfyr, yn benodol ar gynhwysiad, ac yn cyflwyno argymhellion o ran sut i gryfhau'r ddarpariaeth.
- Bod yna gamau wedi'u rhoi ar waith eisoes o ran cryfhau prosesau monitro o amgylch yr hybiau uwchradd, ayb.

Nodwyd bod yr adroddiad yn cydnabod bod yr adnoddau amlgyfrwng a ddefnyddir yn y canolfannau trochi i atgyfnerthu patrymau iaith a geirfa yn werthfawr a holwyd a oedd yna ymdrech ragweithiol Cymru gyfan i'w hyrwyddo a'u lledaenu. Mewn ymateb, nodwyd bod hynny'n sicr yn rhywbeth i feddwl amdano.

Nodwyd bod sylw wedi'i wneud yn Adroddiad Archwilio Cymru nad oedd y pwyllgorau craffu yn craffu eitemau/prosiectau yng Nghynllun y Cyngor, ond credid bod hynny wedi newid eleni, a gobeithid y byddai'r pwyllgor yn ateb yr argymhelliad yna wrth symud ymlaen.

Nodwyd na ddeellid sut bod rhai ysgolion angen mwy o ymyrraeth neu gymorth, a hwythau eisoes yn derbyn cefnogaeth gan GwE, a holwyd a oedd yna rywbeth y gellid ei wneud drwy GwE i sicrhau nad ydym byth yn dod i'r sefyllfa yna. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod pob ysgol yn derbyn cefnogaeth ddwys gan y Gwasanaeth Cefnogi Ysgolion, ond yn aml iawn, bod yna amgylchiadau lle mae'r heriau y tu allan i reolaeth yr Awdurdod a GwE.
- Bod y sefyllfaoedd hynny'n aml iawn yn codi o broblemau adnoddau dynol ac yn benodol perfformiad unigolion. Yn yr achosion hynny, mae GwE yn darparu cymorth i'r penaethiaid lle'n briodol.
- Na ellir byth gyrraedd sefyllfa lle nad oes yr un ysgol angen cefnogaeth nac ychwaith warantu na fydd unrhyw ysgol yn mynd i mewn i gefnogaeth ddwys.
- Bod GwE yn cefnogi'r ysgolion ac yn adnabod unrhyw wendidau, ac yn rhoi'r amser a'r gefnogaeth i mewn yn amserol i lenwi'r bwlch.

Nodwyd bod adroddiad Estyn yn nodi bod yr ymyrraeth i ysgolion sy'n peri pryder yn effeithiol, ond ddim bob amser yn amserol, a holwyd a oedd yna gamau y gellid eu cymryd i'r dyfodol yn hynny o beth. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod ymateb i heriau ysgolion yn aml-ddimensiwn a bod yr her ei hun yn gallu dod o gyfeiriadau gwahanol, boed hynny'n adnoddau dynol, cyllidol, eiddo neu unrhyw beth arall sy'n cyfrannu at lwyddiant ysgol.
- Y credid bod yr adroddiad yn cyfarch y camau sydd wedi'u cymryd dros y tymhorau diwethaf i finiogi'r drefn o gefnogi ysgolion drwy adnabod yr ysgolion yn llawer gwell nag yn y gorffennol, cael trafodaeth agored gyda hwy o ran y meysydd sydd angen sylw a rhoi cefnogaeth gadarn mewn lle ar gyfer ceisio gwneud popeth i osgoi i ysgol gyrraedd pwynt o gael dyfarniad llai ffafriol gan Estyn.
- Na chredid bod modd i'r Awdurdod na GwE, hyd yn oed yn gweithio gyda'i gilydd yn y dull mwyaf effeithiol, roi gwarant na fyddai yna ysgol, mewn un ffordd neu'r llall, yn cyrraedd sefyllfa lle mae'r farn derfynol yna'n anffafriol, ond ar adegau bod barn Estyn ar ysgol yn gallu helpu'r ysgol honno i symud ymlaen hefyd.

Cyfeiriwyd at hyfforddiant diweddar a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Arfon ar Anhwylder y Sbecrwm Awtistiaeth a holwyd a oedd bwriad i gynnig yr hyfforddiant hwnnw i holl staff yr ysgolion. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod gan yr Adran dîm eithaf mawr sy'n targedu'r maes yma'n benodol ar gyfer cynnig hyfforddiant ysgol gyfan lle mae modd i'r staff weithio tuag at safon benodol o ran Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth, a bod yna webinarau ar gael i'r ysgolion hefyd.

- Petai yna blentyn yn hysbys i'r tîm, bod hyfforddiant yn cael ei gynnig ar gyfer staff yr ysgol dan sylw.

Holwyd a fu unrhyw ddatblygiad o ran penodi mwy o seicolegwyr addysgol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yna anawsterau staffio sylweddol yn y gwasanaeth, a bod yr Aelod Cabinet a'r Prif Weithredwr wedi anfon llythyr o bryder at Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r dull hyfforddi, sy'n dal heb newid.
- Y darperir yr hyfforddiant craidd yng Nghaerdydd a'i bod yn anodd hyrwyddo pobl leol i fynd ar yr hyfforddiant.
- Bod y Cyngor yn cyflogi seicolegwyr cynorthwyol i weithio gyda'r tîm yn y gobaith y byddai'r gweithwyr hynny yn ymgeisio am le ar y cwrs maes o law.
- Yr arbrofwyd gyda gwahanol ddulliau o weithio dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn dilyn y cyfnod clo, gan ddod ag ysgolion at ei gilydd i drafod hefo seicolegydd, ac er mai cymysg fu'r ymateb i'r model hwn o weithio, roedd y model wedi esblygu eto i geisio ymgorffori mwy o ymweliadau ysgol.

Croesawyd y ffaith bod yr adroddiad yn canmol y Cyngor am sicrhau parhad yr hybiau wedi i arian Ewrop ddod i ben, a phwysleisiwyd pwysigrwydd amddiffyn yr arian yma yn ystod y cyfnod heriol sy'n ein hwynebu. Er hynny, mynegwyd peth pryder bod yr adroddiad yn nodi bod yna amrywiaeth o fewn y ddarpariaeth ac nad oedd yna gyswllt digonol rhwng yr hybiau a swyddogion yr adran. Holwyd a fyddai yna waith yn cael ei wneud i adnabod lle sydd angen gwella, a beth fyddai'n digwydd er mwyn gwella'r cyswllt hefo'r adran. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y cryfhawyd yr elfen Swyddogion Ansawdd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad a threfnwyd llawer mwy o gyswllt rhwng y swyddogion a'r hybiau, gydag un swyddog yn gweithio gyda'r hwb ym Meirion Dwyfor a swyddog arall yn gweithio gyda'r hwb yn Arfon.
- Bod yr Adran yn edrych ar ymestyn aelodaeth y Bwrdd Rheoli Hybiau i gynnwys mewnbwn gan benaethiaid eraill.
- Yn sgil derbyn argymhellion o ran gwella pellach gan Caroline Rees, yr arbenigwr allanol, y gobeithid y byddai yna gynllun gweithredu mewn lle erbyn mis Ionawr o ran cryfhau'r ddarpariaeth.
- Bod y Gwasanaeth hefyd yn edrych ar wella'r gofod a ddefnyddir ar gyfer yr hybiau, ynghyd â pherchnogaeth y bobl ifanc ohonynt.

Cyfeiriwyd at y newid sylweddol yn ymddygiad disgyblion ers y cyfnod clo a holwyd a oedd yr amrywiaeth o ran yr hyn sy'n cael ei gynnal a'r adnoddau, ac ati, yn arwydd o hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yr her ar yr ochr cynhwysiad yn sylweddol o ran gwaharddiadau a'r heriau sy'n wynebu ysgolion o ran hynny, ac y byddai Caroline Rees, yr arbenigwr allanol, yn edrych ar y ddarpariaeth yn yr ysgolion hefyd o ran y defnydd o'r cyllid cynhwysiad mae'r sector uwchradd yn ei dderbyn a'r map darpariaeth sydd gennym fel sir.
- Y byddai'r Cyngor yn derbyn swm o arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer comisiynu darparwyr yn yr ysgolion i ymestyn y cwricwlwm sydd ar gael i rai ag anawsterau ymddygiadol, gan nad oedd y dulliau traddodiadol yn gweithio i lawer o'r dysgwyr yma.
- Yn dilyn y cyfnod grant, gellid gweld beth sydd wedi gweithio, ac efallai bod angen ffurfio cynllun gweithredu ar gyfer y tymor hir yn y maes yma.

Nodwyd bod adroddiad Estyn yn ganmoliaethus iawn o'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd, e.e. yn canmol y ffaith bod gennym 6 canolfan drochi arbenigol a bod yna nifer uchel yn gwneud eu pynciau TGAU drwy'r Gymraeg, ond ffactorau sydd wedi

bodoli ers peth amser yw hynny. Teimlid bod yr adroddiad yn un arwynebol, e.e. nid oedd yn ystyried os oedd cwymp wedi bod yn y nifer sy'n gwneud pynciau TGAU yn ôl y Cynllun Strategol Addysg Gymraeg (CSGA), er bod hynny'n wir. Credid bod Estyn yn edrych ar Wynedd o gymharu â siroedd eraill yng Nghymru, ac yn gweld Gwynedd yn llwyddiant ysgubol, ond roedd perygl i ni fod yn hunan-foddhaus gyda hynny. Nodwyd y byddai'n dda o beth petai gan Estyn ddisgwyliadau uwch o Wynedd, ac yn edrych yn fwy treiddgar ar y ddarpariaeth Gymraeg yn y sir. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y gellid sicrhau'r aelod nad oedd yr Adran Addysg yn gorffwys ar ei rhwyfau.
- Bod yr Adran yn edrych ar flaenoriaethau'r CSGA er mwyn cynyddu a grymuso'r ddarpariaeth Gymraeg, grymuso'r trefniadau pontio yng nghyd-destun ieithyddol a cheisio grymuso'r ddarpariaeth a'r addysg ddwyieithog yn y sector cynradd ac yn y sector uwchradd a chynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bod yr Adran hefyd wedi ymrwymo i adolygu a chyfoesi'r Polisi Iaith Addysg.
- Y derbynnid bod yr adroddiad yn ganmoliaethus, ac er na fu'r arolygwyr ymhob ysgol, bod pob ysgol yn cael ei harolygu gan Estyn, ac felly bod yna adolygiad manwl, dwys a thrylwyr yn digwydd i bob ysgol o fewn cylch 6 mlynedd.
- Bod yr arolygwyr wedi mynychu dwy ganolfan drochi. Nid ymarferiad papur mohono, eithr ymarferiad lle roedd yr arolygwyr yn arsylwi gwersi ac yn treulio diwrnod rhwng y ddwy ganolfan.
- Bod yna ragor o waith i'w wneud ac y dymunai'r Gwasanaeth rymuso a gwella ymhellach fel y gall fod yn arfer sy'n cael ei ledaenu'n genedlaethol.

Nodwyd bod gan y Cyngor lai o athrawon trochi nag yn y gorffennol, gan mai 1 athro sydd i bob canolfan bellach yn hytrach na 2, a holwyd a oedd yr Adran Addysg yn cadw cofrestr o athrawon sydd â phrofiad ac arbenigedd yn y maes trochi, gan y byddai cofrestr o'r fath yn gam ymlaen tuag at feithrin tîm o bobl sy'n meddu ar y profiad a'r arbenigedd angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r gwaith. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod 6 o athrawon trochi o fewn y gyfundrefn addysg drochi ar hyn o bryd, a'u bod, fel pob athro/athrawes arall, yn meddu ar gymhwyster a thystysgrif dysgu.
- Nad oedd yna gymhwyster fel y cyfryw ar gyfer trochi a bod y rhain yn athrawon sydd wedi dysgu eu crefft o fod yn cydweithio gydag athrawon profiadol eraill.
- Bod yr athrawon trochi yn aelodau o rwydwaith trochi cenedlaethol ac yn mynychu cyfarfodydd a chynadleddau i rannu arferion da, a hefyd yn ceisio mynychu hyfforddiannau er mwyn grymuso a diweddaru eu crefft.
- Bod yr athrawon trochi hefyd yn treulio llawer iawn o amser yn edrych ar astudiaethau a gwaith ymchwil yn y maes trochi, sy'n eithriadol o brin.
- Ein bod, fel cyfundrefn, wedi bod yn gwneud ein gwaith ymchwil ein hunain ac wedi cyflwyno 6 o weminarau hyfforddi athrawon ar draws y sir, sydd wedi'u cydnabod fel arfer da.
- Y ceisid hyfforddi staff yr ysgolion hefyd gan fod trochi yn faes sy'n berthnasol i bob ysgol fwy neu lai bellach, gan rannu'r egwyddorion trochi sydd wedi'u hadnabod gan Estyn gyda hwy.

Holwyd a oedd gan yr Adran Addysg gofrestr o athrawon trochi cymwys a phrofiadol wrth gefn. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y gyfundrefn drochi, fel pob ysgol gynradd, yn ddibynnol ar y pwll o athrawon cyflenwi, ac nad oedd gan yr Adran y cyllid i gael athrawon cyflenwi penodol ar gyfer yr unedau trochi.
- Er hynny, bod yna grŵp o athrawon, o leiaf 1 i bob canolfan, sydd wedi'u hadnabod fel ymarferwyr sy'n gyfarwydd iawn â'r dulliau a'r egwyddorion trochi ac wedi bod yn yr unedau, a bod modd cysylltu â hwy yn uniongyrchol.

- Pe na fyddai'r unigolion hynny ar gael, byddai'n rhaid wedyn mynd ar ofyn yr athrawon llai profiadol yn y maes trochi, a byddai hynny'n gyfle i'r athrawon hynny feithrin profiad ac arbenigedd fel eu bod hwythau, yn eu tro, yn dechrau dod i arfer hefo'r dulliau a'r egwyddorion trochi.

Mynegwyd siomedigaeth bod yr holiadur agored cyn yr arolygiad wedi cau'n gynnar ac na fu modd i aelodau gynnig sylwadau ar y dyddiad cau. Holwyd faint o benaethiaid a llywodraethwyr fu'n rhan o'r trafodaethau gydag Estyn yn ystod yr ymweliad rhagarweiniol a hefyd faint o aelodau'r pwyllgor hwn oedd wedi cyfarfod Estyn. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y byddai'r sylw bod yr holiadur agored wedi cau'n gynnar yn cael ei basio yn ôl i Arolygydd Cyswllt Estyn.
- Bod arolygwyr Estyn yn gofyn am weld nifer penodol o benaethiaid sy'n cynrychioli'r ystod o ran sectorau gwahanol a maint ysgolion, a chredid bod GwE wedi bod yn rhan o'r ymweliad rhagarweiniol hefyd.
- Mai'r Cynghorydd Beth Lawton, fel cyn-gadeirydd y pwyllgor hwn, oedd wedi cyfarfod arolygwyr Estyn.

Holwyd ar ba sail roedd Estyn yn honni bod y cynllunio ar y cyd rhwng y Cabinet a phwyllgorau craffu i gydlynu rhaglenni gwaith sy'n cefnogi penderfyniadau yn gwella. Holwyd hefyd ar ba sail yr honnid mai cyfyng ar hyn o bryd yw ystyriaeth y pwyllgor craffu o waith y prosiectau o fewn Cynllun y Cyngor. Nodwyd na anghytunid â'r sylw a'i fod yn ategu'r hyn mae nifer o aelodau'r pwyllgor craffu yn ofyn yn gyson, sef pa wahaniaeth mae'r craffu yn ei wneud? Mewn ymateb, nodwyd:-

- O ran gwella'r cydlynu rhwng y Cabinet a chraffu, y bu symudiad i gadarnhau rhaglen Cabinet fwy llawn o ran yr eitemau sydd i ddod, a bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor craffu yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r pennaeth a'r aelod cabinet perthnasol i adnabod materion sydd angen eu craffu.
- Bod yr aelodau yn blaenoriaethu eitemau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn y gweithdai craffu a bod nifer o'r eitemau ar flaen raglen 2023-24 yn dod o Gynllun y Cyngor.
- Bod effaith craffu yn rhywbeth i edrych arno fel rhan o'r adolygiad craffu sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Nodwyd bod y frawddeg yn adroddiad Estyn '*Mae ysgolion yn darparu llawer o bynciau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae llawer iawn o ddisgyblion yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg iaith gyntaf'* yn sylw hollol amwys a di-sail sydd heb ei gyfiawnhau. Mewn ymateb, nodwyd bod gan Estyn ganllaw ysgrifennu lle mae'r termau a ddefnyddir ar draws eu hadolygiadau yn cyfateb i ganrannau penodol, a bod '*llawer'* a '*llawer iawn'* yn gyfystyr â 80%+ neu 90%.

Holwyd beth oedd y bwriad o ran symud ymlaen gyda'r Prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y gellid dehongli bod yna ryw gymaint o arafwch, neu oedi, wedi bod hefo'r prosiect, ac efallai bod elfen ohono, o leiaf, yn adlewyrchu cymhlethodod y maes, ynghyd â'r ffaith ein bod wedi cael pandemig yng nghanol y cyfnod yma a sawl etholiad cenedlaethol a lleol hefyd.
- Y cyflwynwyd adroddiad ar addysg ôl-16 i'r Cabinet ym mis Mawrth eleni yn gofyn am ganiatâd i wneud gwaith pellach gyda rhanddeiliaid allweddol addysg ôl-16 yn Arfon.
- Y cynhaliwyd gweithdai gyda'r penaethiaid dros yr haf, gan adrodd yn ôl iddynt ar gasgliadau'r gweithdai hynny ddechrau Medi.
- Y gobeithid rhoi diweddariad pellach i'r Cabinet cyn y Nadolig, ac roedd yr eitem wedi'i rhaglennu ar gyfer cyfarfod Ionawr o'r pwyllgor hwn.

Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried pryd fyddai'n amserol i graffu ar gynnydd yn erbyn argymhellion adroddiad Estyn. Cytunwyd i dderbyn adroddiad pellach ymhen 9 mis sy'n caniatáu cyfnod digonol o amser i roi'r argymhellion ar waith ac i baratoi adroddiad cynhwysfawr o ran cynnydd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau, a derbyn adroddiad cynnydd ar ymateb i'r argymhellion mewn 9 mis.**

**6. CWMNI BYW'N IACH**

Croesawyd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Dros Faterion Gweithredol Economi, Rheolwr Gyfarwyddwr Byw'n Iach a'r Pennaeth Economi a Chymuned i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Dros Faterion Gweithredol Economi yn gwahodd y pwyllgor i graffu trefniadau Cyngor Gwynedd a Chwmni Byw'n Iach i ddarparu gwasanaethau hamdden yng Ngwynedd yn sgil gosod y mater ar Gofrestr Risg Gorfforaethol Cyngor Gwynedd oherwydd y risg y byddai Cwmni Byw'n Iach yn methu parhau i ddarparu gwasanaethau yng nghanolfannau hamdden Gwynedd o ganlyniad i sgil effaith Covid-19 a chynnydd mewn costau byw ar eu hincwm.

Gosododd yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth Economi a Chymuned y cyd-destun gan ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad ac i Dîm Byw'n Iach a chynrychiolwyr y Cyngor ar Fwrdd Byw'n Iach am eu gwaith. Yna manylodd Rheolwr Gyfarwyddwr Byw'n Iach ar berfformiad y cwmni yn ystod y flwyddyn.

Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Gofynnwyd i'r swyddogion ymhelaethu ar y cydweithio rhwng Cwmni Byw'n Iach ac Alliance Leisure i flaenoriaethu'r cynlluniau i greu ffrydiau incwm ychwanegol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod Alliance Leisure yn gwmni arbenigol sy'n cefnogi awdurdodau lleol a chwmnïau masnachol yn y maes hamdden, a bod y Cyngor wedi cydweithio â hwy yn y gorffennol hefyd.
- Bod prif ffocws y trafodaethau gyda'r cwmni dros y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio ar Fangor, a hynny'n bennaf oherwydd yr her sy'n wynebu'r ffrydiau incwm mwy traddodiadol i gyfleusterau Byw'n Iach ym Mangor yn wyneb y gystadleuaeth o du'r sector preifat, a hefyd y ffaith bod Bangor yn ganolfan boblogaeth sylweddol iawn.
- Nad oedd y cyfleusterau ym Mangor ymhlith y cryfaf, ac roedd yna ddiffyg darpariaeth ochr sych ar gyfer chwaraeon. Hefyd, roedd y sefyllfa ym Mangor yn gymhleth oherwydd presenoldeb y Brifysgol a'u cyfleusterau hwy.
- Y dymunai trigolion Bangor weld cynnig ehangach, ond ar hyn o bryd ni ellid darparu gwasanaethau gwyliau i blant a phobl ifanc ym Mangor oherwydd y diffyg cyfleusterau sych, ayb.
- Bod yna gyfle masnachol ym Mangor oherwydd maint y boblogaeth, a bod y trafodaethau gydag Alliance Leisure yn edrych ar ddau brosiect posib', y naill yn ymwneud â chyfleuster chwarae fel estyniad i'r adeilad presennol a'r llall yn edrych ar addasu'r cynnig ffitrwydd ym Mangor i beidio cystadlu benben gyda rhai o'r cystadleuwyr preifat, ond yn hytrach i edrych yn fwy ar y sector llesiant, gan edrych i gydweithio mwy o fewn y rhaglen cyfeirio i ymarfer, gweithio gyda phartneriaid iechyd a thargedu pobl hŷn a phobl sydd â diddordeb mewn ymarfer dwysedd is.
- Y cyflwynwyd ceisiadau grant i Lywodraeth Cymru am arian i wireddu'r cynlluniau hyn ac roedd yna geisiadau Cronfa Loteri ar fin eu cyflwyno hefyd.

Holwyd sut roedd Cwmni Byw'n Iach yn gweld y risgiau yn y dyfodol, h.y. o ran nifer y defnyddwyr yn cyrraedd plateau a'r incwm ddim yn cynyddu ymhellach, yr angen i fuddsoddi mewn offer ffitrwydd rhag colli defnyddwyr, RAAC neu fuddsoddiad tymor hir yn yr adeiladau. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y plateau yn siwr o ddod gan nad oedd yn bosib' i'r incwm barhau i gynyddu am byth ar sail yr adnoddau na'r boblogaeth sydd gennym yng Ngwynedd.
- O edrych ar y sir yn ei chyfanrwydd, bod gan rhai o gyfleusterau Byw'n Iach ddalgylchoedd o tua 5,000 o bobl yn unig, ac o symud poblogaeth Gwynedd i gyd-destun trefol, mae'n debyg mai 2-3 canolfan yn unig fyddai gennym.
- Y credid, fodd bynnag, o dderbyn buddsoddiad a chael adnoddau ychwanegol, bod yna gyfleoedd i dyfu, er nad oedd hynny'n ddi-ben-draw.
- Bod y cwmni yn edrych ar rai o'r canolfannau pellach i Dde'r sir a'r cyfleoedd sydd yna o ddefnyddio incwm o ymwelwyr i'r ardal yn ystod yr haf fel sybsidi ar gyfer y cyfleuster drwy gydol y flwyddyn.
- Yn sgil darganfod RAAC yn nho Pwll Nofio Canolfan Hamdden Arfon, y caewyd y pwll am gyfnod tra bo'r gwaith ymchwilio i'r sefyllfa yn mynd rhagddo. Yn dilyn hynny, derbyniodd Adran Eiddo'r Cyngor adroddiad, a rannwyd gyda Chwmni Byw'n Iach, yn amlygu nad oedd yna risg uniongyrchol i ddefnyddwyr, ac ar sail hynny, ail-agorwyd y pwll. Byddai monitro pellach yn digwydd dros y blynyddoedd nesaf. Cadarnhawyd hefyd nad oedd RAAC wedi'i ddarganfod ar unrhyw un o safleoedd eraill y cwmni yn y sir.

Gofynnwyd i'r swyddogion ymhelaethu ar sut mae'r canolfannau ym Meirionnydd a Dwyfor yn perfformio. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod nifer yr ymwelwyr a maint yr incwm yn llawer is yn rhai o'r canolfannau sych, megis y Pafiliwn, Bermo a Glan Wnion, Dolgellau, o gymharu ag, er enghraifft, safle Arfon, ond bod y costau yn sylweddol is hefyd, gyda nifer sylweddol llai o staff yn y canolfannau hynny.
- Mai'r her oedd ceisio cynnig gwasanaeth cytbwys ar draws pob un o'r cymunedau hynny ar sail lefelau poblogaeth mor amrywiol, a gallai fod yn anodd i gwsmeriaid ddeall pam nad ydyn nhw'n cael cymaint o gynnig â rhywun yng Nghaernarfon, er enghraifft.

Holwyd pa gynlluniau oedd gan Byw'n Iach o ran cefnogi pobl incwm is, a phlant yn benodol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod hyn yn rhywbeth sy'n fyw iawn yn ymwybyddiaeth Tim Rheoli Byw'n Iach, ac yn codi'n rheolaidd yn y trafodaethau gyda'r Cyngor.
- Bod yna gyswllt rhwng difreintedd a bod yn actif. Roedd y pandemig wedi gwaethygu'r cyswllt hwnnw, ac roedd sicrhau bod pob un o drigolion Gwynedd yn actif ac yn cael y buddiannau iechyd sy'n deillio o hynny yn flaenoriaeth i Byw'n Iach.
- Bod cyswllt amlwg rhwng lefelau gallu nofio plant ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a difreintedd, a bod canran y plant sy'n gallu nofio wedi disgyn o 80%-90% cyn y pandemig i tua 50% erbyn hyn, ac yn is ar gyfer rhai grwpiau o blant yn y sir.
- Bod ein gallu i newid y sefyllfa ar hyn o bryd yn eithaf cyfyngedig gan fod y Grant Nofio am Ddim wedi ei haneru rhyw 5 mlynedd yn ôl.
- Fel rhan o'r ddarpariaeth, bod Chwaraeon Cymru yn mynnu bod rhaid cynnig sesiwn nofio am ddim bob wythnos ymhob pwll i blant ac i bobl dros 60 oed, ond roedd yn eithaf drud gwneud hynny gan fod gennym 7 o byllau nofio. Ceisiwyd dadlau'r achos y byddai'n well i Byw'n Iach gael yr hawl i ddefnyddio'r arian mewn ffordd fwy targedol, e.e. gwersi nofio a thargedu teuluoedd neu ysgolion penodol, gan fod

llawer o ysgolion yn ei chael yn anodd talu costau trafnidiaeth i ddod â'r plant i wersi nofio. Ni chafwyd ymateb cadarnhaol hyd yma o ran ein gallu i wneud hynny.

- Y ceisid ymestyn yr arian sydd ar gael er mwyn cynnig sesiwn nofio am ddim i ddeilyddion y Cerbyn Max, sef cerdyn cenedlaethol ar gyfer teuluoedd maeth a theuluoedd â phlant ag anabledd. Hefyd, datblygwyd cynllun ar y cyd â Gwasanaeth Plant y Cyngor i ddarparu nofio am ddim i bob person ifanc sy'n dal y cerdyn Gofalwr Ifanc, ynghyd ag un ffrind/aelod teulu, a rhannwyd tocynnau nofio am ddim teulu gyda banciau bwyd y sir yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Y cafwyd cefnogaeth dda iawn trwy'r Gwasanaeth Plant o ran cynlluniau chwarae'r Llywodraeth dros y blynyddoedd diwethaf, gyda mwyafrif y rhaglenni gwyliau wedi bod ar gael yn rhad ac am ddim. Llwyddwyd hefyd i gael grant gan y Comisiynydd Heddlu a chafwyd cefnogaeth gan y Gwasanaeth Ieuenctid i lansiad cynllun chwarae allan dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n golygu agor pob cwrt a phob cae synthetig yn ystod pob cyfnod gwyliau ysgol yn rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc ar gyfer chwarae gemau'n anffurfiol.
- Bod Tîm yr Uned Partneriaethau yn gwneud gwaith cyfeirio arloesol gyda phobl fel y Gwasanaeth Plant a'r Tîm o Amgylch y Teulu a'r elusennau gofalwyr ifanc ac yn derbyn cyfeiriadau ar gyfer teuluoedd neu blant a phobl ifanc unigol gan weithio ar lefel ddwys iawn gyda rhai sydd, am ba bynnag reswm, ddim yn cyfranogi ar hyn o bryd.
- Bod llawer o waith yn cael ei wneud o amgylch iechyd meddwl pobl ifanc, megis sesiynau un i un hefo'r person ifanc er mwyn darganfod beth fyddai'n eu hysgogi i fod yn actif.

Holwyd i ba raddau roedd presgripsiynu ymarfer corff yn digwydd yng Ngwynedd ac oedd yna botensial ar gyfer marchnata hynny fwy er mwyn cael mwy o feddygon i wneud cyfeiriadau. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y grant ar gyfer y Cynllun NERS (Cynllun Cyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol) wedi aros yn llonydd ers degawd a bod 99% o'r arian bellach yn cael ei wario ar gyflogau. Gan hynny, roedd y tîm yn lleihau mewn termau real bob blwyddyn.
- Bod y staff a gyflogir ar y cynllun ar gytundebau blwyddyn yn unig, ac er bod rhai ohonynt wedi bod yn y swydd ers degawd, eu bod yn wynebu'r un sefyllfa o ansicrwydd bob blwyddyn gan na dderbynnir cadarnhad o'r arian grant ar gyfer y flwyddyn i ddod tan y munud olaf.
- Bod rhain yn staff sydd â lefelau sgil a chymhwyster uchel iawn a byddai eu colli yn golygu gorfod hyfforddi rhywun o'r cychwyn eto.
- Nad yw Byw'n Iach yn marchnata'r rhaglen gan fod yna restrau aros na ellir ymdopi â hwy, a gellid dyblu neu hyd yn oed dreblu nifer y trigolion sy'n derbyn y gefnogaeth petai'r tim yn fwy.
- Bod y sefyllfa'n hynod rwystredig gan fod y dystiolaeth o fuddion y rhaglen yn eglur iawn.

Awgrymwyd bod y ffaith bod yr incwm yn seiliedig ar grant sefydlog, yn hytrach nag ar nifer y cleifion sy'n cael eu cyfeirio, yn wendid yn y cynllun ac yn rhywbeth i fynd ar ei ôl ar lefel wleidyddol. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet ei bod hi a Chadeirydd Cwmni Byw'n Iach wedi llythyru'r Gweinidog Iechyd ar y pryd ynglŷn â'r union fater hwn ac y byddai'n croesawu petai'r pwyllgor yn llythyru eto ar yr un llinellau.

Holwyd lle'r oedd Byw'n Iach arni o safbwynt cael digon o staff Cymraeg i roi gwasanaeth dwyieithog, ac yn benodol o ran gwersi nofio i blant. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y byddai gan Byw'n Iach fwy o ddewis o ymgeiswyr yn y gorffennol, ond dros y 2 flynedd ddiwethaf roedd rhaid mynd allan i hysbysebu dro ar ôl tro i ddenu unrhyw ymgeiswyr ar gyfer rhai swyddi.

- Bod sgiliau iaith yn amlwg yn bwysig wrth recriwtio, ond wynebwyd sefyllfa yn y blynyddoedd diwethaf lle roedd 1,000 o blant yn Arfon yn disgwyl am wersi nofio a Byw'n Iach yn methu recriwtio digon o athrawon nofio oedd yn hyderus yn eu Cymraeg.
- Na chredid bod unrhyw un wedi'i recriwtio heb unrhyw sgiliau iaith o gwbl, ond gwelwyd sefyllfaoedd lle roedd yn ddewis rhwng peidio recriwtio a gadael 40-50 o blant ychwanegol ar y rhestr aros am wersi nofio am y 2-3 blynedd nesaf, neu recriwtio pobl â sgiliau iaith lefel is, a gweithio gyda hwy i ddatblygu eu sgiliau iaith a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Bod cytundebau gwaith yr athrawon nofio yn rhoi mynediad i'r un gefnogaeth dysgu a datblygu ag sydd ar gael i staff Cyngor Gwynedd fel bod modd i'r unigolion dderbyn cymorth gan swyddogion iaith y Cyngor a manteisio ar y rhaglenni datblygu sydd ar gael. Hefyd, roedd swyddog nofio yn gweithio gyda'r unigolion hynny ran geirfa nofio, a gosodwyd posteri yn yr ystafelloedd staff yn atgoffa pobl o'r eirfa honno. Fodd bynnag, roedd magu hyder yr athrawon nofio i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith am gymryd amser ac ni fyddai'n digwydd dros nos.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
2. **Anfon llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlygu'r gwaith a wneir gan Cwmni Byw'n Iach yng nghyswllt y Cynllun Cyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol a'r angen am fwy o gyllid i ariannu ei weithrediad yng Ngwynedd.**

## 7. RHEOLAETH TRAETHAU GWYNEDD

Croesawyd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned a'r Rheolwr Gwasanaeth Morwrol i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Dros Faterion Gweithredol Economi yn gwahodd y pwyllgor i graffu'r trefniadau ar gyfer rheoli traethau yng Ngwynedd.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun ac ymhelaethodd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned ar gynnwys yr adroddiad. Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Gan gyfeirio at Dabl 1 ym mharagraff 5.2 o'r adroddiad, holwyd a oedd y cynnydd mewn costau gweithwyr o ganlyniad i gynnydd mewn tâl goramser. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y patrymau gwariant yn amlygu'r pwysau aruthrol ar yr arfordir dros y 2-3 blynedd ddiwethaf sydd wedi arwain at orfod ymestyn cyfnod y wardeiniaid traeth ynghyd â thalu goramser.
- Bod y strwythur parhaol ar hyn o bryd yn cynnwys un Uwch Swyddog Traeth ac un Swyddog Traeth arall yn unig, ac fel rhan o'r cynnydd yn yr incwm, bod bwriad i sefydlu dwy swydd arall er mwyn cyfarch y bwlch, sef Swyddog Traeth ar gyfer Meirionnydd a Swyddog Traeth ar gyfer Morfa Bychan.
- Bod llawer o'r gwaith paratoi yn digwydd dros gyfnod y gaeaf ac adnabuwyd bod angen cryfhau'r strwythur yn hynny o beth.

Holwyd a oedd posibilrwydd o gael is-ddeddf i roi pwerau i'r swyddogion traeth ddirwyo pobl sy'n camymddwyn gyda cheir, ac ati, ar y traeth. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu, ac yn benodol felly ym Morfa Bychan, sef yr unig draeth yng Ngwynedd lle caniateir gyrru a pharcio ar y traeth.

- Bod yna reolau caeth mewn lle a bod yna arwyddion ar y traeth gyda logo'r Heddlu a'r Cyngor arnynt. Roedd y staff sy'n cerdded y traeth yn defnyddio camerâu corff ac roedd gan y staff gamerâu yn y cerbydau hefyd, fel bod modd pasio tystiolaeth ymlaen i'r Heddlu.
- Y byddai'n fuddiol petai gan y swyddogion traeth, yn enwedig y prif swyddogion, bwerau i gyflwyno dirwyon cosb i'r sawl sy'n troseddu ar y traethau, a chredid bod angen arweiniad gan yr Adran Gyfreithiol ar hyn.

Holwyd a oedd rheolaeth traethau yn ddiogel rhag toriadau, ayb, o ystyried ei fod yn wasanaeth anstatudol i lywodraeth leol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Er bod y gwasanaeth yn anstatudol, bod y maes yn cyffwrdd â nifer o gyfrifoldebau sy'n statudol, ac er bod yna ansicrwydd o ran y fframwaith cyfreithiol, na chredid y byddai'r Adran na'r Gwasanaeth yn argymell nad oes yna unrhyw gyfrifoldeb o gwbl, boed hynny'n gyfrifoldeb moesol bron iawn, fwy na chyfrifoldeb cyfreithiol.
- Y bu achosion yn y gorffennol o dorri ar wasanaethau oherwydd yr angen i sicrhau arbedion, ond yn anffodus, gwelwyd bod peidio rhoi gwasanaeth yn gallu esgor ar broblemau.
- Mai mater i'r holl aelodau fyddai adnabod sut y bydd y Cyngor yn ymateb i'r heriau ariannol, ond bod yr Adran yn ymwybodol o ba mor bwysig yw rhoi'r ddarpariaeth ar ein traethau.
- Efallai bod yna opsiynau i wneud arbedion heb dorri gwasanaethau rheng flaen, ac roedd cynyddu incwm yn un o'r opsiynau hynny.

Holwyd a oedd yn anorfod y byddem yn symud o gyflogi wardeiniaid traeth i gyflogi achubwyr bywyd yn y dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad oedd asesiadau risg y Gwasanaeth yn adnabod achubwyr bywyd fel darpariaeth angenrheidiol ar hyn o bryd.
- Er hynny, byddai'r Gwasanaeth yn agored i ystyried unrhyw gyfleoedd i ymestyn y ddarpariaeth i gynnwys achubwyr bywyd, ond gan ei fod yn wasanaeth proffesiynol, yn hytrach na gwasanaeth gwirfoddol, gallai hynny fod yn gostus.
- Bod sefydliadau megis yr RNLI yn darparu achubwyr bywyd i awdurdodau eraill yng Nghymru, ond yn codi ffi am hynny.
- Cyn ystyried y math yma o wasanaeth, byddai angen trafodaeth o ran y dull o'i ariannu. Petai'r cysyniad o Dreth Ymwelwyr yn dod i fodolaeth, o bosib' y gellid ystyried a fyddai'r math hwn o ddarpariaeth yn flaenoriaeth i unrhyw incwm o dreth o'r fath.
- Nad oedd y datrysiadau a'r atebion ar gael ar hyn o bryd, ond roedd hwn yn un o'r meysydd y dymunai'r Gwasanaeth roi ystyriaeth iddo dros y flwyddyn neu ddwy nesaf.

Holwyd a fyddai modd i'r Cyngor fod yn flaengar a gwrthod talu prydles Stad y Goron fel ffordd o arbed arian ac o greu trafodaeth bellach ynglŷn â datganoli Stad y Goron yng Nghymru. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod gan y Cyngor gyfres o gytundebau unigol ar hyd yr arfordir ar hyn o bryd, gyda rhan o'r arfordir y tu allan i'r cytundebau hynny.
- Bod Stad y Goron wedi gwneud cynnig rai blynyddoedd yn ôl i addasu'r trefniadau presennol er mwyn cael un cytundeb cyfansawdd ar hyd arfordir Gwynedd.
- Fel rhan o'r trafodaethau cychwynnol, bod y Gwasanaeth wedi amlygu bod cwblhau cytundeb o'r fath yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngor, a bod yna gostau ynghlwm â'r cyfrifoldeb hwnnw hefyd.

- Bod y Gwasanaeth wedi adnabod y maes fel un y byddai'n awyddus iawn i'w drafod ymhellach, a phetai gan y craffwyr syniadau neu argymhellion o ran cyfeiriad, byddai'r swyddogion yn ddiolchgar iawn o dderbyn y sylwadau hynny.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, nodwyd bod y swm a delir gan y Cyngor yn flynyddol i Stad y Goron yn ychydig filoedd, ond y gellid cadarnhau'r union ffigwr yn dilyn y cyfarfod.

Gofynnwyd i'r swyddogion gadarnhau bod risgiau'n cael eu hasesu'n gyson, ac yn ymateb i amgylchiadau a digwyddiadau, ac ati, yn hytrach na dilyn amserlen yn unig, a bod yna weithredu i leihau'r risgiau hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod gan y Gwasanaeth asesiadau risg ar gyfer pob un traeth, y prif gyrchfannau a thraethau gwledig hefyd.
- Bod gan bob safle ei risgiau penodol, a bod yna swyddogion profiadol o fewn y Gwasanaeth, sydd wedi derbyn hyfforddiant trylwyr mewn asesu risg. Hefyd, roedd nifer o swyddogion y Gwasanaeth yn byw yn lleol a hefyd yn gwirfoddoli gyda'r RNLI a Gwylwyr y Glannau, ac felly yn ymwybodol iawn o'r risgiau sy'n bodoli ar yr arfordir.
- Bod yr asesiadau risg yn ddogfennau dynamig a byw, sy'n cael eu hadnewyddu o leiaf unwaith y flwyddyn, ac yn fwy aml na hynny petai yna ddigwyddiad neu newid yn natur y traeth, neu bod datblygiadau ychwanegol wedi cynyddu neu leihau'r risg.
- Bod y Gwasanaeth yn anfon holiaduron, ac ati, ac yn cymryd sylw o'r adborth. Hefyd, roedd archwiliadau yn cael eu gwneud yn wythnosol ac yn fisol, a phetai'r staff yn sylweddoli bod yna risgiau newydd wedi codi, byddai'r dogfennau hynny yn cael eu haddasu ar y cyfle cyntaf.
- Bod pob traeth yn wahanol i'w gilydd, a bod yr asesiadau yn adlewyrchu nodweddion y traethau unigol, gan roi sylw i nodweddion gosodiad y traeth a'r risgiau o ran gwrthdaro.
- Bod yna drefniadau lansio cychod, ac ati, ar rai traethau a bod yna asesiad risg eithaf cyson i bob un o ran unigolion yn mynd i drafferthion wrth nofio. Gan hynny, roedd yna asesiad eithaf ymarferol o'r risgiau ar gyfer pob un traeth, gan adnabod mesurau lliniaru.
- Bod yna hefyd asesiadau risg o ran y cynlluniau arwyddo ar gyfer y traethau, gydag arwyddion penodol bellach ar gyfer pob un traeth sy'n tynnu sylw at y prif risgiau o ran y lleoliad hwnnw.
- Bod yna fesurau wedi'u hadnabod ar rai traethau lle mae gwybodaeth a chyngor gan wardeiniaid traeth yn gallu bod yn fodd o leihau'r risgiau hefyd, e.e. ceisid gwahardd pobl rhag mynd i'r dŵr ar rai traethau oherwydd peryglon y lleoliad.

Holwyd faint o bobl oedd yn cael eu cosbi'n flynyddol am ddefnyddio beiciau dŵr heb drwydded. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y credid bod y nifer o feiciau dŵr a chychod pŵer yng Ngwynedd yn uchel iawn o gymharu ag awdurdodau eraill a bod Gwynedd yn arwain y gad gyda'r system gofrestru ar-lein, sydd wedi arwain at leihad sylweddol yn nifer y cwynion a'r digwyddiadau a'r damweiniau.
- Bod yna nifer o safleoedd lansio preifat mewn defnydd, ee. y safleoedd carafanau mawr ym Meirionnydd, ond roedd y Gwasanaeth yn gweithio gyda pherchnogion y safleoedd hynny i geisio sicrhau bod eu cwsmeriaid sy'n lansio o'u safleoedd hwy yn cofrestru, ac roedd y mwyafrif llethol yn gwneud hynny.
- Nad oedd gan y Gwasanaeth bwerau i ddirwyo, ond roedd deddfwriaeth newydd, sef Gorchymyn Llongau Masnach (Badau Dŵr) 2023 wedi dod i rym ar 1 Ebrill eleni. Cafwyd achos o feiciau dŵr yn achosi damwain drwy ymddwyn yn anghyfrifol yng

nghyffiniau Harbwr Aberdyfi ac roedd y swyddogion yn gweithio gyda'r heddlu i geisio sicrhau erlyniad.
- Mai Asiantaeth Gwylwyr y Glannau fyddai'n arwain ar unrhyw erlyniad y ceisid ei gynnal ar yr arfordir.
- Mai holl bwrpas y system gofrestru oedd adnabod y sawl sy'n gyrru beiciau dŵr neu fadau pŵer yn anghyfrifol fel bod modd cysylltu â hwy i'w hysbysu eu bod wedi torri'r rheolau.
- Bod is-ddeddf yn gwahardd cyflymder o fwy na 4 milltir forwrol yr awr o fewn 100 metr i ymyl y dŵr. Pe byddai unrhyw un yn torri'r rheol, gellid eu herlyn, ond hyd yma, nid oedd unrhyw ddirwyon wedi'u rhoi'n fewnol i berchnogion badau pŵer.

Awgrymwyd y dylai'r ffioedd cofrestru a lansio cwch pŵer / beic dŵr gynyddu yn eithaf sylweddol uwchlaw chwyddiant y flwyddyn nesaf er mwyn creu incwm i'r Cyngor. Mewn ymateb, nodwyd:-
- Y derbynnid y sylw, ac o bosib', y byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth i godi'r ffioedd y flwyddyn nesaf. Roedd y ffioedd eisoes wedi cynyddu'n sylweddol dros y 2-3 blynedd ddiwethaf, ac wedi codi uwchlaw lefel chwyddiant y llynedd.
- Y byddai'r Gwasanaeth yn ystyried ac yn argymell ffioedd ar gyfer 2024/25 yn y flwyddyn newydd.
- Bod y cynnydd yn y ffioedd dros y 2-3 blynedd ddiwethaf wedi creu sefyllfaoedd anodd ar brydiau i'r staff rheng flaen ar y traethau, a phe byddai yna gynnydd pellach yn y ffioedd y flwyddyn nesaf, byddai angen ystyried sut i gyfleu'r neges mewn da bryd fel bod pobl yn ymwybodol o'r cynnydd cyn dod i'r traethau.

Holwyd faint o bwerau oedd gan Gyngor Gwynedd o ran sicrhau ansawdd dŵr. Mewn ymateb, nodwyd:-
- Bod y prif gyrchfannau yn cael eu monitro gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac y byddai'r canlyniadau yn cael eu rhyddhau yn swyddogol ar 23 Tachwedd.
- Petai'r swyddogion yn gweld unrhyw lygredd, neu fod ganddynt bryderon am safle penodol, byddent yn cysylltu'n uniongyrchol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru fel bod modd iddynt gymryd samplau, ayb.
- Yn dilyn hynny, byddai'r Cyngor yn aros am unrhyw gyfarwyddyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru o ran cau ardal i ffwrdd neu osod arwyddion yn hysbysu'r cyhoedd i gadw draw.
- Bod nifer o safleoedd, yn cynnwys Cricieth ac Aberdyfi yng Ngwynedd, wedi'u cynnwys yn rhaglen 'Darogan a Disgowntio' Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n golygu bod y Cyngor yn cael ei hysbysu ymlaen llaw os ydynt yn credu bod ansawdd y dŵr ymdrochi yn mynd i gael ei effeithio, e.e. gan ddŵr glaw trwm yn golchi deunydd o'r strydoedd ac i lawr afonydd, ac ati.
- Mai anaml iawn y gwelid achosion o'r fath, ond petai yna bryder bod unrhyw lygredd neu garthffosiaeth wedi llifo i'r môr, byddai'r Cyngor yn gosod arwyddion ar y safleoedd hynny i geisio annog pobl i beidio mynd i mewn i'r dŵr.

Mynegwyd pryder bod codi ffioedd badau dŵr yn golygu y byddai mwy o bobl yn lansio badau dŵr o safleoedd answyddogol. Cyfeiriwyd at broblem benodol yn ardal Aberdyfi, lle'r oedd pobl yn lansio o ardal Borth ac yn gyrru drosodd i Aberdyfi y tu allan i oriau gwaith yr Harbwrfeistr. Mewn ymateb, nodwyd:-
- Bod oriau gwaith y swyddogion wedi'u hymestyn a bod yna rwystrau ar rai traethau, fel yn Abersoch a Morfa Bychan, wedi i'r staff adael am 8.00yh.
- Er bod y staff ar ddyletswydd rhwng 10yb a 5yh yn y mwyafrif o lefydd, y gofynnid iddynt aros ymlaen petai yna lawer o gychod a defnyddwyr yn dal ar yr arfordir.

- Nad oedd modd atal pobl rhag lansio y tu allan i oriau gwaith ac nid oedd yn bosib' cau llithrfeydd cyhoeddus chwaith gan fod yna bobl yn mynd allan i bysgota am y diwrnod, ac ati.
- Pe ystyrid bod y ffioedd yn rhy uchel, roedd pryder y gallai hynny annog defnyddwyr i fynd i safleoedd answyddogol y tu allan i reolaeth y Cyngor, gan roi pwysau ar safleoedd ac is-adeiledd na gynlluniwyd i ddelio gyda'r math yna o ddefnydd a lleihau'r nifer o fadau sydd wedi cofrestru.
- Bod yna drefniadau eithaf da ar hyn o bryd, ond, i bob pwrpas, system wirfoddol ydoedd yn sirol, gan nad oedd yna drefniadau statudol cenedlaethol.

Holwyd pa mor aml roedd yr offer diogelwch yn cael eu harchwilio. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yr offer yn cael eu harchwilio bob bythefnos rhwng Ebrill a Medi, ac yn fisol yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf, a bod y swyddogion yn y prif gyrchfannau yn eu harchwilio yn ddyddiol yn ystod y prif dymor.
- Bod yna nifer o ffonau argyfwng gyda namau neu wedi eu fandaleiddio a ddim yn gweithio ar y funud, a rhoddwyd gorchudd pwrpasol dros y ffonau hynny. Nid oedd BT yn gallu cyflenwi rhai yn eu lle, ac roedd angen ystyried a oedd eu gwir angen ar rai safleoedd.
- Bod y swyddogion traethau yn cario offer achub personol, e.e. rhaffau diogelwch a bwiau achub, y gellid eu defnyddio fel mesurau lliniaru mewn argyfwng, ond pwysleisiwyd nad oedd gan y staff y cymhwyster i fynd i mewn i'r dŵr i achub unrhyw un.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod gan y Gwasanaeth Morwrol brotocol ar gyfer ymateb i dywydd garw, a'u bod hefyd yn cynorthwyo adrannau eraill, yn enwedig mewn sefyllfaoedd o lifogydd, ac ati, drwy ddarparu cerbydau, beiciau dŵr a chychod, ynghyd â staff sy'n gymwysedig i'w gyrru. Cadarnhawyd hefyd bod giatiau môr yn cael eu cau mewn rhai safleoedd pan fo rhagolygon o dywydd garw.

Cyfeiriwyd at broblemau cydweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn Ninas Dinlle, a holwyd sut berthynas oedd yna rhwng y Gwasanaeth Morwrol a pherchnogion tir sy'n ymylu ar y traethau. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod gan y Gwasanaeth berthynas dda gyda pherchnogion tir preifat a rheolwyr safleoedd sy'n gyfochrog â'n traethau, a bod y berthynas gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn eithaf da ar y cyfan.
- Bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn rheoli rhannau o'r arfordir a bod y Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda chynghorau cymuned hefyd.
- Nad oedd gan y mudiadau eraill swyddogion dynodedig ar gyfer yr arfordir ac mai swyddogion y Gwasanaeth Morwrol oedd yn delio ag unrhyw broblemau sy'n codi, hyd yn oed ar dir preifat.
- Bod yna broblemau penodol yn Ninas Dinlle gyda faniau campio yn parcio dros nos ar safleoedd ar dir Cyfoeth Naturiol Cymru, ond anaml iawn fyddai swyddog o Gyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd camau gorfodaeth ynglŷn â hynny.
- Bod gan y Gwasanaeth gytundeb gyda pherchnogion sawl maes carafanau er mwyn cymryd mesurau lliniaru o ran beiciau dŵr, ac ati.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y bydd y Gwasanaeth yn ymateb i'r heriau yn y blynyddoedd i ddod, yn enwedig yn wyneb y problemau cyllidol sy'n ein hwynebu, nodwyd:

- Ei bod yn anodd proffwydo beth sy'n mynd i ddigwydd yn y dyfodol, a bod y Gwasanaeth yn gweithredu o fewn cyllideb benodol.
- Ei bod yn ymddangos bod y tymor yn ymestyn a gwelwyd cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n defnyddio ein traethau ers y cyfnod Cofid.

- Bod angen diweddaru'r is-ddeddfau presennol i gyfarch y dechnoleg newydd sy'n dod i'r amlwg, e.e. y defnydd cynyddol o dronau ar draethau.
- Bod y Gwasanaeth angen rhoi sylw dwys i gynllunio o ran y risgiau arfordirol o ganlyniad i newid hinsawdd, ac wedi cychwyn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar safleoedd fel Dinas Dinlle, Porthmadog, Phwllheli a Fairbourne.
- Bod gweithgareddau arfordirol yn ddibynnol ar y llithrfeydd a'r strwythurau sy'n cynnig diogelwch rhag llifogydd. Roedd nifer o'r strwythurau hyn yn dyddio ac roedd angen ystyried sut y byddai'r Cyngor yn ymateb i'r angen i fuddsoddi yn ein hisadeiledd hefyd.

Diolchwyd i'r Gwasanaeth am ddarparu adroddiad trylwyr a chyflawn iawn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

## 8. GRŴP TASG A GORFFEN CYNLLUN AWTISTIAETH

Cyflwynwyd adroddiad yr Ymgynghorydd Craffu yn gwahodd y pwyllgor i ethol dau aelod i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y Grŵp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth.

Cyngiwyd enwau'r Cynghorwyr Dawn Jones a Gwynfor Owen. Amlygwyd bod gan y ddau ohonynt gysylltiad â'r maes awtistiaeth. Nododd aelod ei fod wedi cael sgwrs gyda'r Swyddog Monitro ynghylch y sefyllfa. Ymhelaethodd y nodwyd yn ystod y sgwrs bod modd cyflwyno cais am oddefeb i'r Pwyllgor Safonau.

Gan fod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ar 19 Chwefror, 2024, a bod bwriad i'r Grŵp Tasg adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 1 Chwefror, nodwyd y byddai'n rhaid gofyn i'r Pwyllgor Safonau gynnal cyfarfod arbennig i drafod y ceisiadau am oddefebau.

Nodwyd hefyd y dylid ethol dau aelod wrth gefn ar y Grŵp Tasg rhag i'r naill, neu'r ddau, gais am oddefeb gael eu gwrthod gan y Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD**

1. **Bod y Cynghorwyr Dawn Jones a Gwynfor Owen (sydd â chysylltiad â'r maes awtistiaeth) yn cyflwyno ceisiadau am oddefebau er mwyn caniatáu iddynt gynrychioli'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y Grŵp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth.**
2. **Gofyn i'r Pwyllgor Safonau gynnal cyfarfod arbennig i ystyried ceisiadau am oddefebau gan y Cynghorwyr Dawn Jones a Gwynfor Owen.**
3. **Ethol y Cynghorwyr Cai Larsen a Beth Lawton yn aelodau wrth gefn i gynrychioli'r Pwyllgor ar y Grŵp Tasg a Gorffen.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 1.35yp.

<u>Cadeirydd</u>

# Adroddiad Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 25 Ionawr 2024 |
| **Aelod Cabinet :** | Cyng. Nia Jeffreys a'r Cyng. Dyfrig Siencyn |
| **Swyddog Cyswllt** : | Sioned E Williams, Pennaeth Economi a Chymuned<br>Dylan Griffiths, Rheolwr Datblygu Economaidd |
| **Adran / Gwasanaeth**: | Economi a Chymuned |

## 1. TEITL YR EITEM:

Prosiect Datblygu Economi Gwynedd:
Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith

## 2. PAM BOD ANGEN CRAFFU?

2.1 Ar gyfartaledd, mae tâl yng Ngwynedd ymysg yr isaf yn y DG ac mae'r bwlch rhwng incwm cyfartalog ein aelwydydd yn parhau i fod yn sylweddol. Mae ymgynghoriad Gwynedd Ni wedi dangos yn glir fod cymunedau ar draws Gwynedd yn gweld yr angen am gymorth i gryfhau seiliau'r economi a chynyddu'r darpariaeth o swyddi o ansawdd yn lleol.

2.2 O dan y maes blaenoriaeth 'Gwynedd Llewyrchus' o fewn Cynllun y Cyngor mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu prosiect sy'n anelu i greu'r amgylchiadau gorau posib i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith. Mae cyfle i'r Pwyllgor graffu cynnwys y prosiect hwn a chynnydd yr Adran Economi a Chymuned yn ei weithredu er mwyn sbarduno twf yn economi Gwynedd.

## 3. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

DADANSODDIAD BYR O ECONOMI GWYNEDD

3.1 Mae proffil cryno o'r prif ystadegau yn gysylltiedig â economi Gwynedd wedi ei gynnwys yn Atodiad 1. Fe nodwch o'r wybodaeth:

- Mae ardrawiad Brexit a'r pandemig i'w weld yn glir ar gynhyrchedd yr economi ac ar gyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd
- O ran y farchnad llafur, yn gyffredinol, mae'r cyfraddau anweithgarwch a diweithdra yn dilyn patrwm Cymru a'r DG
- Yn hanesyddol, mae cyfradd diweithdra Gwynedd o dan rhai Cymru a'r DG.
- Mae'r bwlch cyfoeth rhwng Gwynedd a Cymru a'r DG yn parhau ac yn gyson, a'r bwlch cynhyrchedd yn lledu'n araf bach.

- Er yn llai cynhyrchiol, mae economi Gwynedd yn fwy gwydn ac yn llai agored i ardrawiad cwymp yn yr economi fyd-eang

3.2 Er mwyn creu sail gadarn i'n hymdrechion i gryfhau'r economi ar draws cymunedau Gwynedd a dull o flaenoriaethu gweithgareddau, roedd bwriad llunio cynllun ar gyfer datblygu'r economi yn y cyfnod 2023-28. Comisiynwyd cwmni annibynnol i hwyluso'r gwaith ac ar y 1af o Ebrill 2022 cynhaliwyd gweithdy ar y cyd a'n prif bartneriaid yn y maes i gychwyn trafod yr anghenion a'r blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod i ddod.

3.3 Ar yr un pryd, yn Mawrth / Ebrill 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Prydain fod gofyn i Awdurdodau Lleol arwain ar gyflwyno ceisiadau i'r Cronfa Ffyniant Bro (Levelling-Up Fund - LUF) a gweinyddu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (Shared Prosperity Fund - SPF) rhwng 2022 a 2025. O ganlyniad, mae amser swyddogion yr Adran Economi a Chymuned, a'r Gwasanaeth Datblygu'r Economi yn benodol, wedi gorfod cael ei wyro i ffwrdd o baratoi cynllun economi Gwynedd a'i ail gyfeirio i reoli a gweinyddu'r rhaglenni ariannu hyn yng Ngwynedd ac hefyd ar draws Gogledd Cymru yn achos yr SPF. Mae'r Adran yn arwain rhaglen ARFOR ar draws rhanbarth y gorllewin hefyd, yn cynnwys ardal Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gar yn ystod yr un cyfnod. Golygai hyn nad ydi'r gwaith ar baratoi cynllun economi Gwynedd wedi cael ei gwblhau.

3.4 Bydd cyfnod ariannu'r cronfeydd yn dod i ben mis Mawrth 2025 gan adael ansicrwydd am ddyfodol adnoddau i gefnogi'r economi leol. Bydd mwy o bwyslais ar weithio'n rhanbarthol gyda datblygiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CJC), Cais Twf, Porthladd Rhydd ar Ynys Môn, a Parth Buddsoddi yn Wrecsam a Sir Fflint. Bydd gwaith paratoi yn cychwyn yn fuan yn 2024/25 ar drefniadau a blaenoriaethau i ddatblygu'r economi i'r dyfodol ac mae'n bwysig fod gwersi o brofiad y trefniadau presennol yn cael eu dysgu a fod blaenoriaethau ar gyfer Gwynedd yn glir i'r dyfodol.

PROSIECTAU BLAENORIAETH CYNGOR GWYNEDD

3.5 Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yn nodi:

*'Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau fod swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n eu galluogi i gynnal eu hunain a'u teuluoedd. Ein huchelgais yw i sicrhau:*

- *Swyddi o safon*
- *Cefnogaeth i fusnesau ffynnu*
- *Twristiaeth gynaliadwy er budd cymunedau*
- *Cymunedau cryf a gwydn*
- *Canol trefi llewyrchus a llawn bwrlwm'*

3.6 Mae'r Adran Economi a Chymuned yn arwain ar 3 prosiect blaenoriaeth sydd wedi cael eu hadnabod gan y Cyngor er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, sef:

- Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi
- Hyrwyddo ein Diwylliant ac Economi Ymweld Gynaliadwy
- Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith

3.7 Adroddwyd ar gynnydd y prosiectau hyn i Gabinet Cyngor Gwynedd 7 Tachwedd 2023 a bydd cyfle yma i graffu yn fwy manwl cynnydd yr Adran yn gweithredu'r cynllun i gefnogi mentrau Gwynedd i ffynnu a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith. Mae'r Fframwaith Adfywio, Rhaglenni Gwella Canol Tref, Cynllun Economi Ymweld a Cynllun Llechi Gwynedd i gyd wedi bod yn destun adroddiadau craffu i'r Pwyllgor hwn yn flaenorol a bydd cyfle i graffu cynnydd rhain ymhellach yn 2024.

<u>Prosiect Blaenoriaeth Gwynedd Llewyrchus:</u>
*Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith*

3.8 Dyma ydi ymrwymiad Cyngor Gwynedd yn Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

'Byddwn yn cefnogi busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd i ffynnu mewn sawl ffordd megis datblygu cynnyrch a chael mynediad i farchnadoedd newydd, helpu mentrau i arbed arian drwy leihau gwastraff a defnyddio technoleg yn well, cefnogi busnesau yng Ngwynedd i fasnachu gyda'i gilydd a blaenoriaethu helpu mentrau sydd yn ymrwymo i dalu 'cyflog byw gwirioneddol' i'w gweithwyr. Byddwn yn hybu busnesau i wneud y mwyaf o'r Gymraeg, yn datblygu mwy o unedau busnes i'w gosod ar rent, ac yn ymdrechu i sicrhau fod prosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru yn elwa pobl Gwynedd. Byddwn hefyd yn helpu pobl Gwynedd i gyflawni eu potensial a chefnogi y rhai sydd wedi eu heithrio o'r farchnad lafur i ddychwelyd i waith a gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i sicrhau gweithwyr digonol.'

3.9 Mae'r tabl isod yn rhoi diweddariad ar y prosiect:

| **Trosolwg** | **Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y flwyddyn GYNTAF 2023-24 (cerrig milltir):** | **Diweddariad Rhagfyr 2023** |
|---|---|---|
| Byddwn yn cefnogi busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd i ffynnu mewn sawl ffordd megis datblygu cynnyrch a chael mynediad i farchnadoedd newydd, helpu mentrau i arbed arian drwy leihau gwastraff a defnyddio technoleg yn well, cefnogi busnesau yng Ngwynedd i fasnachu gyda'i gilydd a blaenoriaethu helpu mentrau sydd yn ymrwymo i dalu 'cyflog byw gwirioneddol' i'w gweithwyr. Byddwn yn hybu busnesau i wneud | Byddwn wedi targedu arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth Prydain i gryfhau seiliau economi Gwynedd | Sicrhawyd £1.5 miliwn o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i ddarparu cymorth ariannol ac ymarferol i fusnesau'r sir drwy law Cyngor Gwynedd<br><br>Yn cynnwys yr uchod, ymrwymwyd cyfanswm o £4.8M o ddyraniad Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd i gynlluniau o dan y flaenoriaeth Cefnogi Busnesau Lleol; yn cynnwys cyfuniad o arian yn uniongyrchol i fentrau lleol a cyllid i gynlluniau fydd yn darparu cymorth i'n busnesau. |
| | Byddwn wedi cydweithio gyda partneriaid ar draws Gogledd Cymru i sicrhau budd i Wynedd o Gais Twf Gogledd Cymru | Mae'r Cyngor yn parhau i chwarae rhan blaengar a rhagweithiol yng nghefnogi gwireddu cynlluniau Cais Twf Gogledd Cymru, gan roi sylw arbennig i'r cynlluniau sydd yn cynnig y budd mwyaf i Wynedd yn y Rhaglen Ddigidol, Rhaglen Ynni a'r Rhaglen Twristiaeth Bwyd Amaeth |
| | Byddwn wedi cadarnhau trefniadau gweithredu Rhaglen ARFOR gyda phartneriaid gorllewin Cymru a Llywodraeth Cymru | Mae trefniadau llywodraethu'r Rhaglen ARFOR wedi eu cadarnhau a'r cynnig cyllidol gan Llywodraeth Cymru wedi ei arwyddo. Mae 3 prosiect yn y Rhaglen yn weithredol bellach:<br>• Cymunedau Mentrus - 20 o geisiadau wedi cael eu cymeradwyo gwerth £917k.<br>• Llwyddo'n Lleol - mae 4 ymyrraeth i Llwyddo'n Lleol, sef Profi; Mentro; Gyrfaol ac Ymgartrefu. Mae'r rhaglen yn targedu pobl ifanc 11-35 i godi |

| | | |
|---|---|---|
| y mwyaf o'r Gymraeg, yn datblygu mwy o unedau busnes i'w gosod ar rent, ac yn ymdrechu i sicrhau  fod prosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru yn elwa pobl Gwynedd. Byddwn hefyd yn helpu pobl Gwynedd i gyflawni eu potensial a chefnogi y rhai sydd wedi eu heithrio o'r farchnad lafur i ddychwelyd i waith a gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i sicrhau gweithwyr digonol. | | ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael yn Rhanbarth ARFOR o ran swyddi; mentergarwch a cyfleoedd i ddychwelyd i'w cymuned cynhenid.<br>• Cronfa HER ARFOR - mae Cronfa Her ARFOR ar gyfer edrych am ddatrysiadau arloesol i heriau Lleol/Sirol a Rhanbarthol a sicrhau cyfleoedd i ddysgu am y cysylltiad rhwng yr Economi a'r Iaith.  Mae 146 o ddatganiadau o ddiddordeb wedi ei derbyn ar draws y rhanbarth, gyda 59 o rhain o Wynedd.  Mae 54 o fudiadau o Wynedd wedi mynychu'r Gweithdai Her ac mae 8 mudiad o Wynedd wedi cyflwyno cais i Gronfa Her ARFOR ac gwerth y ceisiadau £668,192. |
| | Byddwn wedi adolygu a sefydlu trefniadau newydd i ymgysylltu gyda busnesau a darparu gwybodaeth | • Adolygiad annibynnol o ymgysylltu'r tîm cefnogi busnes gyda mentrau lleol wedi ei gynnal gyda argymhellion i'r dyfodol.<br>• Dulliau ychwanegol o gysylltu gyda'r gwasanaeth drwy'r wefan a WhatsApp wedi eu cyflwyno<br>• Cynllun ehangach o ymgysylltu yn cael ei lunio. |
| | Byddwn wedi lansio Cronfa Cymorth Busnes | • Cronfeydd cefnogi busnes newydd wedi agor dechrau mis Awst yn dilyn sicrhau'r cyllid (yn bennaf drwy  SPF).  £2.1 miliwm o wedi ei sicrhau i'w ddosbarthu i fusnesau<br>• Mae'r galw am gymorth o'r cronfeydd wedi bod yn eithriadol.  165 cais yn gofyn am £11.36 miliwn o gymorth wedi ei dderbyn.<br>• £502k o gymorth eisoes wedi ei ddyrannu i 35 busnes a'r broses penderfynu ar gyfer gweddill y gyllideb yn dod i ben. |

| | | |
|---|---|---|
| | Byddwn wedi trefnu digwyddiadau i ddathlu llwyddiannau busnes Gwynedd | • Cyfres rheolaidd o ymweliadau i fusnesau amlwg yng Ngwynedd wedi eu rhaglennu ar gyfer Aelodau Cabinet a 5 eisoes wedi eu cynnal yn 2023/24.<br>• Diwrnod Busnes@gwynedd.llyw.cymru wedi ei gynnal 22 Mai gyda 35 o fusnesau yn bresennol ac eraill yn ymuno'n rhithiol.<br>• Panel trafod ac arddangosfa o gynnyrch busnesau lleol wedi ei gynnal yn yr Eisteddfod. |
| | Byddwn wedi sicrhau caniatâd cynllunio i ddatblygu 10 o unedau gwaith newydd | • Cabinet y Cyngor wedi cadarnhau cyllid i'r cynllun.<br>• Dyluniadau manwl wedi eu cwblhau a hawl cynllunio wedi ei sicrhau.<br>• Dyluniadau manwl a dogfennaeth tendro wedi eu paratoi a'r drefn penodi ar gychwyn<br>• Llywodraeth Cymru wedi eu darbwyllo i dod yn bartner yn y cynllun |
| | Byddwn wedi cytundebu gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu rhaglen Cymorth i Waith | • Cynllun Cymunedau i Waith - ariannwyd drwy Ewrop – wedi dod i ben yn unol â'r disgwyl yng Ngorffennaf 2023.<br>• Cytundeb newydd i wireddu'r rhaglen Cymunedau i Waith a Mwy wedi ei dderbyn gan Llywodraeth Cymru fydd yn sicrhau £681K yn 2023/24.<br>• £172k yn ychwanegol wedi ei sicrhau o'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear, i ymestyn ein darpariaeth i gefnogi trigolion lleol sydd yn edrych i gynyddu eu henillion (hyd at Hydref 2025).<br>• £700,000 pellach i gefnogi trigolion Gwynedd i gyflawni i'r gorau o'u gallu ym myd gwaith wedi ei sicrhau o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG (hyd at diwedd 2024).<br>• Hyd yn hyn yn 2023/24 mae 101 o bobl Gwynedd wedi sicrhau swydd ar ôl cael cefnogaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cynhaliwyd 6 o ffeiriau swyddi i ddod â chyflogwyr lleol ac unigolion yn chwilio am waith ynghyd. Mynychwyd y ffeiriau gan 364 o unigolion lleol ac roedd 17 o gyflogwyr ar gyfartaledd ym mhob ffair. |

3.10 Fe nodwch o'r tabl uchod fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr ymrwymiadau ar gyfer 2023-24 ac mae trefniadau clir mewn lle i gyflawni'r prif gerrig milltir ar gyfer 2024-25 hefyd. Ond mae rhai risgiau clir wedi cael eu hamlygu dros y flwyddyn a hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor i rhain:

- Roedd ymateb busnesau a mentrau Gwynedd i'r cronfeydd SPF ac ARFOR yn sylweddol uwch na'r cyllid ar gael. Gyda ceisiadau dros £11M a dim ond £2M ar gael, mae'n anorfod felly fod y mwyafrif o fusnesau am gael eu siomi. Bydd ceisiadau da yn gorfod cael eu gwrthod gan nad oes digon o arian ar gael i ymateb I'r galw.
- Mae'r cronfeydd wedi amlygu'r amrywiaeth yng ngallu busnesau o fewn rhai sectorau ac ardaloedd i ymateb i gyfleoedd ariannu.
- Ynghyd â'r galw uchel, mae'r amserlen afresymol o fyr ar gyfer gweithredu'r rhaglenni ariannu yn atal ymdrechion i gefnogi ardaloedd a sectorau nad ydynt yn gallu ymateb yn unionsyth.
- Mae'r amserlen byr ar gyfer gweithredu'r rhaglenni ariannol yn golygu fod yn rhaid i'r Adran recriwtio nifer mawr o swyddi dros-dro. Gyda'r rhaglenni i gyd yn dod i ben ar yr un pryd yn Mawrth 2025, bydd 12 o swyddi dan fygythiad o fewn yr Adran. Bydd y nifer llawer iawn yn fwy ar draws sefydliadau yn y sir
- Mae ansicrwydd sylweddol ynglŷn â maint a threfniadau gweinyddu unrhyw arian ar ôl Mawrth 2025 sydd yn llesteirio ein gallu i gynllunio i'r dyfodol
- Mae'r wasgfa ar gyllidebau gyhoeddus yn ehangach yn cynyddu'r pwysau. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cwtogi ar y cyllid maent yn darparu i Awdurdodau Lleol o fewn meysydd megis cymorth i'r di-waith.
- Mae buddsoddiadau sylweddol yn y sir, yn cynnwys cynlluniau'r Cynllun Twf, yn agored i risg uwch wrth iddynt gael eu datblygu a hynny yn sgil unrhyw newid ym mholisïau ac ymrwymiadau hir dymor Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain

## 4. CASGLIADAU


**4.1 Mae sicrhau fod rhaglenni a chynlluniau unigol yn cael eu gwerthuso yn arbennig o bwysig er mwyn dysgu am effaith cynlluniau ar yr economi leol. Mae trefniadau mewn lle i gyflawni'r gwaith yma a bydd adroddiadau ar gael i'r Pwyllgor Craffu eu hystyried yn 2024/25.**

**4.2 Mae angen cychwyn cynllunio a pharatoi ar gyfer y cyfnod wedi Mawrth 2025 mor fuan a phosib.**

PROFFIL CRYNO O ECONOMI GWYNEDD


1. Y farchnad lafur yng Ngwynedd

*Cyfraddau anweithgarwch economaidd (16 i 64 ac eithrio myfyrwyr)*





'Annual Population Survey / Local Labour Force Survey: Summary of economic activity' (ONS, Hawlfraint y Goron o StatsCymru 15/01/2024]

*Cyfradd diweithdra blynyddol (oedolion 16-64)*




## 2. Strwythur y gymuned fusnes

*Nifer cyflogai busnesau (cyfradd) - 2023*




'Inter-Departmental Business Register (IDBR)' (ONS, Hawlfraint y Goron o StatsCymru 15/01/2024]

*Nifer mentrau prif sectorau (SIC 2007) - 2023*





| | DG | Cymru | Gwynedd |
|---|---|---|---|
| Gwasnaethau eraill | 11.9 | 12.5 | 10.8 |
| Iechyd ac addysg sector preifat | 12.5 | 11.9 | 10.0 |
| Gwasanaethau ariannol a busnes | 25.9 | 22.5 | 21.3 |
| Cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai, bwyd a chyfathrebu | 26.0 | 23.1 | 25.1 |
| Adeiladwaith | 16.5 | 17.5 | 16.8 |
| Cynhyrchu | 5.3 | 7.0 | 7.5 |
| Amaethyddiaeth | 1.9 | 5.5 | 8.5 |

'Inter-Departmental Business Register (IDBR)' (ONS, Hawlfraint y Goron o StatsCymru 15/01/2024]


## 3. Perfformiad economi Gwynedd

*Cyfartaledd cyflog wythnosol (gweithiwr llawn amser)*





'Annual Survey of Hours and Earnings - resident analysis' (ONS, Hawlfraint y Goron o Nomis 15/01/2024]

*Incwm Gwario Gros Aelwydydd (y pen)*




'Regional gross disposable household income (GDHI) at current basic prices' (ONS, Hawlfraint y Goron o Nomis 15/01/2024]

*Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) y pen*




'Regional Accounts' (ONS, Hawlfraint y Goron o Infobase Cymru 15/01/2024]

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 25 Ionawr 2024 |
| **TEITL** | Dogfen Ymgynghori Amcanion Cydraddoldeb |
| **AWDUR** | Delyth G Williams, Ymgynghorydd Cydraddoldeb |
| **AELOD CABINET** | Cyng Menna Trenholme |

1. Mae'n ddyletswydd penodol ar fudiadau cyhoeddus yng Nghymru, fel rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, i adolygu ein Amcanion Cydraddoldeb bob pedair blynedd, fel rhan o greu Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Yng Nghyngor Gwynedd mae angen i ni wneud hynny erbyn diwedd Mawrth 2024.

2. Mae hefyd yn rhan o'r ddyletswydd penodol i gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig wrth benderfynu arnynt.

3. Bu i ni gychwyn ymarferiad casglu barn ar yr amcanion drwy ymgysylltu'n eang gydag amrywiaeth o bobl rhwng Ebrill ac Awst 2023. Gofynnwyd barn ar ein Amcanion presennol a chanfod beth arall fydda nhw'n flaenoriaethu. Mae'r dulliau ddefnyddiwyd yn cynnwys holiadur mewn fformatau a ieithoedd amrywiol, a dderbyniodd bron iawn i 600 o ymatebion. Hefyd aeth y swyddogion cydraddoldeb i gyfarfod gydag ystod o grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys gofalwyr ifanc, pobl anabl, pobl LHDTC+, ayb. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad i'w weld fel atodiad.

4. Casglwyd data o ffynonellau eang hefyd mewn dogfen ddata o'r enw *Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023* er mwyn ein cynorthwyo i weld beth oedd angen ei ystyried. Mae'r ddogfen i'w ganfod yma: *Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Data a Thystiolaeth*.

5. Aeth Dogfen Ymgynghori at y Cabinet ym mis Tachwedd a chytunwyd y dylid cychwyn cyfnod o ymgynghori fel rhan pellach o'r ymarferiad casglu barn. Rydym eto wedi defnyddio holiadur ac ymweliadau â grwpiau, yn ogystal ag annog unigolion a grwpiau i ymateb drwy e-bost.

6. Rydym yn gwahodd eich mewnbwn chi i'r amcanion cydraddoldeb drafft.

7. Unwaith fydd y cyfnod ymgynghori'n dod i ben byddwn yn dadansoddi'r holl wybodaeth rydym wedi ei dderbyn a'i ddefnyddio i wella ein Amcanion Cydraddoldeb a bydd yr Amcanion terfynol yn mynd i'r Cabinet fel rhan o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ym mis Mawrth 2024.

# Dogfen Ymgynghori

# Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2024-28 drafft

## Cyflwyniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru, yn rhoi dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i adolygu eu hamcanion cydraddoldeb bob 4 blynedd a'u cynnwys mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Bwriad y Cynllun yw dangos sut y bydd y Cyngor yn gweithredu ar y 3 nod cydraddoldeb yn ystod y pedair blynedd dan sylw, sef:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai sydd ddim.
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai sydd ddim.

Yr wyth nodwedd cydraddoldeb yw Oedran, Ailbennu Rhywedd, Rhyw, Hil, Anabledd, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Cyfeiriadedd Rhywiol, Crefydd neu Gred – gan gynnwys diffyg cred. Mae Priodas a Phartneriaeth Sifil hefyd yn cael ei ddiogelu, ond nid yn yr un ffordd.

Ymhellach, mae dyletswydd i sicrhau fod llais pobl yn cael ei glywed a'u barn yn cael ei ddefnyddio, wrth benderfynu ar yr amcanion yma. Mae Cyngor Gwynedd yn falch i gydymffurfio a'r dyletswyddau yma ac mae'r Cabinet wedi penderfynu fod Sicrhau Tegwch i Bawb yn un o flaenoriaethau'r Cyngor.

Eisoes mae'r Cyngor wedi cynnal cyfnod estynedig o ymgynghori. Defnyddiwyd amrywiol ddulliau gan gynnwys holiadur mewn amrywiaeth o fformatau a ieithoedd, gan dderbyn bron iawn i 600 o ymatebion. Hefyd cynhaliwyd cyfarfodydd gyda grwpiau perthnasol amrywiol, gan ddefnyddio dulliau addas. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad wedi ei atodi

Yn ogystal â barn pobl gyda profiad bywyd o nodweddion cydraddoldeb amrywiol, mae angen selio'r Amcanion ar dystiolaeth a data meintiol. Bu i Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru, mudiad rhanbarthol y mae swyddogion cydraddoldeb Cyngor Gwynedd yn perthyn iddo, gomisiynu dogfen ddata pedair blynedd yn ôl er mwyn gwneud yr Amcanion bryd hynny. Derbyniwyd grant i wneud hynny gan y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus Gogledd Cymru. Roedd y Ddogfen yna wedi ei selio ar y ddogfen *A yw Cymru'n Decach? 2017* gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Eleni mae'r Rhwydwaith wedi cael grant eto ac mae diweddariad ar y ddogfen wedi ei greu, sef *Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Data a Thystiolaeth*. Mae'r ddogfen yma yn casglu'r wybodaeth ddiweddaraf o ffynonellau amrywiol ac felly'n ddefnyddiol iawn ar gyfer creu'r Amcanion diwygiedig.

Rhywbeth arall rydym ni wedi ei ddefnyddio wrth ffurfio'r Amcanion Cydraddoldeb yw Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth Hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+ (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, Cwestiynu +) Llywodraeth Cymru. Mae disgwyl i'r Cyngor gydymffurfio â'r cynlluniau yma ac mae'n gwneud synnwyr i gael materion cydraddoldeb i gyd gyda'u gilydd mewn un Cynllun. Rydym hefyd yn disgwyl am gynllun ar gyfer y nodwedd gwarchodedig Anabledd, ond nid yw wedi ei gwblhau eto. Rydym felly wedi defnyddio'r adroddiad "Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19" i roi arweiniad i ni hefyd, er fod hwnnw'n bennaf wedi anelu tuag at Lywodraeth Cymru.

Dyletswydd arall sydd wedi dod i rym yn 2021 ydi'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Nid tlodi ariannol yn unig sydd dan sylw yma ond materion fel tlodi digidol, byw ymhell o wasanaethau, diffyg cludiant ayb. Mae data yn dangos fod pobl sydd a rhai nodweddion cydraddoldeb yn fwy tueddol o fod mewn tlodi ariannol nag eraill, a fod materion cymdeithasol fel diffyg cludiant yn sicr o gael mwy o effaith arnynt. Felly credwn fod materion economaidd-gymdeithasol yn rhan o'r Amcanion sydd wedi eu nodi isod.

Rhaid nodi hefyd fod gan y Cyngor nifer o gynlluniau eraill e.e. tlodi, tai, Merched mewn Arweinyddiaeth ayb ac felly rydym wedi ceisio osgoi dyblygu'r cynlluniau yna yma.

## Beth rydym ni angen i chi ei wneud?

Gan ddefnyddio'r wybodaeth uchod i gyd rydym wedi creu Amcanion Cydraddoldeb drafft ar gyfer 2024-28 a byddwn yn ymgynghori arnynt dros y cyfnod nesaf.

Mae'r Amcanion drafft yma i'w gweld isod a byddem yn ddiolchgar o gael eich barn arnynt. Rydym yn ddiolchgar i bawb wnaeth gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyn i ni ffurfio Amcanion drafft a byddem yn ddiolchgar iawn o'ch mewnbwn pellach rŵan ein bod wedi creu drafft. Mae yr un mor bwysig eich bod yn cymryd rhan os nad ydych wedi cyfrannu eisoes hefyd.

Y ffordd gorau i ymateb yw drwy gwblhau'r holiadur. Os nad yw hynny'n bosib, gallwch roi sylwadau ar e-bost (cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru) neu ysgrifennu atom (Swyddogion Cydraddoldeb, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon LL55 1SH). Gallwch hefyd ofyn i ni ddod i gyfarfod â'ch mudiad drwy'r e-bost uchod neu ffonio ar 01286 679708. Gallwch hefyd ddefnyddio'r manylion cyswllt yma os ydych chi angen y ddogfen yma neu'r holiadur mewn fformat (e.e. hawdd ei ddarllen, print bras) neu mewn iaith arall.

Mi allwch chi weld yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb cychwynnol drafft ar yr Amcanion Cydraddoldeb drafft ar gyfer 2024-28 er mwyn rhoi eich barn ar hwnnw hefyd.

Ar ôl y cyfnod ymgynghori byddwn yn ystyried yr hyn sydd wedi ei rannu â ni, ac yn addasu'r Amcanion yn sgil hynny, cyn eu cynnig i Gabinet y Cyngor ym mis Mawrth 2024 fel rhan o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-24.

# Yr Amcanion Cydraddoldeb Drafft ar gyfer 2020-24

## Amcan 1 - Gwella amrywiaeth ein gweithlu a lleihau bylchau tâl

### Pam yda ni wedi dewis yr amcan yma?

Roedd y ddau bwynt yma, gwella amrywiaeth ein gweithlu ar un llaw a lleihau bylchau tâl ar y llaw arall yn Amcanion ar wahân yn Cynllun Cydraddoldeb 2020-24.

Oherwydd fod hi'n ofynnol i gynnwys amcan ar fylchau tâl, ni ofynnwyd i bobl fynegi barn ar yr angen i gynnwys yr amcan yma yn yr holiadur. Ond wrth siarad gyda phobl yn y cyfarfodydd â gynhaliwyd fel rhan o'r ymgysylltiad roedd yn amlwg fod cefnogaeth i'r amcan.

Roedd cefnogaeth i gynnwys amcan ar amrywiaeth ein gweithlu yn amlwg gyda 62.1% o blaid ei gynnwys tro hyn. Y prif sylwadau o blaid oedd i wella chynhwysiant ac amrywiaeth ac i ddenu'r ymgeiswyr gorau. Ar y llaw arall roedd rhai yn erbyn hyn, yn bennaf oherwydd y teimlad fod gormod o bwyslais ar y iaith Gymraeg oedd yn nadu pobl rhag cael swydd gyda'r cyngor a fod cael hyd i'r person gorau i'r swydd yn fwy pwysig nag edrych am amrywiaeth.

Roedd siawns yn yr holiadur i gynnig materion ychwanegol ddylai gael eu cynnwys yn yr Amcanion tro nesaf. Roedd materion cyflogaeth wedi eu codi mewn ymateb i'r cwestiwn yna hefyd. Yn ychwanegol, roedd yn fater godwyd gan y grwpiau aeth y swyddogion cydraddoldeb i gyfarfod â hwy yn ystod yr ymgynghoriad hefyd.

Mae'n data mewnol yn annigonol ar hyn o bryd i ddangos bylchau tâl heblaw am yr un rhwng y rhywiau, ac mae gwella'r data yna yn rhan o'r gwaith sydd angen ei wneud. Wrth siarad am Gymru yn ei gyfanrwydd, nid oes data wedi ei ganfod ar bob nodwedd, ond mae'n dangos fod bylchau tâl yn bodoli ar sail rhyw ac anabledd. Mae data hefyd yn dangos fod rhai carfannau o bobl yn llai tebygol o fod mewn gwaith e.e. pobl anabl a phobl o rai grwpiau lleiafrif ethnig.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol a'r Cynllun Gweithredu LGDTC+ yn nodi'r angen am weithredu ar gyflogaeth.

Mae'r Amcan yma'n gweithredu'n bositif ar anfantais Economaidd Cymdeithasol drwy sicrhau fod grwpiau sy'n cael talu is, neu yn cael hi'n anodd i gael gwaith, yn cael eu hannog i ymgeisio ac i gadw swyddi.

Mae'r amcan lleol yma yn bwydo i mewn i "Amcan 2: Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn lleihau bylchau cyflog", amcanion mudiadau cyhoeddus gogledd Cymru.

**Pa nodweddion fydd yn cael eu heffeithio?**

Bydd yr amcan yma'n effeithio'n bositif ar bob nodwedd warchodedig, yn arbennig rhyw, hil ac anabledd.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

| Pwyntiau Gweithredu | Deilliant | Amserlen |
|---|---|---|
| Sefydlu fforwm staff sydd â ffocws ar faterion cydraddoldeb, ac sydd yn ddull y gall staff ei ddefnyddio er mwyn cyfrannu i'r maes o fewn y Cyngor. | Staff yn cyfrannu i ddatblygiadau. | 2024 |
| Adolygu sut rydym yn cyfathrebu â staff fel bod gwybodaeth yn hygyrch ac yn ddealladwy i bawb; derbyniwyd adborth gan gorff allanol fod ein dogfennau yn rhy drwsgl a swyddogol. | Gwybodaeth, gan gynnwys polisïau cyflogaeth, sydd yn hawdd eu deall a'u cyrraedd. | 2024/26 |
| Gosod y nod a gweithio tuag at fod yn gyflogwr blaenllaw yn y maes hwn, gan gynnwys rhoi sylw i'r meysydd canlynol: | Aelod o gynllun Hyderus o ran Anabledd, gan anelu at y lefel uchaf (Lefel 3) yn y fframwaith. | Parhaus – dros gyfnod y cynllun |

| | | |
|---|---|---|
| • Beth ydi'r gofynion mewn swyddi – rhoi cyfleoedd i bawb mewn cymdeithas.<br>• Sut a ble rydym yn hysbysebu swyddi.<br>• Ein delwedd fel cyflogwr yn ein cymunedau – bod yn rhagweithiol wrth geisio denu pobl o bob rhan o gymdeithas i weithio i Gyngor Gwynedd.<br><br>Mae cyswllt cryf rhwng ein cynlluniau yn y cam hwn ag un arall o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, sef ein prosiect ar Gynllunio'r Gweithlu. | Cael ein cydnabod fel cyflogwr blaenllaw yn y maes eang hwn, ar gyfer pob nodwedd cydraddoldeb. | |
| Parhau i gymryd camau i ddatblygu ymwybyddiaeth rheolwyr a staff o'r maes hwn yn llawn, gan gynnwys cydraddoldeb, cynhwysiant, niwroamrywiaeth, aflonyddu rhywiol, parch ac urddas yn y gweithle. | Rheolwyr a staff yn ymwybodol o faterion cydraddoldeb a chynhwysiant, yn gwybod lle i gael mynediad i gyngor ar wahanol agweddau ac yn defnyddio'r wybodaeth honno yn eu timau fel bo'r angen. | Parhaus – dros gyfnod y cynllun |
| Edrych ar y ffordd rydym yn esbonio ac yn cyfathrebu yr anghenion ieithyddol wrth hysbysebu swyddi er mwyn gwella dealltwriaeth darpar ymgeiswyr a'r cyhoedd am yr angen am sgiliau yn y Gymraeg ac am gyfrifoldebau statudol y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. | Llai o gwynion am y polisi recriwtio a gwahaniaethu a gwell dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o'r anghenion ieithyddol ar gyfer swyddi. | 2024/27 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynnal archwiliad bwlch tâl yn flynyddol, gan ystyried pa gamau i'w cymryd i geisio cau'r bwlch. Cyrraedd sefyllfa lle rydym yn gallu cynnal archwiliad bwlch tâl ar sail anabledd a hil hefyd. | Archwiliad wedi ei gwblhau ac yn bwydo i drafodaeth ar gamau gweithredu. | Blynyddol |
| Cynnal archwiliad cyflog cyfartal pob tair mlynedd | Archwiliad wedi ei gwblhau | 2025/26 |
| Parhau i geisio gwella'r data am nodweddion sydd yn cael ei rannu â ni gan ein staff, fel sail wedyn i gymryd penderfyniadau yn y maes pwysig hwn. | Y nifer o staff sydd yn rhannu gwybodaeth â ni yn cynyddu, gan felly gryfhau'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu. | Parhaus |

**Be ydi'r gwahaniaeth rydym ni'n disgwyl ei wneud erbyn diwedd y cyfnod?**

Byddwn wedi sefydlu camau lle y gall staff gymryd rhan a chynnig syniadau ar sut y gall Cyngor Gwynedd fel cyflogwr wella ar gyfer pobl sydd â nodweddion cydraddoldeb. Byddwn hefyd yn cymryd camau ymarferol i ddatblygu ein delwedd fel cyflogwr i bobl sydd â nodweddion cydraddoldeb, ac yn anelu i fod yn flaenllaw yn y maes. Byddwn hefyd yn sicrhau fod gan ein rheolwyr a staff fynediad at wybodaeth i'w cynorthwyo i wrth ymdrin â materion cyflogaeth sydd yn gysylltiedig â'r maes.

## Amcan 2 - Gwella ein data am bobl â nodweddion cydraddoldeb

### Pam yda ni wedi dewis yr amcan yma?

Roedd 61.3% o bobl yn teimlo fod ymgysylltu yn faes pwysig yn ôl yr ymgynghoriad. Y rheswm am hynny oedd i'r cyngor gael dealltwriaeth gwell o beth sydd angen ei wella ac i adnabod anghenion y gymuned. Hefyd dywedwyd y byddai'n y cyngor sicrhau gwelliant parhaus o fewn y Cyngor. Roedd y rhai oedd yn anghytuno yn dweud fod nhw ddim yn teimlo y

dylai'r amcan fod yn flaenoriaeth i'r cyngor gan ei fod yn ddiangen ac yn gallu bod yn gostus.  Roedd ymgysylltu hefyd yn thema ymddangosodd yn y cwestiwn am faterion ychwanegol I'w cynnwys yn yr amcanion tro hyn.

Wrth gasglu data roedd yn amlwg fod diffyg gwybodaeth lleol am nifer o nodweddion gwarchodedig.  Mae'n debyg fod hyn yn rhannol oherwydd y niferoedd isel.  Mae'n amlwg hefyd fod llawer o ymgynghoriadau'n digwydd a fod angen gwella ein ffyrdd o weithredu.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol a'r Cynllun Gweithredu LGDTC+ yn nodi'r angen am weithredu yn y maes yma hefyd ac mae'r llywodraeth wedi sefydlu gwasanaethau arbennig ar gyfer gwneud hynny.  Mae'r cynlluniau yn gofyn i ni fel mudiadau cyhoeddus i sicrhau ein bod yn casglu data, yn arbennig ym meysydd Addysg, Gofal Cymdeithasol, a Chyflogaeth.  Gweler hefyd yr amcanion ar wahân am Gyflogaeth (Amcan 1) ac Addysg (Amcan 4).

**Pa nodweddion gwarchodedig fydd yn cael eu heffeithio?**

Bydd pob nodwedd yn cael ei effeithio'n bositif.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

| **Pwyntiau Gweithredu** | **Deilliant** | **Amserlen** |
|---|---|---|
| Diweddaru ein trefn ymgysylltu er mwyn osgoi dyblygu, drwy greu gweithdrefnau a rhannu canlyniadau.  Hefyd cryfhau amrywiaeth o fewn y Panel Trigolion. | Grwp Ymgysylltu i edrych ar y drefn<br>Gweithredu<br>Gwella amrywiaeth y Panel Trigolion | 2024-25<br><br>Parhaol<br>2024-25 |
| Creu trefn hygyrch i weld data cydraddoldeb er mwyn ei wneud yn haws i'w ddefnyddio wrth newid polisïau a chreu cynlluniau. | Cael trefn electroneg yn ei le<br>Cadw'r wybodaeth yn gyfredol | 2024-26<br>Parhaol |

| | | |
|---|---|---|
| Edrych i wella a diweddaru'r data sydd gennym ar Wynedd yn y ddogfen Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru, gan lenwi unrhyw fylchau os yn bosib. | Diweddaru'r data fel sy'n addas | Parhaol |
| Sicrhau ein bod yn casglu data mor gyflawn a phosib am nodweddion cydraddoldeb defnyddwyr gwasanaethau gofal, drwy adnabod unrhyw fylchau yn yr hyn yr ydym yn ei gasglu eisoes a gweithredu | System gofnodi addas wedi ei osod i hyrwyddo llenwi data cydraddoldeb pan fo'r unigolyn yn hapus i nodi<br><br>Casglu a llenwi data cydraddoldeb achosion sydd eisoes ar ein system gofnodi lle'n bosib | Medi 2024<br><br>Parhaol |

**Be ydi'r gwahaniaeth ryda ni'n bwriadu ei wneud erbyn diwedd y cyfnod?**

Rydym ni'n bwriadu gwella'r data sydd gennym er mwyn ei ddefnyddio wrth greu neu newid polisi neu ffordd o weithio, a rhoi gwell gwasanaeth i bobl Gwynedd. Byddwn hefyd yn sicrhau y bydd gennym ni fewnbwn addas gan bobl â nodweddion cydraddoldeb heb eu llethu drwy eu holi'n aml.

## Amcan 3: Sicrhau fod y Cyngor yn fudiad wrth-wahaniaethol trwy wella ein systemau mewnol er mwyn darparu gwell gwasanaethau i bawb

**Pam yda ni wedi dewis yr amcan yma?**

Roedd 67.3% yn teimlo fod angen cadw hyfforddiant yn y cynllun yn ôl yr ymgynghoriad.  Y rheswm am hynny oedd  fod pobl yn teimlo fod hyfforddiant yn bwysig ar gyfer sgiliau staff ac yn gwella gwasanaethau. Roedd y rhai oedd yn anghytuno yn dweud ei fod yn ddi-angen ac yn gostus. Roedd 57.6%o bobl yn teimlo fod asesu effaith yn bwysig yn ôl yr ymgynghoriad.  Y rheswm am hynny oedd fod pobl yn teimlo y byddai'n sicrhau gwelliant parhaus y Cyngor ac yn sicrhau tegwch i bobl â nodweddion gwarchodedig.  Roedd y rhai oedd yn anghytuno yn dweud y byddai'n gostus a fod blaenoriaethau eraill yn fwy pwysig.  Rydym yn cytuno gyda'r mwyafrif eu bod yn faterion sydd angen sylw, ond gan eu bod wedi cael ystyriaeth yn ystod cyfnod y Cynllun presennol, rydym wedi penderfynu eu cynnwys fel pwyntiau gweithredu o fewn yr amcan yma y tro hyn.  Roedd sylwadau ychwanegol yn rhoi cefnogaeth i wahanol fathau o hyfforddiant yn yr atebion  i'r cwestiwn "Ydych chi'n credu y dylem ystyried cynnwys unrhyw faterion eraill yn ein amcanion newydd?" yn yr holiadur hefyd.

Roedd galw cryf i ni edrych ar faterion hygyrchedd, yn arbennig ar gyfer pobl anabl yn yr atebion i'r cwestiwn yma hefyd, ac mae pwynt gweithredu wedi ei gynnwys yma.  Roedd hyn hefyd yn fater a godwyd gan rai o'r grwpiau yr ymwelodd y swyddogion cydraddoldeb â hwy fel rhan o'r ymgysylltiad.

Mae'r materion eraill sy'n cael sylw yn yr amcan yma yn deillio o wybodaeth yng Nghynllun Cydraddoldeb Cymru Gwrth-Hiliol .  Ond rydym ni wedi penderfynu eu ehangu i gynnwys nodweddion eraill hefyd.

**Pa nodweddion fydd yn cael eu heffeithio?**

Bydd pob nodwedd yn cael ei effeithio'n bositif.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

| Pwyntiau Gweithredu | Deilliant | Amserlen |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Parhau gyda'r fframwaith hyfforddiant i rhoi'r adnoddau a'r hyder i'n staff i allu ymateb i amrywiaeth o anghenion gyda parch ac urddas . Sicrhau fod y fframwaith hyfforddiant yn cael i'w ymestyn i gynnwys amrywiaeth o nodweddion cydraddoldeb / pynciau eang. | Hyfforddiant ar Anabledd, Parch ac Urddas, a Gwrth-hiliaeth.<br><br>Symud i edrych ar faterion nodweddion cydraddoldeb eraill a phenderfynu ar y pynciau angenrheidiol a gweithredu. | 2024-2025<br><br>Parhaol |
| Codi ymwybyddiaeth staff o'r drefn Asesiad Effaith Cydraddoldeb newydd a rhoi cefnogaeth, gwybodaeth a hyfforddiant i sicrhau ansawdd | Hyfforddiant mewn lle<br><br>Codi ymwybyddiaeth | Mai 2024<br><br>Parhaol |
| Archwilio hygyrchedd gwasanaethu'r Cyngor, creu cynllun gweithredu a gweithredu arno | Archwilio a chynllun gweithredu<br>Gweithredu | 2024-26<br>Cyfnod y cynllun |
| Gwella hygyrchedd ein gwefan drwy greu cynllun gweithredu i ddatrys diffygion, gan gynnwys gweithio tuag at gael gwared ar y defnydd o ddogfennau PDF. | Cynllun gweithredu yn ei le<br>Gweithredu | 2024-25<br>Parhaol |
| Bydd Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau yn cefnogi a gweithio gyda bob rhan o'r cymunedau yng Ngwynedd:<br><br>• Drwy ddarparu rhaglenni cynhwysol ar gyfer ein cymunedau amrywiol, boed yn arddangosfa, gweithgaredd, digwyddiadau, cyfleoedd hyrwyddo, prosiect a grantiau | Sicrhau bod ein rhaglenni gwaith a grantiau yn cael eu cynllunio gydag amcanion cydraddoldeb yn reolaidd / flynyddol nid achlysurol. | Parhaol<br><br>Parhaol |

| | | |
|---|---|---|
| • Sicrhau fod y naratif yn ein amgueddfeydd yn addas (gwrth-hiliol ayb) a fod straeon pobl a nodweddion penodol yn cael eu clywed | Adrodd drwy cyfrif y niferoedd o gyfleoedd yn cynyddu a gwybodaeth naratif ar ffurflenni adborth<br><br>Angen creu system i gofnodi y gwelliannau<br><br>Sicrhau bod cynllunio arddangosfeydd yn cynnwys y naratif yma drwy gynyddu'r nifer o arddangosfeydd sydd yn cael eu diweddaru; hyfforddiant a dderbynnir; astudiaethau ac ymchwil sydd ei hangen ; gweithio gyda ymgynghorwyr lle angen a chyflwyno gwelliannau. | Mawrth 2024<br><br>Mae'r gwaith yma'n barhaol ac wedi integreiddio i'r rhaglen waith.<br><br>Rhai elfennau efo dyddiad targed penodol fel cynllun Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) i ail ddehongli stori Amgueddfa Lloyd George erbyn Rhagfyr 2024 |

| | | |
|---|---|---|
| • Gweithio gyda chymunedau pobl â nodweddion cydraddoldeb i gael gwared ar rwystrau i ddefnyddio ein hamgueddfeydd ac orielau | Adborth drwy ymgysylltu, boddhad cwsmer, ymateb i gwynion, hyfforddiant staff gan gofnodi adnabod a lleihau rhwystrau. Angen system i gasglu'r adborth.<br><br>Camau gweithredu i godi o'r adborth a gosod amserlen<br><br>Asesiadau pellach i'w trefnu | Sgopio ac anelu i ail ddehongli orielau hanes Storiel erbyn 2028. Angen grant i wireddu.<br><br>Trefniadau casglu adborth yn eu lle erbyn Mawrth 2024<br><br>Mae'r gwaith yma'n barhaol a'r nod yw integreiddio i'r rhaglen waith<br><br>Ymgysylltu penodol gyda cynllun ail ddehongli Amgueddfa Lloyd George |

| | | |
|---|---|---|
| | | erbyn Rhagfyr 2024<br><br>Bydd angen ymgysylltu pellach gydag ail ddehongli orielau hanes Storiel rhwng 2024-2028 |

**Be ydi'r gwahaniaeth ryda ni'n ei wneud?**

Ein bwriad yma yw sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn addas ar gyfer pob nodwedd cydraddoldeb a fod ein staff yn deall ac yn derbyn eu cyfrifoldebau yn y maes. Byddwn yn sicrhau gwell dealltwriaeth o hawliau ac anghenion pobl ag amrywiol nodweddion drwy greu amrywiaeth o deitlau hyfforddiant. Yn ogystal fod ystyriaeth o nodweddion cydraddoldeb yn cael y lle mae'n haeddu wrth greu a newid polisïau a ffyrdd o weithio trwy ein trefn Asesu Effaith Cydraddoldeb. Byddwn yn sicrhau fod pobl yn derbyn yr wybodaeth mae nhw ei angen drwy wneud ein gwefan yn haws i'w ddefnyddio. Yn ogystal bydd ein Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau yn adeiladau ar hyn sydd yn ei le yn barod i ddarparu i gymunedau gael cyfrannu eu lleisiau i'r naratif yn ein amgueddfeydd, yn cael mwy o gyfleoedd, llai o rwystrau ac yn gallu cyfranogi fwy fwy yn eu diwylliant gan gael mwynhad, dysgu a gwelliannau iechyd a llesiant.

## Amcan 4: Gwella cydraddoldeb o fewn maes addysg

**Pam yda ni wedi dewis yr amcan yma?**

Mae'r amcan yma yn un newydd y tro hyn. Mae'n ddyletswydd ar bob ysgol, fel mudiadau a enwir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, i ddiweddaru eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob 4 blynedd, yn yr un ffordd a'r Cyngor. Credwn ei fod yn fanteisiol i gael perthynas rhwng Cynllun Cydraddoldeb y Cyngor a rhai'r ysgolion unigol. Mae'r Awdurdod felly wedi cynnig 4 Amcan I'r ysgolion er mwyn iddynt eu dehongli mewn modd sy'n addas yn lleol. Anogir yr ysgolion i ychwanegu at y 4 Amcan yma hefyd yn ddibynnol ar ffactorau lleol. Mae'r 4 Amcan i'r ysgolion yn ymddangos yma fel pwyntiau gweithredu i'r Awdurdod.

Mae'r data, er wedi dyddio braidd erbyn hyn, yn dangos fod problemau bwlio yn parhau, hefyd fod rhai carfannau yn tan-gyflawni o fewn y gyfundrefn addysg. Mae data mwy diweddar yn dangos fod plant a phobl ifanc yn cael problemau gyda llesiant a chyflyrau iechyd meddwl yn sgil Covid-19.

Mae'r pwyntiau gweithredu hefyd yn deillio o wybodaeth yng Nghynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol. Ond rydym ni wedi penderfynu edrych ar y maes yn ei gyfanrwydd yn hytrach nag ar un nodwedd yn benodol.

**Pa nodweddion fydd yn cael eu heffeithio?**

Bydd y nodweddion canlynol yn cael ei effeithio'n bositif – oedran, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ail-bennu rhywedd, crefydd, anabledd

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

| Pwyntiau Gweithredu | Deilliant | Amserlen |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Casglu, dadansoddi a gweithredu ar ddata yn ymwneud ag achosion o fwlio. | • Ysgolion Gwynedd yn adrodd yn electroneg yn dymhorol (3 gwaith y flwyddyn) ar achosion yn ymwneud â bwlio.<br>• Adran addysg yn dadansoddi'r data yn dymhorol gan ddefnyddio canfyddiadau i lunio cynllun / arlwy hyfforddiant. | Sefydlu yn Ionawr 2024 ac yn weithredol yn dymhorol |
| Lleihau costau a rhwystrau at addysg, a gweithredu ystod o ymyraethau Iechyd Meddwl a Llesiant er mwyn cefnogi dysgwyr, beth bynnag eu cefndir a nodweddion gwarchodedig. | • Creu a rhannu holiaduron gyda ysgolion.<br>• Ysgolion yn derbyn adroddiad am ganfyddiadau lleol.<br>• Adran addysg yn cefnogi ysgolion i addasu trefniadau a gweithdrefnau ysgolion drwy greu adnodd i gefnogi teuluoedd yn y gymuned | Tachwedd 2023<br><br>Ionawr 2024<br><br>2024 ymlaen |
| Adnabod, Monitro a Gweithredu i wella presenoldeb a chyrhaeddiad grwpiau amrywiol o ddisgyblion. | • Presenoldeb yn cael ei hyrwyddo a'i fonitro ar | Tachwedd 2023 ac yn barhaol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | draws ysgolion Gwynedd yn wythnosol.<br>• Targed 95% yn cael ei weithredu ar draws ysgolion Gwynedd.<br>• Data presenoldeb (gan gynnwys grwpiau amrywiol) yn cael ei ddadansoddi er mwyn adnabod a gweithredu ar agweddau i'w datblygu. | Yn barhaus<br><br>Yn barhaus |
| Sicrhau gweithdrefnau effeithiol o ganfod a gweithredu ar lais y disgybl o fewn rhediad dyddiol yr Ysgol, beth bynnag ei nodweddion gwarchodedig a'i anghenion. | • Fforwm Ieuenctid Gwynedd wedi ei sefydlu er mwyn i lais disgyblion ar draws ysgolion Gwynedd, beth bynnag eu nodweddion gwarchodedig ai anghenion gael ei ystyried ar lefel wleidyddol a chorfforaethol yr awdurdod | 2024 ymlaen |

**Be ydi’r gwahaniaeth ryda ni’n ei wneud?**

Ein bwriad yw sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i’r holl ddisgyblion, staff rhieni a gofalwyr sy’n derbyn gwasanaethau o’n hysgolion, waeth beth bynnag ei nodweddion gwarchodedig a’u anghenion. Wrth wella cydraddoldeb o fewn addysg byddwn yn datblygu diwylliant o gynhwysiant ac amrywiaeth lle mae pob disgybl sy’n gysylltiedig ag ysgolion Gwynedd yn teimlo’n falch o’u hunaniaeth ac yn gallu cymryd rhan lawn ym mywyd ysgol. Bydd cyflawniad disgyblion yn cael ei fonitro a byddwn yn defnyddio’r data i gefnogi’r disgyblion, codi safonau a sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hwyluso a chefnogi ysgolion i hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol, herio bwlio a stereoteipiau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at bawb. Yng Ngwynedd credwn fod amrywiaeth yn gryfder, a ddylai gael ei barchu a'i ddathlu gan bawb o fewn a thu allan i’r ysgolion.

## Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Mae’n ofynnol arnom, dan Rhan 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wrth greu dogfen ymgynghori i ystyried, a cheisio barn am effeithiau’r Amcanion ar gyfle pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a hefyd i edrych sut y gallwn addasu’r polisi i wella hynny. Mae’r gwaith sydd wedi ei nodi yn Amcan 1 i edrych ar y gofynion mewn swyddi ac i greu fforwm staff yn cynnwys elfennau ieithyddol, ac yn golygu gwell dealltwriaeth o fewn y Cyngor a’r gymuned yn fwy eang am ofynion ieithyddol wrth recriwtio a chyfrifoldebau statudol y Cyngor dan y Safonau Hefyd y gwaith i wella ein gwefan yn Amcan 3. Am fwy o wybodaeth gweler yr Asesiad Effaith.

# Dadansoddiad o'r Ymgysylltiad ar
# Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd
# Ebrill – Awst 2024

## Cyflwyniad

Mae gan Cyngor Gwynedd ddyletswydd i edrych ar ein Amcanion Cydraddoldeb bob pedair blynedd a'u newid os oes angen, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Wrth benderfynu pa amcanion i'w defnyddio, mae angen i'r cyngor ystyried data am nodweddion cydraddoldeb, Cynlluniau Gweithredu newydd Llywodraeth Cymru a chynlluniau eraill y Cyngor. Ond un o'r pethau pwysicaf oedd y gwaith ymgysylltu i weld beth roedd pobl Gwynedd ei eisiau, fel y pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi cynnal cyfnod estynedig o ymgysylltu yn ystod y gwanwyn a'r haf. Mae'r ymgysylltu yna wedi sicrhau fod llais pobl yn cael ei glywed a'u barn yn cael ei ddefnyddio wrth benderfynu ar yr Amcanion drafft ar gyfer ymgynghori ymhellach arnynt.

Defnyddiwyd amrywiol ddulliau gan gynnwys holiadur mewn amrywiaeth o fformatau a ieithoedd. Derbyniwyd 597 o ymatebion iddo. Mi wnaethom ni hefyd gyfarfod gydag amrywiaeth o grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig a mynychu cwpl o ddigwyddiadau, ac mae mwy o wybodaeth am hyn, a'r wybodaeth a gasglwyd, yn Atodiad 1 yn ddogfen yma.

Roedd yr ymgynghoriad yn fyw rhwng 14/04/2023 ac 18/08/2023. Derbyniwyd 597 o ymatebion i'r holiadur hefo 87.9% (N=525) o'r holiaduron wedi'u cwblhau ar-lein ac 12.1% (N=72) wedi'u cwblhau trwy'r panel trigolion.

Er mwyn osgoi dalen wag, ac i roi gwybodaeth I'r rhai oedd yn cymryd rhan, dechreuwyd drwy ofyn 5 cwestiwn penodol am yr Amcanion presennol er mwyn cael gwybod os oeddynt yn meddwl ei bod yn bwysig i ni barhau i weithio ar y meysydd yma. Yna gofynnwyd iddynt ddweud beth arall fyddai'n bwysig i'w gynnwys yn y Cynllun newydd. Yn ychwanegol roedd cwestiwn ar yr iaith Gymraeg a chwestiynau am nodweddion cydraddoldeb yn yr holiadur.

### Rhan 1: Canlyniadau yr holiadur

## *Pwy ymatebodd i'r holiadur?*

Cafwyd 597 o ymatebion i'r holiadur. Roedd 87.9% (N=525) o'r holiaduron wedi'u cwblhau ar-lein ac 12.1% (N=72) wedi'u cwblhau trwy'r panel trigolion. Dyma wybodaeth am yr ymatebwyr yma:

**Ardal**

Fel y gwelir o'r tabl isod mae cynrychiolaeth o bob ardal llesiant.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ardal Pen Llŷn | 40 | 6.7 |
| Ardal Porthmadog / Penryndeudraeth | 34 | 5.7 |
| Bro Ardudwy | 41 | 6.9 |
| Bro Dysynni | 38 | 6.4 |
| Bro Ffestiniog | 24 | 4.0 |

| | | |
|---|---|---|
| Bro Lleu / Nantlle | 28 | 4.7 |
| Bro Ogwen | 35 | 5.9 |
| Bro Peris | 38 | 6.4 |
| Dalgylch Bala / Penllyn | 9 | 1.5 |
| Dalgylch Bangor | 53 | 8.9 |
| Dalgylch Caernarfon | 29 | 4.9 |
| Dalgylch Dolgellau | 36 | 6.0 |
| Dalgylch Pwllheli | 28 | 4.7 |
| Tu allan i Wynedd | 9 | 1.5 |
| Heb ateb | 124 | 20.8 |
| Cod post ddim yn gyflawn | 31 | 5.2 |
| **Cyfanswm** | **597** | **100.0** |

**Nodwedd gwarchodedig: Rhyw**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dynes / Benyw | 263 | 44.1 |
| Dyn / Gwryw | 254 | 42.5 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 38 | 6.4 |
| Dim ateb | 38 | 6.4 |
| Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol | 4 | 0.7 |
| **Cyfanswm** | **597** | **100.0** |

**Nodwedd gwarchodedig: Oedran**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 15 oed neu iau | 2 | 0.3 |
| 16 – 24 oed | 10 | 1.7 |
| 25 – 34 oed | 39 | 6.5 |
| 35 – 44 oed | 60 | 10.1 |
| 45 – 54 oed | 86 | 14.4 |
| 55 – 64 oed | 121 | 20.3 |
| 65 – 74 oed | 132 | 22.1 |
| 75 – 84 oed | 73 | 12.2 |
| 85+ oed | 7 | 1.2 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 37 | 6.2 |
| Dim ateb | 30 | 5.0 |
| **Cyfanswm** | **597** | **100.0** |

**Sut fyddech chi yn disgrifio eich sgiliau yn y Gymraeg?**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Siarad, darllen ac ysgrifennu yn rhugl | 202 | 33.8 |
| Siarad, darllen ac ysgrifennu, ond ddim yn hyderus iawn | 69 | 11.6 |
| Siarad, darllen ac ysgrifennu – wrthi'n dysgu | 83 | 13.9 |
| Siarad, ond ddim yn darllen nac ysgrifennu | 25 | 4.2 |
| Ddim yn gallu siarad na deal Cymraeg | 91 | 15.2 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwell gennyf beidio â dweud | 59 | 9.9 |
| Arall | 95 | 15.9 |
| **Cyfanswm** | **597** | **100.0** |

**Nodwedd gwarchodedig: Hil (Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol)**

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cymreig | 258 | 43.2 |
| Prydeinig | 140 | 23.5 |
| Seisnig | 93 | 15.6 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 36 | 6.0 |
| Arall | 32 | 5.4 |
| Albanaidd | 6 | 1.0 |
| Dim ateb | 32 | 5.4 |
| Gwyddelig o Ogledd Iwerddon | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **597** | **100.0** |

**Nodwedd gwarchodedig: Hil (Beth yw eich hil?)**

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Gwyn | 493 | 82.6 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 44 | 7.4 |
| Dim ateb | 31 | 5.2 |
| Arall | 10 | 1.7 |
| Asiaidd | 8 | 1.3 |
| Cymysg / sawl grŵp ethnig | 8 | 1.3 |
| Du / Affricanaidd / Caribiaidd | 3 | 0.5 |
| **Cyfanswm** | **597** | **100.0** |

**Nodwedd gwarchodedig: Crefydd**

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cristion | 255 | 42.7 |
| Dim crefydd | 219 | 36.7 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 49 | 8.2 |
| Dim ateb | 30 | 5.0 |
| Arall | 27 | 4.5 |
| Mwslim | 6 | 1.0 |
| Bwdhaidd | 5 | 0.8 |
| Hindŵ | 2 | 0.3 |
| Iddewig | 2 | 0.3 |
| Sîc | 2 | 0.3 |
| **Cyfanswm** | **597** | **100.0** |

**Nodwedd gwarchodedig: Cyfeiriadedd Rhywiol**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | 457 | 76.5 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 60 | 10.1 |
| Dim ateb | 35 | 5.9 |
| Arall | 17 | 2.8 |
| Deurywiol (Bisexual) | 13 | 2.2 |
| Dynes hoyw / lesbaidd | 11 | 1.8 |
| Dyn hoyw | 4 | 0.7 |
| **Cyfanswm** | **597** | **100.0** |

**Nodwedd gwarchodeig: Ail-bennu rhywedd (Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni? (er enghraifft rydych chi'n drawsrywiol neu trans ayyb) )**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Nac ydi | 495 | 82.9 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 47 | 7.9 |
| Dim ateb | 47 | 7.9 |
| Ydi | 8 | 1.3 |
| **Cyfanswm** | **597** | **100.0** |

**Nodwedd Gwarchodedig: Anabledd**

Mae Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod unigolyn yn anabl os:

a. Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a

b. Bod gan y nam effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

**Nodwedd Gwarchodedig: Anabledd (Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?)**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Nac ydw | 387 | 64.8 |
| Ydw | 117 | 19.6 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 59 | 9.9 |
| Dim ateb | 34 | 5.7 |
| **Cyfanswm** | **59** | **100.0** |

## *Amcan 1 - Hyfforddiant i staff a Cynghorwyr*

Mae'r amcan yn addo "**Cryfhau a dyfnhau capasiti ac ymrwymiad staff ac Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd ym maes Cydraddoldeb, trwy sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant cywir**."

- **Pwynt gweithredu 1** – Creu rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb sy'n addas ar gyfer pob aelod o staff, ac ar gyfer Cynghorwyr, er mwyn iddynt ddeall yn well eu dyletswydd tuag at gydraddoldeb.
- **Pwynt gweithredu 2** – Diweddaru'r wybodaeth sydd ar y mewnrwyd i Gynghorwyr gan gynnwys canllawiau hyfforddi a gwybodaeth sy'n berthnasol i'r maes cydraddoldeb.
- **Pwynt gweithredu 3** – Rhoi mwy o wybodaeth am gydraddoldeb mewn hyfforddiant arall, fel yr hyfforddiant Croesawu i'r Cyngor (i staff newydd) a Ffordd Gwynedd (y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio).

Erbyn diwedd y cyfnod (diwedd Mawrth 2024) rydym yn ffyddiog y byddwn ni wedi creu rhaglen o hyfforddiant er y bydd mwy i'w wneud. Mae pwyntiau gweithredu 2 a 3 wedi eu gwneud yn barod.

**a) Yda chi'n meddwl y dylem ni barhau i gael amcan am roi gwell hyfforddiant i staff a Cynghorwyr?**

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Ydw | 402 | 67.3 |
| Ddim yn siŵr | 105 | 17.6 |
| Nac Ydw | 71 | 11.9 |
| Dim ateb | 19 | 3.2 |
| **Cyfanwm** | **597** | **100.0** |

Mae canran uwch o'r ymatebwyr 25 - 34 oed wedi nodi 'ddim yn siŵr' a canran llai ohonynt wedi nodi 'ydw' o gymharu â grwpiau oedran eraill. Nid oes gwahaniaethau mawr mewn barn drwy edrych ar y nodweddion gwarchodedig eraill.

**b) Eglurwch pam yda chi'n dweud hynny**

Dadansoddwyd yr ymatebion Dadansoddwyd yr ymatebion testun rhydd ym i themâu i themâu gan y tîm cydraddoldeb.

O'r rhai a nododd 'ydw', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Hyfforddiant yn bwysig ac yn hanfodol i lwyddiant y sefydliad | 74 | 24.6 |

| | | |
|---|---|---|
| Mae hyfforddiant yn gwella sgiliau staff pan yn delio ag anghenion y gymuned | 63 | 21.0 |
| Arall | 47 | 15.7 |
| Mae hyfforddiant yn rhoi cymorth i staff ddeall yr angen am amrywiaeth a chynhwysiad | 25 | 8.4 |
| Gall hyfforddiant wella'r gwasanaeth mae pobl yn gael gan y Cyngor | 24 | 7.9 |
| Hyfforddiant yn bwysig i unrhyw sefydliad mewn unrhyw faes | 18 | 6.0 |
| Materion ieithyddol | 11 | 3.7 |
| Hyfforddiant yn ddi-angen ac mae themâu cydraddoldeb yn faes dylai staff fod yn ymwybodol ohono yn barod | 11 | 3.6 |
| Pryder am y gost o hyfforddi staff a chredu dylai'r arian gael ei wario mewn meysydd eraill | 7 | 2.3 |
| Cynghorwyr angen hyfforddiant i allu cynrychioli pawb yn deg | 6 | 2.0 |
| Mae hyfforddiant yn bwysig i adnabod rhwystrau pobl anabl | 5 | 1.7 |
| Mae hyfforddiant yn cryfhau penderfyniadau a pholisïau | 8 | 2.7 |
| Mae hyfforddiant yn bwysig i adnabod rhwystrau materion LHDTC+ | 1 | 0.3 |
| **Cyfanswm** | **300** | **100.0** |

O'r rhai a nododd ‘ddim yn siŵr’, y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Mae hyfforddiant yn gwella sgiliau ein staff pan yn delio hefo anghenion y gymuned | 14 | 27.5 |
| Adnabod fod hyfforddiant yn bwysig | 6 | 11.8 |
| Hyfforddiant yn ddi-angen ac mae themâu cydraddoldeb yn faes dylai staff fod yn ymwybodol ohonynt yn barod | 7 | 13.8 |
| Dim yn siŵr | 5 | 9.8 |
| Arall | 5 | 9.8 |
| Gall hyfforddiant wella safon gwasanaethau’r Cyngor | 3 | 5.9 |
| Hyfforddiant yn bwysig ac yn dda i allu mesur llwyddiant y sefydliad | 7 | 13.9 |
| Pryder am y gost o hyfforddi staff a chredu dylai’r arian gael ei wario mewn meysydd eraill | 2 | 3.9 |
| Gall hyfforddiant effeithio penderfyniadau a pholisïau | 2 | 4.0 |
| **Cyfanswm** | **51** | **100.0** |

O'r rhai a nododd ‘nac ydw’, y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Pryder am y gost o hyfforddi staff a chredu dylai’r arian gael ei wario mewn meysydd eraill | 11 | 22.9 |

| | | |
|---|---|---|
| Arall | 9 | 18.8 |
| Hyfforddiant yn ddi-angen ac mae themâu cydraddoldeb yn faes dylai staff fod yn ymwybodol ohono yn barod | 7 | 14.6 |
| Adnabod fod hyfforddiant yn gallu bod o fudd ond dal yn anghytuno | 5 | 10.4 |
| Gall hyfforddiant wella sgiliau staff ond dylia pethau eraill gael blaenoriaeth i wella gwasanaethau. | 5 | 10.5 |
| Meddwl fod amcan ar hyfforddiant yn ddi-angen | 3 | 6.3 |
| Meddwl fod angen edrych ar wahanol flaenoriaethau wrth edrych ar bolisïau a phenderfyniadau | 4 | 8.4 |
| Eisiau i'r amcanion edrych ar bethau eraill er mwyn bod yn sefydliad cynhwysol. | 3 | 6.3 |
| Materion ieithyddol | 1 | 2.1 |
| Cyfanswm | 48 | 100.0 |

## *Amcan 2 - Casglu barn gwahanol bobl*

Mae'r amcan yn addo "**Gwella'r wybodaeth sydd gennym gan ac am bobl gyda nodweddion gwarchodedig**"

- **Pwynt gweithredu 1** – Cynnal arolwg cyhoeddus llawn er mwyn adnabod beth yw'r rhwystrau sy'n wynebu pobl Gwynedd sydd â gwahanol nodweddion, a'r hyn y gallwn ei wneud er mwyn ymateb.
- **Pwynt gweithredu 2** – Datblygu mwy o gyswllt gyda grwpiau neu unigolion efo nodweddion sydd wedi eu gwarchod drwy wneud ein Grŵp Craidd Cydraddoldeb yn fwy amrywiol. Grŵp o bobl sydd yn dod o fudiadau sy'n cefnogi neu cynrychioli pobl hefo nodweddion cydraddoldeb ydi'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb.
- **Pwynt gweithredu 3** – Gwneud yn siŵr fod ffordd i bawb yn y Cyngor wybod beth mae pobl gyda'r nodweddion gwahanol ei angen. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei gasglu i wella ein gwasanaethau. Byddwn hefyd yn adolygu ein Polisi Mynediad/Cydraddoldeb ar sail sylwadau sydd wedi eu derbyn.

Roedd yn rhaid i ni wneud yr arolwg yn ystod y cyfnod clo. Roedd hynny'n golygu fod hi'n anodd i'w wneud mor llawn ag yr oeddem ni wedi ei obeithio. Rydym ni'n gweithio ar wneud y Grŵp Craidd Cydraddoldeb yn fwy ar hyn o bryd. Mae'r Polisi Cydraddoldeb wedi ei ddiweddaru.

**a) Yda chi'n meddwl y dylem ni barhau i gael amcan am ofyn i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig am eu barn?**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 366 | 61.3 |
| Ddim yn siŵr | 118 | 19.8 |
| Nac Ydw | 84 | 14.1 |
| Dim ateb | 29 | 4.9 |
| **Cyfanwm** | **597** | **100.0** |

Mae canran uwch o ferched yn nodi 'ydw' o gymharu ag unrhyw garfan arall. Mae canran uwch o ymatebwyr sydd yn nodi eu bod yn anabl yn nodi 'ydw'. Mae canran uwch o ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn ddyn hoyw neu'n ddynes hoyw / lesbaidd yn nodi 'ydw' hefyd.

**b) Eglurwch pam yda chi'n dweud hynny**

Dadansoddwyd yr ymatebion testun rhydd yma i themâu gan y tîm cydraddoldeb.

O'r rhai a nododd 'ydw', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Pwysig i'r gymuned gael cyfle cyfartal i roi eu barn | 69 | 27.9 |
| Pwysig ar gyfer cael dealltwriaeth o amrywiaeth a chynhwysiant | 62 | 15.7 |
| Mae bob amser yn syniad da i wella dealltwriaeth yn ehangach | 28 | 11.2 |
| Angen y wybodaeth i gael gwell dealltwriaeth ac i adnabod llwyddiant y gwasanaethau mae'r cyngor yn darparu ac beth sydd angen newid | 26 | 14.8 |
| Mae'n gwella gwybodaeth staff er mwyn gwella sgiliau a materion polisi, ac i weithio tuag at lwyddiant barhaus | 28 | 12.0 |
| Arall | 25 | 10.8 |

| | | |
|---|---|---|
| I adnabod rhwystrau ac anghenion cydraddoldeb y gymuned | 11 | 4.4 |
| Pwysig ar gyfer ein dealltwriaeth o hygyrchedd ac anabledd | 7 | 2.8 |
| Materion ieithyddol | 5 | 2.0 |
| **Cyfanswm** | **249** | **100.0** |

O'r rhai a nododd 'ddim yn siŵr', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dim yn siŵr | 27 | 54.0 |
| Arall | 10 | 20.0 |
| Pryder dros y gost o ymgysylltu, credu dylai'r arian gael ei wario mewn meysydd eraill | 3 | 6.0 |
| Syniad da i'r cyngor gael gwell dealltwriaeth o farn y gymuned ac i fod yn fwy cynhwysol. | 6 | 12.0 |
| Rhoi cyfle i bawb roi eu barn | 2 | 4.0 |
| Teimlo fod yn Amcan ddi-angen | 2 | 4.0 |
| **Cyfanswm** | **Nifer** | **Canran** |

O'r rhai a nododd 'nac ydw', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Teimlo fod yn Amcan ddi-angen a fod blaenoriaethau gwell. | 34 | 59.9 |
| Pryder dros y gost o ymgysylltu a chredu dylai'r arian gael ei wario mewn meysydd eraill | 13 | 22.8 |
| Arall | 6 | 10.5 |
| Materion ieithyddol | 2 | 3.5 |
| Cytuno fod yn bwysig i bobl cael y cyfle i roi barn ond ddim yn teimlo y dylai fod yn amcan | 2 | 3.6 |
| **Cyfanswm** | **57** | **100.0** |

## *Amcan 3 - Gwella ein trefn Asesu Effaith Cydraddoldeb*

Mae'r amcan yn addo "**Adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn barod i wreiddio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fel arf i sicrhau gwell penderfyniadau**". Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn ffordd o wneud yn siŵr fod anghenion pobl hefo gwahanol nodweddion cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth greu neu newid polisïau neu wasanaethau newydd.

- **Pwynt Gweithredu 1** – Creu hyfforddiant ychwanegol ar asesiadau effaith.
- **Pwynt Gweithredu 2** – Rhoi cymorth i Gynghorwyr i sicrhau fod cydraddoldeb yn ganolog wrth wneud penderfyniadau.
- **Pwynt Gweithredu 3** – Rhoi sylw dyledus i anghenion cydraddoldeb pan fydd angen adnabod arbedion neu doriadau.

Bydd yr hyfforddiant wedi ei greu a'i gynnig i aelodau staff perthnasol a Chynghorwyr erbyn diwedd y cyfnod. Rhoddodd y swyddogion cydraddoldeb eu barn ar arbedion.

**a) Yda chi'n meddwl y dylem ni barhau i gael amcan am wella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb?**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 344 | 57.6 |
| Ddim yn siŵr | 137 | 22.9 |
| Nac Ydw | 88 | 14.7 |
| Dim ateb | 28 | 4.7 |
| **Cyfanwm** | **597** | **100.0** |

Mae canran uwch o ferched yn nodi ‘ydw’ o gymharu ag unrhyw garfan arall. Mae canran uwch o’r ymatebwyr yn y grŵp oedran 25-34 oed a 35-44 oed yn nodi ‘ydw’. Nid oes gwahaniaethau barn mawr rhwng yr ymatebwyr sydd wedi nodi eu bod yn anabl a’r rhai sydd wedi nodi eu bod ddim yn anabl. Mae canran uwch o’r ymatebwyr deurywiol , dyn hoyw, dynes hoyw / lesbaidd yn nodi ‘ydw’, gyda canran uwch o’r ymatebwyr heterorywiol / strêt yn nodi eu bod ddim yn siŵr.

**b) Eglurwch pam yda chi’n dweud hynny**

Dadansoddwyd yr ymatebion testun rhydd yma i themâu gan y tîm cydraddoldeb.

O'r rhai a nododd ‘ydw’, y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Meddwl bod asesiad effaith yn hanfodol am rhesymau amrywiol | 42 | 21.8 |
| Credu fod asesiad yn ffordd da o weld llwyddiant parhaus yn y maes cydraddoldeb | 51 | 26.5 |
| Teimlo ei bod yn syniad da i gael trefn asesiad mewn lle i unrhyw sefydliad a’i fod yn ffordd dda o gael adborth y gymuned | 40 | 19.7 |
| Arall neu ddim yn siwr | 24 | 12.4 |
| Hanfodol er mwyn bod yn sefydliad cynhwysol sydd yn ystyried amrywiaeth y gymuned | 15 | 7.5 |
| Mae asesiad yn gwella sgiliau staff yn y maes ac felly’n gwella gwasanaethau | 7 | 3.6 |
| Asesiadau yn bwysig i nodweddion cydraddoldeb penodol ac ar gyfer cynhwysiant i bawb. | 6 | 3.1 |
| Materion ieithyddol | 4 | 2.1 |
| Credu eu bod yn bwysig ond dal pryder am y gost | 2 | 1.0 |
| Mae asesiadau yn bwysig i gwestiynu ansawdd | 2 | 1.0 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **193** | **100.0** |

O'r rhai a nododd 'ddim yn siŵr', y themâu a godwyd oedd:

| **Thema** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Dim yn siŵr | 29 | 60.4 |
| Arall | 6 | 12.5 |
| Teimlo fod yr asesiad effaith yn ddi-angen a fod blaenoriaethau gwell | 6 | 12.5 |
| Pryder am y gost a chredu y dylai'r arian gael ei wario mewn meysydd eraill | 3 | 6.3 |
| Gallai fod yn syniad da i fesur llwyddiant ac i wella'n barhaus os yn cael ei wneud yn iawn. | 3 | 6.3 |
| Materion ieithyddol | 1 | 2.1 |
| **Cyfanswm** | **48** | **100.0** |

O'r rhai a nododd 'nac ydw', y themâu a godwyd oedd:

| **Thema** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Teimlo fod yr asesiad effaith yn rywbeth di-angen, yn ymarfer tic bocs a fod blaenoriaethau gwell | 30 | **50** |
| Pryder am y gost a chredu y dylai'r arian gael ei wario mewn meysydd eraill | **14** | **23.3** |

| | | |
|---|---|---|
| Arall | 14 | 23.4 |
| Gallai fod yn syniad da i fesur llwyddiant ac i wella'n barhaus os yn cael ei wneud yn iawn. | 2 | 3.3 |
| **Cyfanswm** | **60** | **100.0** |

## *Amcan 4 - Bwlch tâl*

Mae'r bwlch tâl yma'n fesur cydraddoldeb sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog merched a dynion. Mae'n wahanol i fesur cyflog cyfartal, sydd yn dangos os ydi merched a dynion yn derbyn yr un cyflog am yr un math o swyddi o fewn sefydliad.

Rydym ni'n addo "**Gweithredu i leihau'r bwlch tâl rhwng y rhywiau ac adnabod unrhyw fwlch tâl ar sail unrhyw nodwedd arall**."

- **Pwynt Gweithredu 1** – Ceisio cael mwy o staff i lenwi'r holiadur data cydraddoldeb i wella'r wybodaeth sydd gennym. Nid yw'r Cyngor yn gallu gorfodi unrhyw un i'w lenwi.
- **Pwynt Gweithredu 2** – Parhau i gynnal archwiliad blynyddol ar y bwlch cyflog rhwng dynion a merched, a gweithio i ddatblygu'n gallu i gynnal archwiliad ar nodweddion eraill. Yn ogystal, cynnal awdit tâl bob tair blynedd er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i dalu cyflog cyfartal.
- **Pwynt Gweithredu 3** – Parhau gyda prosiect Merched mewn Arweinyddiaeth i hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi arweiniol o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith.

Mae'r awdit wedi ei wneud, gan ddangos ein bod yn talu cyflog cyfartal. Mae'r ffigyrau yn dangos fod gan y Cyngor fwlch tâl rhwng merched a dynion, fel y Cynghorau eraill i gyd, er bod y tâl sy'n cael ei roi i ferched a dynion am yr un math o waith yn gyfartal. Mae Merched mewn Arweinyddiaeth yn brosiect ar wahân fydd yn parhau beth bynnag. Mae'r canllawiau yn dweud fod yn rhaid cael amcan sy'n delio a'r bwlch tal.

**a) Mae'n rhaid i ni gael amcan am fwlch tâl. Oes gennych chi unrhyw sylwadau am yr amcan yma?**

Dadansoddwyd yr ymatebion testun rhydd yma i themâu gan y tîm cydraddoldeb.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Credu y dylai merched a dynion cael eu talu'n deg am yr un swydd. | 157 | 40.2 |

| | | |
|---|---|---|
| Teimlo fod yr amcan yn un pwysig ac dylai fod yn un o flaenoriaethau'r cyngor. | 82 | 21.0 |
| Pryder am y gost a chredu y dylai'r arian gael ei wario mewn meysydd eraill gan fod hwn yn rhywbeth sydd yn ddi-angen | 47 | 12.0 |
| Arall | 36 | 9.3 |
| Teimlo fod rhyw y person ddim yn bwysig a dylai'r cyflog adlewyrchu'r swydd yn unig | 29 | 7.5 |
| Na | 25 | 6.4 |
| Ddim yn siŵr | 5 | 1.3 |
| Adnabod fod blwch tal yn bodoli | 4 | 1.0 |
| Materion ieithyddol | 3 | 0.8 |
| Yn bwysig ac yn cyd fynd â nodweddion Cydraddoldeb eraill | 3 | 0.9 |
| **Cyfanswm** | **391** | **100.0** |

## *Amcan 5 - Mwy o amrywiaeth ymysg y bobl sy'n ceisio am swyddi yn y Cyngor*

Rydym wedi addo "**Gweithredu i ddenu amrediad o ymgeiswyr am swyddi er mwyn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu**"

- **Pwynt Gweithredu 1** – Defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i gasglu o'r holiadur cydraddoldeb i staff (gweler Amcan 4) a'r ymgysylltu (Amcan 2) er mwyn gweld os oes unrhyw faterion sy'n rhwystro grwpiau penodol o bobl rhag ymgeisio am swyddi.
- **Pwynt Gweithredu 2** – Gweithio ar y cyd gyda chyrff cyhoeddus eraill o fewn ein rhanbarth ar unrhyw rwystrau.
- **Pwynt Gweithredu 3** – Blaenoriaethu gweithio tuag at gyrraedd Lefel 2 y Cynllun 'Hyderus o ran Anabledd' er mwyn bod yn 'Gyflogwr Hyderus' ac edrych ar ddod yn Bencampwr Stonewall.

Ryda ni wedi adnabod rhai rhwystrau ac yn gweithio arnyn nhw. Ryda ni'n dal i weithio gyda cyrff cyhoeddus i weld beth allwn ni wneud ar y cyd. Gobeithio y byddwn wedi cyrraedd lefel 2 y Cynllun 'Hyderus o ran Anabledd' erbyn diwedd y cyfnod. Mi wnaethom ni benderfynu ceisio am achrediad gyda Inclusive Employers yn hytrach na Stonewall, er mwyn edrych ar yr holl nodweddion gwarchodedig.

**a) Yda chi'n meddwl y dylem ni barhau i gael amcan am wella amrywiaeth y bobl sy'n ceisio am swyddi?**

| | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Ydw | 371 | 62.1 |
| Nac Ydw | 108 | 18.1 |
| Ddim yn siŵr | 91 | 15.2 |
| Dim ateb | 27 | 4.5 |
| **Cyfanwm** | **597** | **100.0** |

Mae canran uwch o ferched yn nodi 'ydw' o gymharu ag unrhyw garfan arall o fewn rhyw. Mae canran uwch o'r ymatebwyr yn y grwpiau oedran 35-44 oed ac 55-64 oed yn nodi 'ydw', tra bod canran uwch o'r ymatebwyr yn grŵp oedran 25-34 oed yn nodi 'nac ydw'. Mae canran ychydig bach yn uwch o'r ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn anabl yn nodi 'ydw' na'r rhai sy'n nodi nad ydynt yn anabl. Mae canran uwch o'r ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn deurywiol, dyn hoyw, dynes hoyw / lesbaidd yn nodi 'ydw'.

**b) Eglurwch pam yda chi'n dweud hynny**

Dadansoddwyd yr ymatebion testun rhydd yma i themâu gan y tîm cydraddoldeb.

O'r rhai a nododd 'ydw', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Mae'r amcan yma yn bwysig i hybu cynhwysiad ac amrywiaeth | 93 | 37.5 |
| Materion ieithyddol | 41 | 16.5 |
| Syniad da i barhau gyda'r amcan hwn er mwyn parhau i wella | 31 | 12.5 |
| Teimlo ei bod yn syniad da i hybu cyfleoedd cyfartal dylid penodi y person orau am y swydd, beth bynnag eu nodweddion gwarchodedig | 29 | 11.7 |
| Arall | 20 | 8.1 |

| | | |
|---|---|---|
| Mae'n amcan sydd yn bwysig i bobl anabl, er mwyn hybu cyfleodd cyfatal yn y gymuned yma | 16 | 6.4 |
| Mae'n amcan sydd yn bwysig i bobl LHDTC+ i hybu cyfleodd cyfatal yn y gymuned yma | 7 | 2.8 |
| Ffordd dda o gael gwarad ar rhwystrau a gwahaniaethu | 5 | 2.0 |
| Ffordd o wellau gwasanaethau drwy gael gweithlu mwy amrywiol | 6 | 2.4 |
| **Cyfanswm** | **248** | **100.0** |

O'r rhai a nododd 'nac ydw', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Teimlo y dylai'r Cyngor edrych ar sgiliau'r ymgeisydd pan yn recriwtio, a phenodi'r person gorau i'r swydd | 50 | 60.2 |
| Pryder am y gost a chredu y dylai'r arian gael ei wario mewn meysydd eraill | 2 | 2.4 |
| Cytuno ei fod yn dda ar gyfer cael gwared ar rwystrau nodweddion penodol ac hybu cynhwysiant, ond dal yn teimlo na dylai fod yn amcan | 7 | 8.4 |
| Arall | 7 | 8.4 |
| Amcan ddi-angen gan fod discrimineiddio'n bositif yn cael ei wneud yn barod | 14 | 16.9 |
| Materion ieithyddol | 3 | 3.6 |
| **Cyfanswm** | **83** | **100.0** |

O'r rhai a nododd 'ddim yn siŵr', y themâu a godwyd oedd:

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Teimlo mai ar sgiliau'r ymgeisydd ddylai'r Cyngor edrych arnynt pan yn recriwtio, a phenodi'r person gorau i'r swydd | 13 | 36.1 |
| Arall | 9 | 25.0 |
| Dim yn siwr | 5 | 13.9 |
| Cytuno ei fod yn dda ar gyfer cael gwared ar rhwystrau nodweddion penodol a hybu cynhwysiant, ond dal yn teimlo na dylai fod yn amcan | 6 | 16.7 |
| Amcan ddi-angen gan fod discrimineiddio'n bositif yn cael ei wneud yn barod | 2 | 5.6 |
| Materion ieithyddol | 2 | 5.6 |
| Cyfanswm | 36 | 100.0 |

## *Materion eraill y dylem ni ystyried*

Diolch i chi am roi eich barn ar yr amcanion sydd gennym ni'n barod er mwyn i ni gael gweld beth sy'n bwysig i'w gynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb nesaf.

Oes yna unrhyw beth arall sydd angen ei gynnwys yn 2024-28, yn eich barn chi.

**a) Ydych chi'n credu y dylem ystyried cynnwys unrhyw faterion eraill yn ein amcanion newydd?**

Nodwyd bron o hanner yr ymatebwr fod ganddynt ddim barn, gyda bron i traean yn nodi bod angen ystyried cynnwys materion eraill.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dim Barn | 275 | 46.1 |
| Ydw | 184 | 30.8 |
| Nac Ydw | 95 | 15.9 |
| Dim ateb | 43 | 7.2 |
| **Cyfanswm** | **597** | **100.0** |

**Os ddwedoch chi 'ydw' i'r cwestiwn "Ydych chi'n credu y dylem ystyried cynnwys unrhyw faterion eraill yn ein amcanion newydd?", beth yw eich awgrym cyntaf? Pam yda chi eisiau cynnwys yr amcan yma?**

Dadansoddwyd yr ymatebion testun rhydd yma i themâu gan y tîm cydraddoldeb.

Cafwyd 153 o ymatebion i'r cwestiwn yma. Dengys y tabl isod y themâu a godwyd.
**Beth yw eich awgrym gyntaf?**

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Pryder am wariant y Cyngor ar amcanion cydraddoldeb ac yn credu y dylid gwario ar bethau eraill yn gyfan gwbwl. | 21 | 13.8 |
| Sylwadau ymhellach ar materion cyflogau neu recriwtio | 8 | 5.2 |
| Sylwadau ar gynhwysiant ac amrywiaeth ar gyfer nodweddion gwarchodedig penodol. | 32 | 21.7 |
| Materion eraill tu allan i gydraddoldeb | 37 | 25.2 |
| Sylwadau pellach ar yr angen i wellau gwasanaethau yn gyffredinol | 26 | 17.1 |
| Sylwadau ar sgiliau staff | 8 | 5.2 |
| Materion ieithyddol | 21 | 13.7 |
| **Cyfanswm** | **153** | **100.0** |

**Beth yw eich ail awgrym?**

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Arall | 24 | 41.4 |
| Sylwadau ar chynhwysiant ac amrywiaeth ar gyfer nodweddion gwarchodedig penodol. | 16 | 29.2 |

| | | |
|---|---|---|
| Sylwadau ymhellach ar yr angen i wellau gwasanaethau yn gyffredinol | 5 | 8.6 |
| Sylwadau yn pwysleisio pwysigrwydd materion amgylcheddol, a'u rhoi fel blaenoriaeth yn lle materion cydraddoldeb | 3 | 5.2 |
| Angen edrych ar y sefyllfa trafnidiaeth i wella'r gwasanaeth hwn | 3 | 5.2 |
| Sylwadau pellach ar faterion cyflogaeth neu recriwtio | 2 | 3.4 |
| Teimlo fod yr ystyriaeth sy'n cael ei roi i faterion cydraddoldeb yn ddi-angen a dylem flaenoriaethu pethau eraill | 2 | 3.4 |
| Materion ieithyddol | 2 | 3.4 |
| **Cyfanswm** | **58** | **100.0** |

**Beth yw eich trydydd awgrym?**

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Arall | 22 | 58.4 |
| Pryder dros wariant y Cyngor ar amcanion cydraddoldeb ac yn credu y dylid gwario ar bethau eraill yn gyfan gwbwl. | 5 | 12.8 |
| Sylwadau ar gynhwysiant ac amrywiaeth yn gyffredinol | 5 | 12.8 |
| Sylwadau pellach ar syniadau hyfforddiant penodol | 4 | 10.3 |
| Materion ieithyddol | 2 | 5.1 |
| **Cyfanswm** | **39** | **100.0** |

Mae'r wybodaeth yma wedi ei ddadansoddi ymhellach yn Atodiad 1.

## *Effaith ar y Gymraeg*

Oes yna unrhyw faterion y dylem eu hystyried o ran yr iaith Gymraeg?  h.y. Newid Effaith unrhyw un o'r amcanion (y rhai rydych chi am eu cadw o'r 5 gwreiddiol, neu'r rhai rydych chi wedi eu hawgrymu o'r newydd) ar y Gymraeg, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gwarchod statws y Gymraeg ac yn hybu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

Dadansoddwyd yr ymatebion testun rhydd yma i themâu gan y tîm cydraddoldeb.  Dengys y tabl isod y themâu a godwyd.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Angen defnyddio'r Gymraeg i'w warchod a'i ddatblygu | 73 | 22.9 |
| Galw am wersi am ddim gan y Cyngor a'r gymuned ac i bobl cael y cyfle i ddysgu yn y swydd ac yn gyffredinol | 49 | 15.4 |
| Angen gwneud defnydd gwell o'r ddwy iaith hefo'i gilydd | 43 | 13.5 |
| Arall | 34 | 11.2 |
| Gall gormod o ddefnydd o'r Gymraeg wneud niwed a throi rhai yn erbyn yr iaith | 30 | 9.4 |
| Dim sylw | 24 | 7.5 |
| Pwysleisio pwysigrwydd yr iaith a rhoi pobl Cymraeg a busnesau lleol Cymraeg gyntaf | 19 | 6.0 |
| Potensial i broblemau godi o ran cydraddoldeb a tegwch i bawb, yn enwedig i bobl di-Gymraeg | 11 | 3.4 |
| Materion Tai | 6 | 1.9 |
| Na | 5 | 1.6 |

| | | |
|---|---|---|
| Mae defnyddio dwy iaith yn costio gormod | 4 | 1.3 |
| Mae rhoi pwyslais ar yr iaith yn ddi-angen | 4 | 1.3 |
| Angen gweithlu Cymraeg | 4 | 1.3 |
| Amherthnasol | 4 | 1.3 |
| Angen defnyddio llai o Gymraeg | 4 | 1.2 |
| Mae angen ystyried nad ydi pawb yn gallu dysgu'r iaith a'r effaith mae hynny'n gael ar amrywiaeth | 4 | 1.2 |
| **Cyfanswm** | **319** | **100.0** |

## Rhan 2: Cyfarfodydd gyda Grwpiau

Penderfynwyd mai'r ffordd gorau o gyrraedd pobl â nodweddion gwarchodedig fyddai i fynychu cyfarfodydd y grwpiau perthnasol i sicrhau ein bod yn cael amrywiaeth o bobl hefo profiad bywyd yn ymateb ac yn cyfarfod rhai pobl fyddai ddim yn cymryd rhan fel arall. Fel hyn mae pob ymdrech yn cael i wneud i leihau'r bylchau yn ein gwybodaeth am brofiadau'r gwahanol grwpiau nodweddion cydraddoldeb.

Rhestr o'r grwpiau ymgysylltu:

- Grŵp Hunan-adfocatiaeth GACGC
- Pride Gogledd Cymru
- GISDA
- Grŵp Gofalwyr ifanc (8-13)
- Grŵp Gofalwyr ifanc (13-18)
- Unique Transgender Network
- Grŵp Mynediad Arfon
- Galwch acw
- Digwyddiad Boccia ym Mhorthmadog.
- Grŵp Craidd Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd

Yn ogystal, derbyniwyd e-bost gan Grŵp Mynediad Arfon, ar ôl iddynt drafod y mater ymhellach.

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau oedd yn addas i'r grŵp a'r amgylchiadau gan gynnwys holiadur wedi ei symleiddio, sleidiau, lluniau, sticeri, sgwrs.

Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gofynnwyd 5 cwestiwn penodol i ddarganfod y newidiadau byddem eisiau gweld yn y cynllun newydd a beth sydd yn bwysig i ni barhau i weithio arno.

- **Ydi hi dal yn bwysig i roi hyfforddiant i'n staff a'n Cynghorwyr?**

Roedd y grwpiau yn teimlo fod hwn yn bwysig i allu adeiladu dealltwriaeth staff ar faterion cydraddoldeb ac i ddiweddaru pobl ar y termau cywir i ddefnyddio a'r ymarfer gorau i ymwneud â chymuned amrywiol.  Dywedodd y gymuned mai drwy amrywiaeth a hyfforddiant rydan yn dysgu gyda'n gilydd beth sy'n bwysig. Mae'n bwysig bod yr amcanion yn canolbwyntio ar bob math o nodweddion ac nid ond un math, i roi cynrychiolaeth teg i bawb, felly bydd angen i'r hyfforddiant adlewyrchu hyn. Dwedwyd fod hyfforddiant yn dysgu pobl sut i barchu ei gilydd ac yn sicrhau fod gweithlu'r Cyngor yn cael y gefnogaeth maent ei angen wrth ddelio hefo materion eang cydraddoldeb.  Nodwyd hefyd fod hwn yn fater o ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn waith y dylai'r Cyngor fod yn wneud beth bynnag.  Trafodwyd angehneion hyfforddiant Cynghorwyr yn ogystal.

- **Ydi hi'n bwysig ein bod yn dal i holi pobl i gael eu barn?**

Roedd y gymuned hefyd yn teimlo fod yr amcan yma yn bwysig i allu sicrhau gwelliant parhaus. Dwedwyd ei bod yn bwysig gofyn barn pobl oherwydd ei fod yn ymarfer da i fod yn gynhwysol a deall y rhwystrau mae rhai carfanau yn eu hwynebu. Dywedodd rhai bod gofyn cwestiynau i grwpiau amrywiol o bobl yn bwysig er mwyn cael ymatebion mwy amrywiol ac yn dangos fod y cyngor yn gwrando ar bobl. Barn grŵp arall oedd fod ymgysylltu yn rhoi gwell cynrychiolaeth i wahanol bobl gan y cyngor. Nododd un grŵp fod gwaith ymgysylltu yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan gymunedau LHDTC+ gan ei fod yn dangos fod y cyngor yn barod i ddysgu a gwella.

- **Ydi hi'n bwysig i ni ddal ati i wella ein trefn Asesu Effaith Cydraddoldeb, i wneud yn siŵr fod ein polisïau ni'n deg i bawb?**

Ar ôl esboniad o sut roedd asesiadau effaith yn gweithio, gan nad oedd llawer o'r grwpiau yn gyfarwydd gyda'r drefn, cytunodd y grwpiau fod asesu effaith yn hanfodol i waith y cyngor. Dywedodd un grŵp fod gwerth ei gadw a'i wella a dywedodd grŵp arall fod yn ffordd ddefnyddiol i'r cyngor adnabod annhegwch.  Nodwyd hefyd fod hwn yn fater o ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn waith y dylai'r Cyngor fod yn ei wneud beth bynnag

- **Ydi hi'n bwysig i ni barhau i weithio i leihau'r bwlch tâl rhwng y rhywiau ac adnabod unrhyw fwlch tâl arall?**

Mewn nifer o grwpiau trafodwyd y gwahaniaeth rhwng bwlch tal a tal teg yn gyntaf.  Roedd grwpiau eto, ar y cyfan, yn cytuno fod hyn yn bwysig, ond roedd rhai unigolion o'r farn fod o ddim yn flaenoriaeth oherwydd fod pawb yn cael eu talu yn seiliedig ar ofynion a chyfrifoldebau'r swydd ac ni ddylai materion rhyw ddylanwadu ar hynny. Fodd bynnag, yn gyffredinol roedd pawb yn cytuno dylai merched cael eu talu yn deg a bod gwaith pellach angen cael i'w neud i edrych yn benodol ar y bwlch tal rhwng y rhywiau.  Nodwyd hefyd yr angen i edrych ar fylchau tal eraill e.e. o ran anabledd.

- **Ydi hi'n bwysig i ni barhau i weithio i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu drwy ddenu gwahanol ymgeiswyr?**

Unwaith eto roedd bron pawb yn cytuno fod hwn yn amcan pwysig i sicrhau tewch a chyfleoedd cyfartal. Dywedodd rhai fod rhaid  angen meddwl am amrywiaeth yn y gweithle drwy'r amser a bod angen mwy o wahaniaethu positif i ddenu a chadw amrywiaeth yn ein gweithle. Aeth grŵp arall ymlaen i ddweud fod cael amrywiaeth bod amser yn fudd i unrhyw weithle pan mae yn dod at ddelio

gyda phroblemau. Roedd grŵp arall yn meddwl mai dyma'r ffordd gorau i ddod o hyd i, ac i gadw, y staff gorau. Ar y llaw arall roedd rhai yn teimlo y dylid sicrhau fod y pobl gorau yn cael eu dewis i swyddi, beth bynnag eu nodweddion cydraddoldeb.

Ar ôl casglu barn yn benodol am yr amcanion yma, roedd yna siawns i drafod unrhyw faterion eraill roeddent yn credu y dylai'r Cyngor ystyried fel Amcanion ar gyfer 2024-28. Y materion a godwyd yn fwyaf aml oedd:

- **Materion Anabledd**

Roedd teimlad gan y grwpiau fod angen gwell hyfforddiant yn gyffredinol at faterion anabledd a roedd nifer o wahanol feysydd o fewn y maes wedi eu crybwyll. Soniodd un person am hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn gyffredinol ac yn enwedig mewn ysgolion. Roedd un grŵp wedi dweud fod angen mwy o gyfleoedd dysgu Braille a BSL a dealltwriaeth well o niwroamrywiaeth. Cafodd iechyd meddwl ei godi'n aml, gyda sôn am gyd weithio gyda ICAN a sicrhau gwell hyfforddiant iechyd meddwl i staff y cyngor i ddelio hefo straen sy'n gysylltiedig â gwaith. Roedd dementia hefyd wedi cael ei nodi gan un grŵp, oedd yn teimlo fod angen mwy o waith ar godi ymwybyddiaeth o Alzheimers. Tu hwnt i hyfforddiant, roedd yna bethau gweithredol fel ail edrych ar fannau parcio i bobl anabl, trafnidiaeth gyhoeddus a mwy o gyfleoedd hamdden. Nodwyd hefyd yr angen i gofio am anabledd fel nodwedd, gan fod peidio gwneud hynny yn gallu peryglu bywydau, a gan fod y Llywodraeth heb greu Cynllun Gweithredu ar y mater.

- **Materion LHDTC+**

Dywedodd un grŵp fod angen mwy o gynrychiolaeth i bobl traws a gwneud yn siŵr fod yna bolisïau traws yn y gweithle a'u bod nhw'n gyson. Dywedodd grŵp arall fod angen edrych ar bethau gweithredol fel defnydd y toiledau cyhoeddus, a sut fydda'r Cyngor yn gallu bod yn fwy cynhwysol hefo'r cymuned traws yn y mater yma. Dwedwyd fod ni angen ystyried pobl sydd hefo mwy nag un nodwedd warchodedig gan ddefnyddio'r enghraifft o'r gymuned LHDTC+ , iechyd meddwl ac phobl ifanc. Roedd sefyllfa iechyd meddwl phobl ifanc LHDTC+ yn rywbeth oedd yn cael ei bwysleisio.

- **Data a gwybodaeth**

Roedd rhai grwpiau o'r farn fod angen gwella data a'r defnydd o ddata er mwyn adnabod lle mae broblemau yn bodoli er mwyn rhoi ffocws iddyn. Dywedodd un grŵp y gallai hyn helpu i adnabod patrymau i wellau nifer o agweddau eraill sydd angen mwy o waith, fel yr hyfforddiant sydd ei angen ar bethau penodol.

- **Ysgolion, Plant a Phobl Ifanc**

Roedd materion o amgylch ysgolion, plant a bobl ifanc yn rhywbeth gododd yn aml gan y grwpiau. Roedd rhai grwpiau yn teimlo fod angen gwell hygyrchedd ar gyfer amhariadau corfforol yn yr ysgolion a bod angen creu mwy o lefydd saff i blant sydd gydag anawsterau dysgu neu niwroamrywiaeth. Roedd y grwpiau hefyd yn teimlo fod angen gwneud mwy i blant ysgol tu allan i'r ysgol, fel mwy o lefydd croesi, mwy o weithgareddau i blant ar ôl ysgol ac i ofalwyr ifanc gael tocyn bws am ddim neu yn rhatach. Mwy o sylwadau yn benodol ar gyfer gofalwyr ifanc oedd mwy o amser i ffwrdd o'r ysgol neu adael iddynt ddefnyddio ffonau symudol mewn argyfwng yn yr ysgol. Roedd rhai yn teimlo fod plant angen mwy o gefnogaeth un i un i sicrhau ymyrraeth gynnar i rwystrau oedd yn eu wynebu oherwydd eu nodweddion gwarchodedig cydraddoldeb. Cododd un grŵp yr angen i'r Cyngor fod yn gwneud mwy i leihau pryderon pobl Gwynedd o gwmpas addysg plant ysgol. Gweler hefyd yr hyn ddwedwyd am iechyd meddwl pobl ifanc LHDTC+ uchod.

Roedd rhai o’r materion a godwyd gan y grwpiau uchod yn faterion gweithredol a byddwn yn eu pasio ymlaen i'r gwasanaethau perthnasol.

## Atodiad 1 – Dadansoddiad pellach ar y cwestiwn: Ydych chi'n credu y dylem ystyried cynnwys unrhyw faterion eraill yn ein amcanion newydd?

Mae'r dadansoddiad ar y cwestiwn yma yn Rhan 1 o'r ddogfen yn cael ei wneud ar sail y tri rhan oedd i'r cwestiwn. Mae'r dadansoddiad yma yn dod a'r atebion yn y 3 rhan at eu gilydd ac yn ystyried yr hyn ddwedwyd yn y cwestiwn atodol i bob rhan: "Pam ydych chi'n dweud hynny?". Mae'r wybodaeth isod felly wedi ystyried yr holl sylwadau a wnaed gan y rhai a atebodd Oes i'r cwestiwn uchod. Mae hefyd yn dangos ein ymateb.

**Materion Cydraddoldeb ac Anfantais Economaidd Cymdeithasol**

| Mater a godwyd | Sylwadau |
|---|---|
| Cyflogau teg, a thalu cyflog byw | Mae hyn yn cael ei gyfarch yn Amcan 1 lle mae pwyntiau gweithredu am fwlch tâl |
| Amrywiaeth o fewn cyflogaeth – anabledd (yn arbennig amhariadau clyw, niwroamrywiaeth), mewnfudwyr, pobl di-Gymraeg neu sydd ddim yn rhugl, parchu crefyddau a defodau amrywiol, pobl lleol. Cofio fod angen amrywiaeth ar bob lefel o'r gweithlu. Gweithio tuag at lefel 3 Hyderus o ran Anabledd (a mynd ymhellach na hynny). Rhaglen mentora, a mentora "o chwith" (lle mae aelod o staff â nodwedd cydraddoldeb yn mentora rheolwr). Arbenigwyr cydraddoldeb ar baneli cyfweld. Rhoi ad-borth i ymgeiswyr aflwyddiannus. Gweithredu'n bositif. | Mae hyn yn cael ei gyfarch yn Amcan 1 lle mae pwyntiau gweithredu i wella amrywiaeth o fewn y gweithlu a gweithio tuag at lefel 3 Hyderus o ran Anabledd. Mae'r Cyngor eisoes yn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant iaith i staff. |
| Materion cyflogaeth eraill – gweithio hyblyg a chyfathrebu clir gyda staff | Mae hyn hefyd yn cael ei gyfarch yn Amcan 1 |
| Gwella mynediad at adeiladau, cyfleusterau, gwasanaethau a swyddi ar gyfer pobl anabl gan gofio pobl â dyslecsia ayb, ac ar gyfer pobl sydd ddim yn gyrru. Ymgynghoriad ar fynediad. Codwyd y materion yma am yr ardal yn gyffredinol | Mae hyn yn cael ei gyfarch yn rhannol yn Amcan 1 (gwella amrywiaeth o fewn cyflogaeth – mae pwyntiau gweithredu ar wneud addasiadau a hygyrchedd dogfennau) ac Amcan 3 (pwyntiau gweithredu ar arolwg o hygyrchedd gwasanaethau, hygyrchedd y wefan ac amgueddfeydd). Rydym yn cydnabod fod gan y Cyngor y ddyletswydd i hybu cydraddoldeb yn fwy eang ond credwn fod hi'n well canolbwyntio ar faterion mewnol ar hyn o bryd. |
| Hygyrchedd cyfathrebu a gwybodaeth, defnydd cywir o derminoleg. Defnyddio ffyrdd gwahanol o gyfathrebu | Mae hyn yn cael ei gyfarch yn Amcan 3 (pwyntiau gweithredu ar arolwg o hygyrchedd gwasanaethau, hygyrchedd y wefan ac amgueddfeydd). |
| Ymgysylltu gyda grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol a chefnogi'r grwpiau hynny er mwyn sicrhau llefydd diogel i gyfarfod, | Mae rhan gyntaf hyn yn cael ei gyfarch yn Amcan 2. Mae gan y Cyngor nifer o ffyrdd i gefnogi grwpiau cymunedol yn barod. Rydym yn annog unrhyw fudiad sydd eisiau cyfrannu |

| Mater a godwyd | Sylwadau |
|---|---|
| arweiniad a chefnogaeth i'r trydydd sector i wneud y gwaith gyda'r Cyngor. | at yr agenda cydraddoldeb i gysylltu ar cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru er mwyn trafod ac efallai dod y rhan o'n Grŵp Craidd Cydraddoldeb. |
| Materion Tai – diogelwch, mwy o dai cymdeithasol o safon, | Pasio'r wybodaeth ymlaen i'r Adran. |
| Materion Cymraeg tu allan i gyflogaeth – gwersi Cymraeg am ddim, teimlad fod yr iaith Gymraeg yn arwain at wahaniaethu, angen sicrhau fod cyfarfodydd y Cyngor yn digwydd yn y Gymraeg gyda chyfieithu yn hytrach na throi i'r Saesneg. | Mae rhai o'r materion sydd wedi eu codi yn fater i Bolisi Iaith y Cyngor ac mae'r sylwadau'n cael eu pasio ymlaen i'r gwasanaeth. Mae ariannu gwersi Cymraeg (i'r rhai sydd ddim yn gweithio i'r Cyngor) yn fater i Lywodraeth Cymru ond mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Menter Iaith Gwynedd i roi cyfleoedd i bobl ymarfer a magu hyder yn yr iaith. |
| Hyfforddiant i staff – allanoli hyfforddiant, hyfforddiant ail-bennu rhywedd, hyfforddiant ar agweddau gwahanol o gyfathrebu, niwroamrywiaeth, Iaith Arwyddion Prydeinig, ymwybyddiaeth amhariad synhwyrol, ym maes cyflogaeth) | Mae'r Cyngor yn defnyddio darparwyr arbenigol i roi hyfforddiant penodol yn barod, ac mae pwynt gweithredu ar hyfforddiant wedi ei gynnwys yn Amcan 3 |
| Hybu dealltwriaeth o gydraddoldeb yn y gymdeithas gyfan | Mae'r rhan fwyaf o staff y Cyngor yn byw yng Ngwynedd felly bydd unrhyw waith sy'n cael ei wneud yn y pwynt gweithredu hyfforddiant yn cyfrannu at hyn. Mae pwynt gweithredu wedi ei gynnwys yn Amcan 1 am fod yn arweinydd yn y maes yma o fewn cyflogaeth. |
| Dylid cael a gweithredu strategaeth Gwrth-hiliol | Rydym wedi ystyried Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru ac wedi cynnwys materion fel rhan o'r Amcanion drafft |
| Ystyried twristiaid | Bydd y newidiadau i'n gwefan, ac amgueddfeydd a chelfyddydau (Amcan 3) yn berthnasol i hyn. |
| Hyfforddiant digidol i'r cyhoedd, yn enwedig pobl sydd wedi ei heithrio | Pasio'r wybodaeth i'r gwasanaeth perthnasol |
| Trafnidiaeth cyhoeddus – ar gyfer pobl anabl yn benodol, ond er mwyn i bawb allu cyrraedd gwasanaethau, swyddi a chyfleusterau | Mae arolwg o'r system drafnidiaeth cyhoeddus yn digwydd ar hyn o bryd fel rhan o strategaeth arall |

| Mater a godwyd | Sylwadau |
|---|---|
| Ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol wrth weithredu | Mae'r Cyngor eisoes yn gofyn am ystyriaeth i hyn fel rhan o'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol pan mae polisi neu ffordd o weithio yn cael ei newid neu ei gychwyn |
| Hybu cydraddoldeb drwy Caffael (sicrhau fod pawb sy'n gwneud gwaith i'r Cyngor yn cydymffurfio â disgwyliadau yn y maes) | Mae gan Cyngor Gwynedd opsiynau cymdeithasol yn ei gontractau |
| Materion Aelodau – mwy o amrywiaeth oedran ayb o ran Aelodau, cwota o bobl anabl | Mater i'r ymgeiswyr, y pleidiau, ac, yn fwyaf penodol, I'r etholwyr yw pwy sy'n cael eu hethol, ond mae'r Cyngor eisoes yn gweithio i annog mwy o ymgeiswyr amrywiol. |
| Sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roi i bob nodwedd, a phawb o fewn y nodweddion hynny, i sicrhau cydbwysedd. | Rydym wedi ystyried y nodweddion gwarchodedig i gyd wrth greu'r Amcanion. Mae cwestiwn am hyn wedi ei roi yn yr holiadur sy'n cyd-fynd a'r ddogfen ymgynghori. |
| Gwella hygyrchedd yr Amcanion | Mae pob ymgais yn cael ei wneud i wneud yr Amcanion mor hygyrch a phosib. Mae fersiynau hawdd i'r ddarllen yn cael eu creu hefyd. |
| Atebolrwydd ar y Cynllun, yn rheoliadd ac yn dryloyw | Rydym yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol yn unol â chanllawiau'r Ddeddf Cydraddoldeb |
| Gweithredu bob dydd, dim angen am yr arolwg yma, prif-ffrydio cydraddoldeb | Mae'n ofyn statudol i'r Cyngor ail-asesu ei Amcanion bob 4 blynedd a hefyd i gynnwys barn pobl â nodweddion cydraddoldeb wrth wneud hynny. Mae Cabinet y Cyngor wedi adnabod cydraddoldeb fel un o'i flaenoriaethau yn Cynllun y Cyngor. |

Rydym wedi hepgor ambell i sylw oedd, yn anffodus, yn gwahaniaethu yn erbyn nodweddion gwarchodedig gwahanol.

**Materion Gweithredol**

Roedd nifer o bobl wedi tynnu ein sylw at faterion gweithredol. Byddwn ni'n pasio'r sylwadau yma ymlaen i'r gwasanaethau sy'n delio â'r materion yma. Roedd y rhain yn cynnwys casglu biniau ac ail-gylchu, gwella canol trefi, materion newid hinsawdd a chynaladwyedd, Cynllun y Cyngor, torri gwair, cyflogaeth, trethi, parcio, materion strydoedd a lonydd, ail gartrefi, gweithio mewn partneriaeth, materion gwasanaethau gofal, creu swyddi o ansawdd, ymgysylltu yn gyffredinol, hyfforddiant ar anghenion busnesau, ymddygiad Aelodau, addysg, ymddygiad gwrth-gymdeithasol, parthau 20 mya, cyflogau penodol, awyrgylch ardaloedd gwledig, twristiaeth ayb.

Roedd yna hefyd nifer o sylwadau ynglŷn â'r Cyngor yn gyffredinol e.e. dod a pobl i mewn o'r tu allan er mwyn cael syniadau newydd, derbyn syniadau o'r tu allan, gweithio'n effeithiol er mwyn gwneud arbedion ariannol, mwy o graffu, swyddi Cyngor yn Ne Meirionnydd, dyrchafu pobl ar sail haeddiant

nid cysylltiadau, gweithredu mewn ffordd sy'n iawn i bobl Gwynedd nid oherwydd daliadau plaid gwleidyddol, datblygu staff, arweinyddiaeth positif, tryloywder o ran gwariant.  Mae'r sylwadau yma hefyd yn cael eu pasio ymlaen i'r swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor.

**Materion tu allan i gylch waith y Cyngor**

Nid ydym yn gyfrifol am rai o'r pethau sydd wedi eu codi yma.  Mae'r rhain yn cynnwys materion meddygol a iechyd, ffordd osgoi, rhoi mwy o arian i deuluoedd incwm isel, materion Ynys Môn, materion Parc Cenedlaethol Eryri, stadau tai cymdeithasol, materion busnesau preifat (tra'n derbyn ein dyletswydd i hybu cyfle cyfartal), yr Heddlu, y gwasanaeth sifil (y Llywodraeth), rhwydweithiau ffôn, dŵr ac argaeau, y nifer o Aelodau, maint budd-daliadau, cyrsiau ymwybyddiaeth cyflymder.

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

## Amcanion Cydraddoldeb y Cyngor 2024-28

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

**Awdur:** Delyth Williams. Ymgynghorydd Cydraddoldeb

**Fersiwn:** 2

## CAM 1

**1. Beth sy’n cael ei asesu?**

- Gosod amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth Iaith Gymraeg)
- Cynigion prosiect newydd sydd yn effeithio ar staff, cymunedau neu ar hygyrchedd i'r amgylchedd adeiledig, e.e. gwaith adeiladu newydd neu addasiadau i adeiladau presennol, symud i wasanaethau ar-lein, hunanwasanaeth, newid lleoliad, ayb

**2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?**

Bwriad yr Amcanion Cydraddoldeb yw bod yn fframwaith ar gyfer y prif waith y byddwn yn wneud ym maes cydraddoldeb yn ystod y cyfnod dan sylw (2024-28) i sicrhau tegwch i bawb. Dylai’r Cyngor gymryd sylw o faterion cydraddoldeb ym mhopeth mae’n wneud, ond rhain fydd ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y cyfnod. Bydd yr Amcanion yn cael eu cynnwys yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28. Dylent wella ein gwasanaethau ar gyfer pobl â'r naw nodwedd gwarchodedig

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

Pobl Gwynedd - mae gan bob person o leiaf 5 nodwedd cydraddoldeb ac felly mae'n bwysig fod pawb yn gallu cymryd rhan.

Wedi dweud hynny, mae rhai grwpiau sydd yn bwysig i ni fel Cyngor sicrhau eu bod wedi cael y siawns i ymgysylltu, rhai sydd ddim bob tro yn cymryd rhan mewn ymgysylltiad o'r fath. Rydym felly wedi sicrhau ein bod wedi cysylltu gyda mudiadau perthnasol i roi gwybod iddynt am yr ymgysylltiad ac wedi siarad â grwpiau ac unigolion amrywiol fel rhan o'r gwaith. (gweler cwestiwn 5). Rydym hefyd wedi ymgysylltu gyda Grŵp Craidd Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd, sy'n grwp o gynrychiolwyr mudiadau sy'n ymwneud â phobl â nodweddion gwarchodedig (cydraddoldeb).

## CAM 2

**4. Ydych chi wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac a ydych wedi derbyn digon o wybodaeth i fynd ymlaen?**

Do

**Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud**

| **Ymgynghori / Ymgysylltu** | **Dyddiad** | **Cyfrifoldeb** | **Dull** |
|---|---|---|---|
| Gofynnwyd i’r Centre for Sign Sight Sound am y ffordd orau i ymgysylltu a dywedwyd y byddent yn helpu pobl i wneud wrth wneud eu gwaith arferol | Mai 2023 | Ymgynghorydd Cydraddoldeb | Y mudiad i weithredu |
| Gofyn i'r Grwp Hunan-adfocatiaeth roi eu barn ar y ddogfen hawdd ei ddarllen | Mai Mehefin 2023 | Ymgynghorydd Cydraddoldeb | Derbyn barn |
| Gofyn i'r swyddogion ffoaduriaid am y ffordd gorau i ymgysylltu | Mawrth 2023 | Ymgynghorydd Cydraddoldeb | Derbyn barn |
| Cyfarfod Te am Tri (Grwp adfocatiaeth) | 12/05/23 | Ymgynghorydd Cydraddoldeb | Wedi defnyddio sleidiau a sgwrs i ymgysylltu |
| Ymweliad a siop Galwch Acw | 18/05/23 | swyddogion cydraddoldeb | Rhoi cymorth i dderbynnydd gwasanaeth i lenwi holiadur hawdd ei ddarllen |
| Ymweld â Grŵp LHDTC+ GISDA, Caernarfon | 03/07/23 | Swyddogion cydraddoldeb | Defnyddio offer gweledol i ymgysylltu gyda'r pobl ifanc |
| Grwp Gofalwyr Ifanc Arfon | 11/07/23 | Swyddogion Cydraddoldeb | Defnyddio offer gweledol i ymgysylltu gyda'r pobl ifanc |
| Grwp Mynediad Arfon | 12/07/23 | Ymgynghorydd Cydraddoldeb | Trafodaeth am yr holiadur |
| Grwp Gofalwyr Ifan Arfon (11 - 18 oed) | 18/07/23 | Swyddogion cydraddoldeb | Defnyddio offer gweledol i ymgysylltu |
| Ymweld â Unique Transgender Network | 03/08/23 | Swyddogion cydraddoldeb | Sgwrs i ymgynghori |
| Mynd i Balchder Gogledd Cymru, Caernarfon | 24/06/23 | Swyddogion cydraddoldeb | Rhoi allan codau QR, gofyn i bobl lenwi holiadur byr |
| Ymweld a digwyddiad Boccia ym Mhorthmadog | 04/09/23 | swyddogion cydraddoldeb | rhoi'r siawns i fynychwyr ag amrywiol amhariadau i lenwi holiadur byr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grŵp Craidd Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd | 18/04/23 & 05/07/23 | Swyddogion cydraddoldeb | Holi am yr amcanion yn gyffredinol |
| Holiadur ar ffurf electroneg a phapur | Ebrill - Awst 2023 | | Ar gael mewn fersiynau hawdd ei ddarllen, Wcrainaidd a Dari. Hysbysebu drwy wefannau cymdeithasol, papurau, Newyddion Gwynedd, taflenni hefo codau QR, ar y wefan a thrwy'r amrywiol fudiadau gan gynnwys y Grwp Craidd Cydraddoldeb |

**5. Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith**

| **Nodwedd cydraddoldeb** | **Tystiolaeth** | **Effaith** |
|---|---|---|
| **Cyffredinol** | **YMGYSYLLTIAD:**<br><br>Mae'r adroddiad llawn ar yr ymgynghoriad i'w weld yma. Roedd mwy o bobl o blaid nag yn erbyn pob un o'r amcanion ac roedd nifer yn ansicr. Roedd rhywfaint o amrywiad yn ôl nodwedd, a nodir isod. Derbyniwyd hefyd amrywiaeth o syniadau ar gyfer materion ychwanegol i'w cynnwys.<br><br>Anfonwyd e-bost at bob un o'r sefydliadau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion cydraddoldeb ar ein cronfa ddata i hysbysebu a hyrwyddo'r holiadur ac i gynnig ymweliad.<br><br>**DATA:**<br><br>Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gogledd Cymru wedi ariannu dogfen ddata, wedi ei gomisiynu gan Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus | Ein bwriad yw addasu'r asesiad yma'n barhaus dros y misoedd nesaf a bydd unrhyw wybodaeth rydym ni'n gael o'r ymgysylltiad o gymorth i ni wrth wneud hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| | Gogledd Cymru. Mae'r ddogfen yma, [Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Data a Thystiolaeth](), yn dilyn dogfen gomisiynwyd yn 2020 a oedd wedi ei seilio ar ddogfen *A yw Cymru'n Decach?* 2018 gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rydym yn disgwyl y bydd y Comisiwn yn cyhoeddi fersiwn nesaf y ddogfen yma erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r ddogfen yma yn casglu'r wybodaeth ddiweddaraf o ffynonellau amrywiol ac felly'n ddefnyddiol iawn ar gyfer creu'r Amcanion diwygiedig. | |
| **Hil** | **YMGYSYLLTU:**<br><br>**Dull:**<br>Mae rhai grwpiau lleiafrif ethnig wedi eu cynrychioli ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb: Mudiad Indiaid a Ffrindiau, Mudiad Affrica Gogledd Cymru. Grwpiau Ffoaduriaid. Mae eraill wedi eu gwahodd ond heb dderbyn.<br><br>Crëwyd holiadur Hawdd ei Ddarllen (defnyddiol ar gyfer pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg a Saesneg fel iaith gyntaf), ynghyd â chopïau Dari ac Wcreineg i'r grwpiau ffoaduriaid. Rhoddwyd neges am ddarparu iaith neu fformat arall yn ôl yr angen ar yr holiaduron a'r negeseuon hysbysebu.<br><br>Addawodd cynrychiolydd Mudiad Affrica Gogledd Cymru i roi gwybodaeth ar eu tudalen Facebook.<br><br>**Canlyniad**:<br><br>Roedd 43.2% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn Gymreig, 23.5% yn Brydeinig a 15.6 yn Seisnig. Roedd 82.6% o'r rhai gwblhaodd yr holiadur yn Wyn, dipyn llai na'r canran sirol (gweler isod). Mae llai o bobl o ethnigrwydd Asiaidd wedi ei lenwi hefyd, gyda mwy o bobl o gefndiroedd Du ac unrhyw ethnigrwydd arall | Mae'r gwaith ymgynghori wedi cael effaith gadarnhaol gan ein bod wedi hwyluso pobl o gefndir lleiafrif ethnig i gymryd rhan mewn penderfyniadau.<br><br>Mae'r data yn dangos yn glir fod yna rwystrau yn wynebu pobl o grwpiau lleiafrif ethnig, a hynny'n amrywio yn ôl y grŵp dan sylw.<br><br>Bwriad yr Amcanion yw gwella'r ffordd rydym yn gweithio er mwyn lleihau unrhyw rwystrau sy'n wynebu pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig.<br><br>Wrth sôn am yr Amcanion newydd, bydd Amcan 1 yn bositif i bobl o wahanol gefndiroedd ethnig gan y bydd yn cynnwys ffyrdd o wella amrywiaeth ein gweithlu a denu mwy o bobl o leiafrifoedd ethnig i ymgeisio am swyddi. |

| | | |
|---|---|---|
| | na'r canrannau yng Ngwynedd. Rhaid bod yn ofalus wrth gwrs gan fod y niferoedd yn eithaf isel.<br><br>Nid oes unrhyw wahaniaethau ystadegol wedi ei adnabod o ran hil wrth lenwi'r holiadur ond mae rhai sylwadau wedi eu gwneud o ran hil. Roedd rhai o'r rhain ynglŷn a'r angen i ystyried y Cynllun Cydraddoldeb Cymru Gwrth Hiliol. Ond roedd nifer ohonynt ynglŷn â'r teimlad fod y Cyngor yn gwahaniaethu yn erbyn pobl di-Gymraeg, beth bynnag eu tarddiad ethnig.<br><br><br>**DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth**<br>Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos fod llai o bobl Gwynedd yn adnabod eu hunain fel Gwyn (96.2%) na gweddill siroedd y gogledd heb law am Wrecsam (96%). Roedd 66.6% yn nodi eu bod wedi eu geni yng Nghymru, llai na Wrecsam a tebyg i Ynys Môn. 59% yn nodi eu bod yn Gymraeg, rhai canrannau'n uwch na gweddill y siroedd.<br><br>Mae'r data'n dangos fod cefndir ethnig yn cael effaith ar fywydau pobl yn ystadegol o'r cychwyn - e.e. mae plant o gefndir Tseiniaidd yn fwy tebygol o gyrraedd y deilliant ddisgwyliedig yn y cyfnod sylfaen na'u cyfoedion, tra mae plant o "unrhyw gefndir ethnig arall" (h.y. sydd ddim yn cael eu hadnabod fel o gefndir Gwyn, Du, Tseiniaidd, Asiaidd neu Gymysg) yn llai tebygol o wneud hynny (ystadegau am Gymru). Yn sir Gwynedd roedd graddau cyflogaeth pobl Wyn yn 74.% (ffigwr canolig i Ogledd Cymru) tra roedd cyflogaeth pobl o leiafrif ethnig yn 53% (sef y sir isaf ond un). Ond roedd canran o bobl Gwyn oedd wedi cael gradd neu gymhwyster uwch yn is). | Mae bwriad hefyd i edrych ar, ac esbonio, y sgiliau sy'n ddisgwyliedig wrth ymgeisio am swyddi, gan gynnwys yr disgwyliadau o ran iaith.<br><br>Bydd Amcan 2 yn bositif oherwydd mae'n glir fod diffyg data am hil yn lleol.<br><br>Disgwylir i Amcan 3 fod yn bositif gan y bydd yn sicrhau hyfforddiant gwrth-hiliaeth, fydd yn sicrhau fod anghenion pobl o wahanol gefndiroedd ethnig yn cael eu hystyried ac y byddwn yn edrych ar naratif ein amgueddfeydd.<br><br>Bydd amcan 4 yn bositif gan fod rhai grwpiau, yn arbennig dysgwyr gwrywaidd Du a phlant o gefndir sipsiwn a theithwyr, â chyrhaeddiad is yn y dosbarth na grwpiau eraill. Bydd hefyd yn mynd I'r afael a materion fel bwlio. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r carfan o bobl Ddu yng Ngwynedd o aelwyd heb gar neu fan yn llawr uwch nag unrhyw grwp ethnig arall, ac yn llawer uwch nag unrhyw sir arall yng Ngogledd Cymru. Grwp ethnig Gwyn sy'n lleiaf tebygol o fyw yn y math yma o aelwyd. Gall bod heb gar neu fan fod yn arwydd o anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Yng Ngwynedd pobl o gefndir Du sy'n lleiaf tebygol o fyw mewn cartrefi gorlawn (1%) tra pobl o grwpiau lleiafrif eraill (h.y. sydd ddim yn uniaethu fel Du, Gwyn, Asiaidd na Cymysg) sy'n fwyaf tebygol o fyw mewn tai gorlawn (12%).<br><br>Mae ymhell dros hanner yr holl droseddau casineb sy'n cael eu cofnodi gan Heddlu Gogledd Cymru yn ymwneud â hil (sy'n cynnwys cenedligrwydd) – sef 58% yn 2021/22.<br><br>Mae'r nifer o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ychydig yn uwch yng Ngwynedd (0.09.5% o'r boblogaeth) na Gogledd Cymru (0.083%). Mae'r nifer o bobl Roma ychydig yn is (0.038% i'w gymharu â 0.039%). Roedd 14 carafán ar safle swyddogol ac 8 ar safle answyddogol ar 21 Gorffennaf 2022 (allan o 271 yng ngogledd Cymru i gyd)<br><br>Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi fod hi'n debyg fod Covid-19 wedi cael effaith ar blant oedd yn perfformio'n llai da cyn y pandemig e.e. dysgwyr Du, a rhai dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithio. Roedd hefyd wedi cael mwy o effaith o ran gwaeledd a marwolaeth ymysg pobl o leiafrifoedd ethnig.<br><br>**Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol:**<br>Mae'r Cynllun yma'n rhoi arweiniad i ni ar y materion sydd angen eu cyfarch yn y maes yma. Wrth ystyried ffactorau lleol, rydym ni'n adnabod y meysydd yma | |

| | | |
|---|---|---|
| | yn benodol: addysg, gwaith, casglu data, sicrhau ein bod yn gweithio mewn modd gwrth-hiliol, a thai. | |
| **Anabledd** | **YMGYSYLLTU:**<br><br>**Dull:**<br>Mae grwpiau anabledd wedi eu cynrychioli ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb: Grŵp Hunan-Adfocatiaeth NWAAA (pobl ag anabledd dysgu), Grwpiau Mynediad (pobl ag amhariad corfforol), Grŵp CoS (pobl F/fyddar). Mae eraill wedi eu gwahodd ond heb ymuno.<br><br>Addawodd COS i'n helpu trwy gynnig cefnogaeth i'r aelodau maent yn cyfarfod â hwy fel rhan o'u gwaith bob dydd i ddeall a llenwi'r holiadur. Ymwelodd y swyddogion cydraddoldeb â: Grŵp Mynediad Arfon (ar-lein) i drafod yr holiadur ac annog aelodau i'w lenwi; Grwp Te am Tri (ar-lein) sef grŵp hunan adfocatiaeth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, gan ddefnyddio sleidiau i esbonio'r sefyllfa a gofyn barn; digwyddiad Boccia lle roedd grwpiau â gwahanol amhariadau'n cyfarfod gan ddefnyddio fersiwn byr o'r holiadur; Grwpiau Gofalwyr Ifanc (7-11 oed ac 11-18 oed) ble defnyddiwyd sleidiau a sgwrs.<br><br>**Canlyniad:**<br><br>Mae'r canran o bobl sy'n adnabod eu hunain fel person anabl ac wedi ateb yr holiadur (19.6%) yn debyg iawn i'r ganran yng Ngwynedd (19.2%). Mi wnaethon i hefyd ymgynghori a grwpiau penodol, gweler uchod.<br><br>Roedd canran uwch o bobl anabl, o'i gymharu â phobl oedd wedi nodi nad oeddynt yn anabl, yn teimlo fod ymgysylltu (Amcan2 ) yn bwysig ar gyfer ei | Mae'r ymgysylltiad wedi cael effaith gadarnhaol gan ein bod wedi hwyluso pobl â gwahanol amhariadau i gymryd rhan mewn ymgynghoriad ar amcanion cydraddoldeb y Cyngor.<br><br>Mae'r data yn dangos yn glir fod yna rwystrau yn wynebu person anabl mewn nifer o feysydd, gan gynnwys mynediad at wasanaethau, adeiladau, swyddi a gwybodaeth.<br><br>Wrth sôn am yr Amcanion newydd, disgwylir i Amcan 1 fod yn bositif ar gyfer pobl anabl gan ein bod yn anelu i weithio tuag at lefel 3 Hyderus o ran Anabledd. Rhagwelir y bydd y gwaith arall i hybu amrywiaeth ein gweithlu hefyd yn bositif i bobl anabl.<br><br>Bydd Amcan 2 ar ddata hefyd yn bositif oherwydd byddwn yn casglu mwy o ddata am bob maes ac mae croes-doriadaeth am fod yn bwysig. Bydd hefyd yn cyfarch yr angen i ymgysylltu â phobl anabl a grwpiau mewn ffyrdd addas. |

| | | |
|---|---|---|
| | gynnwys y tro hyn. Roedd y canran o bobl anabl a ddywedodd eu bod yn cefnogi amrywiaeth yn y gweithlu (Amcan 5) yn uwch hefyd.<br><br>Wrth ymateb i'r holiadur, ac wrth ymgysylltu gyda grwpiau, dywedodd nifer o bobl fod hyfforddiant yn arbennig o bwysig ym maes anabledd. Nodwyd nifer o bynciau e.e. ymwybyddiaeth o awtistiaeth, Braille, BSL a iechyd meddwl (sôn am gydweithi ag ICAN). Roedd addasiadau o fewn cyflogaeth yn flaenoriaeth hefyd gyda rhai'n sôn am Cam 3 Hyderus o ran Anabledd, cymorth o amgylch cyfweliadau a mentora. Soniwyd yn arbennig hefyd am ddealltwriaeth, anghenion mynediad (at wasanaethau, gwybodaeth, adeiladau a mannau cyhoeddus gan gynnwys parcio addas), a therminoleg, trafnidiaeth a thoiledau addas. Gweler hefyd y sylwadau yn Oedran.<br><br>**DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth**<br>Dangosir fod llai o bobl yng Ngwynedd wedi nodi eu bod yn anabl yn Cyfrifiad 2021 nag unrhyw sir arall yng ngogledd Cymru heb law am un. Wedi dweud hynny, mae'r nifer yn 19%, bron iawn i 1 person o bob 5. Mae bron i 10% mwy o ferched yn anabl na dynion. Mae'r canran fwyaf o bobl anabl yn yr oedran 45-69 yng Ngwynedd, gydag ychydig llai yn yr oedran 70+.<br><br>Mae'r data'n dangos fod y nodwedd yma'n cael effaith ar lawer o rannau o fywyd. Yn 2021-22 roedd 74% o bobl sydd ddim yn anabl yn sir Gwynedd mewn gwaith (sy'n union fel y cyfartaledd yng ngogledd Cymru) ond dim ond 43% sy'n gweithio (5% yn is na'r carfan yng Ngogledd Cymru). Yng Nghymru mae'r gwahaniaeth mewn tâl (pay gap) rhwng pobl anabl a phobl sydd ddim yn anabl yn 11.6% (nid oes data mwy lleol). 3% o brentisiaid sy'n nodi anabledd sy'n effeithio eu dysgu. | Bydd Amcan 3, ar wrth-wahaniaethu, yn bositif gan y bydd yn ystyried darpariaeth amgueddfeydd, hygyrchedd y wefan ac yn cymryd anghenion a hawliau pobl anabl i ystyriaeth wrth newid polisïau a ffyrdd o weithio. Rydym wedi cychwyn ar y gwaith a bydd ystod o hyfforddiant ar feysydd anabledd yn cael eu cynnig yn ystod y 4 blynedd<br><br>Bydd dysgwyr yn yr ysgolion hefyd yn cael effaith bositif oherwydd Amcan 4, sydd yn delio a bwlio a chyrhaeddiad.<br><br>Disgwylir i'r Amcanion fod yn bositif ar gyfer gofalwyr hefyd am resymau tebyg. |

| | | |
|---|---|---|
| | Yng Ngwynedd, yn ôl y cyfrifiad, roedd dros 23% o anheddau â phenteulu anabl heb fynediad at gar neu fan. Mae hyn yn cymharu â 10% o deuluoedd gyda phenteulu sydd ddim yn berson anabl. Mae’r ganran sy’n byw ar aelwydydd heb gar neu fan yng Ngogledd Cymru yn ôl statws iechyd ar ei uchaf ar gyfer y rhai mewn iechyd gwael neu wael iawn (29.8%), ac isaf ymhlith y rhai mewn iechyd da iawn neu dda (9.5%). Mae hyn yn gyson gyda'r patrwm yng Ngwynedd hefyd<br><br>Er fod hyn yn cymharu'n ffafriol â'r bwlch yng Ngogledd Cymru, mae o'n bryder mewn sir mor wledig. Yn ystod 2021/22 cwblhawyd 100% o DFG oedd wedi eu cymeradwyo yng Ngwynedd, ond roedd y niferoedd yn isel iawn yma.<br><br>Mae'r nifer o bobl sy'n adnabod eu hunain fel gofalwyr yn is yng Ngwynedd na siroedd eraill y gogledd. Mae'n debyg fod niferoedd yn isel yn gyffredinol oherwydd nad yw pob person allai adnabod eu hunain fel gofalwyr yn gwneud hynny. Mae pobl rhwng 50 a 64 mlwydd oed yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr nag unrhyw oedran arall a merched yn fwy tebygol na dynion (13.1% i'w gymharu â 10%). Mae pobl sy'n ofalwyr yn fwy tebygol o adrodd fod eu hiechyd yn weddol neu'n wael nag ydynt i ddweud ei fod yn dda. Mae hyn yn wahanol iawn i ran fwyaf y boblogaeth, ble mae'r mwyafrif yn dweud eu bod mewn iechyd da iawn neu dda.<br><br>Mae pobl anabl yn un o'r grwpiau sy'n fwyaf tebygol o brofi allgau digidol. Cofnodwyd 248 digwyddiad o drosedd casineb ar sail anabledd yn 2021/22, codiad o 359% ers 2016/17.<br><br>Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi fod pobl anabl yn fwy tebygol o farw o Covid-19, ac i brofi caledi ariannol. Hefyd y risg y gallai dysgu o bell fod wedi cynyddu anghydraddoldeb ar gyfer disgyblion na berfformiodd | |

| | | |
|---|---|---|
| | cystal yn yr ysgol cyn Covid-19, gan gynnwys disgyblion sydd angen cymorth mewn addysg.<br><br>**Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19:**<br>Mae'r adroddiad yma yn nodi data a phrofiad bywyd pobl anabl yn ystod argyfwng Covid-19. Mae'r rhan fwyaf o'r hyn sydd ynddo wedi anelu at Llywodraeth Cymru ond mae'r data'n ddefnyddiol ar gyfer awdurdodau lleol hefyd. Mae'r adroddiad yn nodi fod pobl anabl yn dweud fod y model cymdeithasol o anabledd wedi colli tir a'r model meddygol yn cael ei ddefnyddio fwyfwy. Roedd mwy na hanner y bobl fu farw o Covid-19 yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn anabl a dywedir fod y ffactorau cymdeithasol yn reswm mawr dros hyn, e.e. gofal iechyd israddol i bobl anabl (yn enwedig pobl ag anabledd dysgu), diffyg PPE a thai anaddas. Mae hefyd yn nodi fod pobl anabl wedi ei chael yn anodd i gael gwasanaethau addas yn ystod yr argyfwng a roedd trafnidiaeth yn broblemus hefyd. | |
| **Rhyw** | **YMGYSYLLTU:**<br><br>**Dull:**<br>Er i ni wahodd grwpiau, ac i rai fynychu yn y gorffennol, nid oes yn bresennol unrhyw fudiadau yn cynrychioli dynion na merched ar y Grwp Craidd Cydraddoldeb. Nid oedd unrhyw gyswllt penodol wedi ei wneud hefo mudiadau yn cynrychioli'r nodwedd yma yn ystod yr ymgynghoriad.<br><br>**Canlyniad**:<br>Roedd y nifer o ferched a dynion wnaeth gwblhau'r holiadur yn eithaf hafal. Mae canran uwch o ferched, nag unrhyw gategori rhyw arall (dynion, gwell gennyf beidio a dweud a dim ateb), wedi dweud fod Ymgysylltu (Amcan 2), | Nid oes unrhyw effaith o'r ymgysylltiad gan nad ydym wedi gwneud unrhyw beth ychwanegol i ymgysylltu gyda pobl â'r nodwedd yma.<br><br>Mae'r data yn dangos yn glir fod yna rwystrau yn bodoli yn ymwneud â rhyw. Rhagwelir y bydd Amcan 1 yn cael effaith bositif yn arbennig ar ferched oherwydd y pwyntiau gweithredu ar y bwlch tâl.<br><br>Dylai Amcan 2 fod yn bositif ar gyfer dynion a merched oherwydd mae bob |

| | | |
|---|---|---|
| | Asesu effaith ( Amcan 3 ), ac Amrywiaeth Gweithlu (Amcan 5) yn bwysig i'w gynnwys tro hyn.<br><br>**DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth**<br>Mae 51.09% o boblogaeth Gwynedd yn fenywaidd.<br><br>Yng Nghymru, mae'r canran o enethod sy'n cyrraedd y canlyniad ddisgwyliedig yn y cyfnod sylfaen yn uwch na bechgyn ym mhob blwyddyn rhwng 2017 a 2019. Mae'r nifer sy'n cyrraedd Lefel 2 ym Mlwyddyn 11 yn 2018/19 yng Ngwynedd yn uwch ymysg genethod na bechgyn, er fod yr gwahaniaeth yn isel o'i gymharu â gogledd Cymru yn ei gyfanrwydd. Mae mwy o ferched yn adrodd iddynt gael eu bwlio (37% i 33%).<br><br>Mae mwy o bobl yng Ngwynedd oed 25-65 gyda gradd na siroedd eraill y gogledd, sef 45.8% a 36.2% o ddynion. Mae mwy o ferched yn derbyn hyfforddiant yn gysylltiedig a swydd yng Ngwynedd yn 2021-22 (23.1% i 15.4% - ffigyrau'r sir nid yr Awdurdod Lleol). Mae 72% o boblogaeth gwrywaidd (16-64 oed) Gwynedd mewn gwaith, a 75% o ferched (gwahaniaeth llai na'r gogledd yn ei gyfanrwydd). Mae mwy o fenywod na dynion yn gweithio fel prentisiaid hefyd. Roedd y bwlch tâl o ran rhywedd (gender pay gap) yn 2022, sef 8.6%, yn llai nag unrhyw sir yn y gogledd heb law am Ynys Môn (ffigyrau y siroedd nid gweithlu'r Awdurdodau Lleol, wedi ei selio ar leoliad cartref, nid man gwaith). Mae canran uwch o fenywod (28.2% i 25.9%) yng Ngwynedd mewn swyddi â tal uchel. Ond ar y llaw arall mae 44.8% o fenywod mewn swyddi tal isel o'u cymharu a 21.9% o ddynion.<br><br>Yng Ngwynedd roedd bron i 70% o'r teuluoedd oedd dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael eu harwain gan fenyw - llawer uwch nag unrhyw sir arall | tro'n dda i gael data llawn. Bydd hefyd yn bositif I'r rhai sy'n adnabod eu hunain yn wahanol i ddynion a merched gan fod data yn anodd I'w gael ar hyn o bryd.<br><br>Positif hefyd fydd Amcan 3 gan fod gwarth-wahaniaethu yn ystyried pawb.<br><br>Bydd y pwyntiau gweithredu ar Addysg yn Amcan 4 yn arbennig o bositif ar gyfer carfannau o fechgyn, sydd a chyrhaeddiad is na merched yn gyffredinol, ond ar garfannau sy'n cael eu heffeithio gan groesdoriadaeth (e.e. dynion ifanc du). |

| | | |
|---|---|---|
| | yn y gogledd. Wedi dweud hynny, roedd 70% o deuluoedd oedd yn ddigartref ac angen cymorth yn cael eu arwain gan ddynion (gan gynnwys dynion unigol) - eto yr agendor mwyaf yn y gogledd.<br><br>Mae ystadegau'n dangos fod merched yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr na dynion. Hefyd mae mwy o ferched yn nodi eu bod yn anabl na dynion. (Gweler Anabledd uchod). Mae merched ar gyfartaledd yn byw am fwy o flynyddoedd na dynion, ac mae'r gwahaniaeth tua 3 blynedd yng Ngwynedd.<br><br>Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, dangosodd data troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu fod 84.5% o ddioddefwyr troseddau rhywiol yn fenywod, gyda 90% o ddioddefwyr trais rhywiol a gofnodwyd yn fenywod ac 81.2% o ddioddefwyr troseddau rhywiol eraill hefyd yn fenywod. Nid oes dadansoddiad o droseddau cam-drin domestig yn ôl nodweddion ar lefel leol, ond yng Nghymru a Lloegr roedd 74.1% o ddioddefwyr a gofnodwyd yn fenywod a 25.9% o ddioddefwyr a gofnodwyd yn ddynion yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2022. Mae merched yn un o'r grwpiau sydd yn teimlo'n llai diogel yn eu cymuned (yn enwedig wedi iddi dywyllu).<br><br>Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi fod mwy o bwysau a dibyniaeth ar ofalwyr di-dâl yn ystod argyfwng Covid-19, gyda menywod yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr di-dâl, oherwydd pwysau gofal cymdeithasol. Hefyd fod yr argyfwng wedi achosi mwy o gam-drin domestig (sydd yn effeithio mwy o ferched). Yn ogystal y risg y gallai dysgu o bell fod wedi cynyddu anghydraddoldeb ar gyfer disgyblion na berfformiodd cystal yn yr ysgol cyn Covid, gan gynnwys bechgyn. | |
| **Oedran** | **YMGYSYLLTU:**<br><br>**Dull:** | Mae'r gwaith ymgysylltu wedi cael effaith gadarnhaol gan ein bod wedi hwyluso pobl hŷn a phobl ifanc i gymryd rhan |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae rhai grwpiau oedran wedi eu cynrychioli ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb:  Cyngor Pobl Hŷn, Age Cymru Gwynedd a Môn, Grŵp LHDTC+ GISDA, Yr Urdd.<br><br>Ymwelodd y swyddogion cydraddoldeb â 2 grŵp o ofalwyr ifanc, 1 grwp yn 7-11 oed a'r llall yn 7-18 oed.  Defnyddiwyd sleidiau a dulliau amgen i feithrin sgwrs.  Hefyd bu cyfarfod gyda Grwp LHDTC+ GISDA ble defnyddiwyd dulliau amgen i ymgysylltu.  Ymwelwyd hefyd â digwyddiad Boccia lle roedd grwpiau â gwahanol amhariadau, gan gynnwys Dementia, yn cyfarfod.  Defnyddiwyd fersiwn byr o'r holiadur i'w holi.  E-bostiwyd pob un o'r mudiadau sy'n cynrychioli pobl a nodweddion cydraddoldeb sydd ar ein bas-data i hysbysebu a hyrwyddo'r holiadur a chynnig ymweld â hwy.<br><br>**Canlyniad:**<br><br>Ychydig o bobl ifanc dan 25 oed gwblhaodd yr holiadur ond gan ein bod wedi ymweld â'r mudiadau uchod, rhoddwyd siawns i fwy ohonynt rannu eu barn.<br><br>Mae canran uwch o'r ymatebwyr 25 - 34 oed wedi nodi 'ddim yn siŵr' a canran llai ohonynt wedi nodi 'ydw' o gymharu â grwpiau oedran eraill ynglŷn â pharhau gyda'r amcan am hyfforddiant (Amcan 1).<br><br>Mae canran uwch o'r ymatebwyr yn y grŵp oedran 25-34 oed a 35-44 oed wedi dweud fod angen parhau i gynnwys asesiadau effaith (Amcan 3).<br><br>Mae canran uwch o'r ymatebwyr yn y grwpiau oedran 35-44 oed ac 55-64 oed yn nodi 'ydw', tra bod canran uwch o'r ymatebwyr yn grŵp oedran 25-34 oed yn nodi 'nac ydw'.<br><br>Rhai o'r materion a godwyd ynglŷn a phlant a pobl ifanc oedd: | mewn ymgynghoriad ar amcanion cydraddoldeb y Cyngor.<br><br>Mae'r data yn dangos yn glir fod yna rwystrau yn bodoli yn ymwneud ag oedran.<br><br>Disgwylir i Amcan 1 (amrywiaeth ein gweithlu a bwlch tâl) fod yn bositif ar gyfer carfanau oedran gwahanol.  Mae wrth gwrs am roi cymorth i bobl oed gwaith, yn arbennig rhai sydd â nodweddion penodol eraill (croesdoriadaeth).  Bydd hefyd o gymorth i bobl hŷn a phobl ifanc sy'n chwilio am waith.<br><br>Rhagwelir y bydd Amcan 2 (data) ac Amcan 3 (gwrth-wahaniaethu) yn bositif i bob oedran.  Mae hi bob tro'n ddefnyddiol i gael data llawn ac i gael dulliau gwrth-wahaniaethol.  Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer pobl a nodweddion cydraddoldeb penodol eraill (croesdoriadaeth).<br><br>Mae Amcan 4, am Addysg, yn amlwg am fod yn bositif i blant a phobl ifanc, eto yn arbennig oherwydd croesdoriadaeth. Mae'n delio a llesiant fydd yn cynnwys |

| | | |
|---|---|---|
| | • Yr angen i gadw pobl ifanc lleol yn eu cynefin, drwy gynnig cefnogaeth a sicrhau swyddi<br>• Dysgwyr angen mwy o gefnogaeth un i un ac ymyrraeth cynnar<br>• Iechyd meddwl pobl ifanc LHDTC+<br>• Mwy o sylw i anghenion gofalwyr ifanc yn yr ysgol, yn arbennig gallu cadw mewn cyswllt ag adra.<br>• Gwell hygyrchedd ar gyfer dysgwyr ag amhariadau corfforol yn yr ysgol<br>• Llefydd diogel i blant ag anawsterau dysgu a niwroamrywiaeth tu alla i'r ysgol<br><br>Rhai o'r materion a godwyd ynglŷn a phlant a pobl ifanc oedd:<br>• Anghenion pobl hŷn LHDTC+ sydd yn debygol o fod wedi cuddio eu hunaniaeth yn hanesyddol.<br>• Yr angen i glywed llais pobl hŷn.<br>• Yr angen i gefnogi pobl hŷn drwy gefnogi gofalwyr yn y gweithle<br><br>**DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth**<br>Mae mwy o unigolion dan 25 yng Ngwynedd nag unrhyw sir arall yn y gogledd (28.7%). Mae'r nifer o bobl dros 65 ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer gogledd Cymru.<br><br>Roedd cyrhaeddiad plant yng Ngwynedd ym mlwyddyn 11 yn 2018/19 yr uchaf yng ngogledd Cymru. Yn y cyfnod 2019-20 roedd 19% o fechgyn a 12% o enethod yn dweud eu bod wedi bwlio rhywun yn yr ysgol (gogledd Cymru). Mae 35% o blant oed uwchradd (blynyddoedd 7 i 11) yng ngogledd Cymru yn dweud eu bod wedi cael eu bwlio, sy'n is na'r cyfartaledd yn 2017/18 ond yn uwch na Cymru yn ei gyfanrwydd. Mi aeth y nifer o bobl ifanc oedd ddim | gofalwyr ifanc, dysgwyr â niwroamrywiaeth ac ati |

| | | |
|---|---|---|
| | mewn addysg, gwaith na hyfforddiant yng ngogledd Cymru i lawr yn sylweddol am y cyfnod 2020-22 i 12.8% sy’n debyg iawn i'r nifer yng Nghymru gyfan.  Mae hyn i'w gymharu a 14% yn 2018-20 (pan roedd cyfartaledd Cymru tua 13.1%).<br><br>Yn ystod Ebrill 21 - Mawrth 22 roedd 51% o bobl 16-24 mewn gwaith, ychydig is na'r cyfartaledd am y gogledd.  Roedd 89% o bobl 25-49 mewn gwaith (yn uwch na'r gyfartaledd rhanbarthol) a 66% o bobl 50-64 (is na'r gyfartaledd).<br><br>Yng Ngwynedd, y gyfran uchaf sy'n darparu gofal di-dâl yw'r rhai rhwng 50 a 64 oed (15.4%) ac mae'r isaf yn grŵp oedran 15 oed ac iau (1.1%).  Mae hyn yn debyg i weddill siroedd y gogledd.  Yng Ngwynedd, fel ym mhob sir, mae'r rhai sydd mewn iechyd gwael neu wael iawn yn cynyddu gydag oed, gydag 11.5% o bobl dros 65 yn y categorïau yna.<br><br>Mae’r ganran uchaf sy’n byw ar aelwydydd heb gar neu fan yng Ngogledd Cymru yn ôl oedran yn y grŵp oedran 65 oed a hŷn (17.8%), ac isaf yn y grŵp oedran 50 i 64 (9.1%).  Mae'r patrwm yma'n debyg i weddill y gogledd.  Ond yng Ngwynedd mae'r nifer o bobl 15-24 oed yn yr un sefyllfa (15.9%) yn nodweddiadol uwch na'r siroedd eraill.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn nodi fod pobl hŷn ymysg y grwpiau sy'n debygol o fod yn profi allgáu'n ddigidol (er bod defnydd oedolion hŷn o’r rhyngrwyd yn cynyddu).  Maent hefyd yn un o'r grwpiau sy'n teimlo yn anniogel yn eu cymuned.  Mae'r nifer o bobl sy'n mynychu digwyddiadau diwylliant a chelfyddydol yng Ngwynedd yn disgyn gydag oed - gyda jyst dros hanner o bobl 75+ ddim yn mynychu tri digwyddiad y flwyddyn.<br><br>Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi fod pobl hŷn yn debycach o farw o Covid-19, a fod hynny, a'r ynysu a brofwyd yn ystod yr | |

| | | |
|---|---|---|
| | argyfwng, yn debyg o gael effaith hir-dymor ar iechyd corfforol a meddyliol. Hefyd fod addysg, lefelau cyrhaeddiad a rhagolygon swyddi pobl ifanc wedi eu heffeithio. Yn ychwanegol mae risg y gallai dysgu o bell fod wedi cynyddu anghydraddoldeb ar gyfer plant a phobl ifanc oedd ddim yn perfformiodd cystal yn yr ysgol cyn Covid-19. | |
| **Crefydd a Chred** | **YMGYSYLLTU:**<br><br>**Dull:**<br>Mae rhai grwpiau crefydd wedi eu cynrychioli ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb: Canolfan Islamaidd Bangor, Cytûn (Cristnogol). Rydym ni wedi gofyn i grwpiau cred eraill i ymuno ond heb lwyddiant eto.<br><br>**Canlyniad:** .<br>Mae’r canrannau o ran cwblhau’r holiadur yn gymharol â’r canrannau yng Ngwynedd. Wedi dweud hynny, roedd llai o bobl oedd yn adnabod eu hunain fel Cristnogion, heb grefydd neu o grefydd arall, a roedd y nifer oedd wedi nodi Arall yn uwch.<br><br>Mae sylwadau wedi eu gwneud am grefydd yn yr holiadur, sef fod y Cyngor yn wrth-Gristnogol a a fod angen gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer defodau crefyddol.<br><br>**DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth**<br>Mae 46.2% o bobl Gwynedd yn adnabod eu hunain fel Cristnogion, ac mae hynny'r canran isaf yng Ngogledd Cymru. Dywedodd 44.2% fod ganddynt ddim | O ran yr ymgysylltiad, heb law am y trefniadau uchod ni wnaeth unrhyw waith ychwanegol i gysylltu hefo pobl o grefyddau a chredoau. Ond roedd siawns i bawb gyfrannu felly mae'r effaith yn gadarnhaol.<br><br>Mae'r data yn dangos yn glir fod yna faterion i'w cyfarch ynglŷn â chrefydd a chred.<br><br>Rhagwelir y bydd Amcan 1 (cyflogaeth) yn bositif oherwydd bydd yn cymryd i ystyriaeth anghenion credoau gwahanol. Bydd casglu data yn Amcan 2 hefyd o fudd.<br><br>Bydd Amcan 3 (gwrth-wahaniaethu) yn bositif oherwydd byddwn yn ystyried credoau fel rhan o’r asesiadau effaith a bydd yn ran o’r ail-ystyriaeth ar naratif ein amgueddfeydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | crefydd, sef y canran uchaf yn y gogledd. Roedd y canran wnaeth ddim ateb hefyd yr uchaf yn y rhanbarth, sef 7.5%. Mae 1% o'r boblogaeth yn Foslem.<br><br>Pobl sydd heb ateb y cwestiwn ar grefydd yw'r rhai lleiaf tebyg i o fod â gradd (38%), a'r rhai heb grefydd wedyn (39%) a Christnogion (42%). Mae'r crefyddau eraill yn eithaf hafal rhwng 55-60%. Mae'r patrwm yma yn debyg i un gogledd Cymru heb law fod y crefyddau yn y canol yn hafal ar tua 45-48%.<br><br>Roedd pobl Iddewig yng Ngwynedd yn llawer mwy tebygol o adnabod eu hunain fel gofalwyr (tua 17%), pobl o "grefyddau eraill" oedd yn ail (16%). Pobl oedd heb ateb y cwestiwn crefydd a chred (jyst o dan 5%) oedd yr isaf, a Moslemiaid (jyst dros 5%). Mae'n amlwg o edrych ar ganlyniadau'r gwahanol siroedd nad oes patrwm amlwg yma, mae'n debyg oherwydd niferoedd isel rhai crefyddau. Mae ffigyrau yn dangos fod pob o'r grefydd Mwslimaidd yn llai tebygol o adrodd fod ganddynt iechyd drwg neu ddrwg iawn yng Ngwynedd (1%), ac yna pobl Hindŵaidd (2%). Pobl o grefyddau eraill oedd yn fwyaf tebygol (11%). Eto rhaid bod yn ofalus oherwydd y ffigyrau isel.<br><br>Roedd 40 digwyddiad o drosedd casineb ar sail crefydd wedi eu cofnodi yng Ngogledd Cymru yn ystod 2021/22, codiad o 150% ers 2016/17 | Mae plant o rai crefyddau a chyrhaeddiad is na'u gilydd o ran cyrhaeddiad felly bydd Amcan 4 (Addysg) yn bositif. Bydd y pwynt gweithredu am fwlio hefyd yn bositif. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | **YMGYSYLLTU**<br><br>**Dull:**<br>Mae grwpiau LHDTC+ wedi eu cynrychioli ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb: Grwp LHDTC+ GISDA, Unique Transgender Network ac aelod unigol.<br><br>Ymwelodd y swyddogion cydraddoldeb â Balchder Gogledd Cymru yn Nghaernarfon, gan roi cardiau hefo côd QR arnynt i rhai oedd yn cymryd rhan ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Gofynnwyd i rai unigolion i lenwi fersiwn byr o'r | Mae'r ymgysylltu wedi cael effaith gadarnhaol gan ein bod wedi hwyluso LHDTC+ i gymryd rhan mewn ymgynghoriad ar amcanion cydraddoldeb y Cyngor.<br><br>Mae'r data yn dangos yn glir fod yna faterion i'w cyfarch ynglŷn â'r maes. |

| | | |
|---|---|---|
| | holiadur hefyd.  Ymwelwyd hefyd â Grŵp LHDTC+ GISDA ble defnyddiwyd dulliau amgen i ymgysylltu ac Unique Transgender Network be cafwyd sgwrs cyffredinol gan hybu'r holiadur.<br><br>**Canlyniad:**<br><br>Mae canran is o bobl heterorywiol neu strêt wedi llenwi'r holiadur (76.5%), i'w gymharu â phoblogaeth Gwynedd (87.3%) ac mae'r niferoedd o ddynion hoyw, merched hoyw neu lesbiaidd, pobl deurywiol ac o rywioldeb arall wedi ei lenwi yn uwch.<br><br>Roedd canran uwch o ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn ddyn hoyw neu'n ddynes hoyw / lesbaidd yn cefnogi parhau gydag ymgynghori (Amcan 2).  Ynglŷn ag Amcan 3 (Asesu effaith) roedd canran uwch o'r ymatebwyr deurywiol, hoyw neu lesbaidd yn nodi 'ydw', gyda canran uwch o'r ymatebwyr heterorywiol / strêt yn nodi 'ddim yn siŵr'.  Roedd canran uwch o'r ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn deurywiol,  hoyw neu lesbaidd yn nodi fod amrywiaeth y gweithlu'n bwysig.<br><br>Yn ystod yr ymgynghoriad y prif thema a gododd am y nodwedd oedd iechyd meddwl yn enwedig ymysg pobl ifanc LHDTC+.  Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd hyfforddiant.  Materion eraill a godwyd oedd parch, cefnogaeth o fewn y Cyngor, data a therminoleg.  Dywedodd un grŵp fod gwaith ymgysylltu yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan gymunedau LHDTC+ gan ei fod yn dangos fod y Cyngor yn barod i ddysgu a gwella.  Mae angen cofio anghenion pobl hŷn LHDTC+ hefyd, mae nifer wedi arfer cuddio eu hunaniaeth.<br><br>**DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth** | Rhagwelir y bydd Amcan 1 yn bositif oherwydd ei fod yn ymwneud ag amrywiaeth yn y gweithlu.  Mae pobl ifanc LHDTC+ yn arbennig wedi dweud wrthym am yr heriau maent yn wynebu oherwydd cyflyrau iechyd meddwl, a byddai gwneud y gweithle yn le mor groesawgar â phosib yn gam ymlaen.<br><br>Mae data yn brin, yn enwedig yn lleol, am bobl LHDTC+ felly bydd Amcan 2 yn fuddiol.  Bydd y gwaith ail-ddehongli, asesu effaith a hyfforddiant yn Amcan 3 yn gamau positif hefyd.<br><br>Gan fod pobl ifanc LHDTC+ wedi dweud wrthym am yr heriau maent yn wynebu oherwydd cyflyrau iechyd meddwl, fel rydym wedi sôn eisoes, mi fydd y pwyntiau gweithredu ar fwlio a llesiant yn arbennig o bwysig. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae llai o bobl yng Ngwynedd yn adnabod eu hunain fel hetrorywiol neu strêt nag unrhyw un o siroedd y Gogledd (87.3% - cyfartaledd y gogledd 89.4%). Mae yna fwy o bobl gyda'r hunaniaeth Deurywiol (1.6% - canran y gogledd 1%) a heb ateb y cwestiwn (9.4%) nag yn unrhyw sir arall yn y rhanbarth. Mae'r nifer sydd wedi adnabod eu hunain yn Hoyw neu Lesbiaidd yn hafal â chanran y gogledd (1.3%).<br><br>Roedd dros 334 o droseddau casineb wedi eu cofnodi yng ngogledd Cymru ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn 2021/22, codiad o 430% ers 2016/17. Mae pobl sydd ddim yn uniaethu fel hetrorywiol yn teimlo'n llai diogel yn eu cymunedau.<br><br>**Cynllun Gweithredu LHDTC+, Llywodraeth Cymru:**<br>Nid oes llawer o waith wedi ei nodi i Awdurdodau Lleol yn y lle cyntaf yn y Cynllun yma. Maes Tai ydi'r unig un ble mae sôn pendant ond mae hwnnw'n waith tymor hir. Bydd felly angen disgwyl am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru yn dilyn y gwaith maent hwy angen ei wneud, er mwyn adnabod ein dyletswyddau yn iawn. Yn y cyfamser wrth gwrs bydda angen ymateb i ffactorau lleol. | |
| **Ail-bennu rhywedd** | **YMGYSYLLTU:**<br><br>**Dull:**<br>Mae rhai mudiadau sy'n cynrychioli pobl traws wedi eu cynrychioli ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb sef Grŵp LHDTC+ GISDA, Unique Transgender Network.<br><br>Ymwelodd y swyddogion cydraddoldeb â Balchder Gogledd Cymru yn Nghaernarfon, gan roi cardiau hefo cod QR arnynt i rhai oedd yn cymryd rhan ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Gofynnwyd i rai unigolion i lenwi fersiwn byr o'r holiadur hefyd. Ymwelwyd hefyd â Grŵp LHDTC+ GISDA ble defnyddiwyd | Mae'r ymgysylltu wedi cael effaith gadarnhaol gan ein bod wedi hwyluso pobl traws i gymryd rhan mewn ymgynghoriad ar amcanion cydraddoldeb y Cyngor.<br><br>Mae'r data yn dangos yn glir fod yna faterion i'w cyfarch ynglŷn ag ail-bennu rhywedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | dulliau amgen i ymgysylltu, ac Unique Transgender Network ble cafwyd sgwrs cyffredinol gan hybu'r holiadur.<br><br>**Canlyniad:**<br>Mae’r canran o bobl sydd wedi ateb ydw i'r cwestiwn “Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni? (er enghraifft rydych chi'n drawsrywiol neu traws ayyb)” yn 1.3%, sy’n uwch na’r nifer o bobl sy’n dweud eu bod yn ddyn traws, dynes traws neu’n unrhyw ryw arall (0.3% gyda’u gilydd, weler isod) yn y cyfrifiad.<br><br>Yn ystod yr ymgynghoriad y prif thema a gododd am y nodwedd oedd iechyd meddwl yn enwedig ymysg pobl ifanc LHDTC+. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd hyfforddiant. Materion eraill a godwyd oedd parch, cefnogaeth o fewn y Cyngor, toiledau cyhoeddus, data a therminoleg. Dywedodd un grŵp fod gwaith ymgysylltu yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan gymunedau LHDTC+ gan ei fod yn dangos fod y Cyngor yn barod i ddysgu a gwella. Mae angen cofio anghenion pobl LHDTC+ hefyd, mae nifer wedi arfer cuddio eu hunaniaeth ac yn nerfus am adael i bobl wybod.<br><br>**DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth**<br>Mae na lai o bobl yng Ngwynedd yn dweud fod eu hunaniaeth rhywedd (91.7%) yr un rhyw a'r un gofrestrwyd ar eu genedigaeth nag unrhyw sir yng ngogledd Cymru (92.8% yw canran y gogledd) ond mae yna fwy heb ateb y cwestiwn (8% - canran y gogledd 6.9%). Mae'r cyfradd sydd â hunaniaeth dyn traws, dynes traws a bob rhyw arall yr un faint â'r gogledd (0.1% yr un).<br><br>Roedd 50 o droseddau casineb adroddwyd yng ngogledd Cymru yn 2021/22 ar sail trawsrywedd. Mae hyn yn godiad o 525% ers 2016/17. Canfu ymchwil gan | Rhagwelir y bydd Amcan 1 yn bositif oherwydd ei fod yn ymwneud ag amrywiaeth yn y gweithlu. Mae pobl ifanc LHDTC+ yn arbennig wedi dweud wrthym am yr heriau maent yn wynebu oherwydd cyflyrau iechyd meddwl a byddai gwneud y gweithle yn le mor groesawgar â phosib yn gam ymlaen.<br><br>Mae data yn brin, yn enwedig yn lleol, am bobl LHDTC+ felly bydd Amcan 2 yn fuddiol. Bydd y gwaith ail-ddehongli, asesu effaith a hyfforddiant yn Amcan 3 yn gamau positif hefyd.<br><br>Bydd Amcan 3 yn sicrhau fod y camau sydd wedi eu gwneud eisoes o fewn hyfforddiant yn parhau. Bydd asesu effaith yn ffordd o adnabod annhegwch. Bydd y gwaith o edrych ar naratif ein amgueddfeydd yn bositif iawn i'r nodwedd yma.<br><br>Gan fod pobl ifanc LHDTC+ wedi dweud wrthym am yr heriau maent yn wynebu oherwydd cyflyrau iechyd meddwl, fel rydym wedi sôn eisoes, mi fydd y pwyntiau gweithredu ar fwlio a llesiant yn arbennig o bwysig. |

| | | |
|---|---|---|
| | Stonewall yn 2017, a nodwyd yn eu adroddiad "LHDT ym Mhrydain: Adroddiad Traws", nad yw'r mwyafrif o bobl draws yn adrodd am ddigwyddiadau i'r heddlu, ac felly nid yw hyn yn cael ei adrodd yn ddigonol. Felly mae'r ffigurau troseddau casineb uchod yn annhebygol o ddangos yn llawn yr achosion o droseddau casineb yng Ngogledd Cymru.<br><br>**Cynllun Gweithredu LHDTC+:**<br>Nid oes llawer o waith wedi ei nodi i Awdurdodau Lleol yn y lle cyntaf yn y Cynllun yma. Maes Tai ydi'r unig un ble mae sôn pendant ond mae hwnnw'n waith tymor hir. Bydd felly angen disgwyl am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru yn dilyn y gwaith maent hwy angen ei wneud, er mwyn adnabod ein dyletswyddau yn iawn. Yn y cyfamser wrth gwrs bydd angen ymateb i ffactorau lleol. | |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | **YMGYSYLLTU:**<br>Ni wnaed unrhyw waith ychwanegol i gyrraedd y grwp yma gan nad oedd dim wedi ei adnabod fyddai'n eu hatal rhag cymryd rhan.<br><br>Mae canran uwch o bobl yng Ngwynedd sydd erioed wedi priodi neu fod mewn partneriaeth sifil (40%) nag yng ngweddill siroedd y gogledd. Felly mae yna lai o bobl sy'n briod (41.5%), wedi gwahanu (1.7%) neu wedi ysgaru neu â phartneriaeth sifil wedi ei ddiddymu (9.2%). Mae'r nifer o bobl sydd yn weddw neu'n barner sydd wedi goroesi o bartneriaeth sifil yn ganolig i'r rhanbarth (7.5%). | Dim effaith wedi ei adnabod ynglŷn ag ymgysylltu, oherwydd doedd dim rhwystr yn atal pobl â'r nodwedd yma i gymryd rhan.<br><br>Nid ydym wedi adnabod y bydd y gwaith rydym yn wneud yn cael effaith negyddol ar unrhyw ganran ond byddwn yn monitro hyn wrth symud ymlaen. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim anghenion wedi ei adnabod ynglŷn ag ymgysylltu, oherwydd doedd dim rhwystr yn atal pobl hefo'r nodwedd yma i gymryd rhan. Nid ydym wedi adnabod y bydd y gwaith rydym yn wneud yn cael effaith negyddol ar unrhyw garfan ond byddwn yn monitro hyn wrth symud ymlaen. | Dim wedi ei adnabod, oherwydd doedd dim rhwystr rhag i bobl gyda'r nodwedd yma i gymryd rhan |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd 977 genedigaeth byw yng Ngwynedd yn 2022, i lawr o 1039 yn 2021 | Nid ydym wedi adnabod y bydd y gwaith rydym yn wneud yn cael effaith negyddol ar unrhyw ganran ond byddwn yn monitro hyn wrth symud ymlaen. |
| **Yr Iaith Gymraeg** | **YMGYSYLLTU**:<br><br>Roedd pob adnodd yn ddwyieithog. Siaradodd y swyddogion yn newis iaith y rhai oedd yn cymryd rhan, gan gynnal rhai sgyrsiau yn ddwyieithog. Yn fwy penodol, gofynnwyd cwestiwn safonol am y Gymraeg yn yr holiadur.<br><br>Roedd 33.8% o'r rhai ymatebodd yn dweud eu bod yn rhugl yn y Gymraeg, 11.6% yn gallu'r iaith ond ddim yn hyderus ac 13.9% yn ddysgwyr. Roedd 25% yn dweud eu bod yn siarad yr iaith yn unig gyda 15.2% yn dweud nad oeddynt yn gallu siarad na deall yr iaith. Nid oedd bron i 10% yn dymuno ateb y cwestiwn.<br><br>Gofynnwyd cwestiwn penodol ar y Gymraeg yn yr holiadur sef:<br><br>Oes yna unrhyw faterion y dylem eu hystyried o ran yr iaith Gymraeg?<br><br>Y prif sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn oedd:<br><br>Ffactorau positif i'r iaith<br>• Pwysleisiwyd yr angen i warchod y Gymraeg<br>• Fod cefnogaeth i'r iaith o fewn yr economi yn cadw pobl ifanc yn yr ardal<br>• Pwysigrwydd addysg Gymraeg<br>• Yr angen i warchod arwyddion ac enwau Cymraeg<br>• Yr angen i ddefnyddio'r iaith yn gyntaf | Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i'r iaith Gymraeg sydd yn y sylwadau cyntaf ac yn credu fod y Cyngor yn gweithredu ar y ffactorau positif sydd wedi eu henwi yn barod.<br><br>Nid ydym yn derbyn nifer o'r gosodiadau sydd yn cael eu gwneud yn y ffactorau negyddol. Sgil yw'r Gymraeg, fel unrhyw sgil arall o fewn manyldeb swydd ac mae'n sgil y gallu bron unrhyw berson ei ddysgu. Mae'n hollol anghywir, er enghraifft, i ddweud nad yw pobl o gefndir lleiafrif ethnig yn gallu siarad yr iaith. Wedi dweud hynny, rydym ni'n adnabod fod gennym fwy o waith i'w wneud i sicrhau fod pobl yn ymwybodol o'r ffaith fod swyddi gwahanol yn gofyn am wahanol lefelau o allu yn y Gymraeg. Bydd y gwaith ar edrych ar y gofynion mewn swyddi yn Amcan 1 yn cyfarch hyn.<br><br>Nid ydym yn derbyn fod ein defnydd o'r iaith Gymraeg yn effeithio effeithlonrwydd ein gwaith. I'r gwrthwyneb, mae'n sicrhau fod pobl |

| | | |
|---|---|---|
| | • Yr angen am weithlu Cymraeg a hawliau pobl i gael gwasanaeth yn yr iaith<br><br>Ffactorau negyddol<br>• Honiadau fod gofyn am sgiliau yn y Gymraeg o fewn cyflogaeth yn hiliol, yn ac yn achos anfantais i bobl di-Gymraeg a lleiafrifoedd ethnig. Un person yn dweud fod neb o leiafrif ethnig yn gallu siarad y Gymraeg.<br>• Mae angen penodi'r person gorau i'r swydd, beth bynnag eu gallu ieithyddol<br>• Honiadau fod y defnydd o'r Gymraeg hefyd yn wahaniaethol ac yn dieithrio'n fwy cyffredinol, o fewn y gymuned a thwristiaeth.<br>• Rhai pobl anabl, yn arbennig ag anabledd dysgu, yn cael hi'n fwy anodd i ddysgu'r iaith<br>• Fod y Gymraeg yn ddrwg i'r economi gan nad yw pobl proffesiynol allai ddod i'r ardal i weithio yn awyddus i'w plant gael addysg Gymraeg<br>• Ni ddylai'r defnydd o'r Gymraeg fod ar draul gwasanaethau ac effeithlonrwydd, oherwydd y gost o ddefnyddio dwy iaith.<br><br>Awgrymiadau<br>• Rhoi cyfleoedd dysgu a chefnogaeth i bobl di-Gymraeg i ddysgu'r iaith, gyda galwadau am wersi am ddim o fewn y Cyngor a'r gymuned<br>• Esbonio pwysigrwydd yr iaith a'r diwylliant i'r rhai sydd ddim yn gwybod.<br>• Ddefnyddio iaith hawdd ei ddeall, wrth gyfathrebu ac o fewn gwersi, a defnyddio dulliau fel fideo ar gyfer rhai sy'n methu darllen yr iaith yn hawdd.<br>• Parchu ieithoedd a diwylliannau eraill. | Gwynedd yn cael gwasanaethau yn yr iaith mae nhw ei angen.<br><br>Ynglŷn â'r awgrymiadau, rydym eisoes yn darparu gwersi Cymraeg ar nifer o lefelau ar gyfer staff. Rydym hefyd yn gweithio gyda mudiadau fel Menter Iaith Gwynedd i sicrhau fod gwersi ar gael yn y cymunedau.<br><br>Bydd esbonio pwysigrwydd yr iaith a'r diwylliant yn ran o'r gwaith yn Amcan 1 sydd wedi ei grybwyll yn barod.<br><br>Mae symleiddio'r iaith yn rywbeth sy'n cael ei grybwyll eisoes ac yn rhan o'r gwaith ar ein gwefan yn Amcan 3<br><br>Mae'r Cyngor yn parchu ieithoedd a diwylliannau eraill a rydym yn gobeithio y daw mwy o syniadau am hyn o'r gwaith amrywiaeth ein gweithlu, yn arbennig y fforwm staff.<br><br>Felly yr effaith mwyaf rydym ni'n rhagweld fydd yr amcanion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg fydd yn y meysydd uchod. Bydd y gwaith ar ledaenu'r neges am y rheswm dros gyflogi pobl gyda sgiliau yn y Gymraeg yn bositif, o fewn y |

| | | |
|---|---|---|
| | **DATA**:<br><br>Mae 64.5% o bobl Gwynedd (tair mlynedd oed neu hŷn) yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg, sef 73,600. Mae hynny yr uchaf yng Nghymru o ran nifer a chanran.<br><br>Mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor, dan Safonau'r Gymraeg, i osod gofynion ieithyddol ar gyfer pob swydd a hysbysebir. Mae hyn yn golygu bod sgiliau iaith yn cael ei nodi fel sgil hanfodol ar gyfer pob swydd, a'r union lefel o sgiliau sydd ei angen yn cael ei bennu yn dibynnu ar natur y swydd. Mae'n debyg bod camddealltwriaeth am y gofynion hyn, a thuedd i feddwl bod hanfodol yn golygu angen gallu siarad yn rhugl, yn arwain at y farn bod y Cyngor yn gwahaniaethu. | Cyngor ac yn y gymuned yng Ngwynedd, trwy sicrhau gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd. Bydd defnyddio iaith haws I'w ddeall yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg. |
| **Ystyriaethau Economaidd-Gymdeithasol** | **YMGYNGHORI**:<br><br>Rydym yn credu fod y bobl sy'n byw mewn sefyllfa o anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael eu cyfarch drwy'r nodweddion cydraddoldeb. Mae hynny oherwydd fod ystadegau'n dangos fod pobl â nodweddion penodol yn fwy tebygol o brofi anfantais o'r fath (gweler uchod). Gan ein bod yn ceisio cyfarfod ystod o bobl mewn cyfarfodydd y byddent yn mynychu'n arferol, gobeithiwn gyrraedd y rhai na fyddai'n llenwi ein holiaduron yn arferol. Bydd hyn yn ein helpu i gyrraedd pobl sydd ddim yn defnyddio cyfrifiadur neu yn cael problemau trafnidiaeth.<br><br>**Canlyniad:**<br><br>**DATA:**<br><br>**Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth** | Roedd effaith yr ymgysylltiad yn bositif, gan ein bod wedi ceisio cyrraedd pobl fyddai ddim fel arall yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau ac yn targedu grwpiau sy'n profi anfantais.<br><br>Rhagwelir y bydd effaith yr amcanion yn bositif oherwydd eu bwriad yw sicrhau cydraddoldeb, ac mae data'n dangos fod pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig yn profi anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae Amcan 1 yn ymwneud â gwella anghydraddoldebau tâl. Mae hefyd yn ymwneud ag annog pobl o amrywiol gefndiroedd i ymgeisio am waith o fewn y |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae llawer o ddata wedi ei ddangos dan y nodweddion penodol. Rhai esiamplau yw fod llai o bobl anabl â mynediad at gar neu fan, bwlch tâl o ran rhyw, y ffaith fod rhai carfannau yn fwy ofnus yn eu cymdeithas ayb.<br><br>Mae 54% o ddysgwyr yng Ngwynedd sydd ddim yn gymwys am ginio am ddim yn cyrraedd Lefel 2 ym mlwyddyn 11 (data 2018/19), a 30% o ddysgwyr sydd yn gymwys am ginio am ddim. Mae 1.9% o aelwydydd yng ngogledd Cymru yn orlawn (dim digon o lofftydd), sydd bron iawn yr un canran â gogledd Cymru (2%).<br><br>Mae'r nifer o aelwydydd sydd ar Credyd Cynhwysol wedi codi o 8.4% yn Tachwedd 2021 i 9% yn Nhachwedd 2022, ond Gwynedd sydd â'r nifer lleiaf yng ngogledd Cymru. Mae'r nifer o bobl yng Ngwynedd sy'n byw mewn aelwyd sy'n profi amddifadedd materol yn 13%, yn fwy nag unrhyw sir arall heb law am Wrecsam, sy'n hafal. Mae'r nifer o ferched yn y sefyllfa yma yn 14%, eto'r uchaf o bob sir ac yn hafal a Wrecsam. Yn 2018 roedd Gwynedd â 23% o aelwydydd mewn tlodi tanwydd, llawr uwch na siroedd eraill (yr agosaf oedd ynys Môn ar 17% a'r lleiaf Sir Fflint ond yn 9%). Dyma ydi'r data lleol mwyaf diweddar ac nid yw wrth gwrs yn ystyried y codiadau sydd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.<br><br>Mae pobl yng Ngwynedd yn fwy tebygol o ddweud fod eu iechyd yn dda iawn na siroedd eraill y gogledd, ac yn llai tebygol o ddweud eu bod mewn iechyd gwael iawn.<br><br>Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi gofyn i sampl o bobl ym mhob sir ac wedi canfod fod pobl Gwynedd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon gyda'u gallu i gyrraedd gwasanaethau lleol. Roedd y rhan fwyaf hefyd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon gydag argaeledd y gwasanaethau ar gael. | Cyngor. Dylai hynny gyfrannu tuag at gael gwared o anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae casglu data bob tro'n fuddiol er mwy gallu adnabod ble mae angen gweithredu. Mae hynny'n arbennig o wir wrth ofyn am farn gwahanol grwpiau.<br><br>Bydd Amcan 3 yn cyfrannu tuag at leihau anfantais economaidd gymdeithasol drwy gael gwared ar rwystrau sy'n wynebu pobl wrth geisio canfod gwybodaeth ar wefan y Cyngor ac wrth gael mynediad at y celfyddydau. Bydd hefyd o gymorth i bobl sy'n profi y math yma o anfantais oherwydd nodwedd warchodedig, gan y bydd hyfforddiant yn gwella dealltwriaeth staff. Yn ogystal, mae bob asesiad effaith yn cynnwys cwestiynau am faterion economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae Amcan 4 yn helpu i unioni unrhyw wahaniaethau o fewn Addysg ac felly'n bwysig yn y maes yma hefyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r nifer o bobl sy'n byw mewn aelwyd heb fynediad at gar neu fan yn 12.4%, sy'n 0.1% yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer gogledd Cymru.  Mae'r canran o aelwydydd â mynediad i'r we yn codi'n araf o 85% yn 2018/19 i 87% yn 2021/22, a Gwynedd sydd a'r nifer isaf yn y Gogledd.  Mae'r nifer o bobl sy'n defnyddio'r we hefyd wedi codi o 87% i 91%, sydd yn gydradd isaf gydag Ynys Môn.  Mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai'r pobl sydd mewn mwy o berygl o gael eu hallgáu'n ddigidol yng Nghymru yw: oedolion hŷn (er bod defnydd oedolion hŷn o'r rhyngrwyd yn cynyddu), pobl anabl neu gyflyrau iechyd hirdymor, pobl â chyrhaeddiad addysgol is, pobl neu deuluoedd ar incwm is, poblogaethau gwledig, siaradwyr Cymraeg, pobl nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, pobl sy'n ynysig yn gymdeithasol neu'n unig a phobl ddigartref.<br><br>Mae'r nifer o bobl sy'n mynd i weithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth yng Ngwynedd wedi cynyddu o 2017/18 i 2019/20, tra mae pob sir arall wedi gweld gostyngiad.  Mae hynny'n golygu fod y siroedd i gyd yn eithaf tebyg.  Mae'r nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau corfforol wedi codi o 53% yn 2016/17 i 59% yn 2021/22.<br><br>Aeth y nifer o bobl dros 16 oedd yn fodlon gyda'u ardal lleol fel lle i fyw  i fyny yng Ngwynedd o 89% yn 2018/19 i 92% yn 2021/22.  Yn yr un cyfnod roedd y pobl oedd yn teimlo fod nhw'n perthyn i'r ardal, fod pobl o gefndiroedd gwahanol yn dod ymlaen yn dda, a fod pobl yn trin eu gilydd â pharch wedi codi o 53% i 73%.  Yn 2021/22 roedd 11% o bobl Gwynedd yn dweud eu bod yn teimlo'n unig. | |
| **Hawliau Dynol** | Mae Erthygl 14 Gwarchod rhag wahaniaethu yn arbennig o berthnasol ond mae erthyglau eraill yn berthnasol hefyd:<br>Erthygl 5 Yr hawl i ryddid a diogelwch<br>Erthygl 8 Yr hawl i barch i fywyd, teulu, cartref a gohebiaeth breifat<br>Erthygl 9 Yr hawl i ryddid meddwl, cred a chrefydd | Roedd gan yr ymgysylltiad effaith bositif gan fod pobl yn rhoi eu barn er mwyn dylanwadu ar ein amcanion.  Rhagwelir y bydd yr amcanion yn bositif hefyd |

| | | |
|---|---|---|
| | Erthygl 12 Yr hawl i briodi a sefydlu teulu | oherwydd eu bod yn cyd-fynd gyda'r erthyglau. |
| **Arall** | Holwyd dau grŵp o ofalwyr ifanc.  Holwyd gofalwyr sy'n oedolion fel rhan o'r digwyddiad Boccia<br><br>Nid ydym wedi targedu pobl eraill ond roedd yr holiadur yn agored i bawb | Roedd yr ymgysylltiad yn gadarnhaol ar y ofalwyr a dim effaith ar y carfannau eraill.<br><br>Bydd yr amcanion yn bositif ar garfannau fel gofalwyr (gweler hefyd Anabledd uchod).<br><br>Mae'n ofynnol, dan Ddeddf Lluoedd Arfog 2022 i ni roi sylw dyledus i'r effaith ar aelodau a chyn-aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd, fel nad ydynt yn cael eu trin yn llai ffafriol nag eraill.  Dylai'r cynllun gael effaith gadarnhaol ar rai rhannau o'r gymuned yma oherwydd ei fod yn ystyried anghenion plant mewn ysgolion a pobl anabl. |

**6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut ydych yn bwriadu ymdrin ag hwy?**

Rydym wedi bod yn llwyddiannus i gael bron iawn i 600 o bobl i lenwi'r holiadur, sy'n dda iawn am y math yma o holiadur.  Mae hynny, yn ogystal â'r data pellach rydym ni wedi ei gasglu wrth gyfarfod ag unigolion, yn golygu fod gennym ystod o wybodaeth i'w ddefnyddio.    Mae Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023: Dogfen Ddata a Thystiolaeth  yn ddogfen defnyddiol iawn, sy'n casglu'r holl ddata at ei gilydd mewn un lle, wedi ei selio ar Ydi Cymru'n Decach? 2017.  Rydym yn disgwyl i Ydi Cymru'n Decach? 2023  gael ei gyhoeddi yn y misoedd nesaf a bydd yn bosib gweld os oes unrhyw wybodaeth sydd ddim yn y Ddogfen Ddata.  Ond mae'n amlwg o'r wybodaeth sydd gennym fod bylchau yn yr data, yn arbennig am nodweddion gwarchodedig heb law am rhyw ac oedran.  Mae Llywodraeth Cymru wedi addo gweithio ar hyn a byddwn yn rhoi cymaint o gymorth a phosib iddynt, ac yn edrych am ffynonellau amgen o wybodaeth.

**7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?**

Mae llawer iawn o ymgysylltu ac ymgynghori'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau fod yr wybodaeth sydd wedi ei gasglu yma ar gael ar gyfer swyddogion eraill er mwyn osgoi dyblygu. Dylai'r gwaith rydym yn wneud ar amcanion gyd-fynd gyda gwaith arall Cyngor Gwynedd er mwyn gwella tegwch. Rydym yn ymwybodol fod posib i'r gwaith yma gael ei effeithio gan y cyllid sydd ar gael dros y 4 blynedd nesaf a byddwn yn cadw golwg ar hynny.

**8. Beth mae eich cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?**

Pwrpas y cynllun yw sicrhau tegwch felly mae'n cyffwrdd y 3 nod yma. Rydym yn helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth drwy ofyn barn pobl, gwella amrywiaeth ein gweithlu ayb. Mae un amcan yn addo i ddod i'r afael ag wrth-wahaniaethu felly yn greiddiol i hyn. Rydym wedi hyrwyddo cyfle cyfartal drwy annog pobl i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn y ffordd gorau iddyn nhw. Mae hyn yn golygu ein bod yn cael ystod o farn i'n helpu i ffurfio'r amcanion yma. Bydd sicrhau tegwch drwy'r amcanion hefyd yn hyrwyddo cyfle cyfartal, ac yn sicrhau ein bod yn darparu ar gyfer pobl yn ddibynnol ar eu hanghenion. Bydd yr uchod yn golygu gwell berthynas da rhwng pobl ag amrywiol nodweddion gan y byddwn yn tu trin yn ol eu hangen, ac yn sicrhau fod eu llais yn cael ei glywed.

**9. Sut mae’r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)**

Fel sydd wedi son yn barod, rydym yn cyfarch hyn drwy'r ffaith ein bod yn ymrymuso pobl â gwahanol nodweddion i gymryd rhan a dylanwadu ar ein amcanion newydd. Gweler y manylion am yr Amcanion yn cwestiwn 5.

**10. Sut mae’r cynnig yn dangos eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Roedd pob adnodd yn ddwyieithog a sgyrsiau yn digwydd drwy gyfrwng dewis iaith y rhai oedd yn cymryd rhan. Roedd hyn weithiau’n golygu cael sgyrsiau dwyieithog.

Fel sydd wedi ei ddangos uchod, rydym wedi gweithredu ar awgrymiadau sydd wedi eu derbyn yn yr ymgysylltiad i greu pwyntiau gweithredu sy'n fanteisiol i'r iaith. Rydym ni yn edrych ar y ffyrdd rydym ni'n gweithredu o fewn cyflogaeth, a bydd hyn yn cynnwys esbonio pam ein bod angen gweithlu sy'n gallu siarad yr iaith, ond hefyd yn dangos nad oes rhaid bod yn hollol rhugl i gael swydd o fewn y Cyngor. Gobeithir y bydd hyn yn achosi llai o ddrwg-deimlad yn y dyfodol. Bydd defnyddio iaith addas i'r gynulleidfa ar ein gwefan yn hybu'r iaith hefyd, gan sicrhau y bydd mwy o bobl yn gallu ei ddefnyddio.

**11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?**

Y nod llesiant dan sylw yma yw "Cymru Sy'n Fwy Cyfartal" gan mai dyma bwrpas y gwaith yma. Bydd hefyd yn cyfrannu tuag at Cymru lewyrchus, oherwydd y bydd yn gwella sefyllfa pobl â nodweddion cydraddoldeb. Hefyd Cymru o gymunedau cydlynus, ble mae pobl a gwahanol nodweddion gwarchodedig yn cael gwell tegwch. Mae'r 5 ffordd o weithio yn cael eu diwallu fel hyn: Hirdymor - mae'r amcanion fydd yn cael eu creu yn rai 4 blynedd, ond dylent gael effaith ehangach na hynny; Atal - trwy gael pobl i roi barn byddwn yn gallu creu nodweddion fydd yn gweithio i gael gwared ar rwystrau; Integreiddio - bydd y Cynllun yma yn prosiect o fewn Cynllun y Cyngor ac yn effeithio ar waith y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Cydweithio - rydym yn cydweithio gyda'r cyhoedd drwy eu cynnwys yn yr ymgysylltiad a hefyd gyda mudiadau cyhoeddus eraill y rhanbarth drwy'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Mudiadau Cyhoeddus Gogledd Cymru ac yn bwydo i mewn i ddiwallu Amcanion Gogledd Cymru; Cynnwys - bwriad yr ymgysylltiad ydi caniatáu i bobl rhoi eu barn a dylanwadu ar yr amcanion cyn i ni wneud unrhyw benderfyniadau.

## CAM 3

**12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?**

Na fydd, er byddwn yn cydweithio fel sydd wedi ei grybwyll uchod.

## CAM 4

**13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal? (Rhowch y manylion yn fras)**

**Effaith Gadarnhaol Sylweddol:**
Bwriad yr Amcanion Cydraddoldeb newydd yw cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Rydym wedi sicrhau fod yna resymeg gref dros eu dewis, gan gynnwys ymgysylltu'n eang.

**Effaith Negyddol Sylweddol:**

Nac ydi

**14. Pa fesurau neu newidiadau fyddwch chi'n eu cyflwyno i'r polisi neu'r ymarfer yn y drafft terfynol allai leihau neu ddileu unrhyw effaith neu anfantais anghyfreithlon/ negyddol, a/neu wella cyfleoedd cyfartal/gyflwyno newid positif; neu leihau canlyniadau anghyfartal yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Bwriad yr Amcanion yw gwella cyfleoedd cyfartal a lleihau neu gael gwared ar ganlyniadau anghyfartal. Mae'r data sydd wedi ei nodi yn cwestiwn 5 yn dangos yn glir fod bod a rhai nodweddion gwarchodedig penodol, fel bod yn berson anabl, yn ferch sy'n benteulu, neu'n aelod o grwp ethnig penodol yn golygu fod mwy o siawns i chdi brofi anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol. Mae'r amcanion felly yn eu hanfod yn dod i'r afael a hyn.

Rydym hefyd wedi sicrhau ein bod yn gwneud ymgysylltiad eang, cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, er mwyn cael barn pobl â phrofiad bywyd o'r nodweddion yma, ac felly o anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol. Mae'r dulliau rydym ni wedi eu defnyddio wedi bod yn amrywiol er mwyn sicrhau fod cymaint o bobl â phosib wedi gallu cymryd rhan.

Cyn i ni greu drafft terfynol byddwn yn ymgynghori â'r cyhoedd, yn enwedig pobl â nodweddion gwarchodedig, a byddwn yn addasu neu'n newid yr Amcanion a'r Pwyntiau Gweithredu mewn ymateb i'r wybodaeth a dderbynnir.

**15. Eglurwch unrhyw effaith negyddol bwriadol a nodwyd gennych ac eglurwch pam eich bod yn credu fod gennych gyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol**

Dim wedi ei adnabod

**16. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Amherthnasol

**Nodwch eich rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau**

Amherthnasol

**17. Pa fesurau neu newidiadau eraill allech chi eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?**

Ein cam cyntaf oedd sicrhau ein bod yn ymgysylltu gyda cymaint o amrywiaeth â phosib. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth yma, a data arall, er mwyn ffurfio amcanion drafft. Wrth symud ymlaen rwan byddwn yn ymgysylltu ar ein nodweddion drafft er mwyn cael barn pellach. Wrth gwneud hynny, byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnwys gymaint o bobl â phosib er mwyn cael amrywiaeth o farn , a bydd hynny'n sicrhau ein bod yn rhoi sylw dyledus I'r uchod.

**18. Pa fesurau neu newidiadau eraill allech chi eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Bydd yn ymgynghoriad o gymorth yma hefyd.

**19. Pa fesurau neu newidiadau eraill allech chi eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Byddwn yn gosod cwestiwn pellach i holi pobl am yr iaith Gymraeg yn holiadur y ddogfen ymgynghoriad a byddwn yn addasu'r amcanion yn sgil yr ymatebion

**20. A oes gennych chi ddigon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?**

Oes

**Os Oes, Nodwch eich cyfiawnhad dros hyn:**

Credwn ein bod wedi ffurfio amcanion drafft addas ar sail yr wybodaeth o'r ymgysylltiad a data arall.  Rydym felly'n barod i symud ymlaen i'r cam arall, gan ddisgwyl y bydd newidiadau'n cael eu gwneud yn sgil yn ymgynghoriad.

## CAM 5

**21. Gan ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, nodwch isod a ydych yn gallu symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:**

Ydw - mae'r polisi neu gynllun yn addas

## CAM 6

**22. Amlinellwch isod unrhyw gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd yn eich helpu i fonitro eich polisi/ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| Gweithrediad | Amserlen ac Amlder | Cyfrifoldeb Arweiniol |
|---|---|---|
| Ymgynghori ar y Amcanion a'r Asesiad Effaith | Rhagfyr 2023 –Ionawr 2024 | Ymgynghorydd Cydraddoldeb |

**23. Amlinellwch isod pa drefniadau fyddwch chi'n eu gwneud i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn yn cynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu** | **Amserlen ac Amlder** | **Cyfrifoldeb Arweiniol** |
|---|---|---|
| Dadansoddi'r ymatebion ac addasu'r asesiad effaith ar sail yr wybodaeth a gasglwyd | Chwefror 2024 | Ymgynghorydd Cydraddoldeb |
| Ysgrifennu Cynllun Cydraddoldeb Strategol, fydd yn cynnwys yr Amcanion a'i gyflwyno i'r Cabinet ar gyfer ei dderbyn | Mawrth 2024 | Ymgynghorydd Cydraddoldeb |
| Addasu'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb | Yn ôl yr angen | Ymgynghorydd Cydraddoldeb |
| Adrodd ar y Cynllun | Yn flynyddol | Ymgynghorydd Cydraddoldeb |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Teitl yr Adroddiad** | Adroddiad Blynyddol Addysg 2022-23 |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 23 Ionawr 2024 |
| **Awdur** | Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Beca Brown |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn unol â dymuniad y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, cyflwynir Adroddiad Blynyddol yr Adran Addysg ar gyfer 2022-23 gerbron y pwyllgor.

1.2 Mae'r Adran Addysg yn cydnabod nad tasg hawdd yw sicrhau craffu effeithiol ar ddogfen sydd yn crynhoi blwyddyn o waith yr Adran Addysg ar lawr pwyllgor. O ganlyniad, yn yr adroddiad ceisir tynnu sylw at brif brosiectau blaenoriaeth yr Adran, gwaith arferol dydd i ddydd yr Adran, nodweddion cadarnhaol, heriau, ynghyd â meysydd sydd angen sylw dros y cyfnod nesaf. Gwelir yr Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1.

1.3 At hyn, bydd GwE yn manylu ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ganddynt hwy ym maes gwella ysgolion er sicrhau trosolwg gyflawn o'r maes i'r pwyllgor ar gyfer 2022-23.

**2. CYD-DESTUN 2022-23**

2.1 Yn sgil cyfnod y pandemig a gychwynnodd ym Mawrth 2020, dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym fel Adran ac ysgolion yn parhau i wynebu'r 'normal' newydd. Mae'r 'normal' newydd hwn wedi golygu parhau i gael plant a phobl ifanc yn ôl i'r ysgol, i gefnogi eu llesiant corfforol a meddyliol, ynghyd â llesiant staff, ymateb i heriau ymddygiad sy'n sgil-effaith y pandemig, gyda'r nod o allu darparu addysg o ansawdd i'r holl ddysgwyr.

2.2 Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi wynebu arolwg Estyn ac wedi derbyn adroddiad gadarnhaol ar ein Gwasanaethau Addysg yma yng Ngwynedd. Yr ydym yn falch o'r hyn sydd yn cael ei amlygu fel arfer dda ynddi, ond yn derbyn fod gwaith i'w wneud mewn agweddau eraill, megis presenoldeb a chynhwysiad.

**3. BLAENORIAETHAU AR GYFER 2023-24**

3.1 Rydym yn ymwybodol y bydd y dyfodol yn gynyddol heriol wrth i ni ymateb i'r her o gyni ariannol a lleihad yn y nifer o ddysgwyr yma yng Ngwynedd.

3.2 Dyma ragflas i chi o flaenoriaethau'r Adran ar gyfer y cyfnod sydd i ddod:

- Strategaeth Addysg
- Polisi Iaith Addysg
- Gwerthuso Darpariaeth y Gyfundrefn Drochi
- Llesiant Staff a Dysgwyr
- Cludiant Addysg

- Arweinyddiaeth Ysgolion
- Cynhwysiad
- Presenoldeb dysgwyr
- Datganoli Cyllideb Integreiddio

**4. ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau ar yr hyn y mae'r Adran Addysg wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a amlinellir yn yr Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1, ynghyd ag unrhyw sylwadau ar flaenoriaethau'r Adran ar gyfer y cyfnod nesaf.



# Adroddiad Blynyddol

## Adran Addysg

## 2022-23



## ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG 2022-23

**CYNNWYS**


1. RHAGAIR
2. CYD-DESTUN
3. PROSIECTAU BLAENORIAETH CYNLLUN Y CYNGOR
4. Y GYMRAEG
5. DIOGELU
6. BLYNYDDOEDD CYNNAR
7. Y TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG
8. ARWEINYDDIAETH
9. UNED DDATA
10. GWASANAETH CEFNOGI LLYWODRAETHIANT YSGOLION
11. UNED CONTRACTAU A CHYFLOGAETH
12. UNED ARLWYO A GLANHAU
13. CLUDIANT ADDYSG
14. CANOLFAN FUSNES ADDYSG
15. PLANT MEWN GOFAL
16. GWASANAETH IEUENCTID

**ADRAN ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD GWYNEDD A MÔN**

**17.GWASANAETH ANSAWDD ADY**

**18.GWASANAETH GWEINYDDOL ADY A CH**

**19.GWASANAETH SEICOEG ADDYSGOL**

**20.GWASANAETH BLYNYDDOL CYNNAR**

**21.GWASANAETH ASESU AC ARSYLWI BLYNYDDOEDD CYNNAR (UNEDAU ABC)**

**22. GWASANAETH CYFATHEBU A RHYNGWEITHIO**

**23. GWASANAETH SYNHWYRAIDD/CORFFOROL A MEDDYGOL / ADY PENODOL**

**24. GWASANAETH CWNSELA YSGOLION**

**25. GWASANAETH LLES**

**26. GWASANAETH SAESNEG FEL IAITH YCHWANEGOL**

**27. GWASANAETH CYNHWYSIAD**

**RHAGAIR**

Rydym yn falch o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol yma ar Wasanaethau Addysg yng Ngwynedd, sy'n adlewyrchu ymdrechion a chynnydd ein gwasanaethau addysg dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n bwrw golwg ar y heriau a wynebir, ein llwyddiannau, yr hyn a gyflawnwyd, ac yn cynnig cyfeiriad cyffredinol i'r dyfodol o ran datblygu ein amrywiol wasanaethau addysg yma yng Ngwynedd.

Yn ystod y flwyddyn yr ydym wedi wynebu arolwg Estyn ac wedi derbyn adroddiad gadarnhaol ar ein Gwasanaethau Addysg yma yng Ngwynedd. Yr ydym yn falch o'r hyn sydd yn cael ei amlygu fel arfer dda ynddi, megis ein gwaith yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, ond yn derbyn fod gwaith i'w wneud mewn agweddau eraill, megis presenoldeb a chynhwysiad.

Mae'r adroddiad blynyddol yma'n rhoi golwg drylwyr ar sefyllfa bresennol gwasanaethau unigol yr Adran Addysg. Nid yw pob elfen o'r gwaith dydd i ddydd y mae'r gwasanaethau yn eu cyflawni wedi eu cynnwys.

Rydym yn gwerthfawrogi cefnogaeth a chyfraniad ein penaethiaid, staff, rhieni, a chymunedau lleol wrth weithredu ein strategaethau addysgol. Fe fydd y dyfodol yn gynyddol heriol wrth i ni ymateb I'r her o gyni ariannol a lleihad yn y nifer o ddysgwyr yma yng Ngwynedd. Fodd bynnag byddwn yn sicrhau bod addysg yng Ngwynedd yn parhau i fod yn gryf, gan barhau hefyd i arloesi er lles ein plant a'n pobl ifanc.

Diolch am eich diddordeb parhaus yng ngwaith yr Adran Addysg, rydym yn edrych ymlaen at eich sylwadau ac adborth ar y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gyda llawer o ddiolch,





Gwern ap Rhisiart
Pennaeth Addysg





Beca Brown
Aelod Cabinet Addysg

**CYD-DESTUN**

**GWELEDIGAETH YR ADRAN ADDYSG:** Plant a phobl ifanc Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant ac economi yn lleol.

**PWRPAS:** ***Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion***

**GWASANAETHAU RYDYM YN EU DARPARU:** Codi Safonau, Gwasanaethau Cefnogol, Cyflogau a Chontractau Staff Ysgolion, Pensiynau Athrawon, Arlwyo Ysgolion, Glanhau Ysgolion, Cludiant Ysgolion, Iechyd a Diogelwch, Mynediad Ysgolion, Cefnogaeth i Lywodraethwyr, Cefnogaeth Gyllidol i Ysgolion, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Uned Ddata, Cefnogaeth Adnoddau Dynol i Ysgolion a'r Adran Addysg, Presenoldeb ac Ymddygiad, Gwasanaeth Lles Addysg, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Amddiffyn Plant, Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Hyfforddiant, Moderneiddio Addysg a'r iaith Gymraeg.

**BETH MAE'R ADRAN YN EI WNEUD?**

- Cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni'r safonau uchaf.
- Sicrhau bod disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael y gefnogaeth fwyaf addas.
- Sicrhau bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd.
- Sicrhau bod disgyblion o fewn ysgolion Gwynedd yn ddiogel.
- Darparu gwasanaethau cefnogol pwrpasol ar gyfer Gwasanaeth Addysg Gwynedd.
- Datblygu arweinwyr a chefnogi'r gweithlu yn yr ysgolion.
- Cefnogaeth i gyrff llywodraethu ysgolion er mwyn iddynt weithredu fel llywodraethwyr effeithiol.

Yn 2022-23, roedd 79 ysgol gynradd, 12 Ysgol Uwchradd 1 Ysgol Ddilynol, 1 Ysgol Gydol Oes, a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

Mewn datganiad gan y Gweinidog Addysg, Jeremy Miles AS, nododd: *'Ni fydd data dyfarniadau cymwysterau yn cael eu defnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortiwm rhanbarthol ac ni ddylid eu defnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ddeilliannau dysgwyr'*

Felly yn unol â datganiad y Gweinidog, nid oes modd i'r Awdurdod drafod unrhyw ganlyniadau er mwyn mesur perfformiad ysgolion a chymharu safonau fel rhan o'r adroddiad blynyddol hwn.

**PROSIECTAU CYNLLUN Y CYNGOR 2018-23**

Yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol yma daeth cyfnod Cynllun y Cyngor 2018-23 i ben ar 31 Mawrth 2023. O ganlyniad, gweler isod adroddiad ar yr hyn a gyflawnwyd o safbwynt blaenoriaethau gwella Cynllun y Cyngor yn ystod y flwyddyn 2022-23.

**<u>Darpariaeth Addysg Ôl – 16 yn Arfon</u>**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae amrywiaeth yn ansawdd yr addysg a phrofiadau dysgwyr ar draws y gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon yn effeithio ar ddeilliannau a llwybrau dysgu.

Mae'r Cabinet eisoes wedi rhoi caniatâd i gychwyn ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid i drafod y weledigaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon. Cynhaliwyd yr ymgysylltu anffurfiol yn ystod Tymor yr Hydref 2020.

Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau anffurfiol er mwyn trafod a gwyntyllu opsiynau posib gyda'r proffesiwn gan ddefnyddio'r trafodaethau rhain i benderfynu ar y ffordd orau i barhau i gadw momentwm gyda'r prosiect pwysig hwn.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Yn ystod 2022-23, bu i ni ail-ymweld â'r achos dros newid, diweddaru data a gwybodaeth a oedd yn sylfaen i'r prosiect hwn, gan gynnwys unrhyw ystyriaethau newydd perthnasol yn sgil y pandemig.

Cyflwynwyd adroddiad gerbron Cabinet ar 7 Mawrth 2023 yn gofyn caniatâd i wneud gwaith pellach gyda rhanddeiliaid sy'n ffurfio Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn datblygu modelau posib ar gyfer y gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon.

**Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –**
- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

**<u>Dalgylch Bangor</u>**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Er gwaethaf y pandemig bu i adeilad newydd Ysgol y Garnedd agor ei drysau yn Hydref 2020 gan ddod yn gartref addysgol newydd i hyd at 420 o ddysgwyr oed cynradd yn ninas Bangor. Mae safle'r ysgol hefyd yn cynnig addysg feithrin a darpariaeth gofal plant cynhwysfawr mewn awyrgylch pwrpasol gyda'r adnoddau gorau posibl. Mae gofod wedi ei gynllunio'n ofalus yn ogystal ar gyfer unedau arbenigol ar y safle i gefnogi ymhellach ddatblygiad plant. Bu i'r prosiect hwn gadw o fewn y gyllideb a neilltuwyd ar ei gyfer.

Bu i'r prosiect gael ei enwebu ar gyfer tair gwobr Rhagoriaeth Mewn Adeiladwaith yng Nghymru 2021 a daeth i'r brig mewn dau sef: Gwobr Adeiladwaith Digidol (Digital Construction Award) a Gwobr Cleient y flwyddyn (Client of the Year Award).

Byddwn yn trefnu agoriad swyddogol ar y cyd â'r ysgol pan fydd yn saff i wneud hynny.

Fel rhan o'r trefniadau yn nalgylch Bangor bu i Ysgol y Faenol hefyd gael estyniad sylweddol. Er bod llithriad yn yr amserlen wedi bod o ganlyniad i'r pandemig, llwyddwyd i gwblhau yn fuan yn 2022. Mae'r ysgol yn gallu derbyn 315 o ddysgwyr yn sgil yr estyniad, sydd yn gynnydd o 129 o ddysgwyr. Mae'r adeilad wedi ei gynllunio i fod yn hwb i'r ardal leol hefyd gyda chanolfan gymunedol newydd a gofod ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn cael eu codi fel rhan o'r datblygiad.

Yn sgil y buddsoddiad sylweddol diweddar yn Ysgol y Garnedd ac Ysgol y Faenol, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i fuddsoddi ymhellach a gwella'r adnoddau a'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Hirael hefyd. Bydd hyn yn gyfrwng i wella profiad y dysgwr a galluogi'r ysgol i ddarparu addysg a'r cwricwlwm yn yr 21ain ganrif.

Mae'r Cyngor eisoes wedi cydnabod nad oes gan Ysgol Tryfan yr adnoddau y byddem yn dymuno iddynt eu cael a bod hynny'n effeithio ar brofiad y dysgwr. At hyn, bydd y Cyngor yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael i wella'r adnoddau uwchradd yn ninas Bangor er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf ynghyd ac adeiladau ac adnoddau i allu darparu addysg a'r cwricwlwm yn yr 21ain ganrif.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

- Ysgol Y Garnedd:
  Bu gwaith yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn i drefnu agoriad swyddogol ar gyfer yr ysgol, gan nad oedd hynny'n bosib yn flaenorol yn sgil heriau pandemig Covid-19. Bellach mae dyddiad ar gyfer yr agoriad wedi ei gadarnhau ar gyfer 18 Mai 2023 a bydd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles AC yn agor yr ysgol yn swyddogol.

- Ysgol Y Faenol:
  Bu i adeilad Ysgol Y Faenol gael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn, ac mae capasiti'r ysgol bellach wedi cynyddu i allu derbyn hyd at 315 o ddysgwyr. Er hynny, mae materion cyfreithiol ynglŷn â throsglwyddiadau tir a phrydles yn parhau rhwng y Cyngor, yr Eglwys yng Nghymru a'r Cyngor Cymuned, felly does dim modd symud ymlaen i ddymchwel y Ganolfan Gymunedol a chreu maes parcio pwrpasol ar gyfer yr ysgol hyd nes y bydd y materion hyn wedi eu datrys.

- Ysgol Hirael:
  Er mwyn gwella'r adnoddau a'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Hirael, ar 14 Chwefror 2023, bu i'r Cabinet ganiatáu neilltuo £3m o gyfanswm o gyllideb Gwedd 2 Bangor, Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Band B) er mwyn buddsoddi yn Ysgol Hirael. Hyn yn ogystal ag ymrwymiad i gadarnhau cyfraniad o £1m o Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor ar gyfer 35% o arian cyfatebol ar gyfer gwireddu'r prosiect yn Ysgol Hirael.
  Yn dilyn y Cabinet, cafwyd cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r gyllideb o Gwedd 2 Bangor i Ysgol Hirael yn ogystal. Er hynny, mae'r gyllideb ar gyfer Ysgol Hirael yn ddarostyngedig i gyflwyno achos fusnes llwyddiannus i Lywodraeth Cymru a bydd y gwaith o lunio'r achos fusnes yn parhau yn 2023-24.

- Ysgol Tryfan:
  Cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol ynglŷn â'r opsiynau posib sydd ar gael i gryfhau a gwella'r adnoddau uwchradd yn ardal Bangor.

**Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

**Dalgylch Cricieth**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae cyflwr adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Treferthyr yng Nghricieth yn wael, sy'n effeithio ar brofiad y dysgwr. Byddwn felly'n adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau'r adnoddau gorau i'r dysgwyr ffynnu.

Yn 2021/22, cyhoeddwyd rhybudd statudol a bu i'r Cabinet gadarnhau'n derfynol y penderfyniad i adleoli'r ysgol. Rydym wedi ymgysylltu ar gynlluniau, ynghyd â chadarnhau cyllideb tuag at sicrhau Uned Blynyddoedd Cynnar ar y safle. Rydym hefyd wedi apwyntio contractwr ac mae archwiliad geoffisegol o'r safle wedi ei gyflawni hefyd.

Yn 2022/23, yn sgil prynu'r tir a derbyn caniatâd cynllunio, bwriedir cychwyn ar y gwaith o adeiladu'r ysgol newydd, gan anelu i agor yr ysgol ar y safle newydd ym Medi 2023.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer datblygu'r ysgol newydd yng Nghricieth, a chyn gallu derbyn caniatâd cynllunio roedd gofyn cynnal archwiliadau archeolegol o'r safle ynghyd â gwneud gwaith pellach ar lwybrau saff i'r ysgol. Cynhaliwyd arolwg llwybrau saff i'r ysgol a chyflwynwyd yr adroddiad i'r Uned Gynllunio. Cynhaliwyd gwaith archeolegol ar y safle a darganfuwyd bedd cist, a chynhaliwyd gwaith archeolegol pellach yn dilyn hynny gan arwain at oedi yn yr amserlen ar gyfer datblygu'r ysgol newydd. Yn sgil hyn, derbyniwyd cymeradwyaeth i'r cais cynllunio.

Yn sgil cynnydd sylweddol mewn costau deunyddiau adeiladu ac effaith Brexit a Covid-19 daeth i'r amlwg fod costau adeiladu ysgol newydd yng Ngricieth wedi cynyddu'n sylweddol, ac ym mis Rhagfyr 2022, bu i'r Cabinet gymeradwyo cynyddu'r gyllideb ar gyfer y prosiect i £8.1m, ac yn dilyn hynny derbyniwyd cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu'r gyllideb ar gyfer y prosiect hefyd.

Bu i'r contractwyr gychwyn ar y safle ar 20 Chwefror 2023 ac maent yn gwneud cynnydd da. Cynhaliwyd seremoni torri'r dywarchen ar safle'r ysgol newydd ar 6 Mawrth 2023.

Yn sgil yr oedi fu yn yr amserlen, bu i Gorff Llywodraethol Ysgol Treferthyr gytuno i newid dyddiad agor yr ysgol newydd i 1 Medi 2024.

**Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

**Cydweithio Meirionnydd**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae risg fod materion yn ymwneud â'r drefn bresennol yn effeithio ar brofiadau dysgwyr ym Meirionnydd, e.e. mae ysgolion uwchradd Meirionnydd yn ei chael hi'n anodd recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Os na fydd datrysiad i'r sefyllfa, bydd yr effaith ar wydnwch y gyfundrefn addysg a'r amodau arweinyddiaeth yn yr ardal yn parhau.

Mae heriau amlwg cyfnod Covid a phrysurdeb ysgolion uwchradd o ganlyniad i hynny wedi effeithio ar gynnydd y flaenoriaeth yma.

Yn ystod 2021/22 rydym wedi casglu barn Penaethiaid a chynrychiolaeth o Lywodraethwyr pob ysgol uwchradd ar yr heriau posib sydd yn eu wynebu o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn ardal Meirionnydd. Yn ystod y gwaith hwn bu i ni roi sylw penodol i adnabod yr heriau sy'n wynebu'r ysgolion o safbwynt recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr.

Erbyn diwedd 2021/22 byddwn wedi casglu barn disgyblion a rhieni ar ansawdd y profiadau y mae'r plant yn ei gael yn yr ysgolion, ynghyd â barn staff am y profiad o weithio o fewn yr ysgolion yma. Er mwyn sicrhau cymhariaeth deg yr ydym am ofyn yr un cwestiynau i staff, rhieni a phlant ysgolion Dwyfor ac Arfon hefyd.

Bydd cyfeiriad a chamau gweithredu'r flaenoriaeth hon ar gyfer 2022-23 yn cael ei seilio ar farn yr holl ran-ddeiliaid allweddol. Os cyfyd sefyllfa ble nad oes pryderon sylweddol wedi cael eu hamlygu, byddwn yn ystyried priodoldeb y flaenoriaeth hon fel rhan o Gynllun y Cyngor i'r dyfodol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Pan gychwynnwyd y prosiect yn ôl yn 2019 roedd pryder y gallai fod materion yn ymwneud â'r drefn bresennol yn effeithio ar brofiadau dysgwyr ym Meirionnydd e.e. mae ysgolion uwchradd Meirionnydd yn ei chael hi'n anodd recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr – ac mae hynny'n arbennig mewn rhai meysydd. Bwriad y prosiect oedd edrych ar yr heriau y mae'r ardal yma yn eu hwynebu (os o gwbl) gan fodelu opsiynau posib ar gyfer diwallu'r anghenion yma i'r dyfodol.

Bu'r cynnydd ar y prosiect yma'n araf a bu iddo gael ei effeithio gan heriau amlwg y pandemig a phrysurdeb ysgolion uwchradd. Bu nifer o newidiadau yn arweinyddiaeth ysgolion uwchradd Meirionnydd yn ogystal ddaru effeithio ar gynnydd y prosiect. Serch hynny, llwyddwyd i gasglu barn penaethiaid a chynrychiolaeth o lywodraethwyr pob ysgol uwchradd ar yr heriau posib sydd yn eu hwynebu o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn yr ardal, megis recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Bu i ni hefyd gylchredeg a dadansoddi holiadur er mwyn ceisio canfod barn dysgwyr, staff, rhieni a phenaethiaid.

Yn sgil casglu barn, ni fu i'r penaethiaid amlygu pryderon amlwg o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn yr ardal. Yn sgil casglu barn, ni fu i gynrychiolaeth o lywodraethwyr pob ysgol uwchradd amlygu pryderon amlwg o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn yr ardal.

Ni fu i'r dadansoddiad o'r holiadur gwasanaethau addysg amlygu unrhyw agweddau a fyddai'n teilyngu gwaith ymchwil pellach ychwaith. Roedd hyn yn bennaf gan i'r ymateb o'r sector uwchradd fod yn llai na'r disgwyl ac yn enwedig felly o ardal Meirionnydd.

Yn sgil y ffaith nad fu i bryderon sylweddol gael eu hamlygu, ni fydd Meirionnydd yn parhau fel blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor o Ebrill 2023 ymlaen, er y bydd yr Adran Addysg yn parhau i weithio gyda'r ysgolion uwchradd ym Meirionnydd er sicrhau gwytnwch y gyfundrefn i'r dyfodol.

**Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –**
• Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
• Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
• Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

**Cinio am ddim i ddisgyblion cynradd**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021 bwriad gan y Llywodraeth i ddarparu cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd. Er bod y cynllun yn cael ei groesawu mae cryn waith angen ei wneud o ran ymarferoldeb y cynllun.

Nid oes manylder wedi cyrraedd eto o ran amserlen gwireddu'r cynllun ond mae'r cytundeb rhwng y blaid Lafur a Phlaid Cymru mewn lle am gyfnod o 3 blynedd ac felly gellir cymryd y bydd angen rhoi blaenoriaeth i'r prosiect dros y 3 blynedd nesaf.

Ar gyfartaledd mae tua 50% o ddisgyblion cynradd yn dewis cinio ysgol efo'r 50% arall yn dod a phecyn bwyd o adref i'r ysgol. Byddai'r cynllun yma o bosibl yn dyblu'r nifer o ddisgyblion cynradd a fyddai yn dewis cinio ysgol.

Yn ystod 2022/23 fe fyddwn yn rhoi ystyriaeth i'r hyn y bydd darparu cinio am ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd yn ei olygu i'r Cyngor a'r hyn y bydd angen ei wneud er mwyn gwireddu'r ymrwymiad gan gynnal gwaith sgôpio.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Cynhaliwyd adolygiad o ofod ceginau pob ysgol gynradd yng Ngwynedd gan adnabod pa geginau oedd angen uwchraddio eu hoffer mawr megis poptai a pheiriannau golchi llestri yn ogystal ag offer ysgafn. Ers Gorffennaf 2022, mae 38 popty combi wedi eu gosod ac 20 peiriant golchi.

Ers Gorffennaf 2022, bu i'r ysgolion canlynol dderbyn estyniad i'r gegin/gofod bwyta:

- Ysgol Yr Hendre
- Ysgol Bethel
- Ysgol Bro Lleu
- Ysgol Maenofferen
- Ysgol Llanrug

At hyn, bu i Scottish Power uwchraddio ffiwsiau ar rai safleoedd ble nad oedd y cyflenwad trydan yn ddigonol, ond mae'r gwaith hwn yn parhau, gyda'r amserlen i raddau helaeth yn nwylo Scottish Power.

Ers 1 Medi 2022, mae holl ddysgwyr blwyddyn Derbyn a blwyddyn 1 ysgolion Gwynedd yn cael cinio ysgol am ddim os ydynt yn dymuno.

Ers 1 Ionawr 2023, mae holl ddysgwyr blwyddyn 2 ysgolion Gwynedd yn cael cinio ysgol am ddim os ydynt yn dymuno.

**Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –**
• Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

**<u>Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad</u>**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae yna risg y byddwn yn methu a darparu yn addas ar gyfer pob disgybl gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) oherwydd na chafwyd adnoddau gan y Llywodraeth i gwrdd â'r cynnydd mewn angen am ddarpariaeth statudol (Deddf ADY a Tribiwnlys, 2018).

Mae'n bosibl hefyd na fydd plant a phobl ifanc yn cael y mynediad cywir at staff arbenigol (e.e. Seicolegwyr Addysg dwyieithog, Athrawon Synhwyraidd) a rolau allweddol o ran swyddi statudol o fewn y cod (Swyddog Arweiniol y Blynyddoedd Cynnar, Cydlynydd ADY) oherwydd cyfuniad o anawsterau recriwtio, cyllido, a chynnydd mewn llwyth gwaith.

Yn ystod 2021/22 rydym wedi:
• datblygu'r prosesau cyd-weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd drwy gyd-weithio gyda'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) o fewn y Bwrdd Iechyd
• cynnal nifer o ddigwyddiadau hyfforddi rhan-ddeiliaid
• gweithredu systemau angenrheidiol ar gyfer adnabod anghenion yn fuan yn y blynyddoedd cynnar, ac mae'r gwaith paratoi yn y sector Ôl-16 yn parhau
• hefyd y gwaith o ddatblygu cyswllt gweithio, cwricwlwm ac asesu rhwng y prif-lif a'r Ysgolion Arbennig wedi datblygu ac yn parhau i ddatblygu
• mae gwaith arloesol yn parhau i gymryd lle o ran defnydd a datblygiad parhaus y system Cynllun Datblygu Unigol ar lein, gyda'r system yn gyrru'r holl broses ar gyfer yr ysgolion, rhieni, asiantaethau allanol a darpariaethau addysg eraill (e.e. blynyddoedd cynnar)
• mae'r gwaith o edrych ar ddulliau cyllido darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif yn parhau i gymryd camau pendant tuag at Medi 2022, ynghyd â chydweithio yn genedlaethol ar sicrhau hyfforddi a recriwtio staff arbenigol dwy-ieithog (e.e. Seicolegwyr).

Mae elfennau o'r Ddeddfwriaeth yn fyw ers Medi 2021, ond gyda chyfnod o dair blynedd o drawsnewid hyd at Medi 2024. Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

• adolygu'r prosesau gweithredu yn barhaus er mwyn sicrhau systemau mor syml a defnyddiol â phosib

• parhau i ddatblygu systemau addas at y newid deddfwriaethol gan roi ffocws ar y Ôl-16,

partneriaeth gyda rhieni ac asiantaethau, a'r dull cyllido mwyaf addas ar gyfer y gofyn deddfwriaethol, gan gydweithio yn agos â'r Colegau Addysg Bellach

• sefydlu dull ariannu - adolygu'r dull ariannu er mwyn cael model sydd yn rhoi gwell sefydlogrwydd o ran darpariaeth

• parhau â thrafodaethau cenedlaethol, gan barhau i drosglwyddo'r neges ynglŷn â phryder hyfforddi a recriwtio staff arbenigol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Pwrpas y prosiect hwn oedd trawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegu a chynhwysiad er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Bu'r prosiect hefyd yn canolbwyntio ar baratoi tuag at y Ddeddf Anghenion Dysgu a Thribiwnlys Addysg Cymru (2018). Daeth y Ddeddf hon yn weithredol ym Medi 2021, ond gyda chyfnod o dair blynedd i drawsnewid hyd at Medi 2024.

Yn ystod 2022-23 bu i Arolwg Parodrwydd Deddf ADY Llywodraeth Cymru ddangos cynnydd cryf iawn o ran paratoadau'r Awdurdod o ran y Ddeddfwriaeth. Bu i'r Awdurdod sicrhau fod y swyddi statudol angenrheidiol mewn lle ers Ionawr 2021 a'u bod yn gweithredu'n effeithiol. Bu i'r cyd-weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd ddatblygu'n dda drwy gydweithio gyda'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA). Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau hyfforddi rhan-ddeiliaid ar gyfer manylu ar agweddau penodol o'r Cod Terfynol. Bu gwaith ar y llwybrau datrys anghydfod i sicrhau bod rhain yn weithredol. Yn y sector blynyddoedd cynnar mae'r systemau angenrheidiol ar gyfer adnabod yn fuan, a sefydlu prosesau clir wedi ei gyflawni, ac mae'r gwaith paratoi yn y sector ôl-16 yn parhau. Hefyd mae'r gwaith o ddatblygu cyswllt gweithio, cwricwlwm ag asesu rhwng y prif-lif a'r Ysgolion Arbennig wedi datblygu ac yn parhau i ddatblygu.

Bu i'r gwaith arloesol barhau o ran defnydd a datblygiad parhaus y system Cynllun Datblygu Unigol ar-lein, gyda'r system yn gyrru'r holl broses ar gyfer yr ysgolion, rhieni, asiantaethau allanol a darpariaethau addysg eraill (e.e. blynyddoedd cynnar).

O ystyried y bu i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym ym Medi 2021, erbyn 2022-23 roedd Gwynedd mewn sefyllfa gadarn o safbwynt gweithredu'r gofynion newydd, ac felly peidiodd hwn a bod yn brosiect yng Nghynllun y Cyngor o Fedi 2022 ymlaen gan ei fod bellach wedi ei gyflawni, a bod y gofynion ynghlwm â'r ddeddfwriaeth bellach wedi trosglwyddo'n rhan o waith dydd i ddydd yr Adran Addysg.

**Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –**
- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

**<u>Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc</u>**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae pryder y gall rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y bydd angen help ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw ynghyd â chefnogaeth gyda'u lles.

Mae rhieni yn bryderus ynglŷn a'u gyrru i'r ysgol neu yn penderfynu addysgu gartref, ac mae cynnydd mewn pryderon diogelu.

Rydym yn ymwybodol fod pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar, a thu hwnt i'r ysgol rydym hefyd yn sylweddoli fod y grŵp oedran 16-24 oed wedi eu heffeithio yn anghymesur gan yr argyfwng, fwy nag unrhyw grŵp oedran arall.

Yn ystod 2020/21 rydym wedi sefydlu byrddau prosiect ar gyfer y maes Blynyddoedd Cynnar ac ar gyfer y maes cefnogaeth i pobl ifanc ôl-16. Mae'r byrddau prosiect wedi adnabod y meysydd

blaenoriaeth ac mae cynlluniau gwaith clir wedi eu llunio ar gyfer y mwyafrif ohonynt. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar gyfer y grŵp oedran 5-16 drwy gefnogi'r ysgolion i weithredu Rhaglen Cyflymu'r Dysgu gydag arian gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn ein galluogi i ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr.

Mae gwaith wedi ei wneud i gyfarch llesiant disgyblion 3 – 16 oed ac fel cam cyntaf mae trafodaethau wedi cychwyn gydag ystod o bartneriaid gan gynnwys y gwasanaeth iechyd i fapio'n fanwl pwy sydd yn cefnogi ac ymateb i ystod eang o anghenion llesiant ein pobl ifanc.

Yn 2022/23, byddwn wedi cyflwyno strategaeth ar gyfer y maes blynyddoedd cynnar a fydd yn sicrhau'r cychwyn gorau i deuluoedd a phlant 0-5 oed yng Ngwynedd.

Byddwn hefyd wedi diweddaru ein fframwaith ymgysylltu ar gyfer ein dysgwyr ôl-16 ac wedi llunio strategaeth i ddarparu cymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd iddynt.

Byddwn wedi cytuno ar y model cefnogi mwyaf effeithiol ar gyfer cefnogi llesiant disgyblion oedran ysgol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Bu i'r gwaith o lunio strategaeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar symud yn ei flaen yn ystod y flwyddyn gyda chytundeb ar y prif ffrydiau gwaith. Fel rhan o hynny, bu i ni ymgynghori'n fewnol gyda swyddogion allweddol ar hanfodion ein strategaeth.

Yn ystod y flwyddyn cwblhawyd asesiad manwl o'r galw am ddarpariaeth gofal a chwarae cyn ysgol, ynghyd ag asesiad manwl o'r cytundebau / prydlesi sydd mewn lle gyda darparwyr presennol.
Bu i ni hefyd fodelu costau rhedeg darpariaethau o ansawdd, ynghyd â modelu modelau ariannu ar gyfer ein darpariaethau gofal a chwarae ac addysg ar draws Gwynedd.

Bu i ni gyflawni gwaith mapio manwl aml-asiantaeth ddaru amlygu meysydd sydd angen sylw, a bu i is grwpiau gael eu sefydlu i fynd i'r afael ac agweddau penodol.

Bu oediad yn y gwaith o lunio fframwaith ymgysylltu ddiwygiedig, hyn yn sgil i'r arweiniad gan Lywodraeth Cymru ein cyrraedd yn hwyr yn ystod y flwyddyn. Yr ydym fodd bynnag wedi ymateb i ofynion y fframwaith ymgysylltu yn enwedig felly ar gyfer pobl ifanc di gartref ac anghenion iechyd meddwl lefel isel.

Yr ydym wedi llunio strategaeth newydd ar gyfer ymateb i anghenion dysgwr sydd mewn risg o ddadrithio o addysg, hyfforddiant neu waith. Yn cyd fynd a'r strategaeth mae cais wedi ei wneud i gronfa ffyniant cyffredin am nawdd i gynllun a fyddai'n darparu cefnogaeth ymarferol i'n pobl ifanc wedi ei selio ar arfer dda a welwyd drwy gynlluniau TRAC.

**Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –**
- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

**Strategaeth Dysgu Digidol**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae risg o ddarparu addysg is-safonol i blant Gwynedd oherwydd methiant i uchafu'r cyfleoedd y mae dysgu digidol yn ei gynnig. Bwriad y strategaeth yw rhoi'r ddarpariaeth ddigidol orau i gefnogi ein dysgwyr a'n hathrawon i feithrin ystod o sgiliau i ddefnyddio technoleg yn hyderus, creadigol ac yn feirniadol.

Yn sgil diwygio'r cwricwlwm mae cymhwysedd ddigidol yn gyfrifoldeb statudol ar draws pob maes dysgu ac mae angen ei ystyried ym mhob agwedd wrth ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae amrywiaethau mewn ansawdd rhwydweithiau ysgolion, a chyflwr a nifer ac argaeledd dyfeisiadau i athrawon a dysgwyr. Mae amrywiaeth yn nealltwriaeth y cyfrwng ymysg athrawon. Nid yw'r drefn o gynnal offer yn sicrhau mynediad di-dor.

Mae'r Strategaeth Addysg Ddigidol wedi ei chymeradwyo ac mae'r gwaith o'i gweithredu wedi symud ymlaen cryn dipyn yn ystod 21/22. Mae gwaith allweddol ar yr is-adeiledd ar draws ein holl ysgolion wedi dirwyn i ben gyda dyfeisiadau newydd wedi eu rhannu â mwyafrif ein dysgwyr yn y sector gynradd ac arbennig. Mae model cefnogi newydd wedi ei lunio gyda'r gwaith o'i sefydlu ar gychwyn fel ei fod yn gwbl weithredol o Ebrill 2022 ymlaen. Mae cytundeb ar fodel ariannu cynaliadwy er mwyn sicrhau nad yw'r dyfeisiadau digidol yn oesi heb ffordd o'i diweddaru gyda'r Cyngor a'r ysgolion yn cyd-ariannu.

Ein blaenoriaethau yn ystod 2022/23 fydd sefydlu'r drefn gefnogi a symud i fod yn cyflwyno dyfeisiadau i bob athro ac athrawes ynghyd â mwyafrif disgyblion y sector uwchradd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Yn syml, mae'r strategaeth yma, o'i gweithredu'n llawn am roi dyfais addas i alluogi dysgu digidol yn nwylo pob plentyn o flwyddyn 3 hyd at flwyddyn 11. Gwynedd fydd un o'r awdurdodau cyntaf i wneud hynny yng Nghymru ac mae'n rhywbeth y gallwn ni ymfalchïo ynddo.

Dros blynyddoedd mae buddsoddiad sylweddol wedi bod mewn isadeiledd rhwydwaith ysgolion. Mae nifer sylweddol o ddyfeisiadau wedi rhannu yn unol â'r strategaeth. Ers peth amser rhannwyd digon o ipads i roi un i bob pedwar dysgwr yn y Cyfnod Sylfaen, gyda digon o Chromebooks wedi eu rhannu fel bod pob dysgwr o flwyddyn 3 i 6 yn cael dyfais yr un. Mae gan bob athro ac athrawes ddyfais safonol ers peth amser. Mae digon o ddyfeisiadau wedi ei rhannu neu ei archebu bellach i sicrhau fod pob disgybl yn y sector uwchradd a mynediad i ddyfais safonol.

Nid yw pob ysgol uwchradd wedi llwyddo i rannu'r dyfeisiadau gyda'r dysgwyr. Mae heriau o ran sicrhau eu bod yn cael ei gwefru'n yr ysgol ynghyd a sut y gellid ei cludo'n saff nol a blaen o'r cartref. Mae'r ysgolion sydd wedi llwyddo i oresgyn yr heriau yma yn rhannu eu profiadau ag eraill ac yr ydym yn sicr y bydd ysgolion eraill yn rhyddhau'r dyfeisiadau dros y misoedd nesaf.

Disgwyli'r i'r dyfeisiadau archebwyd gychwyn y flwyddyn ariannol gyrraedd yr ysgolion yn gynnar yn ystod tymor y gwanwyn. Mae'r oediad oherwydd trefn bwrcasu Llywodraeth Cymru.

Yn sgil y penderfyniad i fewnoli cefnogaeth i'r holl ddyfeisiadau, ac yn sgil proses recriwtio, bu i'r Tîm Gwasanaethau Digidol Ysgolion gael ei sefydlu ac mae eisoes yn weithredol yn darparu cefnogaeth ddigidol i'n hysgolion. Y gobaith yw y bydd y dyfeisiadau hyn yn tanio dychymyg a

sbarduno ymhellach ddyfeisgarwch ac effeithiolrwydd yr agweddau o ddysgu digidol ar draws y sectorau.

O ystyried fod y dyfeisiadau bellach wedi eu rhannu gyda dysgwyr ac athrawon yn ein hysgolion, a bod y Gwasanaeth Digidol Ysgolion wedi ei sefydlu, bu i amcanion y prosiect hwn gael ei gyflawni erbyn diwedd Medi 2022, gan drosglwyddo'n dilyn hynny fel rhan o waith dydd i ddydd yr Adran Addysg a TGCh.

**Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –**
- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

**Hybu Defnydd o'r Gymraeg Ymysg Plant a Phobl Ifanc**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae sgiliau a hyder dysgwyr (o gartrefi di-Gymraeg yn arbennig) yn y Gymraeg wedi dirywio yn sgil y cyfnod clo a Covid-19.

Yn 2021/22 rydym wedi llwyddo i sefydlu gwaelodlin o sefyllfa bresennol y Gymraeg yn sgil effaith y cyfnod clo a Covid-19 ac rydym wedi dechrau cefnogi ysgolion i lunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu er mwyn ymateb i'r sefyllfa.

Yn ystod y broses o osod gwaelodlin, gwelsom fod pryder am sgiliau llafaredd a hyder disgyblion yn y Gymraeg yn cael eu hamlygu. Byddwn yn ymateb i'r pryderon hyn fel blaenoriaeth yn 2022/23 trwy gynorthwyo ysgolion i gefnogi sgiliau llafaredd a hyder disgyblion. Byddwn yn darparu hyfforddiant neu gefnogaeth ychwanegol i athrawon a chymorthyddion ac yn cyd-weithio gydag ysgolion unigol i lunio cynlluniau gweithredu i ymateb i'r anghenion.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Yn ystod y flwyddyn bu llunio, ymgynghori a chyhoeddi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a ddaeth yn weithredol o 1 Medi 2022 am gyfnod o 10 mlynedd. Yn Ionawr 2023, cyflwynwyd Cynllun Gweithredu i Lywodraeth Cymru yn manylu ar y camau gweithredu ar gyfer pob deilliant.

Y drefn anstatudol o gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi ei chyflwyno ym Medi 2022 gyda'r bwriad o adrodd trwy'r CYBLD Ionawr 2024. Bydd ysgolion yn cael arweiniad manylach o safbwynt yr hyn sy'n ofynnol yng nghyd-destun adrodd ar hyn gan Lywodraeth Cymru maes o law**.** Pwysleisir mai proses weinyddol i ysgolion i bob pwrpas yw nodi'r categori.

Yn ystod y flwyddyn bu i'r Adran weithio mewn partneriaeth gydag Ysgol Friars i'w cefnogi i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg a chefnogi staff i ddatblygu a gwella eu sgiliau yn y Gymraeg. Penodwyd athrawes Gymraeg yn Ysgol Friars i ddarparu'r gefnogaeth, ac yn sgil arfarniad cychwynnol o gynnydd, mae'r Adran yn hapus fod yr Ysgol yn gwneud cynnydd. Bydd y bartneriaeth hon yn parhau am y ddwy flynedd nesaf yn amodol ar gynnydd derbyniol gan yr ysgol.

Penodwyd athrawes brofiadol er mwyn gweithio efo 3 ysgol gynradd yn nalgylch Bangor i wella a grymuso'r ddarpariaeth Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. Bu'r athrawes yn cydweithio hefo staff y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Ein Harglwyddes, Ysgol Hirael ac Ysgol Glancegin i gynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg o fewn egwyddorion dysgu ac addysgu'r Cyfnod Sylfaen. Er mai dim ond ers 1 Ionawr 2023 y mae'r anodd mewn lle, hyd yma mae'r adborth gan yr ysgolion i'r cynllun wedi bod yn gadarnhaol iawn.

**Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –**

- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

**PROSIECTAU BLAENORIAETH CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28**

Yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol, ar 1 Ebrill 2023 cyhoeddwyd Cynllun y Cyngor o'r newydd ar gyfer y cyfnod 2023-28. Mae blaenoriaethau'r cynllun yn mynd i'r afael gyda phrif risgiau'r Adran, llesiant plant a phobl ifanc, ynghyd â buddsoddi i addasu ysgolion, neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posibl.

Isod adroddir ar yr hyn a gyflawnwyd o safbwynt y blaenoriaethau gwella newydd yng Nghynllun y Cyngor o Ebrill 2023 hyd at ddiwedd Awst 2023.

**<u>Trawsnewid Addysg ar gyfer Plant yn eu Blynyddoedd Cynnar</u>**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae'r blynyddoedd cynnar yn allweddol i ddatblygiad cymdeithasol plant, a gwelwyd pwysigrwydd y cyfnod hwn yn enwedig yn ystod y pandemig.

Rydym am drawsnewid y gwasanaeth yma a byddwn yn cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd a'r Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau fod holl blant y sir yn cael y cychwyn gorau posib i'w cyfnod mewn addysg.

**Pa gynnydd wnaed hyd at 31 Awst 2023?**

Mae rhaglen waith wedi ei llunio ar gyfer creu comisiynu a datblygu Platfform Gwybodaeth Rhanbarthol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar.

Cynhaliwyd gweithdy gyda'n partneriaid ym mis Ebrill 2023 er mwyn cynnal hunan-asesiad o'r maes Blynyddoedd Cynnar yng Ngwynedd.

Lluniwyd Cynllun Gweithredu drafft mewn ymateb i argymhellion *Early Intervention Foundation* ar gyfer siapio strategaeth newydd ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar.

Achos Fusnes wedi ei lunio a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dod a holl becyn Dechrau'n Deg i un ardal newydd yng Ngwynedd.

**<u>Cinio am Ddim</u>**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Bydd holl blant ysgolion cynradd y sir yn cael cinio ysgol am ddim, a byddwn yn ystyried os yw'n bosib ymestyn hyn i ddisgyblion uwchradd hefyd.

O ganlyniad, bydd angen i ni uwchraddio ein ceginau a'r mannau bwyta er mwyn ymdopi gyda'r niferoedd uwch fydd yn cael cinio ysgol.

**Pa gynnydd wnaed hyd at 31 Awst 2023?**

Mae'r Adran Addysg mewn partneriaeth gyda Tîm Datblygu Eiddo a'r ysgolion wedi cyflawni'r canlynol:

Adolygu gofod ceginau pob ysgol gynradd yng Ngwynedd gan adnabod pa geginau sydd angen uwchraddio'u hoffer mawr megis poptai a pheiriannau golchi llestri yn ogystal ag offer ysgafn (43 popty combi wedi eu gosod ers cychwyn y prosiect a 23 peiriant golchi llestri)

Yr ysgolion canlynol wedi derbyn estyniad i'r gegin/gofod bwyta:

- Ysgol Hendre
- Ysgol Bethel
- Ysgol Bro Lleu
- Ysgol Maenofferen
- Ysgol Llanrug
- Ysgol Y Gelli
- Ysgol Felinheli
- Ysgol Chwilog

Scottish Power wedi uwchraddio ffiwsiau ar rai safleoedd ble nad yw'r cyflenwad trydan yn ddigonol ond nid yw'r gwaith wedi ei gwblhau ymhob ysgol (proses yn araf iawn).

Cwblhawyd rhaglen waith dros wyliau haf 2023, er sicrhau y byddai holl ysgolion cynradd Gwynedd yn gallu cynnig cinio am ddim i bob disgybl o flwyddyn Derbyn i flwyddyn 6 o 1 Medi 2023 ymlaen.

**<u>Moderneiddio Adeiladau a'r Amgylchedd Dysgu</u>**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Er gwaethaf buddsoddiad sylweddol dros y degawd diwethaf, mae nifer o adeiladau ysgolion y sir dal i fod yn hen ac angen eu moderneiddio.

Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau i ysgolion ledled y sir ac yn benodol ardal Bangor a Chricieth, a byddwn yn cymryd pob cyfle i ymgeisio am gymorth grant i'n galluogi i foderneiddio adeiladau presennol a datblygu adeiladau newydd.

Byddwn hefyd yn gorffen ein hadolygiad o drefniadau addysg ôl-16 yn Arfon er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig y trefniant gorau i ddysgwyr yr ardal.

**Pa gynnydd wnaed hyd at 31 Awst 2023?**

**Dalgylch Bangor**

**Ysgol Y Faenol**

Mae cwblhau prosiect Y Faenol wedi ei oedi yn sgil materion cyfreithiol rhwng yr Eglwys yng Nghymru a Chyngor Gwynedd. Mae Uned Gyfreithiol y Cyngor wedi anfon gohebiaeth gynhwysfawr at gyfreithwyr yr Eglwys yng Nghymru er mwyn ceisio symud y prosiect ymlaen i'w derfyn.

**Ysgol Hirael**

Mae dyluniad cysyniadol wedi ei greu gan yr Uned Datblygu Eiddo a chais wedi ei gyflwyno i brisio'r gwaith. Yn sgil hynny, derbyniwyd amcan bris am y gwaith a ddyluniwyd oedd yn costio £5.7m, sef £2m yn uwch na'r gyllideb ar gyfer y prosiect.

Ymweliad safle wedi ei gynnal ar 18 Gorffennaf 2023 i ymweld ag Ysgol Hirael er mwyn ystyried a oes opsiynau amgen i ddatblygu'r safle ac i ddatrys y bwlch cyllidol posib.

**Ysgol Ein Harglwyddes**
Mae Achos fusnes SOC/OBC wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel cam cyntaf ar gyfer rhyddhau'r arian ar gyfer gwireddu'r bwriad o sicrhau ysgol newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes ar safle Ysgol Glanadda sydd bellach wedi cau.

Cynhaliwyd cyfarfod gydag Esgobaeth Catholig Wrecsam i ofyn am gynnydd yn eu cyfraniad cyllidol i wireddu'r prosiect yn sgil cynnydd mewn costau adeiladu. Yn gysylltiedig â hynny, cyflwynwyd cais i gynyddu cyllideb y prosiect gerbron Llywodraeth Cymru.

**Uwchradd Bangor**
Mae dyluniadau cysyniadol wedi cael eu drafftio gan yr Uned Datblygu Eiddo ers 2020 ar fgyer gwneud gwelliannau i Ysgol Tryfan, ond mae pryder gwirioneddol nad yw'r amcan-gostau cychwynnol yn ymddangos yn fforddiadwy, yn sgil cynnydd mewn costau deunyddiau adeiladu a phrisiau'r farchnad.

**Cricieth**

Yn sgil cymeradwyaeth y Cabinet i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 o ddysgwyr, ac adeiladu ysgol newydd yn sgil cyflwr gwael yr adeilad presennol. Bu i'r gwaith o adeiladu'r ysgol gychwyn yn mis Chwefror. Mae cynnydd da wedi bod gyda mwyafrif helaeth o'r gwaith ar gragen yr adeilad yn agos i orffen. Bydd y gwaith yn parhau dros y misoedd nesaf ac yr ydym yn hyderus y bydd modd agor yr ysgol Medi 2024. Mewn ymateb i bryder lleol am ffordd sydd yn arwain I'r ysgol bydd yr Adran Priffyrdd yn cyhoeddi gorchymyn a cychwyn ymgynghoriad ar y cynnig i roi cyfyngiad ar ddefnydd o'r lôn yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

**Addysg Ôl-16 yn Arfon**

Cyflwynwyd adroddiad gerbron Cabinet ar 7 Mawrth 2023 yn gofyn caniatâd i wneud gwaith pellach gyda rhanddeiliaid sy'n ffurfio Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn datblygu modelau posib ar gyfer y gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon.

Yn sgil derbyn caniatâd y Cabinet, mae gweithgorau gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd Arfon er mwyn datblygu modelau posib wedi eu trefnu ar gyfer Mehefin a Gorffennaf, a'r gwahoddiadau wedi eu cylchredeg ar 12 Mai 2023.

Cynhaliwyd dau weithgor gyda phenaethiaid y chwe ysgol uwchradd yn Arfon er mwyn trin a thrafod y sefyllfa bresennol gan amlygu rhai nodweddion cadarnhaol ynghyd â'r heriau a'r rhwystrau a wynebai'r gyfundrefn. Trafodwyd hefyd yr egwyddorion a oedd yn gyffredin, ynghyd â modelau posib y mae modd eu hystyried ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon i'r dyfodol ar sail canfyddiadau'r gweithgor cyntaf.

**Hyrwyddo Llesiant Plant a Phobl Ifanc a Lleihau Cost Anfon Plant i'r Ysgol**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Gyda chostau pethau dyddiol fel gwisg ysgol, bwyd, cludiant, a deunyddiau ysgrifennu ar gynnydd, rydym am ailedrych ar y costau sydd ynghlwm ag anfon plant i'r ysgol gyda'r bwriad o'u lleihau, ond gan warchod yr addysg a'r profiadau gwerthfawr y mae ein plant yn eu cael yn ystod ac ar ôl oriau ysgol.

Byddwn hefyd yn ymdrin â materion llesiant yn cynnwys heriau emosiynol a seicolegol, ac yn cefnogi materion ehangach sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, er enghraifft magu hyder, cydraddoldeb, iechyd meddwl, problemau cludiant, a sicrhau profiad gwaith a chyfleon am swyddi.

**Pa gynnydd wnaed hyd at 31 Awst 2023?**

Rydym wedi sefydlu grŵp tasg i ymchwilio a chasglu gwybodaeth i adnabod gwir gost ariannol, emosiynol a seicolegol o fynychu'r ysgol.

Rydym wedi llunio holiaduron i ran-ddeiliaid ysgolion Gwynedd i adnabod y costau a'r heriau ariannol o fynychu'r ysgol.

**Ymestyn Cyfleoedd Chwarae**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae cyfleon chwarae yn bwysig i ddatblygiad plentyn ac mae darparu meysydd chwarae o safon yn un ffordd y gallwn hybu'r cyfleoedd hyn. Byddwn felly yn ailedrych ar ein holl feysydd chwarae ac yn datblygu cynllun fydd yn ystyried sut y gallwn eu gwella yn ogystal â'u cynnal.

Byddwn hefyd yn edrych ar sut mae'r ddarpariaeth newydd ar gyfer Ieuenctid yn gweithio ar draws y sir a pha ddeilliannau y mae'n eu cyflawni i bobl ifanc.

**Pa gynnydd wnaed hyd at 31 Awst 2023?**

Yn dilyn ail strwythuro'r Gwasanaeth Ieuenctid y Sir, a chyfnod o weithredu'r model newydd, bwriedir adolygu sut mae'r ddarpariaeth newydd ar gyfer ieuenctid yn cael ei weithredu ar draws y Sir gan adnabod a gwerthuso'r deilliannau y mae'n ei chyflawni i bobl ifanc Gwynedd. Fel rhan o'r gwaith ymgysylltu mae holiadur wedi ei ddarparu i blant a phobl ifanc Gwynedd adrodd os yw'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu eu anghenion yn ogystal a pha wasanaethau y dymunir ganddynt.

**Moderneiddio ac Ehangu'r Ddarpariaeth Drochi ar gyfer Dysgu Cymraeg i Blant**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae'n hanfodol fod dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid yn cael cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl, a hynny drwy ddarpariaeth gyfoes o'r radd flaenaf, a gaiff ei lledaenu ledled Cymru. Mae'n hanfodol bod dysgwyr sy'n llai hyderus eu Cymraeg hefyd yn cael y cyfle i fagu hyder a gloywi eu Cymraeg drwy gefnogaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi.

Rydym hefyd am weld ehangu ein dulliau trochi iaith i gefnogi'r Gymraeg mewn ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau lle mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd a thu allan i'r ysgol yn gyfyngedig.

Bydd y prosiect yma mewn cydweithrediad efo'r Gyfundrefn Drochi a'n hysgolion yn rhoi'r cyfle gorau i'n holl ddysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.

**Pa gynnydd wnaed hyd at 31 Awst 2023?**

Cyflwynwyd Achos Fusnes i Lywodraeth Cymru er mwyn rhyddhau £1.1m o arian Grant Cyfalaf y Gymraeg er mwyn buddsoddi a gwella'r amgylchedd dysgu yn y 3 safle addysg drochi cynradd yng Ngwynedd.

Mae'r gwaith o ddatblygu Aberwla a'r cyfrwng rhithiol yn parhau.

Ar 7 Gorffennaf, cynhaliwyd hyfforddiant yn yr Uned Trochi Iaith ar safle ysgol Eifionydd ar gais Llywodraeth Cymru i rannu'r adnodd arloesol VR ac Aberwla a ddefnyddir yn ein Cyfundrefn Drochi yn genedlaethol. Mynychodd cynrychiolwyr o Awdurdod Addysg Dinbych, Powys, Ceredigion, Caerfyrddin, Conwy a Wrecsam yr hyfforddiant. Rhannwyd deg o setiau pen Pico 3 i bob cynrychiolydd wedi eu hariannu gan y Llywodraeth. Lansiwyd Aberwla ar Stondin Gwynedd, Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ar 8 Awst 2023.

**Y GYMRAEG**

**Pwrpas**

Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

**Nodweddion da**

- **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg**
  Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn ddogfen statudol ar gyfer pob awdurdod lleol er mwyn i ni gynllunio'n strategol dros gyfnod o ddeng mlynedd ar gyfer twf a chynnydd addysg cyfrwng Cymraeg. Y mae'r CSGA yn rhan o weledigaeth hir dymor Cymru ar gyfer Cymraeg 2050. Er mwyn cefnogi'r broses gynllunio mae'r cynlluniau wedi eu trefnu o gwmpas saith deilliant sy'n adlewyrchu taith addysg dysgwr ac yn cydweddu â meysydd polisi Cymraeg 2050 a Cenhadaeth ein Cenedl.

  Daeth y cynllun newydd i rym ar Fedi 1af 2022 a bydd yn dod i ben 31 Awst 2032. Yn ystod 2021/2022 bu'r adran yn paratoi'r cynllun newydd gan ddilyn amserlen a rhaglen a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

  Bu ymgynghoriad llawn ar ddrafft o'r CSGA newydd yn nhymor yr Hydref 2021 gan ddod i ben cyn y Nadolig. Fe aeth y CSGA gerbron y Cabinet am gymeradwyaeth ym mis Mawrth 2022 a gerbron y Pwyllgor Iaith ddechrau'r haf. Fe'i cymeradwywyd yn derfynol gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar Fehefin 24 2022.

  Bydd Llywodraeth Cymru a'r gweinidog yn parhau i fonitro ein cynnydd a'r camau a gymerwyd yn flynyddol. Ond ein nod yng Ngwynedd yw fod y CSGA yn ddogfen uchelgeisiol fyw sy'n adlewyrchu sefyllfa unigryw Gwynedd ac yn gyrru ein gweithredu o blaid addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir.

- **Canolfannau Iaith**

  **Pwrpas**
  Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc i gaffael y Gymraeg, gan barhau i sicrhau darpariaeth addysg drochi o ansawdd i alluogi newydd-ddyfodiaid cynradd ac uwchradd i elwa'n llawn o'r gyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog yng Ngwynedd.

  Yn ystod y flwyddyn penodwyd pennaeth a dirprwy newydd i'r Gyfundrefn Addysg Drochi. Yn dilyn proses ymgynghori cadarnhawyd strwythur staffio newydd ar gyfer y Gyfundrefn a ddaw yn weithredol yn Ionawr 2023.

  Mewn cydweithrediad â'r Tîm Moderneiddio mae cryn waith adeiladu wedi digwydd yn ystod y flwyddyn i wireddu gweledigaeth a chynlluniau Cabinet y Cyngor, gan gynnwys gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru o £1.1m i sefydlu safleoedd addysg drochi newydd ym Mangor, ynghyd â gwella'r adnoddau yn safle addysg drochi Eifionydd. Bellach mae adeilad Eifionydd a Bangor wedi eu cwblhau ac mae ansawdd y safleoedd yn rhagorol a'r amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, yn cynnwys darpariaeth modern a chyfoes e.e. sgriniau ac adnoddau rhyngweithiol i hwyluso'r dysgu a'r addysgu. Maent wedi eu cynllunio yn fwriadus i ddarparu addysg drochi flaengar a chyfoes mewn ardaloedd strategol o'r sir, o arwyddocâd ieithyddol. Mae'r cyfleusterau yn hwyluso cyflwyno cwricwlwm i Gymru yn yr ystafelloedd dosbarth yn ogystal â'r ardal tu allan. Maent hefyd o fewn cyrraedd rhesymol i

gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol. Bydd ymweld â'r llefydd hyn yn gyfle gwych i ehangu profiadau'r dysgwyr a dod â'r Gymraeg yn fyw iddynt. Yn anffodus ni fydd yr uned iaith newydd ar safle Ysgol Uwchradd Tywyn wedi ei chwblhau mewn pryd i groesawu'r dysgwyr yn Ionawr. Fodd bynnag hyderwn y bydd y ganolfan yn barod yn ystod tymor yr haf. Yn y cyfamser bydd y ganolfan yn cael ei lleoli dros dro ar safle Uwchradd Bro Idris.

Yn nghyfarfod y Cabinet ar 19 Gorffennaf 2022 derbyniwyd cefnogaeth unfrydol i symud ymlaen i gyflwyno achos fusnes llawn gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid o £1.1m o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg sydd eisoes wedi ei addo mewn egwyddor i gysoni capasiti a gwella amgylchedd dysgu gweddill Canolfannau Iaith cynradd y Sir sef Maesincla, Llangybi a Dolgellau.

Yn ogystal mae llawer o waith cyffrous wedi digwydd yn ystod y flwyddyn yng nghyd destun arian grant refeniw Llywodraeth Cymru. Mae staff y Gyfundrefn wedi bod yn gweithio'n agos hefo'r awdures Anni Llŷn i ysgrifennu cynllun trochi newydd ar gyfer yr unedau iaith fydd yn pontio dysgwyr o fewn y sector gynradd ac uwchradd. Mae'r cynllun newydd hwn yn seiliedig ar bentref dychmygol o'r enw Aberwla ac mae'n ymgorffori patrymau iaith priodol o fewn y continiwm iaith yng Nghwricwlwm i Gymru. Mae'n gynllun perthnasol i'r unfed ganrif ar hugain ac yn adlewyrchu'r Gymru gyfoes. Bydd y cynllun yn cael ei lansio yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Llŷn ac Eifionydd ym mis Awst 2023 a bydd yn disodli'r cynllun presennol y mis Medi canlynol. I gefnogi'r cynllun rydym mewn cydweithrediad â chwmni 'Animated Technologies' wedi datblygu elfen rithiol i'r pentref. Dyma brosiect arloesol sy'n galluogi ein hwyrddyfodiaid i gamu i Aberwla ar blatfform rhithiol i ymarfer patrymau iaith yn yr archfarchnad. Yno cânt gyfle i chwarae gemau gyda'u gilydd wrth lenwi eu basged trwy ddarllen cyfarwyddiadau a dilyn rhestr siopa. Lansiwyd y prosiect arbennig hwn yn y pentref Gwyddoniaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron haf 2022 yng nghwmni'r Gweinidog Addysg a'r Iaith Gymraeg Jeremy Miles. Yn ddiweddarach ym mis Awst yn ffodus iawn cymeradwywyd ein cais i esblygu'r prosiect hwn ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu tri lleoliad arall ym mhentref Aberwla sef Fferm Tyddyn Swnllyd, Cae Glampio, Garej a siop Gajets.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i rannu'r adnodd hwn yn genedlaethol ac mae trafodaethau ar y gweill i wneud hynny yn y dyfodol agos. I'r perwyl hwn maent yn awyddus i ariannu datblygu'r holl leoliadau yn y pentref yn ychwanegol i'r grant gwreiddiol. Dyma gydnabyddiaeth i'n gweledigaeth arloesol ac fel cyfundrefn rydym yn ymfalchïo yn yr adnodd rhithiol arloesol hwn ac yn falch o'r cyfle i'w rannu er budd dysgwyr a chefnogi nod y Llywodraeth Cymraeg 2050 ar hyd a lled Cymru.

- **Categoreiddio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg**

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ieithyddol o fis Medi 2022. Mae nifer y categorïau yn cael eu gostwng i dri yn y sector cynradd a thri yn y sector uwchradd. Un o fwriadau'r drefn newydd o gategoreiddio yw annog ysgolion i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg, ac un o egwyddorion craidd y drefn yw na ddylai unrhyw ysgol gynnig llai o ddarpariaeth Cymraeg yn y dyfodol nag a wnaed yn y gorffennol.

Bu'r adran addysg yn 2021/22 yn cynllunio ac yn ymateb i'r drefn newydd ar gyfer y sector cynradd ac uwchradd gan gwblhau'r broses honno gyda'r ysgolion a Llywodraeth Cymru yn ystod tymor yr haf – a hynny ar gyfer ei gweithredu o Fedi 2022 ymlaen. Bydd gwaith dilynol yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau fod y drefn yn datblygu ac yn gwreiddio er mwyn cyflawni uchelgais Gwynedd yn y maes hwn.

- **Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd**

  Rydym wedi bod yn hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc o fewn y cwricwlwm ac yn gymdeithasol, trwy arwain ar y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd er mwyn cynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

  Rydym wedi bod yn cydweithio ag ysgolion uwchradd i weithredu ar gamau penodol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae sylw yn parhau i gael ei roi i gyfrwng iaith y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5. Cytunwyd ar y bwriad o ail sefydlu Fforymau Iaith ym mhob ysgol uwchradd er mwyn hyrwyddo a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgolion, ac ymateb i flaenoriaethau a amlinellir yn y CSGA. Cynhaliwyd sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith a Dwyieithrwydd gyda rhai disgyblion ar draws y Sir.

- **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

  Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o ADY.

- **Sgiliau Iaith y gweithlu addysg**

  Rydym wedi parhau i gefnogi sgiliau iaith y gweithlu drwy gydweithio gyda darparwyr allanol i strwythuro darpariaeth oedd yn ymateb i'r anghenion a amlygwyd ar draws y Sir. Yn ogystal, cynhaliwyd hyfforddiant Gloywi Iaith a Methodoleg Trochi i ysgolion ym mhob dalgylch ar draws y sir.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Sicrhau fod y 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' newydd ym Medi 2022 yn gyrru gwaith yr adran yn effeithiol wrth i ni gynllunio a gweithredu o blaid addysg cyfrwng Cymraeg ar draws ein hysgolion.
- Sicrhau fod y drefn Categoreiddio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gwreiddio ac yn gosod uchelgais Gwynedd i bob un o'n hysgolion, ac yn sicrhau parhad yng nghyfrwng addysg Gymraeg disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o CA2 i CA4 a thu hwnt.
- Parhau i ehangu a datblygu Cyfundrefn Drochi Gwynedd i ddarparu addysg drochi gyfoes o ansawdd i holl newydd-ddyfodiaid y sir gan roi sylw i'r canolfannau iaith oed cynradd.
- Cynllunio cyfres o weithdai hyfforddiant yn seiliedig ar egwyddorion trochi iaith at ddefnydd holl athrawon y sir.
- Parhau i gefnogi dysgwyr sydd angen hwb ychwanegol i gynyddu eu hyder a'u sgiliau llafaredd yn y Gymraeg.

- Parhau i gefnogi ein hysgolion i gwblhau a gweithredu eu cynlluniau  Siarter Iaith a/neu Strategaeth Iaith Uwchradd er mwyn hyrwyddo a chynyddu defnydd anffurfiol plant o'r Gymraeg.
- Parhau i gefnogi athrawon a chymorthyddion i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg.

**DIOGELU**

**Pwrpas**

- Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd.
- Sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n saff yn ysgolion a chanolfannau addysg y Cyngor.
- Sicrhau bod pawb sydd yn gweithio ym maes addysg yn y Sir yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru 2020.

**Nodweddion da**

- Cadarnhad gan Arolygwyr ESTYN fod trefniadau diogelu o fewn y Gwasanaeth Addysg yn gadarn a bod cydweithio effeithiol yn digwydd rhwng yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant;


*Mae trefniadau diogelu o fewn y gwasanaeth addysg yn gyffredinol gadarn. Mae swyddogion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y maes ac yn cyd-weithio'n effeithiol gyda swyddogion gwasanaethau plant.*

***Estyn 2023***

- Pecyn hyfforddiant sylfaenol newydd wedi ei greu a'i ddosbarthu i ysgolion. Adborth cadarnhaol gan staff ysgolion am y pecyn hyfforddiant gyda 769 wedi ei gwblhau gyda chyfartaledd o 9.4 / 10 yn adrodd eu bod yn hyderus fod holl blant yr ysgol yn gwybod pwy i droi atynt os oes ganddynt bryderon diogelu.
- Pob Person dynodedig Diogelu ysgolion a Pherson dynodedig Llywodraethwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu o fewn y ddwy flynedd diwethaf.




- Ymweliadau ansawdd yn digwydd yn gyson, gydag ymweliadau dilynol ESTYN yn cadarnhau trefniadau a safonau diogelu cadarn yn yr ysgolion.
- Trefniadau cadarn mewn lle er mwyn sicrhau gwiriad DBS staff sydd yn gweithio yn yr ysgolion. 3083 o'r gweithlu gyda DBS cyfredol (99.16%)




% o staff ysgolion sydd efo gwiriad DBS cyfredol

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Codi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant/adnoddau i ysgolion i gefnogi diogelwch ar y we gan gynnwys y defnydd o ffonau symudol, gemau a gwefannau cymdeithasol
- Parhau i gynnal ymweliadau gwirio ansawdd a chefnogi ysgolion ar amserlen dwy flynedd.
- Parhau i adolygu polisïau enghreifftiol a gyflwynir i ysgolion gan roi sylw penodol i faterion diogelu.
- Ychwanegu arweiniad ar atal hiliaeth i'r hyfforddiant blynyddol sydd yn cael ei ddarparu i'r ysgolion.

**BLYNYDDOEDD CYNNAR**

Mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar yn cynllunio i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r gofynion statudol o sicrhau lle meithrin i bob plentyn o'r tymor yn dilyn ei pen-blwydd yn 3 oed. Mae'r ddarpariaeth addysg feithrin yn cael ei gynnig mewn 54 lleoliad ar draws y sir gyda 'r holl leoliadau yn aelodau o'r Mudiad Meithrin ac yn cael eu monitro'n rheolaidd.

**Nodweddion da:**

- Uwch Athrawes Ymgynghorol (UAY) wedi cyflwyno strategaeth Lleoliadau Cyfathrebu Cyfeillgar i bob lleoliad.
- Ail afael yn y gefnogaeth i fod yn leoliadau cyfathrebu cyfeillgar fel fod pob lleoliad yn dod at ei gilydd dan ofal eu hathrawes ymgynghorol i drafod syniadau a strategaethau ar gyfer sicrhau datblygiad iaith yn y lleoliadau.
- Cohort o leoliadau wedi mynychu hyfforddiant ELKLAN a MAKATON Athrawes a cymhorthydd y blynyddoedd cynnar yn gweithio ar achrediad i allu hyfforddi MAKATON Lefel 1 a 2 ymhob lleoliad.
- UAY Wedi mynychu cyfarfodydd - athrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar gydag Estyn.
- UAY wedi mynychu a Cadeirio cyfarfodydd FLAG Cymru gyfan.
- UAY wedi cyflwyno hyfforddiant ar y Cwricwlwm i Gymru 2022 i bob lleoliad.
- UAY wedi cynnal hyfforddiant dilyn trywydd y plentyn i fethrinfeydd a gwarchodwyr plant.
- UAY wedi cynnal un ymweliad ymgysylltiol fel rhan o waith i Estyn.
- Y tîm athrawon wedi mynychu sesiynau/hyfforddiant amrywiol sef Adnoddau dysgu proffesiynol yn y Cyfnod Sylfaen (CiG).
- Pob lleoliad wedi derbyn hyfforddiant ar drefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.
- Pob lleoliad wedi derbyn hyfforddiant gan yr Awdurdod ar ddiogelu.
- Pob lleoliad ac athrawes ymgynghorol wedi cael mynychu hyfforddiant Datblygiad Plentyn – Kym Scott.
- Swyddog Arweiniol ADY Blynyddoedd Cynnar wedi cyflwyno hyfforddiant i'r arweinyddion newydd.
- Lleoliadau yn creu Proffiliau Un Tudalen ar gyfer pob plentyn ADY ac yn dilyn y trefniadau newydd ynghlwm gyda'r ddeddfwriaeth newydd.
- Bu i'r athrawon ymgynghorol gefnogi pob lleoliad ar weithredu gofynion y cod ADY gan gynnwys cefnogi ar lefel targedu.
- Mae pob un lleoliad sydd wedi derbyn arolygiad ar y cyd (AGC/Estyn) ers Ionawr 2021-2022 wedi derbyn barn 'da' ar gyfer pob thema, gydag ambell adroddiad yn cyfeirio at agweddau o ragoriaeth o fewn cynnwys yr adroddiad.
- Derbyniodd 28 o ddarparwyr Addysg Feithrin gyfanswm o £239,167 mewn grantiau cyfalaf bach ar gyfer amrywiaeth o welliannau/datblygiadau.
- Pob lleoliad wedi derbyn llyfrau a jig-sos.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Ail ymweld ag 'Ein pwrpas' yn dilyn yr ail strwythuro. Ein gweledigaeth ni fel un tîm ac ystyried mesuryddion i gyd-fynd.
- Hyfforddi lleoliadau ymestyn gofal plant gan ddefnyddio'r ddogfen chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru.
- Cefnogi'r lleoliadau addysg feithrin ar weithredu'r gofynion asesu statudol.
- Cefnogi'r lleoliadau ar eu taith i fod yn leoliadau Cyfathrebu Cyfeillgar.
- Hyfforddi ymhellach ar rôl yr oedolyn.
- Edrych ar declynnau sicrhau ansawdd drwy ystyried y ddogfen chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru.

- Parhau i gydlynu buddsoddiad cyfalaf Blynyddoedd Cynnar ar y gweill yn Ysgol Cricieth ac Ysgol Uwchradd Tywyn.
- Cyflwyno cynllun cyfalaf Blynyddoedd Cynnar 2022-25 i'r Llywodraeth.
- Dosbarthu cyfalaf grantiau bach i leoliadau.
- Gweithredu'r cynllun grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ar gyfer lleoliadau nas cynhelir.
- Adolygu'r fformiwla ariannu ar gyfer addysg feithrin gan gysoni gyda'r Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg.
- Gweithredu blaenoriaethau rhaglen waith trawsffurfio'r Blynyddoedd Cynnar fel cysoni prydlesi ar safleoedd ysgol.

**TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG**

**Pwrpas**

**I wireddu cyfres o brosiectau i gyrraedd at ddyheadau y Strategaeth Addysg**


Mae rhai o adeiladau ein hysgolion yn hen ac yn anaddas i gyfarch anghenion Cwricwlwm i Gymru a dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Pwrpas y gwasanaeth yma ydy cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posib i'w galluogi i ffynnu.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae dros £73m wedi ei fuddsoddi yn ysgolion Gwynedd i wella cyflwr, addasrwydd ac amgylchedd dysgu ysgolion Gwynedd.

**Nodweddion da:**

**Band B Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy:**

- Buddsoddiad o £8m er mwyn sicrhau ysgol newydd yng Nghricieth, a’r gwaith wedi cychwyn ar y safle.
- 9 o ysgolion ar draws y sir wedi derbyn buddsoddiad i wella cyflwr ac addasrwydd yr adeiladau er mwyn diwallu gofynion Cwricwlwm i Gymru.
- Ymrwymiad i fuddsoddi’n sylweddol yn Ysgol Tryfan ym Mangor yn sgil cyflwr gwael rhai o’r adeiladau.
- Ymrwymiad i sicrhau ysgol newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes ar safle hen Ysgol Glanadda.
- Sicrhau cyllideb ar gyfer gwneud gwelliannau i Ysgol Hirael.
- Gwaith wedi mynd rhagddo gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd yn Arfon i geisio adnabod modelau posib ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon.





**% prosiectau Band B sydd yn symud ymlaen yn unol a'r disgwyl**

**Grantiau Cyfalaf Eraill:**

- Wedi llwyddo i ddenu £12m o arian cyfalaf Her Ysgolion Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru er sicrhau buddsoddiad i sefydlu Campws Cymunedol newydd ym Montnewydd.

- Wedi buddsoddi £2.7m o grant cyfalaf cinio am ddim i uwchraddio ceginau, offer a neuaddau bwyta ein hysgolion cynradd er mwyn eu galluogi i gynnig cinio am ddim i bob plentyn cynradd o Medi 2023 ymlaen.
- Wedi sicrhau buddsoddiad o £1.1m o Grant Cyfalaf Y Gymraeg, Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith Cynradd y sir.
- Wedi sicrhau buddsoddiad o £1.8m o Grant Cyfalaf y Gymraeg, Llywodraeth Cymru i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog, Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Llanllechid.
- Wedi buddsoddi £0.9m o Grant Cyfalaf ADY Llywodraeth Cymru er mwyn gwella hygyrchedd mewn rhai ysgolion uwchradd yn y sir.
- Wedi buddsoddi £0.9m o Grant Ysgolion Bro ar draws y gyfundrefn ysgolion er mwyn hwyluso mynediad a defnydd o gyfleusterau ysgolion gan gymunedau ar draws y sir y tu hwnt i oriau ysgol.




**% prosiectau cyfalaf eraill sydd yn symud ymlaen yn unol a'r disgwyl**

**Estyn:**

Cyfeiriwyd hefyd at waith ehangach yr Uned Moderneiddio Addysg yng nghyd-destun cynlluniau gwella fel rhan o adroddiad Estyn. Nodwyd:

*Mewn rhai cynlluniau gwella, mae camau strategol cynhyrchiol i gyfarch blaenoriaethau, er enghraifft fel oddi fewn y rhaglen moderneiddio ysgolion...*

*Mae enghreifftiau cadarnhaol o arweinwyr yn rhoi ar waith strategaethau buddiol sydd wedi arwain at welliannau. Mae'r rhain yn cynnwys... y gwaith ar foderneiddio ysgolion...*

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Sicrhau achosion busnes llwyddiannus ar gyfer gweddill prosiectau Band B fydd yn rhyddhau'r arian gan Lywodraeth Cymru.
- Sicrhau bod holl brosiectau Band B a phrosiectau cyfalaf eraill yn cael eu gwireddu o fewn y cyllidebau sydd ar gael iddynt, gan reoli unrhyw gynnydd mewn costau yn amserol.
- Llunio Achos Strategol Amlinellol ar gyfer y wedd nesaf o arian cyfalaf Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru gan sicrhau arian cyfatebol ar gyfer y cais.
- Ymgymryd â phrosesau i fonitro'r buddion yn dilyn gwireddu'r prosiectau i asesu os ydynt wedi eu cwblhau yn llwyddiannus. Bydd gofyn sicrhau bod yr holl weithdrefnau angenrheidiol yn eu lle i fonitro'r buddion ac yn cael eu nodi'n barhaus.

**ARWEINYDDIAETH**

**Pwrpas**

Nod y cynllun arweinyddiaeth yw galluogi fod gan holl arweinwyr Gwynedd y modd i sicrhau fod pob plentyn o dan eu gofal yn medru cyflawni ei lawn botensial. Mae'r Awdurdod wedi adnabod yr angen *"i weithio ar y cyd i greu diwylliant sy'n galluogi arweinwyr i ffynnu; ac yn medru ysbrydoli a dylanwadu ar blant ar bob lefel".*

Mae'r adran dros y cyfnod diwethaf yma wedi adnabod arweinyddiaeth fel blaenoriaeth sydd angen sylw er mwyn sicrhau olyniaeth arweinyddiaeth ar bob lefel a sicrhau bod unigolion medrus ac uchelgeisiol yn dilyn y rhaglenni arweinyddiaeth. Wrth wneud hyn y nod yw cynyddu'r nifer o ymgeiswyr cymwys a phriodol ar gyfer swyddi arwain ac yn benodol felly swyddi penaethiaid ysgolion.

**Nodweddion da:**

- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi ar sicrhau cyfundrefn sydd wedi ei chynllunio a'i datblygu i sicrhau arweinwyr priodol i ysbrydoli ar bob lefel.
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi ar sicrhau cysondeb ar gyfer y profiadau a'r cyfleoedd gorau i ddysgwyr Gwynedd.
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi ar sicrhau dulliau effeithiol sy'n datblygu arweinwyr y presennol ac i arfogi arweinwyr y dyfodol.
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi ar sicrhau fod amodau penodol mewn lle i alluogi arweinwyr i ffynnu.

**Erbyn hyn mae'r rhaglenni datblygu arweinyddiaeth ar gyfer arweinwyr mewn ysgolion yn gontinwwm o ddysgu proffesiynol, sy'n cael ei gynnig yn rhanbarthol. Mae'n cynnwys y canlynol:**

1. **Rhaglen Ddatblygu Arweinyddiaeth Ganol**

Mae'r rhaglen yn hyrwyddo arweinyddiaeth effeithiol iawn trwy hunan arfarnu a myfyrio, gan archwilio'r berthynas rhwng arweinyddiaeth, ysgolion llwyddiannus a'r gymuned ehangach.
Bydd cyfranogwyr yn:

- datblygu dealltwriaeth o'r rôl;
- datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o'r agenda ddiwygio genedlaethol;
- datblygu eu harfer yn unol â'r safonau arweinyddiaeth ffurfiol;
- paratoi ar gyfer ymgysylltiad effeithiol gydag elfennau pwrpasol o wybodaeth arbenigol a sgiliau; MDPhau, ADY, Cymraeg, ysgolion ffydd, ysgolion bach ac ati.

2. **Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol ar gyfer Uwch Arweinwyr**

Eto, mae'r rhaglen hon yn hyrwyddo arweinyddiaeth hynod effeithiol trwy ffocysu'n benodol ar hunan arfarnu a myfyrio. Bydd cyfranogwyr yn:

- datblygu dealltwriaeth o rôl uwch arweinydd ymhellach;
- datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau y dylai uwch arweinydd effeithiol eu gwybod a gallu eu mabwysiadu;
- cael cyfle i ddatblygu'r ymddygiadau arweinyddiaeth sy'n ofynnol ar gyfer uwch arweinydd effeithiol;
- datblygu eu dealltwriaeth o'r agenda diwygio cenedlaethol ymhellach;
- datblygu eu harfer o fewn y safonau arweinyddiaeth ffurfiol.

3. **Rhaglen Genedlaethol i Ddatblygu Darpar Benaethiaid – Paratoi ar gyfer CPCP 2022-2023**

Mae'r rhaglen hon ar gael i bob arweinydd ysgol profiadol sy'n credu ei fod yn arddangos cyrhaeddiad yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Dysgu ac Arweinyddiaeth ac sy'n ystyried prifathrawiaeth fel cam nesaf realistig yn y dyfodol agos.
Bydd y rhaglen hon yn adeiladu ar brofiad blaenorol, a hynny er mwyn meithrin:

- eu dealltwriaeth o rôl pennaeth effeithiol;
- eu sgiliau a'u priodoleddau trwy hunan-adolygu yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth;
- eu dealltwriaeth a'u gallu i gymhwyso amrywiaeth o sgiliau arweinyddiaeth mewn modd effeithiol;
- eu sgiliau cydweithredu trwy gymryd rhan effeithiol mewn rhwydweithiau cyfoedion;
- eu gwybodaeth a'u sgiliau ar gyfer datblygu eu hysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu a sicrhau llwyddiant yr agenda ddiwygio genedlaethol.

Bydd y Rhaglen yn galluogi'r cyfranogwyr i fyfyrio ar eu harfer proffesiynol eu hunain, ac i sicrhau eu bod wedi paratoi'n dda wrth ymgeisio i ymgymryd ag asesiad ffurfiol ar gyfer y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP).

4. **Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd eu Penodi a Phenaethiaid Dros Dro**
   Dyma raglen sy'n rhedeg dros ddwy flynedd ac ar gael i gefnogi pob pennaeth newydd ei benodi a phennaeth dros dro wrth eu gwaith. Mae'r rhaglen:

- wedi ei chynllunio yn unol â'r Model Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol;
- yn seiliedig ar y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, Datblygu Ysgolion yng Nghymru fel Sefydliadau sy'n Dysgu ac Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl;
- â dilyniant y gweithgareddau dysgu yn gyson drwy Gymru;
- â disgwyliadau cyffredin am gynnydd cyfranogwyr a sut bydd hyn yn effeithio ar eu harfer arweinyddol.

5. **Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol**
   Eto dyma raglen sy'n rhedeg dros gyfnod o ddwy flynedd, ond y tro hwn ar gyfer penaethiaid sydd eisoes yn brofiadol er mwyn bod yn bennaeth mwy effeithiol fyth. Bydd y cyfranogwyr yn:

- myfyrio ar eu dull arweinyddiaeth eu hunain a sut mae eu harweinyddiaeth yn effeithio ar eraill;
- myfyrio ar effaith ystod o ddulliau arweinyddiaeth;
- deall theori newid a myfyrio ar sut mae hynny'n effeithio ar eu harweinyddiaeth ar y daith ddiwygio drawsffurfiannol;
- cydweithio ag eraill i arwain eu hysgolion yn effeithiol a chael effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth ar draws Cymru;
- gwreiddio diwylliant ac ymarfer arloesi priodol ar draws a thu hwnt i'w hysgolion.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Sicrhau bod yna blethu amlwg rhwng y cynllun datblygu arweinyddiaeth hwn â'r egwyddorion a fabwysiadwyd gan y Cabinet, er mwyn sicrhau bod gennym drefniadau i ddatblygu ac adnabod arweinwyr sydd yn ysbrydoli ar gyfer ein cyfundrefn bresennol ac i'r dyfodol.

**UNED DDATA ADDYSG**

**Pwrpas**

Sicrhau cefnogaeth i'r Adran Addysg drwy ddarparu isadeiledd data a gwybodaeth o ansawdd uchel sy'n gyrru penderfyniadau a pherfformiad.

**Nodweddion da:**

- Wedi penodi darparwr sustem Rheoli Gwybodaeth ar gyfer yr Awdurdod.
- Mewnosod a mynd yn fyw gyda modiwl Mynediad a Chludiant o'r sustem newydd, ac wedi cysylltu SIMS Ysgolion i ddod a data o'r Ysgolion i'r Awdurdod.
- Datblygu a chyflwyno Power BI ar gyfer y Tîm Moderneiddio, ADY a Lles.
- Datblygu Adroddiadau Presenoldeb sy'n cymharu presenoldeb gwahanol grwpiau e.e. cinio am ddim, Plant Mewn Gofal ac ADY.
- Ymateb i ofynion o fonitro presenoldeb yn wythnosol drwy ddatblygu a chyflwyno dashfwrdd sy'n cwrdd ac anghenion dydd i ddydd y Gwasanaeth Lles yn ogystal ac anghenion ESTYN.
- Parhau i ddatblygu sgiliau Power BI o fewn yr Uned.
- Darparu a chyflwyno adroddiadau dadansoddi canlyniadau TGAU a Lefel A.
- Cefnogi'r Ganolfan Fusnes gydag ymatebion PLASC a SWAC.
- Cwblhau ymatebion statudol (PLASC, SWAC, Casgliad data ôl-16 a presenoldeb) o fewn yr amserlen.
- Rheoli sustem a phroses cyflwyno data ar gyfer Herio Perfformiad yr Adran Addysg.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

Bydd ein cynllun gwaith yn parhau i gael ei arwain gan fewnosod y sustem Rheoli Gwybodaeth. Gyda hyn mewn golwg dyma fydd ein blaenoriaethau am y cyfnod nesaf:

- Sicrhau cysylltiad rhwng sustem CDU ar lein a'r sustem rheoli gwybodaeth.
- Mewnosod modiwl Rheoli Achosion a'r elfen ADY o'r system.
- Sefydlu rhaglen waith i adolygu capasiti Ysgolion Gwynedd.

**GWASANAETH CEFNOGI LLYWODRAETHIANT YSGOLION**

**Pwrpas**

Cefnogi Cyrff Llywodraethu Ysgolion Gwynedd i fod yn effeithiol yn eu gwaith.

**Nodweddion da:**

- Cynnig cynhaliaeth a chefnogaeth i Gyrff Llywodraethol a'u hysgolion yn ôl y gofyn.
- Cynnig hyfforddiant mandadol ac ychwanegol mewn dull rhithwir gan gynyddu niferoedd sy'n mynychu, ac ymateb i'r galw o ran meysydd.
- Cynorthwyo Cyrff Llywodraethol i gyflawni eu rôl statudol a chynghori a gweithredu fel llinell gymorth mewn materion llywodraethol i benaethiaid a llywodraethwyr gan gynnwys y broses ormodedd, cwynion ayyb.
- Darparu rhestr gyfredol o bolisïau a thempledi lle'n briodol ar Hwb i Benaethiaid a chlercod llywodraethwyr.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Datblygu pecyn o dempledi Dogfennau Statudol a ddylai fod gan ysgolion.
- Parhau i ddatblygu adnoddau i gefnogi Cyrff Llywodraethol i ddelio â phrosesau penodol e.e. gormodedd, cwynion, paneli staffio.
- Parhau i werthuso ac adolygu'r rhaglen hyfforddiant ychwanegol a gynigir i Lywodraethwyr gan sicrhau eu bod yn ateb prif ofynion Llywodraethwyr a datblygiadau cyfredol yn y maes Llywodraethiant ysgolion.

**UNED CONTRACTAU A CHYFLOGAU**

**Pwrpas**
Sicrhau bod yr ysgolion yn derbyn gwasanaeth cefnogol o'r safon uchaf ym maes cyflogau a chontractau yn brydlon ac yn gywir.

**Nodweddion da:**

- Staff ein hysgolion yn parhau i dderbyn eu tâl yn gywir ac ar amser yn fisol.
- Cadw at lefel o wasanaeth sydd yn deg ac yn gyson i bob ysgol drwy ddilyn yr amserlen waith drwy gydol y flwyddyn addysgol.
- Wedi llwyddo i ddefnyddio llai o bapur drwy yrru pob datganiad/contract yn electroneg.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Parhau i gadw rhestr Staff Llanw yn gyfredol mewn taenlen ar gyfer yr amser pan fydd App 'llogi' Athrawon Llanw yn 'fyw'. Rhyddhau Ffurflenni Cais Llanw yn electroneg a chreu pecyn ar y wefan.
- Yn dilyn creu Datganiad Cyflogaeth terfynol ar gyfer athrawon, anelu cychwyn ar yrru'r datganiadau allan erbyn Pasg 2024 ar gyfer staff newydd.
- Parhau i annog penaethiaid i wneud yn siŵr bod pob staff dysgu a chymorthyddion cefnogaeth dysgu wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg ac wedi cwblhau'r broses DBS cyn eu bod yn cychwyn mewn ysgol. Mae'r system electronig o wirio DBS sydd wedi'i roi yn ei le yn hwyluso'r broses.
- Creu a diweddaru amserlenni a ffurflenni electroneg ar gyfer ysgolion.
- Cwblhau'r dasg o drosglwyddo ffeiliau papur holl staff ysgolion i ffeiliau electroneg.
- Cael canran uwch o gytundebau allan cyn iddynt gychwyn gweithio.

**GWASANAETH ARLWYO A GLANHAU**

**Pwrpas**

Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddysgwyr Ysgolion Gwynedd a chadw'r sefydliadau addysgol yn lân a diogel er mwyn cynorthwyo'r dysgwyr i gyrraedd eu potensial.

**Nodweddion da y gwasanaeth**

- Mae'r Gwasanaeth nawr yn darparu cinio am ddim i bawb sy'n dewis manteisio ar y cynnig o dosbarth Derbyn i fyny at Flwyddyn 6 yn ysgolion cynradd Gwynedd.
- Gweithio gydag ysgolion cynradd er mwyn derbyn adborth o fodlonrwydd plant gyda chinio ysgol.
- Gweithio gyda deietegydd BCUHB er mwyn gwneud yn siŵr fod y cynnig o ginio ysgol yn agored i bawb, hyd yn oed y rhai sydd gydag alergeddau neu ddeiet arbennig.
- Bwydlen cinio ysgolion cynradd ac arbennig yn cydymffurfio gyda 'Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth)(Cymru) 2013'.
- Bwydlen cinio ysgolion Uwchradd yn gweithio tuag at gydymffurfio gyda 'Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013'.
- Cynnal sesiynau blasu/maeth o fewn ysgolion i annog mwy o ddysgwyr i fwyta cinio ysgol.
- Cynnig i rieni sydd yn darparu bocs bwyd i'w plant os ydynt eisiau cinio rai dyddiau o'r wythnos.
- Cadw ysgolion yn lân ac yn ddiogel.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf**

- Cwblhau ffitio offer trwm a gorffen estyniadau i geginau a/neu neuaddau bwyta rhai ysgolion cynradd.
- Parhau i annog rhieni i ddewis cinio ysgol ar gyfer eu plant.
- Cynorthwyo ysgolion i ostwng lefelau dyledion rhieni (clwb gofal bore cynradd a chinio Uwchradd).
- Uwchraddio'r polisi alergeddau a deiet arbennig.
- Cefnogi Ysgolion Uwchradd gyda'r broses o gasglu dyledion cinio.

**CLUDIANT**

**Pwrpas**

Trefnu cludiant i ddisgyblion Gwynedd i sefydliadau addysgol sydd yn rhoi mynediad iddynt at addysg i gyrraedd ei potensial.

**Nodweddion da y gwasanaeth:**

- Cludiant wedi ei drefnu i'r holl ddysgwyr sydd yn deilwng
- Cludiant wedi ei drefnu i ddysgwyr ôl-16 oed.
- Y gallu i brynu e-docyn teithio ôl-16 yn rhad ac am ddim gan leihau rhwystrau i bobl ifanc Gwynedd at addysg bellach.
- Polisi Cludiant Gwynedd yn cydymffurfio gyda 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr Cymru 2008'.

**Heriau:**

- Cynnydd sylweddol yn y gost o ddarparu cludiant i holl ddysgwyr sydd yn deilwng gan arwain at orwariant sylweddol neu gyllideb annigonol gan yr Adran Addysg i gyfarch y cynnydd.
- Y broses o ail-dendro cludiant bysiau ysgol yn arwain at gynnydd sylweddol yn y gost o ddarparu bob tro ond nid yw'r gyllideb craidd ar gyfer cludiant yr Adran Addysg yn cynyddu.
- Prinder darparwyr cludiant mewn rhai ardaloedd o'r sir gan arwain at fethiant i ddarparu cludiant mewn rhai amgylchiadau neu gostau uchel i ddarparu cludiant gan ddarparwr o ardal arall sydd yn gorfod teithio cryn bellter i ddiwallu'r gofyn.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Parhau i sicrhau effeithlonrwydd y gwasanaeth drwy adolygu meini prawf a systemau presennol yn gyson.
- Gweithredu cynlluniau peilot mewn rhai ardaloedd a gyda rhai ysgolion er mwyn ceisio gostwng cost darparu cludiant.
- Cynnal adolygiad strategol o'r maes cludiant addysg.

**CANOLFAN FUSNES ADDYSG**

**Pwrpas**

Cefnogi rheolaeth effeithiol Ysgolion Gwynedd.

Mae’r Ganolfan yn cefnogi ysgolion cynradd drwy ddarparu gwasanaethau yn unol â’r Cytundeb Lefel Gwasanaeth sydd yn bodoli rhwng yr ysgolion a’r Ganolfan.

Rhoddir cefnogaeth ar gyfer amrywiaeth o feysydd yn y maes rheolaeth ysgol.

**Nodweddion da:**

- Cynnig cefnogaeth weinyddol ac arweiniad ar faterion busnes sydd yn cyfarfod ac anghenion rheolaeth weinyddol ysgolion.
- Lleihau baich gwaith Penaethiaid drwy ddarparu gwasanaeth gweinyddol ychwanegol allan yn yr ysgolion yn ôl y gofyn.
- Darparu gwasanaeth ateb galwadau ffôn yn ôl y gofyn yn benodol i ysgolion bach a chanolig sydd heb Gymhorthydd Gweinyddol ynghyd â darparu ar adegau o argyfwng i ysgolion mawr. Yn ystod 2023 fe atebwyd dros 6,000 o alwadau ffôn ar ran ysgolion cynradd a oedd yn rhan o’r cynllun.
- Cynnig gwasanaeth archebu nwyddau i ysgolion drwy ddefnydd cerdyn credyd y Ganolfan Fusnes Addysg.
- Trefnu, rhoi cymorth a hyfforddiant i ysgolion sydd yn dymuno cael cardiau credyd eu hunain.
- Mewnrwyd Canolfan Fusnes Addysg wedi ei sefydlu i gyfathrebu, rhannu gwybodaeth ac arferion da gydag ysgolion drwy’r Hwb.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Parhau i gyflwyno cardiau credyd i ysgolion sydd efo gweinyddwyr yn yr ysgolion i gefnogi'r drefn.
- Parhau i weithio’n agos gyda’r Tîm Caffael i roi gwerth gorau i ysgolion ar gytundebau Caffael.
- Parhau i adnabod a gwella gwasanaethau sydd yn mynd i gyfrannu tuag at leihau baich gwaith Penaethiaid.
- Parhau i ddatblygu a diweddaru Mewnrwyd y Ganolfan Fusnes Addysg. Datblygu tîm y Ganolfan Fusnes Addysg ymhellach mewn gwahanol feysydd i sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd uchel yn cael ei gynnig.
- Treialu system newydd o dalu anfonebau ysgolion gyda’r bwriad o gyflymu’r broses fyny, er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn cael eu talu yn gynt. Yn ystod 2022-23 bu i’r Ganolfan Fusnes Addysg brosesu dros 11,000 o anfonebau ar ran ysgolion cynradd.

**Bodlonrwydd Cwsmer**

Anfonwyd allan nifer o holiaduron boddhad cwsmer yn ystod 2022-2023 i Benaethiaid ysgolion cynradd yn gofyn eu barn am wasanaeth y Ganolfan Fusnes Addysg. Roedd yr ymatebion yn arbennig o galonogol gyda 100% ohonynt yn nodi eu bod yn fodlon iawn gyda’r gwasanaeth.

**PLANT MEWN GOFAL**

**Pwrpas**

Sicrhau'r ddarpariaeth addysg orau i Blant Mewn Gofal Gwynedd.

**Nodweddion da**

- Cynlluniau Addysg Personol plant mewn gofal wedi eu trosglwyddo i system CAP ar lein. Y system yma yn gysylltiedig â system Cynlluniau Datblygu Unigol gan sicrhau cysondeb yn y wybodaeth ac osgoi dyblygu gwaith.
- Grantiau Dalgylch plant mewn gofal a bwrsari unigol 2022/23 wedi eu rhannu i ysgolion Gwynedd gefnogi cynlluniau a darpariaethau plant mewn gofal. Nifer o ysgolion wedi cyllido hyfforddiant a darpariaethau yn gysylltiedig ag ysgolion sy'n wybodus o drawma.
- Ysgolion wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnydd effeithiol o'r system Cynlluniau Addysg Personol i blant mewn gofal ac mae'r gwaith yn parhau i sicrhau bod targedau addysgol yn ogystal â rhai lles yn cael eu cynnwys.
- Cydweithio effeithiol yn parhau i ddigwydd rhwng gwasanaethau'r cyngor i sicrhau'r gefnogaeth orau i blant mewn gofal y Sir.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Parhau i gydweithio gyda'r adran ddata i ddatblygu'r gallu i ddadansoddi presenoldeb Plant mewn gofal Gwynedd. Gweithredu ar y canfyddiadau drwy gydweithio â Swyddogion Lles Addysg.
- Cefnogi ysgolion i sicrhau arlwy o hyfforddiant ac arweiniad er mwyn sicrhau'r gefnogaeth orau i blant mewn gofal Gwynedd.
- Parhau i ddatblygu'r defnydd o'r system ar lein i gofnodi Cynlluniau Addysg Plant Mewn gofal sydd wedi ei lleoli tu allan i Gymru.
- Cyd-weithio gydag ysgolion i sicrhau cynllunio a gwariant effeithiol o grantiau sy'n gysylltiedig â plant mewn gofal.

**GWASANAETH IEUENCTID**

**Pwrpas:**

Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial.

**Gwasanaethau yr ydym yn ei ddarparu:**

**Gwaith Ieuenctid Cymunedol** – sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth agored, cymdeithasol a hwyliog, mewn cymunedau ledled y sir gyda'r nos ac yn ystod gwyliau'r ysgol drwy wneud gweithgareddau'n yr haf drwy grantiau megis Haf o Hwyl ayyb. Mae cydweithio'n bennaf gyda phartneriaid cymunedol lleol megis cynghorau cymuned, neuaddau pentref, busnesau lleol, grwpiau cymunedol (celf, chwaraeon ac amgylcheddol) gyda thîm o dros 30 o staff rhan-amser wedi eu lleoli yn y cymunedau.

**Nodweddion Da:**

- 9,309 o gyfranogwyr dros y 12 mis.
- Darpariaeth mewn dros 60 o leoliadau ar draws Gwynedd.
- Darparu sesiynau Haf o Hwyl mewn 18 o leoliadau ar draws Gwynedd gyda dros 550 o bobl ifanc wedi mynychu.
- Partner ynghyd a Byw'n Iach a'r Heddlu yn Mhrosiect Gwyliau Ysgol.
- Wedi cyllido dros 20 o sefydliadau trydydd sector drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid i ddarparu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i sicrhau darpariaeth gynhwysol i bob person ifanc yng Ngwynedd.

**Gwaith Cymorth Ieuenctid i rai 11-16 oed –** sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth ymhob ysgol uwchradd ( x14 & x2 ADY) drwy'r sir ac yn pontio gwaith cymorth ieuenctid i gymunedau y tu allan i oriau ysgol. Mae'r Tîm Cymorth Ieuenctid yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol hefo pobl ifanc, yn helpu'r bobl ifanc i feithrin perthynas gadarnhaol hefo nhw eu hunain, gydag eraill a gyda'r gymuned. Maent yn rhedeg rhaglen o weithgareddau a phrosiectau wedi ei selio ar gwricwlwm anffurfiol o ddysgu yn tarddu o'r 5 Ffordd at Les ar gyfer adeiladu gwytnwch personol pobl ifanc ac i hyrwyddo a datblygu llesiant emosiynol, ac ar y cyd gyda phartneriaid cymorth eraill. Mae'r cydweithio'n bennaf gyda ysgolion, Nyrsus Ysgol, Tîm Cyfiawnder Ieuenctid, Heddlu, Agored Cymru, Gwasanaethau Cymdeithasol, CAMHS, Adran Addysg a Chynhwysiad, Gwasanaeth Tân, Cymdeithasau Tai, Grwpiau Cymunedol a Gwirfoddol lleol.

**Nodweddion Da:**

- 8882 o gyfranogwyr dros y 12 mis.
- Dros 1,300 o achrediadau wedi eu cwblhau gan pobl ifanc.
- 220 o bobl ifanc wedi derbyn gwobr efydd/ arian drwy Wobr Dug Caeredin.
- 96% o bobl ifanc wedi nodi gwellhad yn eu llesiant.
- 97% wedi mwynhau'r ddarpariaeth

**Gwaith Cymorth Ieuenctid i rai 16-25 oed** – sy’n canolbwyntio ar ddarpariaeth wedi ei dargedu i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith. Mae’r tîm yn darparu cefnogaeth un i un a gwaith grŵp i bobl ifanc oresgyn rhwystrau sy’n eu hatal rhag ail-ymgysylltu gyda addysg, a/neu symud ymlaen i waith. Mae’r gefnogaeth yn cynnwys gwaith ar iechyd a lles (Perthnasau Iach a Rhaglenni Datblygu Gwytnwch), materion lletya, datblygu llythrennedd ddigidol ac ariannol ynghyd â chyngor gyrfaol a chyflogadwyedd, yn unol â dibenion y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ac mewn partneriaeth gyda gwasanaethau cymorth ieuenctid eraill. Mae’r cydweithio’n bennaf yma gyda Gyrfa Cymru, Colegau Addysg bellach, Bwrdd Iechyd (CAMHS yn bennaf), Canolfannau Byd Gwaith, Tîm Ôl-Ofal Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Cymdeithasau Tai ac asiantaethau digartrefedd, Mudiadau Gwirfoddol a Chymunedol (amgylcheddol, celfyddydol yn bennaf), a threfniadau pontio gyda’r ysgolion a’r adran addysg.

**Nodweddion Da:**

- Llwythi achos wedi cynyddu o 80% o gymharu â’r flwyddyn ddiwethaf.
- 92% o bobl ifanc wedi cwblhau eu cynllun personol.
- Wedi ymgysylltu gyda 65% o bobl ifanc o Haen 1 a 2 (Nifer o bobl ifanc mwyaf bregus Gwynedd).
- 86% o bobl ifanc wedi nodi gwellhad yn eu llesiant dros gyfnod eu cefnogaeth.

**Gweithiwr Ieuenctid Iechyd a Lles**

Cefnogi Pobl Ifanc i ddatblygu sesiynau a gweithgareddau i bobl ifanc eraill sy’n seiliedig ar y model 5 Ffordd at Les. Cefnogi Gweithwyr Ieuenctid (Statudol a Gwirfoddol) i ddatblygu sesiynau, gweithgareddau a chefnogaeth iechyd a lles i bobl ifanc. Cydweithio gyda’r Grŵp Rhanbarthol “Llesiant Emosiynol Plant a Pobl Ifanc” i ddatblygu Fframwaith Llesiant Emosiynol ar gyfer budd-ddeiliaid Cymorth Ieuenctid y rhanbarth i hyrwyddo iechyd a lles emosiynol (mae’r fframwaith anghlinigol hwn yn ymgais i adeiladu gwytnwch mewn plant a pobl ifanc).

**Cydlynydd Digartrefedd Ieuenctid**

Pwrpas y swydd hon yw cyfrannu at ymdrechion i ddileu digartrefedd ymysg pobl ifanc. Mae wedi bod yn gyfrifol am arwain dull partneriaethau i fapio, cydlynu, monitro a gwella systemau a llwybrau i bobl ifanc 11-25 oed sydd ‘dan risg o wynebu digartrefedd neu sydd yn ddigartref. Mae wedi datblygu llwybrau addas i bobl ifanc sydd wedi ei adeiladu ar fethodoleg gwaith ieuenctid a dull sy’n canolbwyntio ar y person ifanc. Y mae’n gweithio’n agos gyda’r Arweinydd Tîm Cymorth Ieuenctid 16-25 oed i sicrhau bod y gwaith hwn yn cyrraedd gofynion y Grant Atal Digartrefedd Pobl Ifanc ac yn adlewyrchu dull cyfredol o ddarparu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid yng Ngwynedd drwy gydweithio gyda gweddill Tîm y Gwasanaeth Ieuenctid a’r Gwasanaeth Tai yn ogystal â phartneriaid/sefydliadau allweddol i gyflawni deilliannau llwyddiannus i bobl ifanc o fewn y grŵp targed.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf**

- Gweithredu ar strategaeth cyfathrebu newydd y gwasanaeth.
- Datblygu systemau newydd i gofnodi a mesur perfformiad presennol.
- Gweithio tuag at Marc Ansawdd Gwaith Ieuenctid.

- Gweithio ar y cyd i ddatblygu fforwm pobl ifanc Cyngor Gwynedd.
- Adnabod cyfleoedd cyllidebol newydd i ddatblygu'r gwasanaeth.
- Cryfhau ein darpariaeth yn yr ysgolion a chyd-weithio gydag unedau gwasanaeth eraill yr adran addysg.
- Ail sefydlu y grŵp Fframwaith Ymgysylltu.
- Datblygu fframwaith gwirfoddoli gyda Mantell Gwynedd.

# GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD GWYNEDD AC YNYS MÔN

**GWASANAETH ANSAWDD ADY**

**Pwrpas:**

- Cefnogi datblygiad darpariaeth ADY a Chynhwysiad o ansawdd mewn lleoliadau addysgol o 0-25 oed.
- Adnabod yn gynnar ac ymateb yn briodol pan fo pryderon am ansawdd ADY ar draws y sector addysg sirol ac all-siriol i blant a phobl ifanc Gwynedd.
- Cefnogi ysgolion a darpariaethau addysg eraill i ddiwallu gofynion Deddfwriaeth ADY a Tribiwnlys (Cymru).

**Nodweddion da:**

- Nifer anghydfodau sydd yn cyrraedd Tribiwnlys yn isel.
- Canran ysgolion sydd angen mewnbwn Ansawdd uwchlaw'r arferol yn isel.
- Tîm llawn o swyddogion ansawdd a chefnogaeth broffesiynol gan y Tîm Gweinyddol
- Strwythurau ansawdd sy'n bwydo i fewn i'r Bwrdd Cefnogi Ysgolion.
- Cydweithio o fewn y drefn gwella ysgolion o ran cyfraniad Ansawdd ADY i'r drefn Bwrdd Ansawdd Sirol.
- Cydweithio gyda'r ysgolion arbennig i ddatblygu ar cyd y bandio fel bod gan yr Adran Addysg drosolwg o anghenion disgyblion mwyaf dwys a bregus y sir.
- Ystod o baneli i sicrhau bod bob haen o ADY yn cael ei drafod o fewn y Tîm ADY&Ch yn rheolaidd.
- Cydweithio gyda'r colegau addysg bellach i dreialu gweithdrefnau i bontio a sicrhau llwybr pwrpasol ôl-16 i ddisgyblion y sir.

**Heriau:**

- Absenoldebau staff.
- Y Ddeddfwriaeth newydd sydd bellach yn weithredol a'r gwahaniaeth dehongli rhwng Llywodraeth Cymru a'r Tribiwnlys ar agweddau penodol.
- Diffyg cytundeb ac eglurder ar feysydd penodol o fewn y Ddeddf a'r Cod.
- Disgyblion sy'n amlygu dwyster yn cynyddu o oedran cyn-ysgol.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Edrych ar bwrpas a gweithdrefnau paneli cymedroli wrth newid tuag at gyllido ysgolion prif lif drwy fformiwla.
- Hyfforddi'r timau a'r ysgolion wrth i Lywydd Tribiwnlys Cymru roi arweiniad o statud y ddeddf newydd a'i gweithrediad.
- Datblygu ymhellach y cydweithio gyda'r sector ôl-16 i sicrhau pontio llwyddiannus a chydymffurfiaeth â'r ddeddf newydd.
- Parhau i flaenoriaethu datrys anghydfod fel bod nifer apeliadau'r sir i'r Tribiwnlys yn parhau i fod yn y chwarter isaf AALl Cymru.

**GWASANAETH GWEINYDDOL ADY A CH**


**Pwrpas:**

Cefnogi'r timau o fewn y gwasanaeth ADY a Ch, cefnogi ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn, delio gydag ymholiadau'r cyhoedd.

- Gweithredu'r drefn weinyddol ar gyfer achosion plant sydd yn cael eu hadnabod i fod gyda ADYaCh yn statudol ar ran Cyngor Gwynedd a Chyngor Môn.
- Bod yn rhan o dîm gweinyddol sydd yn sicrhau gweinyddiaeth o ansawdd ar gyfer y Gwasanaethau ADYaCh.

**<u>Data Paneli Cymedroli 2023</u>**


| Niferoedd Paneli Cymedroli a Fforwm | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mis** | **Niferoedd Panel** | **Nifer Gweinyddu ar amser** | **Canran** | **Targed** |
| Medi 13/9/23 | 45 | 45 | 100.00% | 90% |
| Hydref 11/10/23 | 73 | 73 | 100.00% | 90% |
| Tachwedd 8/11/23 | 66 | 66 | 100.00% | 90% |
| Rhagfyr 6/12/23 | 84 | 84 | 100.00% | 90% |




Rhwng Medi 2023 a Rhagfyr 2023, mae'r gwasanaeth wedi derbyn 268 o geisiadau gan ysgol am gefnogaeth ychwanegol ar gyfer blant CDUA. Mae bob un rhan wedi'u gweinyddu'n briodol ac mewn terfyn amser gan fod rhieni ac ysgolion gyda mynediad i'r wybodaeth ar lein.

**<u>Data Fforymau Ardal</u>**

| **Mis** | **Niferoedd Fforwm** | **Nifer Gweinyddu ar amser** | **Canran** | **Targed** |
|---|---|---|---|---|
| Medi 20/9/23 | 41 | 41 | 100.00% | 90% |
| Hydref 18/10/23 | 81 | 81 | 100.00% | 90% |
| Tachwedd 15/11/23 | 63 | 63 | 100.00% | 90% |
| Rhagfyr 13/12/23 | 86 | 86 | 100.00% | 90% |




Rhwng Medi 2023 i Ragfyr 2023 mae'r gwasanaeth wedi derbyn 278 o geisiadau gan ysgol am fewnbwn gan dîm penodol o fewn y gwasanaeth. Mae bob un rhan wedi'u gweinyddu'n briodol ac mewn terfyn amser gan fod rhieni ac ysgolion gyda mynediad i'r wybodaeth ar lein a bod y timau penodol yn cael amser i greu pecyn cefnogaeth ar sail y penderfyniad.

**Blaenoriaethau y flwyddyn nesaf**

- Parhau ar agenda paneli a fforymau am y flwyddyn addysgol nesaf.
- Parhau i ddatblygu a diweddaru prosesau gweithredu Tîm Gweinyddol ADYaCh i gyd-fynd efo Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru). Sicrhau bod pob ffynhonnell wedi cael ei groesi o ran gweinyddu yn gywir ac yn effeithiol wrth dynnu unrhyw gamau gwag allan.
- Parhau i ddatblygu gweithdrefnau Cyfathrebu a Gweinyddiaeth yng nghyd-destun diweddariadau CDU Electroneg. Hyn yn golygu rhoi mewnbwn ar ddefnydd y system CDU er mwyn sicrhau diweddariad cywir i'r system sydd yn cyd-fynd gyda'n gweithdrefnau ni o ddydd i ddydd.
- Parhau â'r weithdrefn estyniad disgresiwn Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol i drosi gweddill y plant o'r system AAA i'r system ADY dros gyfnod hyd at 2025, gan obeithio y byddent wedi cwblhau canran mawr o'r rhain erbyn 31/8/24.

**GWASANAETH SEICOLEG ADDYSGOL**

**Pwrpas:**

- Hyrwyddo newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc drwy'r defnydd o Seicoleg.
- Sicrhau'r deilliannau addysgol gorau posibl ar gyfer unigolion rhwng 0 a 25 oed.
- Darparu Gwasanaeth sydd o safon uchel ac yn cyd-fynd gyda safonau Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).
- Gweithio mewn modd strategol effeithiol i hybu datblygiad ysgol gyfan yn y modd y mae ADY a Chynhwysiad yn cael ei dargedu.

**Sut ydym fel tîm yn cyflawni ein pwrpas:**

Cynnal ymgynghoriadau gyda staff perthnasol, person ifanc a rhieni fel rheol. Ers Gwanwyn 2021 yn dilyn lleihad sylweddol ym maint y tîm buom yn gweithredu model o ymgynghori gyda grwpiau o ysgolion i ymateb i'r lleihad yma mewn staffio. Bu'r model yn llwyddiant yn y rhan helaethaf o ddalgylchoedd. Yn ystod y flwyddyn 2023 rydym yn newid y model rydym yn ei gynnig; yn hytrach na chynnal grŵp ymhob dalgylch, byddwn yn cynnal 3 (Arfon, Meirion-Dwyfor a Môn) er mwyn amrywio aelodaeth y grŵp er mwyn rhannu arbenigeddau'n ehangach.

- Hyfforddiant Emotional Literacy Support Assistants (ELSA) blynyddol a goruchwyliaeth bob hanner tymor.
- Hyfforddiant i staff ysgolion ar ystod o bynciau e.e Meddylfryd o Dwf, Ymwybyddiaeth Ofalgar, Gorbryder, Dulliau Ysgol Gyfan a mwy penodol ar gyfer ADY Penodol, Ymlyniad a Trawma Datblygiadol, Anawsterau Dysgu Penodol ac Absenoldeb Ysgol ar Sail Emosiynol (AYSE).
- Ymyraethau grwp/unigol therapiwtig.
- Cynnal prosiectau ymchwil.
- Gweithio ar lefel disgyblion unigol (gan gynnwys asesiadau ac arsylwadau).

**Nodweddion da:**

- Adborth am yr ymgynghori grŵp yn gadarnhaol mewn llawer o ddalgylchoedd; y profiad wedi bod yn gadarnhaol o safbwynt y tîm hefyd. Mae'r llwyddiant yma wedi ein hannog i feddwl sut byddai Cydlynwyr ADY yn cael budd o arbenigeddau cydweithwyr o ddalgylchoedd gwahanol ac felly byddwn yn agor y grwpiau allan yn ehangach na dalgylchoedd flwyddyn yma ac yn gweithredu fesul ardal (Arfon, Meirion-Dwyfor a Môn).

- Hyfforddiant a goruchwyliaeth ELSA . Mae gennym 140 ELSA wedi eu hyfforddi ar draws y ddwy sir bellach gyda 79 wedi derbyn achrediad flwyddyn yma a 56 yn gweithio tuag at achrediad yn 2024. Mae rhai ELSAs wedi gadael eu swyddi ers hyfforddi ond rydym yn hynod falch o'r nifer sydd yn parhau i weithio yn yr ysgolion gan gynnig cefnogaeth emosiynol o ansawdd uchel i'r disgyblion.

- Hyfforddiant Ysgolion ADP Gyfeillgar wedi ei gynnig i bob ysgol gyda 61 ysgol o Wynedd wedi mynychu'r hyfforddiant. Mae 23 o rheiny wedi mynychu gweithdai dilynol gan eu bod eisiau peilota'r cynllun hwn yn eu hysgolion yn ystod y flwyddyn addysgol yma. Mae diwrnod arall o hyfforddiant yn cael ei gynnig yn ystod tymor yr Haf 2024 i'r rhai wnaeth ddim llwyddo i fynychu tro diwethaf.

- Mae penodi seicolegwyr addysgol cynorthwyol (SAC) yn galluogi'r tîm i gyflawni ystod eang o waith seicoleg yn yr ysgolion. Maent wedi creu amryw o becynnau ac adnoddau defnyddiol i ysgolion gan gynnwys pecyn hyfforddiant ELSA blynyddoedd cynnar a Phecyn Lles Uwchradd ar gyfer ein gwefan. Yn ogystal â hyn maent yn cefnogi'r staff i gasglu data a chynnal ymchwiliadau/gwerthusiadau mewn gwahanol feysydd. Aeth un seicolegydd addysgol cynorthwyol i Gaerdydd i hyfforddi a bydd yn dod atom ar leoliad yn ystod ei drydydd blwyddyn. Gobeithio y gallwn ei denu yn ôl i'r gwasanaeth ar ôl iddi gymhwyso!
- Mae'r gwasanaeth wedi llunio pecyn hyfforddiant a chanllaw i ysgolion yn y maes Absenoldeb Ysgol ar Sail Emosiynol (AYSE) ac mae rhai ysgolion wedi manteisio ar gael yr hyfforddiant. Ein dyhead fel gwasanaeth yw gweld mwy o niferoedd yn derbyn yr hyfforddiant yn ystod y flwyddyn hon. Rydym wedi cynnal darn o ymchwil gydag ysgolion er mwyn deall maint yr angen fel ein bod yn gallu cydweithio gyda thimau eraill o fewn y gwasanaeth ADYaCh i gefnogi ysgolion i ddilyn camau gweithredu addas i gefnogi unigolion sy'n profi yr anhawster yma.

**Heriau**

- Lefelau staffio isel – staff wedi gadael eu swyddi yn dilyn cyfnod heriol y pandemig.
- Recriwtio Seicolegwyr Addysgol wedi cymhwyso sy'n gallu siarad Cymraeg.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**


- Parhau i esblygu dull newydd o gynnig gwasanaeth i ysgolion pan fo niferoedd seicolegwyr wedi lleihau a'r angen am wasanaeth yn parhau i fod yn uchel.
- Datblygu gwaith ELSA o fewn ysgolion Gwynedd a Môn drwy gefnogi y 4 cohort sydd bellach wedi hyfforddi. Cymryd y cyfle i addasu a gwella'r pecyn hyfforddiant a gwerthuso effaith y rhaglen hyd yma.
- Gweithio fel rhan o weithgor Ysgolion ADP Gyfeillgar (ar y cyd gyda'r tîm arbenigol ADP a staff o ysgolion Gwynedd a Môn) i gefnogi ysgolion sy'n peilota'r cynllun ac yn gweithio tuag at achrediad erbyn Haf 2024.
- Gweithio ar y cyd gyda thimau eraill ADYaCh i ddatblygu llwybr effeithiol i gefnogi plant sydd yn absennol o'r ysgol oherwydd anawsterau emosiynol (EBSA).

**GWASANAETH ADY BLYNYDDOEDD CYNNAR**

**Pwrpas:**
Sicrhau bod dyletswyddau statudol yr ALl mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol yn cael eu gweithredu'n llawn er mwyn adnabod anghenion yn brydlon a rhoi ymyriadau priodol ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu.

**Sut yr ydym yn cyflawni ein pwrpas:**
Yn sgil y broses ymgynghori yn y Blynyddoedd Cynnar a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dod i rym Medi 2021, ail strwythurwyd strwythur staffio'r tîm. Ychwanegwyd cyfwerth â 1.4 athrawes i ymgymryd yn benodol â rôl cydlynydd dynodedig. Yn sgil hyn, mae gan y tîm ADY Blynyddoedd Cynnar 2.4 athro sydd â chyfrifoldeb i gyflawni'r rôl cydlynydd dynodedig, a chyfwerth â 2.2 cymhorthydd i'w cefnogi a rheiny wedi'u lleoli yn ddaearyddol effeithiol i ymateb i'r niferoedd sydd ym mhob ardal. Mae'r rolau hyn yn eistedd o dan arweiniad y Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar ac yn cyflawni gofynion statudol y Ddeddf ADY.


**Nodweddion da:**
Mae'r swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar ag Uwch Athrawes Blynyddoedd Cynnar yn cydweithio'n agos er mwyn sicrhau bod cydweithio effeithiol rhwng y Tîm Blynyddoedd Cynnar a Thîm ADY Blynyddoedd Cynnar. O ganlyniad, mae llawer o'r plant sydd yn cael eu hadnabod yn gweithredu ar y lefel targedu. Dengys hyn fod lleoliadau blynyddoedd cynnar yn defnyddio dull ymateb graddoledig y map darpariaeth yn effeithiol a hynny wedi sicrhau bod rhan fwyaf o gyfeiriadau i gychwyn ymholiad ADY yn rhai addas lle rhoddir CDU mewn lle i gefnogi'r plentyn. Mae'r data isod yn dangos fod rhieni, lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion yn fodlon iawn gyda chefnogaeth y tîm ADY Blynyddoedd Cynnar.




% defnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth


Rhwng Medi 2022 ac Awst 2023, mae'r Awdurdod wedi derbyn 84 ymholiad ADY. Trosglwyddwyd 27 CDU o'r flwyddyn addysgol 2021 / 2022 a rhoddodd gyfanswm o 90 CDU lle'r oedd yr Awdurdod yn gyfrifol am gynnal a chadw. Doedd dim gwahaniaeth arwyddocaol o ran y nifer o CDU roedd yr Awdurdod yn ei gynnal a chadw dros dreigl dwy flynedd diwethaf ar gyfer y cohort Blynyddoedd Cynnar. Mae prosesau ADY yn cael eu hadolygu yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac

effeithlon a hynny'n sicrhau bod pob ymholiad yn cadw at yr amserlen statudol o 12 wythnos. Dengys y graff isod fod y Tîm, gyda chefnogaeth y Tîm Gweinyddol yn cadw at yr amserlen statudol gyda phob achos (rhaid nodi nad oedd cofnod Medi 2022 yn ystyried y ffactor os oedd yr amserlenni wedi'u hoedi). Gyda phob achos lle'r oedd rhaid oedi'r amserlen, roedd hynny ar sail nad oedd iechyd yn gallu cydymffurfio gyda'u hamserlen statudol o 6 wythnos (rhan 65 o'r Ddeddf ADY) i ddarparu gwybodaeth i gefnogi'r broses o wneud penderfyniad os oedd gan y plentyn ADY ai peidio. Yn ogystal â chadw at yr amserlen statudol, dengys y data fod yr amser cyfartaledd mae'r tîm yn ei gymryd i gwblhau ymholiad wedi lleihau dros y flwyddyn. Mae hyn yn cadarnhau bod y trefniadau adolygu parhaus yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod y prosesau yn effeithiol ac effeithlon – hynny yn sicrhau adnabyddiaeth a darpariaeth cynnar ar gyfer y dysgwyr.



% yr achosion yn cyd fynd a'r amserlen statudol

Datblygwyd trefniadau i graffu ar ansawdd CDUau sydd wedi cadarnhau fod bron pob un CDU yn dda gyda lleiafrif ag agweddau rhagorol a hynny yn cael ardrawiad cadarnhaol ar ddeilliannau'r plant. Mae'r data isod a gasglwyd wrth adolygu'r CDUau yn cadarnhau fod pob plentyn wedi gwneud cynnydd da neu well yn erbyn eu targedau.




% plant sy'n derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd uniongyrchol

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

1: Parhau i esblygu gweithdrefnau effeithiol ac effeithlon ar gyfer prosesau ADY yn y Blynyddoedd Cynnar.

- Datblygu dulliau arfarnu ansawdd y ddarpariaeth dysgu ychwanegol gan gynnwys sesiynau ymestyn allan gan y tîm.
- Datblygu dulliau monitro cynnydd o fewn y CDU.
- Sicrhau cynaliadwyedd y strwythur staffio sydd yn cyflawni gofynion statudol (rôl cydlynydd dynodedig).
- Yn sgil Cynllun Ymestyn Dechrau'n Deg, ystyried a chynllunio ar gyfer y tebygolrwydd y bydd plant ag ADY yn cael eu hadnabod ynghynt. Yn sgil hynny, mae'n debygol bydd yr angen i ddarparu adnodd(au) i gefnogi'r DDdY yn cynyddu.
- Datblygu gweithdrefnau ar gyfer trafod pryderon neu arfer dda o ran ansawdd darpariaeth dysgu ychwanegol mewn lleoliadau sydd ddim yn ddarparwyr addysg (grŵp ansawdd Blynyddoedd Cynnar yn cyfarch hyn ar gyfer lleoliadau sydd yn ddarparwyr addysg).

2: Parhau i ddarparu cefnogaeth i leoliadau Blynyddoedd Cynnar gan gynnwys gwarchodwyr.

- Cefnogi lleoliadau i fonitro cynnydd yn erbyn targedau yn y CDU.
- Ymgorffori'r trefniadau arfarnu ansawdd 'prosesau ar lefel targedu' gyda gweithdrefnau'r Tîm Blynyddoedd Cynnar.
- Parhau i gydweithio'n agos gyda swyddogion datblygu gofal plant er mwyn sicrhau bod gan warchodwyr a meithrinfeydd ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau'r map darpariaeth a hynny'n cael ei adlewyrchu yn y manylion dewis (holiadur Cenedlaethol).

3: Datblygu ymgysylltiadau gyda'r rhieni / gofalwyr er mwyn uwch-sgilio a sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth.


4: Gweithredu dull 'Gwybodus am drawma ac iechyd meddwl' o fewn y tîm.

**Gwasanaeth Asesu ac Arsylwi Blynyddoedd Cynnar (ABC)**

**Pwrpas**
Paratoi plant ifanc ar gyfer y byd addysg ac i fod yn ddysgwyr cyflawn ac annibynnol a chefnogi staff ysgolion a lleoliadau i ddarparu ar eu cyfer.


**Nodweddion da:**

- Mae holiaduron bodlonrwydd yn dangos bod Ysgolion a Rhieni yn gwerthfawrogi arbenigedd y tîm. Mae cydweithio effeithiol yn digwydd rhwng ABC ac Ysgolion wrth baratoi CDU a mynychu Cyfarfodydd CDU ar blant sydd yn derbyn mewnbwn ABC.
- Mae'r tîm wedi gallu recriwtio a chynnal staff ar gyfer cynnig y ddarpariaeth llawn, a hynny wedi cynyddu yn unol â'r galw ym Meirionnydd a Dwyfor.



% defnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth

- Gwelir cynnydd yn yr ysgolion sydd yn dilyn argymhellion a'r strategaethau yn dilyn mewnbwn y tîm. Mae hyn i'w weld yn well eleni gan fod pob cofnod o ymweliad ac argymhellion yn cael eu cofnodi ar dab Cyfarfodydd ar CDU y plentyn. Mae hyn yn golygu bod yr argymhellion a'r strategaethau ar gael i bawb eu gweld.
- Mae Meini Prawf ABC / Blynyddoedd Cynnar wedi eu diweddaru ac yn profi yn ddull effeithiol o asesu ar y cyd gyda'r holl ran-ddeiliaid sydd yn ymwneud â'r plant. Bydd cydweithio'n parhau gyda'r Tîm Blynyddoedd Cynnar i adolygu a diwygio'r ddogfen yn rheolaidd.
- Mae'r nifer sydd wedi gwneud cynnydd yn ystod y flwyddyn ar gynnydd. Mae'r rhain yn cynnwys plant sydd:
    1. Mewn canolfan ABC yn unig
    2. Mewn canolfan ABC ac yn rhannu gydag ysgol
    3. Mewn ysgol yn unig.



% plant a phobl ifanc sy’n derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd

Mae’r ymyrraeth cynnar gan y gwasanaeth yn sicrhau fod y ddarpariaeth dysgu ychwanegol ar waith yn syth ac felly cynnydd yn eu targedau .

**Heriau:**

- Mae ymdrechion wedi eu gwneud i drefnu hyfforddiant gyda Therapydd Iaith a Lleferydd parthed Byrddau Cyfathrebu a Wellcomm. Nid yw hyn wedi bod yn llwyddiant hyd yn hyn oherwydd diffyg staffio Iechyd.
- Mae salwch Staff y Gwasanaeth wedi bod yn uchel sydd yn golygu bod rhaid i’r Uwch Athrawes wneud pob ymdrech i gadw’r Canolfannau ar agor. Mae hyn yn aml yn golygu bod yr Uwch Athrawes neu aelod arall o’r tîm yn llenwi. Pan nad yw hyn yn bosib, mae’n rhaid gwneud penderfyniad anodd i gau’r ganolfan.
- Ysgolion yn fwy rhagweithiol na'i gilydd yn gweithredu ar argymhellion staff ABC. Ysgolion ddim yn gweithredu ar yr argymhellion a roddwyd iddynt, ac felly yn anodd gwybod os oes cynnydd.
- Anghenion dwys ac ymddygiad heriol iawn gan niferoedd uchel o blant sydd yn y Canolfannau sydd yn ei gwneud yn anodd iawn gyda'r lefelau staffio 1:4. Mae angen goruchwyliaeth gyson ar yr unigolion yma er mwyn gwarchod iechyd a diogelwch yr holl blant ac aelodau staff. Felly mae’n anodd iawn i weithio ar unrhyw dargedau unigol y disgyblion ac effaith ar y cynnydd y wnânt.
- Ardal tu allan Canolfan ABC Dolgellau yn anaddas.
- Sicrhau hyfforddiant staff newydd yn gallu bod yn heriol tra’n diwallu gofynion y dysgwyr.
- Lleoliadau ansicr, e.e. bydd Canolfan ABC Dwyfor yn symud lleoliad am y pedwerydd gwaith yn y pedair blynedd diwethaf. Rydym yn edrych ymlaen at yr her o ail leoli yn ysgol newydd Treferthyr Medi 2024.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Parhau i gefnogi ysgolion wrth ymestyn allan a chynllunio ymlaen ar gyfer y plant.
    - Darparu a chreu Pecyn Hyfforddiant ar lefel ardal yn ôl y galw.
    - Creu pecyn Hyfforddiant ar y cyd efo Therapyddion Iaith a Lleferydd er mwyn uwch sgilio staff Ysgolion.

- Cydweithio efo'r Tîm Blynyddoedd Cynnar i ddiweddaru pecyn darpariaeth targedu.

- Sicrhau gweithdrefnau grymus i arsyllu a chefnogi o fewn y canolfannau. Bod cynllunio yn y canolfannau yn gynllun canolog i bob plentyn yn unol â'r hyn sydd wedi ei nodi yn y CDU ac yn ymateb i ofynion deddfwriaethol.
- Sicrhau fod y gwasanaeth yn cydweithio'n agos efo'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol i sicrhau ein bod yn ymwybodol o anghenion emosiynol dysgwyr. Pob dysgwr angen sylfaen emosiynol gadarn i fedru ymdopi a derbyn sgiliau ac addysg mewn sefydliad addysgol.
- Ailedrych ar y ddarpariaeth o fewn y Canolfannau oherwydd anghenion dwys y plant sydd yn mynychu, ynghyd â'r strwythur sesiynau sydd ei angen.
- Datblygu ardal tu allan Canolfan ABC Dolgellau trwy grant cyfalaf ADY Llywodraeth Cymru.

**<u>CYFATHREBU A RHYNGWEITHIO</u>**

**Pwrpas:**


Gwella sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio disgyblion sydd ar y Sbectrwm Awtistiaeth neu gydag anawsterau cyfathrebu fel y gallent ffynnu yn addysgol a chymdeithasol.

**Sut ydym fel tîm yn cyflawni ein pwrpas:**

- Cynnig mewnbwn unionyrchol i ddisgyblion drwy leoliad mewn canolfan neu fewnbwn gan gymhorthydd arbenigol.
- Asesu a monitro cynnydd disgyblion sydd wedi eu lleoli mewn ysgolion prif lif yng Ngwynedd a Môn.
- Cynnig cynhaliaeth i ddisgyblion sydd yn ei chael hi'n anodd mynychu ysgol.
- Cynnig arweiniad, cefnogaeth a hyfforddiant i staff mewn ysgolion prif lif er mwyn eu harfogi gyda'r sgiliau i allu ymateb i anghenion disgyblion sydd ar y Sbectrwm Awtistiaeth neu gydag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio.


**Nodweddion da:-**

Holiaduron bodlonrwydd yn dangos bod adborth cadarnhaol yn cael ei dderbyn yn gyson gan athrawon mewn ysgolion a gan rieni.




% defnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth

- Ystadegau yn dangos bod disgyblon sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol gennym yn gwneud cynnydd da.



% plant a phobl ifanc sy’n derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd

- Cyfathrebu clir ac agored rhwng y tîm, ysgolion a rhieni.
- Pob aelod o’r tîm gyda phrofiad a chymwysterau sydd yn eu galluogi i gynnig gwasanaeth o safon i ddisgyblion, ysgolion a rhieni.

**Heriau:**

- Nifer y cyfeiriadau rydym yn ei dderbyn yn uchel - hyn yn gallu cael effaith ar gapasiti staffio'r tîm ac ansawdd y gwasanaeth a gynigir.
- Anodd cadw'r cydbwysedd rhwng cefnogi ysgolion ac ysgolion yn dod yn or-ddibynnol ar y gefnogaeth.
- Oherwydd anhawster recriwtio a chadw staff yn y Gwasanaeth Therapyddion Iaith a Lleferydd a’r tîm Seicolegwyr Addysgol mae yna bwysau cynyddol ar y tîm i lenwi’r bwlch.
- Ymddygiadau a natur anghenion disgyblion yn dwysau – ysgolion angen mewnbwn cyson a rheolaidd gennym fel tîm, hyn ddim yn bosib bob tro o ran niferoedd y cyfeiriadau a chapasiti y tîm o ran staffio.
- Anodd recriwtio a chadw Cymorthyddion Lefel 3 y tîm, yr adborth rydym wedi ei dderbyn ydi bod y cyflog yn isel – hyn yn broblem ar draws ysgolion.

**Blaenoriaethau i’r dyfodol:**

- Gweithio ar y cyd â thimau a gwasanaethau (o fewn y cyngor a’r Bwrdd Iechyd) i sicrhau nad oes dyblygu mewnbwn yn digwydd yn enwedig gyda disgyblion sydd allan o addysg.
- Diweddaru'r wybodaeth ar y wefan ADYaCh - adnoddau a gwybodaeth i gefnogi ysgolion a rhieni.
- Gweithio gyda’r Tîm Niwroddatblygiadol i geisio lleihau eu hamserodd aros am asesiadau - nifer o ddisgyblion yn disgwyl asesiad ond efallai ddim yn dod o fewn y criteria i dderbyn asesiad.

**Risgiau:**

- Salwch staff yn y tîm yn cael ardrawiad sylweddol ar ein gallu i ymateb i achosion disgyblion a chynnig cefnogaeth i ysgolion.

**GWASANAETH SYNHWYRAIDD/CORFFOROL A MEDDYGOL/ANGHENION DYSGU PENODOL**

**Pwrpas:**

- Sicrhau'r deilliannau addysgol gorau posibl ar gyfer unigolion rhwng 0 a 25 oed.
- Darparu Gwasanaeth sydd o safon uchel, a sicrhau mynediad i'r cwricwlwm ar gyfer y disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth.
- Gweithio mewn modd strategol effeithiol i hybu datblygiad ysgol gyfan yn y modd y mae ADY a Chynhwysiad yn cael ei dargedu.

**Sut ydym fel tîm yn cyflawni ein pwrpas:**

**Synhwyraidd**:

- Rydym wedi gallu cynnig cwricwlwm arbenigol i 30% yn fwy o ddisgyblion synhwyraidd tymor yma.
- Mae 89% o'r disgyblion sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol gan y Gwasanaeth Synhwyraidd/Corfforol Meddygol wedi gwneud cynnydd yn eu datblygiad sgiliau arbenigol/cwricwlwm arbenigol y tymor hwn. Nid oes cynnydd amlwg i'w weld gan tua 11% o'r disgyblion oherwydd rhesymau megis:
    - Absenoldebau niferus y disgybl
    - Y golled clyw/golwg yn dirywio
    - Y cyflwr meddygol yn effeithio ar allu'r disgybl i ryngweithio a chymryd rhan yn y sesiwn ar adegau.

**Corfforol a Meddygol:**

- Cynnal ymgynghoriadau gyda staff perthnasol, person ifanc a rhieni fel rheol.
- Hyfforddiant i staff ysgolion ar wahanol gyflyrau/sut i gefnogi'r disgybl.
- Cydweithio gydag Iechyd i gynnal hyfforddiant/cefnogi disgyblion unigol.

**ADP:**

- Gweithio ar lefel disgyblion unigol – cynnig mewnbwn i nifer fach o unigolion am gyfnod penodol.
- Cynnal ymgynghoriadau gyda staff perthnasol, a'r disgybl.
- Hyfforddiant i staff ysgolion ar 'Rydw i'n Gallu' (Llythrennedd a Rhifedd).
- Mae'r niferoedd sy'n derbyn mewnbwn gan y Tîm ADP wedi codi o 70% i 71% o'r rhif cychwynnol (202) – mae staff yr ysgolion yn parhau i ddefnyddio 'Rydw i'n Gallu' Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol i asesu sgiliau'r disgyblion yn ffurfiannol. Mae nifer fach o ysgolion wedi gofyn am agor achosion i'r Tîm ADP, a rhai disgyblion wedi gwneud cynnydd digonol i orffen derbyn mewnbwn y Gwasanaeth ADY Penodol. Mae'r ysgolion sy'n rhan o'r Cynllun Peilot Ysgolion ADP Gyfeillgar gyda'r Tîm Seicoleg Addysgol a'r Tîm ADP yn parhau i weithio ar ddatblygu strategaethau a syniadau Ysgolion ADP Gyfeillgar ar draws yr ysgol gyfan. Maent hefyd wedi bod yn cydweithio i greu pecyn gwybodaeth i rannu gyda gweddill ysgolion y ddwy Sir.

**Nodweddion da:**

- Adborth yn yr holiaduron bodlonrwydd misol yn gadarnhaol iawn – ysgolion, rhieni ac asiantaethau allanol yn canmol y gwasanaeth ar yn ddiolchgar am y gefnogaeth.

- Hyfforddiant 'Rydw i'n Gallu' wedi ei gynnig i bob ysgol yn y ddwy sir, a nifer fawr o staff yr Ysgolion yn ei ddefnyddio er mwyn datblygu sgiliau sylfaenol penodol Llythrennedd a Rhifedd  y disgyblion.

- Hyfforddiant Ysgolion ADP Gyfeillgar wedi ei gynnig i bob ysgol gyda 61 ysgol o Wynedd wedi mynychu'r hyfforddiant. Mae 23 o rheiny wedi mynychu gweithdai dilynol gan eu bod eisiau peilota'r cynllun hwn yn eu hysgolion yn ystod y flwyddyn addysgol yma. Mae diwrnod arall o hyfforddiant yn cael ei gynnig yn ystod tymor yr Haf 2024 i'r rhai wnaeth ddim llwyddo i fynychu tro diwethaf.

- Y gwasanaeth Nam Golwg yn cydweithio gyda RNIB i greu pecynnau aml-synhwyraidd ar gyfer disgyblion yr ysgolion arbennig, yn dilyn llwyddiant creu y gyfres ddarllen braille Cymraeg llynedd (sydd eisoes wedi ei rannu i bob sir yng Nghymru).

**Heriau:**

- Prinder lefelau staffio o fewn yr ysgolion i gefnogi'r disgyblion er mwyn datblygu'r sgiliau arbenigol.

- Heriau recriwtio oherwydd yr hyfforddiant sydd yn angenrheidiol i gyflawni'r swyddi.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Cynnig hyfforddiant Golwg a Clyw i staff yr ysgolion drwy'r hyfforddiant OLT.
- Parhau i gydweithio gydag asiantaethau allanol megis Iechyd RNIB er mwyn cynnig y gefnogaeth orau posib i'r disgyblion.
- Gweithio fel rhan o weithgor Ysgolion ADP Gyfeillgar (ar y cyd gyda'r Tîm Seicoleg a staff o ysgolion Gwynedd a Môn) i gefnogi ysgolion sy'n peilota'r cynllun ac yn gweithio tuag at achrediad erbyn Haf 2024.
- Penodi staff wedi eu hyfforddi o fewn y timau ar gyfer y dyfodol agos

**GWASANAETH CWNSELA YSGOLION**

**Pwrpas:**


Darparu mewnbwn cwnsela amserol ac addas i ddysgwyr.

**Sut ydym fel tîm yn cyflawni ein pwrpas:**

- Ymateb i gyfeiriadau gan ysgolion, rhieni, asiantaethau eraill, a'r dysgwyr eu hunain lle mae angen am gwnsela wedi ei adnabod.
- Cynnig cwnsela unionyrchol i ddisgyblion ymhob ysgol Uwchradd yng Ngwynedd a Môn.


**Nodweddion da:**

- Holiaduron bodlonrwydd yn dangos canran uchel yn nodi adborth cadarnhaol:




% defnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth

- Amser disgwyl am wasanaeth wedi lleihau yn sylweddol yn sgil penodiadau i'r tîm (h.y. cynnydd mewn staffio):




Cymedr nifer y diwrnodau y mae angen disgwyl am wasanaeth

- Dangosyddion ymyrraeth (mesur CORE) yn dangos fod y gwasanaeth yn cael effaith bositif ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc.
- Cyfarfodydd tîm ac arolygaeth grŵp a chlinigol pob mis yn gefnogaeth allweddol i staff.
- Hyfforddiant amserol wedi ein galluogi i gynnig y gwasanaeth yn rhithiol a pharhau efo'r gwasanaeth dros y cyfnodau clo.
- Recriwtio Cwnselwyr ychwanegol yn cynnwys therapydd celf.
- Cynnal cynllun ar gyfer Cwnselwyr dan Hyfforddiant.

**Heriau:**

- Recriwtio Cwnselwyr cymwys dwyieithog.
- Cyllid ychwanegol dros dro trwy grantiau yn rhwystredig o ran hysbysebu swyddi atyniadol.
- Ystafelloedd addas ar gyfer Gwaith cwnsela mewn ysgolion yn creu her o ran ansawdd y ddarpariaeth.
- Galw cynyddol am y gwasanaeth yn parhau yn dilyn cyfnod COVID.

**Blaenoriaethau i'r dyfodol:**

- Datblygu system cofnodi data mwy effeithiol ar gyfer tracio cynnydd.
- Gweithio tuag at sicrhau gofod/ystafelloedd addas ar gyfer y gwaith cwnsela.
- Parhau i ddatblygu o ran arlwy a sgiliau o fewn y tîm trwy hyfforddiant.
- Treialu a datblygu trefniadau i leihau rhestrau aros ymhellach.

**Risgiau:-**

- Salwch staff a swyddi gwag yn y tîm yn cael ardrawiad sylweddol ar ein gallu i ymateb i gyfeiriadau.
- Dysgwyr yn methu a chael mewnbwn sydd yn ataliol gan y tîm ac yn datblygu angen iechyd meddwl tra'n aros am fewnbwn.

**GWASANAETH LLES ADDYSG**

**Pwrpas:**

Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i godi cyrhaeddiad trwy hybu lefelau uchel o bresenoldeb a chael y gorau allan o'r gyfundrefn addysg.

**Sut ydym fel tîm yn cyflawni ein pwrpas:**


Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, disgyblion, rhieni a chymunedau i sicrhau hawl i addysg a phresenoldeb rheolaidd. Cydweithio'n effeithiol â rhwydweithiau o asiantaethau sy'n darparu addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i blant a phobl ifanc.

Swyddogion Lles Ysgolion yn mhob dalgylch ysgol sydd yn cefnogi disgyblion i fynychu addysg yn llwyddiannus.

Tîm Addysg dewisol gartref penodol sydd yn ymgysylltu â'r teuluoedd i sicrhau bod ddarpariaeth addysgol addas ar gyfer y dysgwyr a chefnogi yn ôl yr angen e.e. cyfeirio at adnoddau a gwybodaeth pwrpasol.

**Nodweddion da:**


- Defnyddio data i gefnogi ymatebion strategol a gweithredol.
- Partneriaeth waith aeddfed a phragmatig rhwng yr ysgolion a'r Gwasanaeth Lles.
- Dulliau cyson o ymgysylltiad amserol i leihau y nifer o FPN.
- Swyddogion lles yn cefnogi teuluoedd yn enwedig y rhai sydd fwyaf o angen.
- Cefnogaeth yn y cartref ar gyfnodau penodol e.e boreau.
- Trefniadau cadarn mewn lle i fonitro unigolion sydd wedi dad-gofrestru.
- Monitro symudiadau ysgol i sicrhau nad oes neb yn disgyn drwy'r rhwyd.





% defnyddwyr sydd yn fodlon gyda cefnogaeth y gwasanaeth


**Heriau**

- Cynnydd mewn teuluoedd sydd yn dad gofrestru plant.




- Absenoldebau yn parhau yn uwch na cyn y pandemig.




- Mwy o alw am gefnogaeth dwys ac arbenigol yn enwedig mewn absenoldebau mewn perthynas â lles emosiynol a materion iechyd meddwl.
- Y galw am fwy o gefnogaeth i unigolion sydd methu mynychu’r ysgol o ganlyniad i les emosiynol.
- Nifer uchel o symudiadau ysgolion.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Presenoldeb Ysgolion Gwynedd yn unol neu’n uwch na chyfartaledd Cymru.
- Perfformiad pob disgybl mewn perthynas â phresenoldeb gwael wedi gwella.
- Defnydd o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.
- Defnyddio data i gefnogi ymatebion strategol a gweithredol.
- Lleihau lefelau absenoldebau parhaus.

**SAESNEG IAITH YCHWANEGOL (SIY)**

**Pwrpas:**


Cefnogi a chynorthwyo ysgolion i gwrdd ag anghenion dysgwyr SIY yn llwyddiannus er eu galluogi i ffynnu yn addysgol a chymdeithasol a chyrraedd eu llawn botensial.

**Sut ydym fel tîm yn cyflawni ein pwrpas:**

- Cynnal fforwm tymhorol ar gyfer mynediad i'r Gwasanaeth.
- Asesu newydd-ddyfodiaid ar draws Gwynedd.
- Cefnogi disgyblion o fewn Ysgolion i ddysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol.
- Cefnogi Ysgolion i ddarparu'n effeithiol ar gyfer y dysgwyr drwy gynnal cyfarfodydd proffesiynol, rhaglenni hyfforddiant a thrwy fodelu gwersi ar lawr dosbarth.

**Nodweddion da:**

- Adborth cadarnhaol gan Ysgolion mewn ymateb i holiaduron Bodlonrwydd misol.
- Pecyn hyfforddiant sylfaenol a chyrsiau ar gael i ysgolion.
- Buddsoddiad sylweddol mewn llyfrgell o adnoddau.
- Ymateb yn brydlon i geisiadau gan Ysgolion am gefnogaeth.
- Cynrychioli'r gwasanaeth yn genedlaethol ar fforymau SIY.




- *Disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn y fframwaith asesu SIY ("The Bell Foundation*)

**Heriau:**

- Cynnydd mewn galw yn sgil y cynnydd yn y nifer o fewnfudwyr o du allan i'r Uned Ewropeaidd.
- Tu allan i ogledd y Sir, niferoedd bach o ddisgyblion angen cymorth wedi dosbarthu yn eang.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Parhau i gefnogi a darparu hyfforddiant i ysgolion.
- Cefnogi ysgolion i ddarparu a gwahaniaethu gwaith ar gyfer disgyblion SIY.
- Ymchwilio i a threialu defnydd o system tracio newydd ar gyfer tracio cynnydd disgyblion SIY.

**CYNHWYSIAD**

**Pwrpas:**

Cefnogi a chyd-weithio ag ysgolion Gwynedd i geisio newid cadarnhaol mewn ymddygiad pobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a datblygiad cymdeithasol. Ein nod yw gwella ymddygiad a lleihau'r risg o waharddiad o ysgol.


**Sut ydym fel tîm yn cyflawni ein pwrpas:**

- Sicrhau perchnogaeth yr ysgolion o ddysgwyr sydd a anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY).
- Hyfforddi ysgolion i fod yn hyderus i weithio a dysgwyr sydd ag anawsterau ACEY.
- Cefnogi ysgolion i deilwra ymyraethau arbenigol o fewn adnoddau'r ysgol.
- Darparu darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau ymddygiadol ac emosiynol fwyaf dwys o fewn canolfannau amgen.

**Nodweddion da:**

- Rhaglen waith barhaus yn ei lle sydd yn adolygu'r gwasanaeth a'r ddarpariaeth gyda'r nod o gynyddu presenoldeb a lleihau nifer y gwaharddiadau yn y sir.
- Gweledigaeth glir sydd yn cryfhau darpariaeth.
- Monitro data gwaharddiadau, presenoldeb , dad gofrestriadau a symudiadau ysgol yn gyson
- Pecynnau cefnogaeth penodol.
- Cynnydd mewn capasiti y tîm gan arwain at ganlyniad o gadw mwyafrif o ddysgwyr ACEY o fewn eu hysgolion.
- Gweithio yn integredig ac aml-asiantaethol gan rannu gwybodaeth a chydgynllunio darpariaethau.
- Cynhaliaeth arbenigol dwys ar gyfer nifer fach o ddisgyblion sydd ag anghenion tu hwnt i'r hyn sydd yn ddisgwyliedig i ysgol ymateb iddo.

"*Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol wedi cryfhau dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, mae mwy o gapasiti i gefnogi'r disgyblion hyn ac mae'r trefniadau rheoli yn fwy clir*" (Adroddiad Estyn Medi 2023)






% defnyddwyr sydd yn fodlon gyda cefnogaeth y gwasanaeth


Mae'r tîm cynhwysiad yn gweithredu ystod o strategaethau sydd wedi'u cynllunio i feithrin gallu ysgolion i fynd i'r afael ag anghenion ymddygiad a lles disgyblion fel y gallent ddarparu ymyriadau arbenigol i'r disgyblion hynny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, gan gynnwys hyrwyddo rhannu arfer da ymhlith ysgolion.


**Heriau:**

Er gwaethaf y gostyngiad mewn gwaharddiadau yn ystod y pandemig, rydym yn cydnabod y bu tueddiad pryderus o gynnydd mewn gwaharddiadau parhaol a phenodol dros y ddwy flynedd academaidd ddiwethaf. Y prif resymau a nodwyd am y gwaharddiadau yw ymddygiadau bygythiol a threisgar yn erbyn disgyblion eraill, ymddygiadau bygythiol yn erbyn oedolion, ymddygiad aflonyddgar parhaus a chynnydd yn y nifer o achosion o ddefnyddio cyffuriau yn yr ysgol.




- Mae nifer o risgiau yn gysylltiedig â lefelau uwch o ymddieithrio a gwaharddiadau gan gynnwys diogelu, lles disgyblion, canlyniadau a gwariant ariannol. Drwy'r cynllun busnes ac adrodd ar fesuryddion, mae data yn cael ei rannu ac yn sicrhau bod uwch dîm y Cyngor, Tîm Rheoli Addysg a Bwrdd rheoli ADYaCH â throsolwg o'r sefyllfa a bod camau gweithredu cyson yn cael eu monitro er mwyn lliniaru'r risgiau.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Parhau i gydweithio gyda Phenaethiaid Uwchradd ar gysoni gwaharddiadau ac i ail-afael yn y drefn o symudiadau drwy drefniant.

- Datblygu dulliau newydd o fynd i'r afael ag anghenion mewn perthynas ag ymddygiad a lles dysgwyr, gyda'r nod o gael effaith ar gyfraddau gwaharddiadau a gwella presenoldeb.
- Lefelau gwaharddiadau yn gostwng yn sylweddol.
- Defnyddio data i gefnogi ymatebion strategol a gweithredol.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding





# Adroddiad Blynyddol GwE

# 2022-2023

# Gwynedd

# ADRODDIAD BLYNYDDOL GwE
# GWYNEDD 2022-23

**Mae Adroddiad Blynyddol GwE eleni yn benodol i bob Awdurdod Lleol a'i ysgolion.**

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r Gwasanaeth Dysgu, trwy'r gwasanaeth rhanbarthol GwE yn adnabod ei ysgolion yn dda, ac yn darparu her gadarn a phriodol ynghyd â chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer. Mae strategaethau, polisïau a phrosesau eglur ar gyfer gwella ysgolion sy'n ddealladwy i bob un o'r rhanddeiliaid ac sy'n rhoi siâp a chyfeiriad i'r Gwasanaeth Dysgu. Mae prosesau cadarn ar waith ar gyfer gosod cyfeiriad a dal y gwasanaeth rhanbarthol yn atebol. Mae rôl benodol y gwasanaeth rhanbarthol yn y broses o wella ysgolion yn eglur ac yn glir i'r holl rhanddeiliaid a chânt eu dwyn i gyfrif yn effeithiol gan weithdrefnau craffu lleol.

Mae'r tîm o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant sy'n gweithredu ar draws yr ysgolion yn meddu ar amrediad eang o brofiad ac arbenigedd pwnc a sector benodol. Mae hyn yn sicrhau bod lefel briodol o her a chefnogaeth yn cael ei thargedu mewn dull amserol. Mae trefn cadarn mewn lle i adrodd ar berfformiad a chynnydd ysgolion yn eu cyfanrwydd i'r awdurdod. Drwy gydweithio rhwng y Gwasanaeth Dysgu a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol, mae prosesau a chamau gweithredu effeithiol mewn lle i herio a chefnogi ysgolion ac i adnabod y rhai sy'n achosi consyrn. Ble mae gweithgarwch dilynol wedi'i hadnabod gan Estyn, gwelwyd cynnydd ar gyflymder priodol. Nid oes unrhyw ysgol mewn categori statudol Estyn.

Mae ansawdd uwch arweinyddiaeth yn gyffredinol gadarn ar draws y sectorau ysgolion. Mae sicrhau dilyniant i swyddi penaethiaid, ac yn enwedig yn y sector uwchradd, wedi bod, ac yn parhau i fod yn her. Cynigir arlwy cyfoethog o ddysgu proffesiynol i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel, ynghyd â chefnogaeth bwrpasol wedi ei thargedu i ysgolion yn ôl yr angen. Yn ychwanegol, mae trefniadau effeithiol ar waith ble mae arweinwyr yr ysgolion yn cydweithio i gefnogi ei gilydd mewn clystyrau cynradd a chynghreiriau uwchradd ac yn cymryd perchnogaeth ac atebolrwydd sydd yn datblygu am daith wella ei gilydd.

Mae ansawdd yr addysgu'n gyffredinol dda ar draws y sectorau ac mae gweithredu pwrpasol yn digwydd i wella a chysoni ymhellach ansawdd yr addysgu yn y rhan fwyaf o ysgolion. Bu gweithredu'n gadarnhaol i gefnogi arweinwyr ac athrawon i wella ansawdd y dysgu ac addysgu cyn, yn ystod ac ar ôl cyfnod Covid-19.

Mae'r ffocws cynyddol ar gefnogi ysgolion i wella ansawdd a chysondeb arweinyddiaeth ac addysgeg wedi arwain at gynnal a chodi safonau ar draws y mwyafrif o ysgolion. Mae angen cyflymu'r gwelliant ymhellach mewn ychydig o ysgolion.

Mae pob ysgol uwchradd yn gwneud defnydd mwy deallus o ddata a gwybodaeth addysgu, dysgu ac asesu i arfarnu safonau ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant pellach ond cydnabyddir bod angen cryfhau'r prosesau hyn ymhellach i sicrhau mwy o ffocws ar gynnydd disgyblion mewn rhai ysgolion. Mae ysgolion uwchradd hefyd yn cyflwyno rhaglenni ymyrraeth ac yn eu monitro drwy systemau olrhain i fynd i'r afael â thanberfformiad ac amrywiaeth. Mewn rhai ysgolion uwchradd, mae angen cryfhau a mireinio'r dulliau hyn ymhellach.

Mae prosesau olrhain cynnydd a chodi safonau dysgwyr yn broses sydd yn esblygu'n gryf yn y rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd. Mae taenlenni tracio cynnydd wedi esblygu i gynnwys cynnydd holistaidd dysgwyr. Mae llawer o'r ysgolion ar hyn o bryd yn gweithio ar fireinio prosesau asesu parhaus yn yr ysgolion er

mwyn cynnwys mwy o gyfraniad y dysgwyr. Lle nad yw'r prosesau wedi datblygu mor effeithiol, cynigir cefnogaeth i'r ysgolion rheini i fireinio eu prosesau olrhain cynnydd a dal yr effaith.

Mae pob ysgol ar y trywydd iawn i wireddu'r camau a amlinellwyd yn y ddogfen 'Taith i 2022' (Cwricwlwm i Gymru). Mae cymorth penodol ar waith ar gyfer yr ychydig iawn o ysgolion sydd angen arweiniad pellach. Ers Medi 2022 mae 5 o ysgolion uwchradd yn cyflwyno'r Cwricwlwm newydd yn ffurfiol. Mae hyn yn ganran arwyddocaol mewn cymhariaeth gyda'r proffil ar draws y rhanbarth.

Mae safonau pynciol a safonau yn y medrau yn gyffredinol gadarn ar draws y rhan fwyaf o'r ysgolion ac yn gadarn dda mewn sawl ysgol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i dargedu gwelliannau pellach yn y ddarpariaeth a safonau yn y medrau gyda'r grwpiau mwyaf bregus o ddysgwyr. Mewn lleiafrif o ysgolion mae gwaith mwy dwys yn digwydd i wella'r ddarpariaeth yn y medrau.

Mae'r canlynol wedi eu hadnabod fel prif flaenoriaethau i'w gwella a datblygu er mwyn herio perfformiad ysgolion ymhellach:

- parhau i gryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel gyda ffocws penodol yn y sector uwchradd ar wella prosesau gwerthuso a chynllunio gwelliant ymhellach.
- datblygu ymhellach allu uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i arwain yn effeithiol ar addysgu.
- cryfhau ymhellach brosesau atebolrwydd mewnol ysgolion i sicrhau ymyriadau cadarn ac amserol i fynd i'r afael â thanberfformio.
- sicrhau bod yr holl arweinwyr yn cymryd rhan weithredol mewn cydweithio ac adolygu cymheiriaid er mwyn symud tuag at gyfundrefn hunan wella.
- cryfhau systemau ar gyfer dal effaith strategaethau gwella ar safonau a chynnydd disgyblion.
- cryfhau ymhellach ansawdd yr addysgu a'r asesu i leihau amrywiaeth o fewn ac ar draws ysgolion.
- cryfhau ymhellach ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau dysgwyr.
- sicrhau bod pob ysgol yn gweithredu dulliau cadarn o gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed.
- datblygu ymhellach raglenni olrhain ac ymyrryd i fynd i'r afael â thanberfformiad ac amrywiaeth o fewn ysgol - yn enwedig mewn perthynas â dysgwyr sy'n agored i niwed.
- sicrhau bod pob ysgol uwchradd yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8 o fis Medi 2023.
- sicrhau bod ysgolion yn darparu tegwch i bob dysgwr, a bod ganddynt amgylchedd dysgu cynhwysol i gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed.
- sicrhau bod pob clwstwr cynradd/uwchradd yn gweithredu cynlluniau trosglwyddo effeithiol.
- sicrhau bod yr ysgolion sy'n achosi consyrn neu mewn unrhyw weithredu dilynol gan Estyn yn dangos cyflymdra cynyddol o welliannau ac yn dangos gwelliannau clir yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac yn ansawdd yr arweinyddiaeth ar draws yr ysgol.

Mae y rhain wedi eu cynnwys yn y cynllun busnes ar gyfer 2023-24.

**RHAGARWEINIAD A CHYD-DESTUN**

Mae'r Gwasanaeth Dysgu, trwy'r gwasanaeth rhanbarthol GwE yn adnabod ei ysgolion yn dda, ac yn darparu her gadarn a phriodol ynghyd â chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer. Mae strategaethau, polisïau a phrosesau eglur ar gyfer gwella ysgolion sy'n ddealladwy i bob un o'r rhanddeiliaid ac sy'n rhoi siâp a chyfeiriad i'r Gwasanaeth Dysgu. Mae prosesau cadarn ar waith yn rhanbarthol ac yn lleol ar gyfer gosod cyfeiriad a dal y gwasanaeth rhanbarthol yn atebol. Mae rôl benodol y gwasanaeth rhanbarthol yn y broses o wella ysgolion yn eglur ac yn glir i'r holl rhanddeiliaid a chânt eu dwyn i gyfrif yn effeithiol gan weithdrefnau craffu lleol.

Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn arfarnu ei waith yn rheolaidd ac yn defnyddio data a gwybodaeth ansoddol yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant yn cael eu hadnabod yn gyflym ac yn cael sylw cadarn drwy gyfrwng cynllunio busnes manwl. Mae proses glir ar waith ar gyfer sicrhau fod y gwasanaeth rhanbarthol yn cwrdd â blaenoriaethau a thargedau corfforaethol yr Awdurdod.

Mae GwE wedi addasu ei waith yn briodol ac wedi ymateb yn hyblyg dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w chymuned o ysgolion. Mae'r gwasanaeth rhanbarthol wedi ailgyfeirio egni ac adnoddau sawl gwaith yn ystod y cyfnod yma er mwyn cwrdd gydag anghenion ysgolion a rhanddeiliaid yr awdurdod. Mae hyblygrwydd a chydweithio effeithiol mewn gwahanol dimau (yn aml ar draws sectorau) wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr yn ganolog i brosesau cefnogi.

Mae paratoi tuag at Gwricwlwm i Gymru yn rhaglen ddiwygio sylweddol gydag addysgu effeithiol a gwireddu'r Pedwar Diben yn ganolog i'w lwyddiant. Yn unol â gweithredu'r cwricwlwm newydd ym mis Medi 2022, mae pob ysgol gynradd wedi cael cymorth gan GwE i gwrdd â'r gofynion statudol newydd o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Mae cefnogaeth i leoliadau uwchradd ac ysgolion arbennig i baratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8 ym mis Medi 2023 yn parhau ar draws yr ALI. Mae'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm, yn enwedig ymgysylltu uniongyrchol rhwng ysgolion uwchradd a chynradd, yn parhau er mwyn cefnogi pontio dysgwyr yn effeithiol. Er mwyn hwyluso'r ddeialog broffesiynol hon, mae GwE yn parhau i ddarparu rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru. O dan arweiniad ac adborth rheolaidd gan yr Athro Graham Donaldson, mae ysgolion yn datblygu ac yn rhannu arfer effeithiol i ddadbacio potensial y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) a chynllunio ac asesu cwricwlwm ysgol gyfan.

Mae cynnwys yr adroddiad yn nodi cynnydd yn erbyn pum maes allweddol yn ogystal â nodi'r camau nesaf ar y llwybr gwella:

- Maes Allweddol 1 – Gwella Arweinyddiaeth
- Maes Allweddol 2 – Gwella Dysgu ac Addysgu
- Maes Allweddol 3 – Cwricwlwm a Darpariaeth
- Maes Allweddol 4 – Cynnydd Dysgwyr a Safonau
- Maes Allweddol 5 – Cefnogaeth a Her i Ysgolion sy'n achosi Consyrn

**GWELLA ARWEINYDDIAETH**

Mae ansawdd uwch arweinyddiaeth yn gyffredinol gadarn ar draws y sectorau ysgolion. Mae sicrhau dilyniant i swyddi Penaethiaid, ac yn enwedig yn y sector uwchradd, wedi bod, ac yn parhau i fod yn her. Oherwydd bod ffocws a chefnogaeth bwrpasol i arweinyddiaeth:

- mae bron pob ysgol yn cymryd camau i gryfhau ymhellach arweinyddiaeth gyda ffocws penodol ar fireinio a gwella prosesau arfarnu a chynllunio gwelliant ar bob lefel.
- mae bron pob ysgol yn blaenoriaethu arweiniad a chymorth i ddatblygu gallu uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i arwain ac arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol.
- mae cynnydd yn nifer yr arweinwyr sy'n manteisio ar hyfforddiant a rhaglenni datblygu arweinyddiaeth.
- mae gan nifer cynyddol o ysgolion uwch arweinwyr sydd wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid a hwyluswyr gwelliant ac sy'n cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau adolygu cymheiriaid.

Cynigir arlwy gyfoethog o ddysgu proffesiynol i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel, ynghyd â chefnogaeth bwrpasol wedi ei thargedu i ysgolion yn ôl yr angen. Er enghraifft, eleni darparwyd gweithdai ar brosesau gwerthuso a chynllunio gwelliant i arweinwyr ymhob ysgol fel rhan o'r gynhaliaeth i roi'r Fframwaith Gwella Ysgolion ar waith. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar allu a dealltwriaeth arweinwyr i roi cynlluniau strategol pwrpasol ar waith.

Mae gan GwE weithdrefnau effeithiol i gefnogi ysgolion gyda'u hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant sy'n cynnwys darparu cyfres o weithdai arweiniol i'w cefnogi gyda'r broses. Caiff ysgolion eu herio'n rymus o ran ansawdd a chywirdeb canfyddiadau eu prosesau gwerthuso. Mae YCG yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau arfarnu mewn ysgolion megis craffu ar waith, arsylwi gwersi a theithiau dysgu ynghyd â chynaeafu llais y dysgwr.

Llwyddodd y rhan fwyaf o ysgolion i barhau i arfarnu ansawdd eu darpariaeth drwy gydol cyfnod Covid-19 gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a thystiolaeth ddefnyddiol, gan gynnwys trafodaethau rheolaidd ag ysgolion eraill a thrafodaeth gyda'r Ymgynghorydd Cyswllt GwE. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yng Ngwynedd wedi casglu safbwyntiau rhanddeiliaid yn effeithiol trwy holiaduron disgyblion a rhieni, galwadau ffôn neu sgyrsiau ag unigolion. Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, bu i ran fwyaf yr ysgolion addasu a gwella eu darpariaeth yn sylweddol wrth ddarganfod ffyrdd newydd o addysgu drwy'r pandemig. Ers haf 2022, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi bod yn gweithredu er mwyn sicrhau bod gweithgareddau gwerthuso'n cael eu cryfhau yn dilyn cyfnod y pandemig gan weithio tuag at ddisgwyliadau'r Canllawiau Gwella Ysgolion newydd.

Mewn ymateb i'r her recriwtio a dargadw, mae nifer gadarn o ymarferwyr wedi dilyn y Rhaglenni Arweinyddiaeth Cenedlaethol gan gyfrannu tuag at ddatblygu cynhwysedd arweinyddiaeth ar draws yr Awdurdod ar bob lefel. Mae hyn yn cynnwys arweinwyr canol, uwch arweinwyr, penaethiaid newydd a phenaethiaid profiadol. Fodd bynnag, mae recriwtio a dargadw staff yn parhau i fod yn her. Mae cydweithio effeithiol yn digwydd rhwng y Gwasanaeth Dysgu a GwE i gefnogi datblygiad arweinwyr ar draws y 'Llwybr Arweinyddiaeth'. Mae gwybodaeth am eu cynnydd yn cael ei chyfathrebu'n rheolaidd trwy gyfarfodydd y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol. Mae'r cydweithio a'r cyfathrebu yma yn sicrhau adnabyddiaeth o'r anghenion datblygu a ble i dargedu cymorth pellach os oes angen.

Yn ystod 2021-22 mynychodd 54 o ymarferwyr y Rhaglenni Arweinyddiaeth. Yn ystod 2022-23, mae 7 o ymarferwyr wedi llwyddo i gyrraedd y safon er mwyn derbyn cymhwyster CPCP.

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi penaethiaid newydd a phenaethiaid mewn gofal. Mae'r rhaglen yn cynnwys arlwy gyfoethog o hyfforddiant gan gynnwys sesiynau arweiniad ar feysydd megis rheoli cyllid, diogelu, diogelwch safle ymysg elfennau rheolaethol eraill. Mae'n arfogi'r penaethiaid i allu cwblhau eu gwaith yn llwyddiannus. Mae pob pennaeth newydd yn cael mynediad at fentor a chymhellwr sef penaethiaid profiadol a llwyddiannus i gynnig cefnogaeth gadarn gyda materion arweinyddiaeth a rheolaethol. Golyga hyn bod cefnogaeth amserol a phrydlon ar gael i benaethiaid newydd a bod ganddynt sawl ffynhonnell cefnogaeth i droi ato.

Mae rhaglen gynhwysol o hyfforddiant yn ei le er mwyn cefnogi datblygiad llywodraethwyr. Mae'r rhaglen wedi ei llunio yn rhannol drwy ymgynghoriad â llywodraethwyr er mwyn ymateb i'w hanghenion datblygiadol penodol. Mae adborth gan lywodraethwyr ar y rhaglen wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae gan y gwasanaeth rhanbarthol ddarpariaeth amrywiol o hyfforddiant sy'n cyfoethogi'r cynnig hyfforddiant.

Mae arlwy gyfoethog ar gael i gefnogi datblygiad proffesiynol cynorthwywyr addysgu drwy'r rhaglenni cenedlaethol, sef y Llwybr Dysgu i Gynorthwywyr Addysgu (LIDGA). Mae'r LIDGA yn cynnwys hyfforddiant 'Ymsefydlu', 'Cynorthwywyr wrth eu gwaith' a'r rhaglen 'Darpar CALU' sydd yn arwain at asesiad ar gyfer statws CALU. Yn yr un modd a'r rhaglen Arweinyddiaeth ar gyfer athrawon, mae'r rhaglenni hyn yn annog unigolion i ddatblygu'n ymarferwyr myfyriol sy'n gwerthuso eu hymarfer yn erbyn y 'Safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu'.

Mae holl raglenni'r LIDGA wedi cael eu haddasu ar gyfer eu cyflwyno yn rhithiol, newid a gafodd ei groesawu gan gymorthyddion yn ystod y pandemig. Rhoddwyd y rhaglen 'Ymsefydlu' ar ffurf rhestr chware digidol ac yn ystod 2020-21 a 2021-22, cwblhaodd 20 o gynorthwywyr y rhaglen hon. Bydd y rhaglen 'Ymsefydlu' yn parhau yn y fformat hwn.

Addaswyd y rhaglen 'Cynorthwywyr wrth eu gwaith' hefyd yn ystod 2021-22 ar gyfer darpariaeth rithiol. Tua diwedd 2021-22 dychwelodd y rhaglen yn raddol i ddarpariaeth wyneb yn wyneb, fel yr oedd y sefyllfa'n caniatáu. Croesawyd hyn gan gymorthyddion a hwyluswyr fel ei gilydd. Mae'r rhaglen ar gael yn rhanbarthol neu gellir ei chyflwyno i glwstwr o ysgolion.

Crëwyd rhaglen genedlaethol Cymorthyddion Addysgu Lefel Uwch (CALU) newydd yn 2020 sydd bellach wedi bod yn rhedeg dros bedwar cylch, gyda 20 o gymorthyddion Gwynedd yn cymryd rhan. Ar ôl cwblhau'r rhaglen newydd ar gyfer CALU, a bodloni gofynion cymhwyster llythrennedd a rhifedd, gall cymorthyddion wneud cais am asesiad statws CALU. Yn ddiweddar, mae 12 o gymorthyddion wedi derbyn statws CALU.

Yn gyffredinol, mae cydweithio clwstwr effeithiol yn y cynradd. Eleni mae'r gwaith o ddatblygu rôl Cynghreiriau ysgolion uwchradd o fewn yr Awdurdod yn dechrau gwreiddio. Mae gwybodaeth drylwyr o gryfderau ac anghenion ysgolion a chlystyrau. Mae enghreifftiau niferus ar draws y dalgylchoedd cynradd sy'n dangos bod systemau a phrosesau cydweithio yn aeddfedu ac o ganlyniad gwelwyd cynnydd yn y rhannu arbenigedd ac arferion llwyddiannus. Yn yr arferion gorau, mae cydweithio yn golygu bod arweinwyr o bob haen yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a rhannu arfer dda, yn cydweithio mewn modd strwythuredig ac yn datblygu amrywiaeth eang o feysydd yn llwyddiannus megis Cwricwlwm i Gymru, addysgeg, Anghenion Dysgu Ychwanegol, digidol a phontio cynradd-uwchradd. Mae'r cydweithio hwn wedi arwain at wella profiadau a deilliannau dysgwyr.

Mae Rhaglen Hwylusydd Digidol wedi bod yn weithredol ers Tachwedd 2021, ble mae pob clwstwr wedi enwebu unigolyn i arwain ar agweddau strategol dysgu digidol, i gydweithio'n agos â'r Awdurdod Lleol a GwE i ddatblygu arweinyddiaeth strategol o fewn pob ysgol yn eu clystyrau. O ganlyniad, mae 77% o'r clystyrau yng Ngwynedd wedi sefydlu gweithgor dysgu digidol, ac mae 61% o ysgolion yn ymgysylltu â'r grwpiau hyn. Nôd y grwpiau hyn yw goruchwylio datblygiadau digidol ac ymgorffori cymhwysedd digidol yn llawn fel elfen fandadol o Gwricwlwm i Gymru. Mae pob clwstwr sydd wedi ffurfio gweithgor, bellach wedi sefydlu gweledigaeth a rennir rhwng bob ysgol ar gyfer dysgu digidol er mwyn sicrhau fod amcanion ac uchelgais yr ysgolion yn gyson. Hyd yn hyn, mae'r rhaglen wedi darparu hyfforddiant i 128 o ymarferwyr ac wedi hwyluso 18 cyfarfod strategol yn yr awdurdod. Mae 46 o ymarferwyr wedi mynychu sesiwn hyfforddi a gynigir drwy'r cynnig dysgu proffesiynol digidol ar gyfer 2023-24. Mynychodd 16 o arweinwyr digidol y rhaglen datblygu arweinyddiaeth ddigidol dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd hon yn rhaglen ddeuddydd oedd yn datblygu sgiliau arweinyddiaeth strategol allweddol a fyddai'n helpu i gryfhau eu rôl fel arweinydd digidol yn eu hysgol.

Mae pob ysgol Gynradd, Uwchradd ac Arbennig wedi bod y rhan o brosiect asesu ar gyfer dysgu arloesol (dan arweiniad Shirley Clarke), ac mae gwaith da iawn wedi ei wneud i wreiddio'r

egwyddorion yma fel rhan naturiol o'r dysgu a'r addysgu ar draws y rhan fwyaf o ysgolion yr Awdurdod.

Mae 11 o ysgolion Uwchradd ag 18 ysgol gynradd yn cymryd rhan yn y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion.* O dan y trefniant hwn, mae pob ysgol wedi ymrwymo i gylch o hunan ac adolygu cyfoedion a chefnogaeth ar y cyd i wella meysydd blaenoriaeth. Trefnwyd rhaglen gyfoethog o hyfforddiant i arweinwyr sgiliau ac i sefydlu'r rôl 'hwylusydd gwella' ym mhob ysgol.

## GWELLA ADDYSGU

### Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, ymgysylltu ac effaith

Oherwydd y ffocws cynyddol ar gefnogaeth ac arweiniad i wella'r addysgu:

- mae bron pob ysgol yn dangos gwelliannau mewn agweddau penodol ar addysgeg.
- mae bron pob ysgol yn cymryd camau priodol i gryfhau addysgeg.
- mae cymorth pwnc penodol sydd wedi'i dargedu wedi arwain at wella addysgu ar draws llawer o bynciau ac wedi gwella dyfnder ac ehangder dealltwriaeth.
- mae cymorth yn y sgiliau trawsgwricwlaidd wedi arwain at welliannau yn ansawdd y cynllunio, darpariaeth a safonau mewn llawer o ysgolion.
- mae gan bron bob ysgol ymyriadau llythrennedd a rhifedd priodol.

Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw pellach i gyflymder a graddfa gwelliannau mewn rhai ysgolion.

Mae ansawdd yr addysgu'n gyffredinol dda ar draws y sectorau ac mae gweithredu pwrpasol yn digwydd i wella a chysoni ymhellach ansawdd yr addysgu yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae gweithredu cadarnhaol i gefnogi arweinwyr ac athrawon i wella ansawdd yr addysgu cyn, yn ystod ac ar ôl cyfnod Covid-19. Mae camau pwrpasol i fynd i'r afael â meysydd sy'n achosi consyrn ac i leihau amrywiaethau o fewn ysgolion.

Ers dechrau'r cyfnod clo, mae'r Gwasanaeth Dysgu trwy GwE wedi bod yn rhagweithiol yn eu cefnogaeth i ysgolion. Mae ystod eang o ddeunyddiau a modelau o safon ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol wedi eu darparu trwy lwyfannau digidol megis 'Google Classroom' a Chanolfan Gefnogaeth GwE [Canolfan Cefnogaeth GwE - Canolfan Cefnogaeth GwE (gwegogledd.cymru)]. Mae'r gwaith wedi tynnu ar ganfyddiadau ymchwil i arferion rhyngwladol effeithiol.

Mae bron pob un o'r penaethiaid wedi gwerthfawrogi mewnbwn yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant a swyddogion y Gwasanaeth Dysgu wrth iddynt ddarparu arweiniad a chymorth i ysgolion a chlystyrau ddatblygu eu darpariaeth ymhellach. Nododd bron pob un o'r penaethiaid fod rôl yr YCG wrth hwyluso cyfarfodydd clwstwr wedi bod yn allweddol i rannu syniadau ac arfer dda ar gyfer datblygu eu darpariaeth dysgu o bell a chyfunol. Nodwyd hefyd bod y cyfarfodydd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

Mae GwE wedi darparu ystod o ganllawiau ac adnoddau o ansawdd uchel i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad gyda rhieni, ac wedi gweithio gyda Mike Gershon er mwyn i rieni dderbyn mynediad at ddeunyddiau o ansawdd. Mae deunyddiau 'Helping your Child to Learn' (HYCTL) a 'Helping your Teen to Learn' (HYTTL), a'r adnodd 'Adolygu gyda Mike' wedi cael derbyniad cadarnhaol iawn. Mae ystod y strategaethau adolygu hefyd wedi effeithio ar arferion llawr dosbarth athrawon wrth iddynt baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau diwedd blwyddyn.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gwneud defnydd effeithiol iawn o ganllawiau ac arweiniad gan y Gwasanaeth Rhanbarthol ar gyflwyno addysgu o bell ac addysgu cyfunol. Mae'r canllawiau yma yn cynnwys arweiniad ar gynllunio arferion adalw gwybodaeth ac adalw dysgu'n llwyddiannus wrth i ddisgyblion ddychwelyd addysg wyneb yn wyneb. Bu ffocws pwrpasol hefyd i adnabod gwaelodlin wrth i'r dysgwyr ddychwelyd i addysg ffurfiol gan sicrhau gweithredu cynlluniau pwrpasol mewn ymateb i unrhyw fylchau mewn dysgu.

Dros y cyfnod, bu i GwE gefnogi ysgolion i arfarnu ansawdd eu darpariaeth addysgu cyfunol ac addysgu o bell, a rhannu enghreifftiau ac astudiaethau achos lleol o ddarpariaethau effeithiol i leihau amrywiadau. Bu i drafodaethau rheolaidd gydag arweinwyr ac athrawon, gweithgarwch craffu ar waith dysgwyr (ar y safle ac yn rhithiol) a theithiau dysgu, arwain at ddarparu profiadau gwerthfawr ar gyfer yr ystod gallu. Mae tystiolaeth glir hefyd bod nifer gynyddol o ymarferwyr bellach yn gallu defnyddio technoleg yn fwy hyderus er mwyn cefnogi'r dysgu. Dyma un o'r 'mannau twf' allweddol sy'n deillio o gyfnod Covid-19.

Mae ysgolion wedi derbyn arweiniad a chanllawiau pwrpasol i gefnogi eu paratoadau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mae'r ffocws ar addysgeg a'r 12 egwyddor yn ganolog i'r gwaith hwn. Mae'r gwasanaeth a chynrychiolwyr ysgolion wedi bod yn gweithio'n effeithiol gyda'r Athro Graham Donaldson er mwyn dyfnhau dealltwriaeth o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys hyrwyddo cydweithio llwyddiannus sy'n golygu bod athrawon wedi gallu cyd-gynllunio enghreifftiau a modelau i'w rhannu ar draws ysgolion.

Mae'r Rhwydweithiau Cwricwlwm yn rhannu ffrwyth eu llafur gyda'r holl ysgolion trwy Ganolfan Gefnogaeth GwE. O dan arweiniad aelodau'r rhwydweithiau, cynhaliwyd gweminarau effeithiol i bob arweinydd ysgol ar ddylunio'r cwricwlwm, asesu a dilyniant a chynllunio egwyddorion. Nodai y rhan fwyaf o ysgolion bod y cyflwyniadau wedi rhoi hwb i'w hyder i ddatblygu eu cynllun cwricwlwm lefel uchel ac i ymgorffori'r pedwar diben yn eu cynllunio. Mae pob ysgol wedi cael mynediad i'r gweithdai hyn naill ai trwy recordiad byw neu drwy drafodaethau dilynol gyda'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt. Mae'r gwasanaeth rhanbarthol wedi rhoi ffocws cryf ar ddatblygu addysgeg fel rhan o'r cymorth i ddatblygu Cwricwlwm i Gymru.

Bu ffocws cyson hefyd ar gefnogi ysgolion i wella ansawdd cymorth gwahaniaethol ar draws yr ystod gallu. Mae sefydlu'r Rhwydwaith Cydlynwyr Mwy Abl a Thalentog [MAT] uwchradd yn un enghraifft benodol o'r gwaith hwn. Mae canllawiau a chymorth penodol wedi'u cyhoeddi i ddatblygu gwell dealltwriaeth a hyder ymhlith cydlynwyr i arwain ar hyn ar draws ysgolion ac i ddatblygu eu prosesau a'u systemau ar gyfer nodi, olrhain a chefnogi'r grŵp penodol hwn o ddysgwyr. Roedd mewnbwn hefyd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r datblygiadau cenedlaethol yn hyn o beth. Fel grŵp, maent wedi cydweithio i sicrhau cyd-ddealltwriaeth a sut i sicrhau lefel briodol o her a sut i hyrwyddo strategaethau galw i gof ac adolygu.

Mae ystod o rwydweithiau a fforymau yn weithredol i gefnogi arweinwyr yn y sector uwchradd, ar bob lefel, i allu arwain ar addysgeg gyda mwy o hyder ac effeithiolrwydd. Mae hyn yn cynnwys rhwydweithiau ar gyfer uwch arweinwyr ar addysgu ac ar gyfer penaethiaid adran pynciau craidd. Mae tystiolaeth bod cydweithio o fewn y rhwydweithiau wedi bod yn gryfder arbennig a bu cydgefnogaeth yn allweddol er mwyn sicrhau gwell cysondeb yn y dull addysgu.

Mae rhwydweithiau pwnc wedi canolbwyntio ar gefnogi arweinwyr canol i arwain ar addysgu; ar hwyluso a chefnogi cydweithio rhwng cymheiriaid ac ar gryfhau prosesau a gweithdrefnau gwerthuso a chynllunio gwelliant; ar hybu gwell dealltwriaeth o gynllunio ac addysgeg yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd; ar wella ymyriadau llythrennedd a rhifedd yn ogystal â chefnogi agweddau penodol o baratoadau ac asesiadau CA4 a CA5. Mae gwaith y rhwydweithiau yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan arweinwyr uwchradd sy'n gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau o safon sydd wedi eu datblygu a'u cynnal ar y cyd ar Ganolfan Gymorth GwE.

Mae'r rhwydweithiau Cymraeg, Saesneg a Llythrennedd wedi bod yn gyfuniad o gyflwyno negeseuon allweddol, hyfforddiant a thrafodaethau ar ddatblygiad addysgeg, cynlluniau a dulliau ar gyfer TGAU, datblygu llythrennedd, ymarfer adalw a strategaethau llafaredd. Yn dilyn cyfarfodydd rhwydwaith Penaethiaid Mathemateg a Rhifedd, mae ysgolion unigol wedi cael cymorth pellach i weithredu amrywiol ddulliau a drafodwyd. Mae cyfarfodydd Penaethiaid Gwyddoniaeth yn rhoi cyfle ar gyfer trafodaethau a gweithgareddau ar gynllunio, cyflwyno a gwerthuso eu gweithgareddau CiG newydd, cynlluniau gwaith TGAU, enghreifftiau o asesiadau a dulliau pedagogaidd sy'n gweithio'n dda yn eu hysgolion.

Mae effaith y rhwydweithiau pwnc yn glir ar sawl lefel ac ar draws ystod o agweddau:

- arweinwyr canol wedi eu huwchsgilio yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fethodoleg ac ansawdd y cynllunio, e.e., dwyn i gof strategaethau, strategaethau i wella gwaith llafar ac ysgrifennu, defnyddio offer technegol i ddatblygu sgiliau pwnc ac ati.
- arweinwyr canol wedi gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r 12 egwyddor addysgeg a'r paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd.
- mae arferion da wedi'u lledaenu ac yn cael eu mabwysiadu'n ehangach. Mae nifer sylweddol o arweinwyr wedi nodi eu gwerthfawrogiad o'r cyfleoedd i rannu syniadau a datblygiadau ac i gefnogi ei gilydd yn broffesiynol.
- defnydd cynyddol o adnoddau'r llyfrgell ddigidol ar Ganolfan Gymorth GwE ac o'r gwefannau pwnc i wella profiadau dysgwyr, i baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau ac i baratoi rhaglenni ymyrraeth bwrpasol.
- arweinwyr ac athrawon yn fwy hyderus yn eu medrau digidol.
- mae arweinwyr yn fwy hyderus gyda rhagfynegiadau, asesu a graddio disgyblion.
- targedu effeithiol i hybu sgiliau llafaredd Cymraeg.

Yn ogystal â'r rhwydweithiau a'r fforymau, mae cymorth penodol ar gael i bob ysgol uwchradd unigol ac mae'r targedu hwn wedi arwain at welliannau amlwg mewn sawl achos. Mae cynnwys y Cynllun Cefnogaeth ar gyfer ysgolion unigol yn seiliedig ar anghenion penodol yr ysgol sy'n codi o'u hunan arfarniad ac sy'n flaenoriaeth yn y Cynllun Datblygu Ysgol. Mae cymorth i wella agweddau ar addysgu yn sail i'r cynlluniau hyn. Cânt eu cynhyrchu ar y cyd â'r uwch dimau rheoli a'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant. Mae'r berthynas a'r cydweithio rhwng ysgolion a GwE yn gryf iawn ac mae effaith gadarnhaol y gefnogaeth yn amlwg mewn sawl agwedd o waith ysgolion.

Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn gweithio gydag arweinwyr cynradd i ddatblygu Cynllun Cefnogaeth benodol ar gyfer pob ysgol. Mae hyn yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Fframwaith Gwella Ysgolion newydd. Ceir enghreifftiau niferus o gymorth pwrpasol ac effeithiol i ysgolion ar wella agweddau penodol ar addysgu, dysgu, medrau'r disgyblion ac arweinyddiaeth. Er enghraifft, mae pob YCG yn cefnogi eu hysgolion i fonitro addysgu trwy ystod o weithgareddau gan gynnwys craffu ar waith, teithiau dysgu a gwrando ar ddysgwyr a staff. Mae hyn yn galluogi arweinwyr ysgolion cynradd i fireinio eu prosesau monitro a hunanarfarnu er mwyn adnabod, ffocysu a datblygu meysydd i'w gwella a chynllunio gwelliant yn bwrpasol. Mae'r YCG yn darparu arweiniad uniongyrchol, yn cyfeirio ymarferwyr at ddysgu proffesiynol perthnasol neu'n rhoi cymorth i ysgolion gaffael cymorth o amrywiol ffynonellau. Mae hyn yn galluogi pob ysgol gynradd i dderbyn cymorth sydd wedi'i dargedu yn bwrpasol.

Mae tystiolaeth gadarn bod yr arweiniad a chymorth ar gyfer disgyblion 3-8 oed yn cael dylanwad positif ar ddysgu ac addysgu ar lefel ysgol unigol a chlwstwr. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a deilliannau disgyblion yn ogystal â lleihau amrywiadau o fewn ysgolion. Mae'r gefnogaeth hefyd wedi sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o egwyddorion ac addysgeg 3-8 oed, yn unol â chanllawiau 'Galluogi Dysgu' ac 'Addysgeg' Cwricwlwm i Gymru. Mae'r cymorth yn cynnwys cynnig proffesiynol i UDA, athrawon a chynorthwywyr plant 3-8 oed ar ffurf rhwydweithiau tymhorol, rhaglen hyfforddi ranbarthol a hyfforddiant clwstwr pwrpasol. Mae'r ffocws yn bennaf ar ddatblygu agweddau ar addysgeg, addysgu a llesiant o fewn profiadau dysgu ymarferol a chyfannol, gan hyfforddi ymarferwyr i ddatblygu fel hwyluswyr dysgu effeithiol. Mae gan bob ymarferwr fynediad at y cynnig proffesiynol ac adnoddau i gefnogi dysgu trwy Ganolfan Gefnogaeth GwE. Mae llawer o ysgolion yn yr Awdurdod yn defnyddio'r gweminarau mewn cyfarfodydd staff a HMS i uwchsgilio'r gweithlu. Mae tystiolaeth gan ysgolion yn nodi bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth (profiadau addysgu) ac ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r cynnig proffesiynol yn cynnwys cefnogaeth i ymarferwyr Blwyddyn 3 hefyd er mwyn adeiladu ar rai o Egwyddorion Dysgu Sylfaen yn uwch yn yr ysgol wrth baratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Parhaodd y cynnig proffesiynol drwy gydol y cyfnod clo gyda'r ddarpariaeth wedi'i chynllunio i dargedu'r agweddau hynny a nodwyd gan ysgolion fel rhai sydd angen eu blaenoriaethu yn dilyn Covid-19, e.e., sgiliau cyfathrebu ac iechyd a lles disgyblion. Canolbwyntiwyd ar ddatblygu'r sgiliau hyn o fewn addysgeg ddatblygiadol briodol. Mae tystiolaeth o effaith y rhaglen gymorth hon yn cynnwys:

- dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o sut mae'r egwyddorion addysgegol (gan gynnwys 12 egwyddor CiG) yn cysylltu â'i gilydd i greu profiadau dysgu cynhyrchiol ac effeithiol.
- ymarferwyr yn defnyddio ystod o ddulliau addysgegol priodol sy'n bodloni anghenion dysgwyr (gan gynnwys sgiliau emosiynol a chymdeithasol).
- ymarferwyr yn creu cysylltiadau trawsgwricwlaidd effeithiol i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys, gan dynnu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol dysgwyr.
- ymarferwyr yn ystyried yr amgylchedd dysgu corfforol yn ogystal â'r hinsawdd emosiynol sy'n cefnogi dysgwyr i gyrraedd eu potensial o ran eu darpariaeth.
- ymarferwyr yn dyfnhau eu dealltwriaeth o bwysigrwydd myfyrio ar eu harferion dyddiol er mwyn gwella eu dealltwriaeth o anghenion, medrau a chynnydd disgyblion; galluogi ymarferwyr i ddod o hyd i'r dulliau dysgu a ffefrir gan blant a phobl ifanc a'r ffordd orau o ennyn eu diddordeb mewn dysgu; adnabod y disgyblion hynny y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt i'w helpu i gyrraedd eu llawn botensial.
- ymarferwyr yn deall bod arsylwadau effeithiol yn eu galluogi i gynllunio darpariaeth briodol sy'n cefnogi ymrwymiad a mwynhad dysgwyr o fewn eu gweithgareddau dysgu, yn ogystal â chynllunio i'w cefnogi i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.
- ymarferwyr yn deall yr angen i asesu fod yn broses barhaus sydd wedi'i gwreiddio mewn arferion o ddydd i ddydd, heb dynnu sylw penodol o fewn yr addysgu.

At ei gilydd, mae arsylwadau gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant a chanfyddiadau arolygiadau Estyn lle bo'n berthnasol, yn nodi bod y rhaglen gymorth yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion gydag ymarferwyr yn gwneud defnydd gwell o arsylwadau a strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu i gynllunio'r camau dysgu nesaf.

Datblygodd cydweithio ac ymgysylltu cryf a phwrpasol rhwng GwE a'r ysgolion yn ystod cyfnod y pandemig gan arwain at well ddarpariaeth llawr dosbarth yn gyffredinol a datblygiad pellach o ddulliau cefnogi dysgwyr bregus. O ganlyniad, mae bron pob ysgol yn datblygu eu darpariaeth i ddarparu tegwch addysgol i bob dysgwr, ac mae ganddynt amgylchedd dysgu gynhwysol er mwy cefnogi plant a phobl ifanc bregus fel eu bod yn cael pob cyfle posib i gyflawni i'w potensial.

Mae bron pob ysgol gynradd yn cytuno bod cefnogaeth y Rhaglen Dysgu Carlam wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau sylfaenol a lles ar ôl i blant ddychwelyd i addysg ffurfiol yn dilyn y cyfnodau clo. Roedd bron pob ysgol wedi sicrhau eu bod yn cynnal gweithdrefn asesu fewnol, boed yn ansoddol neu'n feintiol, er mwyn nodi effaith y cyfnod yma ar les a dysgu plant. Roedd athrawon o'r farn bod y cyfnod clo yn effeithio ar hyder a lles mwyafrif y disgyblion, gydag ymddygiad rhai disgyblion wedi gwaethygu. Cafodd y gwaith targedu dysgu carlam ei arwain a'i weithredu yn llwyddiannus gan arweinwyr ysgolion yn dilyn canfod gwaelodlin safonau a sgiliau sylfaenol disgyblion.

Mae bron pob ysgol wedi gwneud defnydd pwrpasol o'r grantiau amrywiol ac mae'r rhan fwyaf wedi cyflogi neu ymestyn oriau athrawon neu gynorthwywyr er mwyn targedu grwpiau ac unigolion mewn llythrennedd, rhifedd a lles. Darparodd GwE arweiniad a chanllawiau, gyda nifer dda o ysgolion yn manteisio ar hyfforddiant penodol megis sesiynau lles Ysgolion Gwybodus o Drawma, SAFMEDS, Headsprout ac Elklan.

At ei gilydd, mae ysgolion Gwynedd wedi ymateb yn dda i'r her a gallant dystio i welliannau a chynnydd clir ym medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion a dargedwyd trwy'r rhaglenni carlam hyn.

Mae ysgolion yn parhau i gyflwyno strategaethau ymyrraeth effeithiol ar gyfer disgyblion, e.e. trwy sesiynau addysgu manwl bob dydd, SAFMEDS, sesiynau RILL ac iFOR i ddatblygu sgiliau darllen/sillafu Cymraeg a Saesneg, sesiynau Tric a Chlic i ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen, gweithgareddau penodol Ysgolion Gwybodus Trawma, cynnal grwpiau Anogaeth, Talkabout, neu Mind Mechanics. Mae pob ysgol yn cydnabod bod y gwaith targedu yma wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau, lles a hyder disgyblion ac mae nifer dda yn nodi eu bod wedi gweld llawer o ddisgyblion agored i niwed yn gallu ymdopi'n dda â heriau ystafell ddosbarth prif ffrwd a heriau cymdeithasol amrywiol.

Yn ogystal â'r arlwy dysgu proffesiynol, mae ysgolion unigol wedi derbyn mewnbwn a chefnogaeth benodol i ymateb i'w anghenion datblygol. Mae effaith yr ymyriadau yma i'w gweld yn ansawdd a safonau

medrau mewn sawl ysgol, yn lefelau hyder athrawon ac yn y cynnydd a welir mewn cydweithio rhwng ysgolion. Mae'r arweiniad a'r cymorth a ddarperir i ysgolion yn cynnwys:  canllawiau cynllunio ar gyfer cydlynwyr Llythrennedd a Rhifedd a Chynorthwywyr Addysgu; cefnogaeth i ANG ar gyflwyno gwersi effeithiol, cefnogaeth benodol ar gyfer datblygu llafaredd er mwyn gwella sgiliau mathemategol a gwyddonol; arweiniad i wella lefel yr her mewn cynllunio; dyfnhau sgiliau mathemategol a gwella sgiliau darllen lefel uwch. Cyfoethogir y rhaglen ymhellach gan gyfarfodydd tymhorol y rhwydweithiau perthnasol. Dros y cyfnod clo, bu cydweithio agos gydag ysgolion i lunio deunyddiau a phecynnau dysgu o bell i gefnogi ysgolion i ddatblygu sgiliau sylfaenol dysgwyr. Mae effaith y gwaith wedi'i ei gydnabod mewn sawl adroddiad monitro ac arfarnu, yn ogystal ag yr adborth a dderbyniwyd gan arweinwyr ysgol.

Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor ac arbenigwyr ymchwil, datblygwyd adnoddau, rhaglenni a phecynnau i gefnogi hyfedredd darllen yn y ddwy iaith. Mae cydweithio hefyd wedi digwydd ar ddeunyddiau SAFMEDS i gefnogi sgiliau rhifedd a RILL/iFOR i gefnogi rhugldер/llythrennedd darllen. Mewn sawl ysgol, mae'r rhaglenni hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau rhifedd a darllen dysgwyr ac ar hyder athrawon a staff i gyflwyno.

Cyflwynwyd sesiynau briffio byw i benaethiaid ac arweinwyr ar sut i wneud defnydd effeithiol o'r asesiadau cenedlaethol mewn darllen a rhifedd er mwyn gwella dealltwriaeth a hyder y gweithlu wrth fesur cynnydd dysgwyr unigol dros y cyfnod.

Yn yr ysgolion uwchradd, roedd ffocws penodol ar gefnogi rhaglenni dysgu carlam a darparu adnoddau ymyrraeth yn CA3 ac arweiniad ar strategaethau i wella ymgysylltiad rhieni. Yn ogystal, datblygwyd pecyn cymorth ar gyfer llythrennedd sy'n cefnogi cynllunio a sgaffaldio cyfleoedd ar gyfer darllen ac ysgrifennu a chynorthwyo gyda dysgu a datblygu geirfa ynghyd â deunyddiau adolygu ac adalw. Mae'r rhain wedi'u rhannu gydag ysgolion trwy wefan Tanio a Chanolfan Gymorth GwE. Mae hyn wedi arwain at raglenni ymyrraeth o ansawdd gwell ac mae ysgolion yn adrodd am well rhugldеr a hyder mewn dysgwyr a gwell dealltwriaeth ymhlith staff o sut i fynd ati i ddefnyddio sgaffaldiau a chynllunio.

O ran Cymhwysedd Digidol, mae'r cynnig dysgu proffesiynol wedi bod ar waith ym mhob ysgol. Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar wneud defnydd effeithiol o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy Hwb i ddatblygu addysgu ac i ddatblygu cymhwysedd digidol dysgwyr.

## CWRICWLWM A DARPARIAETH

### Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, ymgysylltu ac effaith

Oherwydd cydweithio ac ymgysylltu effeithiol rhwng yr ALl GwE a'r ysgolion:

- mae pob ysgol yn rhoi cynlluniau ar waith i ymateb i hanfodion pedwar diben y cwricwlwm newydd.
- mae pob ysgol yn gweithio i ddatblygu cynnig cwricwlwm cytbwys i fodloni anghenion eu dysgwyr gan gynnwys y rhai mwy abl.
- mae pob clwstwr yn gweithredu cynlluniau pontio.
- mae pob ysgol yn cymryd rhan weithredol mewn cydweithio clwstwr/cynghrair o fewn ac ar draws sectorau.
- mae pob ysgol uwchradd ar y trywydd iawn i fodloni'r gofynion statudol erbyn iddynt gyflwyno eu Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2023.
- mae pob ysgol gynradd a 5 ysgol uwchradd yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd ac yn y broses o'i werthuso a'i esblygu.

Mae'r gwasanaeth rhanbarthol wedi cefnogi arweinwyr yn effeithiol er mwyn paratoi ar gyfer Y Daith Diwygio a Chwricwlwm i Gymru ac wedi bod yn hyblyg yn ei ddarpariaeth er mwyn diwallu anghenion amrywiol ysgolion yn ystod y pandemig. Cynhaliwyd sesiynau i arweinwyr yn y meysydd canlynol: arwain newid, gweledigaeth a dylunio cwricwlwm, a rhannwyd 'papurau procio' (*think-pieces*) a ddatblygwyd ar y cyd â'r Athro Graham Donaldson. Cynhaliwyd y sesiynau hyfforddi hyn ar ffurf clystyrau o ysgolion cynradd a'u hysgolion uwchradd er mwyn cynnal trafodaeth ystyrlon ar draws y continwwm 3-16. Ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021, cynhaliwyd sesiynau Dysgu Proffesiynol dros gyfnod o 3 wythnos ar gyfer uwch arweinwyr, gan ganolbwyntio ar ddatblygu gweledigaeth, cynllunio a datblygu'r cwricwlwm. Cyflwynwyd y sesiynau hyn yn rhithiol mewn clystyrau ac roeddent yn darparu cyfleoedd cyfoethog a rheolaidd ar gyfer trafodaethau grŵp gyda chyfoedion. Cynhaliwyd sesiynau clwstwr dilynol llwyddiannus gan Ymgynghorwyr Cyswllt er mwyn ysgogi cydweithio pellach a chyd-greu gweledigaeth dalgylch.

Mae lefel uchel o ymgysylltu wedi sicrhau bod ysgolion cynradd yn fwy hyderus wrth roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Mae cydweithio cynradd/uwchradd hefyd yn cryfhau'n ac mae themâu trawslinol Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn dod i'r amlwg trwy eu hymagwedd – Amser, Technoleg, Ymddiriedaeth a Meddwl Gyda'n Gilydd. Mae'r cyflwyniadau Dysgu Proffesiynol i uwch arweinwyr wedi'u rhaeadru i athrawon a chynorthwywyr trwy gyfarfodydd staff a/neu HMS penodol, sy'n golygu bod gan yr holl staff bellach ddealltwriaeth well o'r fframwaith. Mae ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid ehangach er mwyn cydweithio i ddatblygu gweledigaeth a rennir wedi datblygu'n arfer llwyddiannus ar draws Gwynedd. Gwneir defnydd effeithiol o'r adnoddau a gyflwynir yn y sesiynau i arweinwyr er mwyn parhau â thrafodaethau a dyfnhau dealltwriaeth yn ôl yn yr ysgol.

Mynychodd cynrychiolwyr o bob clwstwr gynhadledd dysgu proffesiynol diweddar gan GwE ar bontio, lle bu pob clwstwr yn cynllunio eu camau nesaf ar y cyd er mwyn gwella dilyniant disgyblion ar draws y continwwm dysgu. Roedd y dysgu proffesiynol hwn yn adeiladu ar gynhadledd ddeuddydd rhanbarthol a oedd yn cynnwys diweddariadau gan Estyn, Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr addysgol er mwyn pennu ein dull cyffredin o wella ysgolion. O ganlyniad, mae pob clwstwr yn cydweithio ar gynllun gweithredu er mwyn cynllunio cyflwyno'r cwricwlwm ac ymagwedd gyson tuag at ddilyniant. Mae YCG yn parhau i gefnogi pob clwstwr i ddatblygu eu cynlluniau pontio. Mae'r gefnogaeth yma wedi arwain at well cysondeb mewn ansawdd cynllunio'r cwricwlwm o fewn ac ar draws ysgolion.

**CYNNYDD A SAFONAU DYSGWYR**

Mae'r ffocws cynyddol ar gefnogi ysgolion i wella ansawdd a chysondeb arweinyddiaeth ac addysgeg wedi arwain at safonau gwell ar draws bron pob ysgol. Mae safonau pynciol a safonau yn y medrau yn gyffredinol gadarn ar draws y rhan fwyaf o'r ysgolion ac yn gadarn dda mewn sawl ysgol. Mewn lleiafrif o ysgolion mae gwaith mwy dwys yn digwydd i wella'r ddarpariaeth yn y medrau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i dargedu gwelliannau pellach yn y ddarpariaeth a safonau yn y medrau gyda'r grwpiau mwyaf bregus o ddysgwyr. Mae angen cyflymu'r gwelliant ymhellach mewn rhai o'r ysgolion ac yn benodol felly o amgylch y medrau.

**Ysgolion uwchradd**

Mae pob ysgol uwchradd:

- yn gwneud defnydd mwy deallus o ddata a gwybodaeth addysgu, dysgu ac asesu i arfarnu safonau ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant pellach ond cydnabyddir bod angen cryfhau'r prosesau hyn ymhellach i sicrhau mwy o ffocws ar gynnydd disgyblion mewn rhai ysgolion.
- yn cyflwyno rhaglenni ymyrraeth ac yn eu monitro drwy systemau olrhain i fynd i'r afael â thanberfformiad ac amrywiaeth. Mewn rhai ysgolion uwchradd, mae angen cryfhau a mireinio'r dulliau hyn ymhellach.
- yn datblygu cynnig pwrpasol ar gyfer disgyblion CA4 fel bod dilyniant clir i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Mae YCG cyswllt a'r YCG pynciol yn gweithio gydag ysgolion unigol sydd angen gwella neu gysoni ar agweddau penodol - ar lefel pwnc ac yn y medrau trawsgwricwlaidd.

**Ysgolion cynradd ac arbennig**

Mae'r ysgolion yn gyffredinol:

- wedi manteisio ar weithdai ac arweiniad asesu ar gyfer dysgu i fod yn gwreiddio cyfle i'r disgyblion fod yn gweithio yn annibynnol ac yn gwella gwaith eu hunain yn dilyn adborth gan yr athro a chyfoedion.
- wedi addasu eu cynlluniau i gyd-fynd â gofynion CiG ac yng nghanol cydweithio i gynllunio tymor hir a chanolig i sicrhau dilyniant a chynnydd yng nghymhwyso medrau drwy weithgareddau traws gwricwlaidd cyfoethog.
- yn adnabod grwpiau o ddisgyblion sydd angen cymorth ac yn cynnig ymyraethau i dargedu eu cynnydd, yn bron pob ysgol mae'r cynnydd yma yn cael ei ddal drwy systemau diweddar sy'n tracio'r cynnydd a'r ymagweddau.
- yn targedu llafaredd Cymraeg o ganlyniad i effaith andwyol y pandemig, mae cynllun fel Ein Llais ni mewn rhan fwyaf o'r ysgolion sy'n ei ddilyn, yn barod yn amlygu cynnydd mewn sgiliau siarad, gwrando a chodi hyder dysgwyr i siarad y Gymraeg.

**CEFNOGAETH A HER I YSGOLION SY'N ACHOSI CONSYRN**

**Crynodeb o gamau gweithredu ac effaith**

Mae’r tîm o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant sy’n gweithredu ar draws yr ysgolion yn meddu ar amrediad eang o brofiad ac arbenigedd pwnc a sector benodol. Mae hyn yn sicrhau bod lefel priodol o her a chefnogaeth yn cael ei thargedu mewn dull amserol. Mae trefn gadarn mewn lle i adrodd ar berfformiad a chynnydd ysgolion yn eu cyfanrwydd i’r awdurdod. Drwy gydweithio rhwng y Gwasanaeth Dysgu a’r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol, mae prosesau a chamau gweithredu effeithiol mewn lle i herio a chefnogi ysgolion ac i adnabod y rhai sy'n achosi consyrn. Mewn ysgolion ble mae gweithgarwch dilynol wedi eu hadnabod gan Estyn, gwelwyd cynnydd ar gyflymder priodol. Nid oes unrhyw ysgol mewn categori statudol Estyn.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi adolygu a diwygio ei weithdrefnau cefnogi a herio yn ddiweddar. Mewn ymateb i'r peilot cenedlaethol i gefnogi ysgolion sy'n achosi consyrn trwy'r model aml-asiantaeth, adolygwyd gweithdrefnau a strwythurau ar gyfer cefnogi, monitro a herio ysgolion. Y nod oedd sicrhau bod pob ysgol yn gallu cael mynediad at gymorth o ansawdd da mewn modd amserol er mwyn symud ar hyd y llwybr 'dymunol' ar y cyflymder gofynnol. Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen rhanbarthol yn cynnwys swyddogion o bob awdurdod, ynghyd ag ymgynghorwyr GwE, i yrru’r gwaith yn ei flaen.

Mae strategaeth ysgolion sy’n achosi consyrn clir ar waith ac mae gan bob ysgol sydd wedi eu hadnabod cynllun cymorth sy’n mynegi’n glir natur a dwyster y cymorth a ddarperir gan GwE.

O fewn y strwythur diwygiedig, mae Grŵp Adnabod Angen sy’n cynnwys uwch swyddogion, swyddogion arweiniol o'r gwasanaethau perthnasol a staff GwE yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth a thystiolaeth fel bod pryderon yn cael eu hadnabod yn gynnar. Caiff y grŵp yma ei ddal yn atebol gan y Bwrdd Ansawdd Sirol. Mabwysiadwyd trothwyon a sbardunau er mwyn sicrhau cysondeb wrth adnabod pryderon mewn perthynas â safonau, addysgu, asesu, arweinyddiaeth, cynhwysiad neu faterion rheolaethol. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth gytûn a chysondeb o ran ymagwedd, trefnwyd hyfforddiant ar gyfer yr holl swyddogion ac ymgynghorwyr. Unwaith y nodir bod ysgol yn achosi consyrn, mae'r swyddog arweiniol, yr Arweinydd Craidd a'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt yn gweithio gyda thîm arweinyddiaeth yr ysgol i ddatblygu cynllun cymorth pwrpasol. Mae'r Grŵp Adnabod Angen yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod y cynllun yma yn cael ei ddatblygu, ei ddarparu a'i fonitro. Pan fydd pryderon yn codi ynghylch diffyg neu gyflymder cynnydd, caiff y rhain eu cyfeirio at y Prif Swyddog Addysg fel bod penderfyniad priodol yn cael ei wneud ynghylch a ddylid gweithredu pwerau statudol ai peidio. Mae llif rheolaidd, amserol, addas a chyson o wybodaeth yn cael ei rannu gyda swyddogion y Gwasanaeth Dysgu gan Arweinwyr Craidd GwE.

**BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL AR GYFER DATBLYGIAD A GWELLA PELLACH AR GYFER YSGOLION**

**Gwella Arweinyddiaeth**

- parhau i gryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel gyda ffocws penodol yn y sector uwchradd ar wella prosesau gwerthuso a chynllunio gwelliant ymhellach.
- datblygu ymhellach allu uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i arwain yn effeithiol ar addysgu.
- cryfhau ymhellach brosesau atebolrwydd mewnol ysgolion i sicrhau ymyriadau cadarn ac amserol i fynd i'r afael â thanberfformio.
- sicrhau bod yr holl arweinwyr yn cymryd rhan weithredol mewn cydweithio ac adolygu cymheiriaid er mwyn symud tuag at gyfundrefn hunan wella.
- cryfhau systemau ar gyfer dal effaith strategaethau gwella ar safonau a chynnydd disgyblion.

**Gwella Addysgu**

- cryfhau ymhellach ansawdd yr addysgu a'r asesu i leihau amrywiaeth o fewn ac ar draws ysgolion.
- cryfhau ymhellach ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau dysgwyr.
- sicrhau bod pob ysgol uwchradd yn gweithredu dulliau cadarn o gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed.
- datblygu ymhellach raglenni olrhain ac ymyrryd i fynd i'r afael â thanberfformiad ac amrywiaeth o fewn ysgol - yn enwedig mewn perthynas â dysgwyr sy'n agored i niwed.

**Cwricwlwm a Darpariaeth**

- sicrhau bod pob ysgol uwchradd yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8 o fis Medi 2023.
- sicrhau bod ysgolion yn darparu tegwch i bob dysgwr, a bod ganddynt amgylchedd dysgu cynhwysol i gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed.
- sicrhau bod pob clwstwr cynradd/uwchradd yn gweithredu cynlluniau trosglwyddo effeithiol.

**Gwella Her a Chymorth i Ysgolion sy’n Achosi Consyrn**

- sicrhau bod yr ysgolion sy’n achosi consyrn neu mewn unrhyw weithredu dilynol gan Estyn yn dangos cyflymdra cynyddol o welliannau ac yn dangos gwelliannau clir yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac yn ansawdd yr arweinyddiaeth ar draws yr ysgol.

## ATODIAD 1

**Arweinyddiaeth: Cynnydd ac Effaith mewn Ysgolion Uwchradd ac Arbennig**

Mae maint, cyd-destun a natur cymunedau’r 14 o ysgolion uwchradd yn Gwynedd yn amrywio yn sylweddol, gan gynnwys niferoedd y dysgwyr sydd yn deilwng o brydau ysgol am ddim.

Mae nifer o ysgolion uwchradd hefyd wedi gweld newidiadau sylweddol ar lefel yr uwch dimau arwain dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae uwch arweinwyr ar bob lefel wedi derbyn cefnogaeth gan yr Awdurdod sydd yn cynnwys mentor ar gyfer pob pennaeth newydd i’w swydd. Mae penaethiaid ac uwch arweinwyr hefyd yn derbyn cefnogaeth ac hyfforddiant trwy’r rhaglenni cenedlaethol, y cynnig proffesiynol gan GwE a chefnogaeth unigol wedi ei deilwra gan yr YCG.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae aelodau'r uwch dim arwain yn yr ysgolion yn rhoi cefnogaeth gadarn i'w penaethiaid ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o feysydd cyfrifoldeb.

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion systemau clir mewn lle i gefnogi arweinwyr canol, i roi cefnogaeth iddynt ac i sicrhau lefel uchel o atebolrwydd arweinwyr ar yr haen yma am ansawdd eu gwaith. Yn yr enghreifftiau gorau, mae calendr pwrpasol o gyfarfodydd mewn lle ac mae'r trafodaethau yn ffocysu yn glir ar yr addysgu, safonau a chynnydd dysgwyr.

Ar yr haen ganol, mae sawl enghraifft yn yr ysgolion o arweinyddiaeth effeithiol sydd yn sicrhau profiadau cadarn i'r dysgwyr a safonau uchel ar lawr dosbarth a thu hwnt. Serch hyn, mae amrywiaeth yn parhau yn ansawdd ac effaith arweinwyr canol yn gyffredinol ar draws ysgolion yr awdurdod.

Mae trefn glir ar gyfer prosesau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant ar draws y rhan fwyaf o ysgolion, ac mae cyfnodau pendant wedi eu pennu ar gyfer arsylwi gwersi, holi barn dysgwyr a rhanddeiliaid a chraffu ar waith yn draws ysgol. Mae'r YCG wedi cydweithio gyda pob ysgol i gefnogi eu prosesau cyfoethogi ansawdd. O fewn ysgolion Gwynedd, mae pump cynghrair partneriaeth rhwydweithio wedi eu sefydlu. Erbyn hyn, mae trefn glir o gyfarfodydd rhwng ysgolion wedi eu llunio, sydd yn cynnwys ymarferiadau cyd-graffu ar waith ac arsylwi gwersi. Mae hyn wedi cryfhau hyder uwch arweinwyr wrth arfarnu ansawdd y profiadau i ddysgwyr yn ogystal â rhoi barn annibynnol i ysgolion ar y ddarpariaeth a gynigir ganddynt. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r cydweithio yma wedi arwain at greu rhaglenni datblygiad proffesiynol cytunedig rhwng athrawon o fewn y gynghrair. Ar y cyfan, mae arweinwyr ar bob lefel yn hyderus wrth ddod i gasgliadau ar gryfderau a meysydd sydd angen gwelliant o fewn eu hysgolion. Mae lle i ddatblygu hyder arweinwyr wrth arfarnu effaith yr addysgu ar safonau a chynnydd dysgwyr.

Ceir cydweithio buddiol gyda Llywodraethwyr yn y rhan fwyaf o'r ysgolion, ac lle mae hyn ar ei orau, mae aelodau o'r Corff Llywodraethwyr yn rhan weithredol o brosesau arfarnu yr ysgolion, ac yn cydweithio'n agos gyda'r arweinwyr i osod cyfeiriad strategol.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Ymateb yn bwrpasol i ofynion y Fframwaith newydd ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd.
- Parhau i ymateb i ganfyddiadau o brosesau arfarnu a sicrhau bod monitro dilynol yn digwydd er mwyn mesur effaith gweithredu.
- Parhau i gysoni ansawdd gweithredu arweinwyr ar bob lefel.
- Sicrhau gwell dealltwriaeth a chywirdeb o safonau a chynnydd mewn pynciau ac yn arbennig felly'r medrau.

**Gwella Dysgu ac Addysgu: Cynnydd ac Effaith mewn Ysgolion Uwchradd ac Arbennig**

Mae llawer o waith a buddsoddiad wedi ei wneud o ran datblygu addysgeg yn yr ysgolion uwchradd ar draws yr Awdurdod . Mae arweiniad a hyfforddiant defnyddiol ac o ansawdd uchel wedi ei ddarparu i athrawon yn fewnol gan uwch arweinwyr ac yn allanol gan GwE. Mae'r strategaethau gaiff eu dilyn i wella ansawdd addysgeg yn yr ysgolion yn amrywio e.e. Building Learning Power, egwyddorion addysgu Mike Gershon a Mark Burns. Yn dilyn cyfnod y pandemig mae sawl ysgol hefyd wedi buddsoddi ar strategaethau i ddatblygu gwytnwch dysgwyr a'u gallu i weithio yn fwy annibynnol.

Mae prosesau arfarnu dros y flwyddyn ddiwethaf yn cyfeirio at amgylcheddau dysgu cadarnhaol a pherthynas dda rhwng athrawon a disgyblion mewn nifer fawr o'r gwersi. Gwelwyd disgwyliadau uchel mewn sawl gwers gydag athrawon yn cynnig cymorth ac arweiniad buddiol i'r dysgwyr. Mae gweithgareddau amrywiol yn cynnig her briodol yn rhan fwyaf o wersi ac yn cynnal diddordeb y dysgwyr. Mae lle i ddatblygu ymhellach yr elfennau o wahaniaethu yn briodol mewn gwersi ac i sicrhau'r lefel briodol o her er mwyn diwallu gofynion disgyblion o wahanol alluoedd.

Mae ansawdd ac effeithiolrwydd adborth yn amrywio yn yr ysgolion. Mae nifer o athrawon yn cydnabod gwaith da a rhoi cyngor i wella, ond nid yw hyn yn gyson ac mae gwaith pellach angen ei wneud er mwyn sicrhau gwelliannau yn y maes.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Gwella ansawdd ac effaith adborth i ddysgwyr.
- Cysoni safonau addysgu ac ansawdd y cynllunio ar gyfer y medrau.
- Cefnogi a hyfforddi ymarferwyr i osod lefel her briodol.
- Sicrhau bod trefniadau atebolrwydd priodol yn eu lle ar gyfer gyrru gwelliannau ym maes addysgeg.
- Cysoni ansawdd yr adborth a roddir i ddisgyblion a sicrhau ei fod yn caniatáu i'r disgyblion wneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

**Cwricwlwm a Darpariaeth: Cynnydd ac Effaith mewn Ysgolion Uwchradd ac Arbennig**

Mae'r ysgolion yn llwyddo i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys i'r disgyblion. Mae cydweithio llwyddiannus gydag ysgolion eraill a cholegau i ehangu dewisiadau disgyblion yn CA4 a'r chweched dosbarth. Caiff amrywiaeth gynhwysfawr o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol eu cynnig sydd yn llwyddo i ddiwallu diddordebau a galluoedd y disgyblion. Mae rhaglenni allgyrsiol gynhwysfawr yn ei lle yn yr ysgolion.

Mae pob ysgol wedi datblygu gweledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm newydd. Maent hefyd wedi parhau i ddatblygu dealltwriaeth o'r 4 diben ac fe'i gwelir yn cael eu dathlu mewn dosbarthiadau ac yn ffocws i gynlluniau. Mae pob ysgol hefyd yn parhau i arbrofi â dulliau gwahanol o gynllunio, addysgu ac o sicrhau profiadau cyfoethog. Mae'r broses o gynllunio dros amser i sicrhau cynnydd gan roi sylw i bob datganiad o'r hyn sy'n bwysig a'r elfennau mandadol yn parhau i gael ei datblygu. Bydd angen i'r ysgolion werthuso'r ddarpariaeth ac addasu yn ôl y galw.

Mae'r Gymraeg yn cael lle amlwg yn nyluniad cwricwlwm yr ysgolion ac mae'r ddarpariaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae'r profiadau sydd yn cael eu cynllunio i hybu medrau Cymraeg a llythrennedd disgyblion yn gyfoethog ac yn eang. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cyfleoedd da wedi eu cynllunio ar gyfer hyrwyddo datblygiad medrau yn y cwricwlwm. Mae gwaith pellach angen ei wneud i sicrhau y cynllunnir ar gyfer sicrhau dilyniant a chynnydd dysgwyr yn y medrau.

Mae trefniadau asesu ar gyfer y cwricwlwm newydd yn amrywio o ysgol i ysgol ac yn parhau yn annatblygedig mewn ambell ysgol.

Mae enghreifftiau da yn bodoli o bartneriaeth effeithiol gyda'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgolion uwchradd. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Parhau i rymuso cynlluniau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd gyda ffocws ar adlewyrchu'r weledigaeth a rennir gan yr holl randdeiliaid, asesu a chynnydd ac ar adeiladu ymhellach ar y cyfnod pontio o'r cynradd.
- Sicrhau dilyniant a chynnydd y dysgwyr yn y medrau.

**Safonau a Chynnydd Dysgwyr: Cynnydd ac Effaith mewn Ysgolion Uwchradd ac Arbennig**

Mae systemau tracio ar waith yn yr ysgolion sydd yn caniatáu i arweinwyr adnabod disgyblion sydd yn tanberfformio. Amrywiol ydi'r ymateb i'r canfyddiadau yn yr ysgolion, gyda rhai enghreifftiau o drefniadau trylwyr ar waith ar gyfer targedu cynhaliaeth briodol mewn rhai ysgolion. Mae enghreifftiau eraill i'w cael lle nad ydi'r gweithredu dilynol yn ddigon cadarn ac o'r herwydd nid yw'r deilliannau cystal â'r disgwyl.

Yn dilyn canfyddiadau o arsylwadau gwersi yn yr ysgolion, yn gyffredinol, gwna mwyafrif o ddisgyblion gynnydd priodol yn eu gwersi gyda nifer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn barod i ymateb. Gwelwyd bod nifer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'w hathrawon yn y mwyafrif o ysgolion ond mae datblygu agweddau cadarnhaol dysgwyr ar y dysgu yn flaenoriaeth mewn nifer fawr o ysgolion ar draws yr awdurdod. Yn gyffredinol, mae medrau darllen y disgyblion yn amrywio. Gwelwyd rhai disgyblion yn ddarllenwyr hyderus ac o gael y cyfle yn gallu defnyddio strategaethau darllen yn llwyddiannus i'w helpu i ddadansoddi a deall testunau. Mae medrau llafar yn amrywio gyda nifer o ddisgyblion yn gallu mynegi eu hunain ar lafar yn hyderus yn y ddwy iaith, ac eraill yn gyndyn eu hymatebion. O gael y cyfle, mae disgyblion yn gallu ysgrifennu'n estynedig i ystod eang o bwrpasau a chynulleidfaoedd mewn nifer o bynciau ond anghyson yw ansawdd y gwaith.

Gwelwyd bod nifer o ddisgyblion yn gallu cymhwyso medrau rhifedd yn briodol ar draws y cwricwlwm ac mae eu medrau digidol yn datblygu. Mae YCG GwE wedi gweithio yn agos iawn yn ystod y flwyddyn i roi cefnogaeth i ysgolion ddatblygu strategaethau clir i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol dysgwyr ar draws pob ysgol.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Cysoni safonau cyrhaeddiad TGAU.
- Parhau i gynllunio a mapio cyfleoedd i sicrhau cynnydd yn y medrau.
- Sicrhau bod datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn flaenoriaeth.
- Gwella a chysoni ansawdd adborth i sicrhau cynnydd mewn safonau.

## ATODIAD 2

**Arweinyddiaeth: Cynnydd ac Effaith mewn Clystyrau Ysgolion Cynradd**

Ar draws ysgolion cynradd Gwynedd mae cymysgedd o benaethiaid o rai mwyaf profiadol yr awdurdod i'r rhai sydd wedi eu penodi i'w swydd pennaeth cyntaf yn y dair mlynedd ddiwethaf yn ogystal â phenaethiaid mewn gofal. Mae cyfrifoldebau dysgu'r penaethiaid yn amrywio – rhai yn dysgu dros hanner amser ac eraill yn dysgu hanner amser neu lai.

Mae arweinyddiaeth y mwyafrif o'r ysgolion yn dda gydag llawer o agweddau da iawn. Mae dwy ysgol gynradd mewn categori dilyniant gan Estyn. Nid oes ysgol gynradd mewn categori statudol Estyn.

Mae gan y rhan fwyaf o'r ysgolion strwythur staffio clir, gydag arweinwyr ar bob lefel yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn chwarae rhan bwysig mewn prosesau gwella ysgolion. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt weithdrefnau gwerthuso cadarn. Mae pob ysgol yn raddol esblygu eu gwerthuso i ystyried gofynion y cwricwlwm newydd ac ymhob clwstwr mae cynlluniau ar waith er mwyn datblygu i ymateb

i'r fframwaith atebolrwydd newydd. Mae bron pob un o'r penaethiaid wedi ymgysylltu â gweithdai hunan werthuso a chynllunio gwelliant GwE. Mae cynllun gwella y rhan fwyaf o'r ysgolion yn gynhwysfawr gyda blaenoriaethau yn arwain yn glir o ganlyniad i brosesau gwerthuso. Mewn llawer o glystyrau mae ysgolion yn cydweithio ar flaenoriaethau cytûn y clwstwr mewn agweddau megis Addysgeg, ADY a Digidol.

Ar lefel penaethiaid mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn y clystyrau yn cydweithio yn dda gyda thrafodaethau aeddfed i gytuno ar faterion strategol clwstwr cyfan neu i sicrhau ymatebion tebyg lleol. Mae traddodiad o gydweithio ar ddogfennau a chynlluniau mewn llawer o ysgolion o fewn ac ar draws clystyrau. O fewn y rhan fwyaf o ysgolion unigol yn y clystyrau, mae athrawon yn cydweithio yn dda ac mae arferion llwyddiannus yn cael eu rhannu traws ysgolion unigol ac ar draws y clystyrau. Yn y mwyafrif o glystyrau hefyd mae'r cydweithio rhwng cynorthwywyr addysgu'r ysgolion yn datblygu'n effeithiol er mwyn creu haen effeithiol iawn o gymorthyddion yn bron pob ysgol sy'n fodlon arwain ac arbrofi i gefnogi unigolion a grwpiau penodol o blant.

Mae ychydig o glystyrau ac ysgolion unigol wedi ymrwymo i Raglen Partneriaeth Ysgolion GwE. Mae'r ysgolion sydd wedi ymrwymo i'r rhaglen yn ymgymryd â chylchoedd o hunan-adolygu ac adolygu cymheiriaid gan gynnig cefnogaeth ar y cyd i wella meysydd blaenoriaeth. Yn dilyn hyfforddiant i Adolygwyr Cymheiriaid a Hwyluswyr Gwelliant yn ystod y flwyddyn, mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn y clystyrau yma a'r cylchoedd gweithredu yn cael eu cwblhau. Mae hyfforddiant pellach hefyd yn yr arfaeth ar gyfer arfogi mwy o hwyluswyr gwelliant yn ogystal â chyflwyniad i feddylfryd y rhaglen i holl staff yr ysgolion.

Mae bron pob un o'r ysgolion yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu'r Gymraeg ac mae blaenoriaeth neu gynllun pwrpasol gan bron pob ysgol i barhau i ddatblygu eu darpariaeth yn seiliedig ar hunanwerthusiad trylwyr o'r maes. Mae gwaith y clystyrau ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn atgyfnerthu hyn yn effeithiol.

Mae'r cyswllt cydweithio gyda'r ysgolion uwchradd lleol yn cryfhau. Hyderir y bydd strategaeth bontio'r clwstwr yn sicrhau parhad i gryfhau'r cydweithio yma fwy- fwy.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Parhau i ddatblygu rolau arwain a chydweithio athrawon rhwng ysgolion.
- Ymateb yn llwyddiannus i ofynion y Fframwaith newydd ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd
- Parhau i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel a chreu sefydliadau sy'n hunanwella.

**Gwella Dysgu ac Addysgu: Cynnydd ac Effaith mewn Clystyrau Ysgolion Cynradd**

Mae'r rhan fwyaf o'r penaethiaid yn arwain timau o athrawon da gyda llawer o ddysgu rhagorol. Mae'r athrawon yn frwdfrydig yn y rhan fwyaf o'r ysgolion ac yn llwyddo i sicrhau safonau da neu well yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau.

Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion mae'r prosesau gwerthuso wedi adnabod bod dysgu ac addysgu o leiaf yn dda gyda llawer yn dda iawn neu well. Mae'r farn yma yn cael ei atgyfnerthu drwy sgyrsiau proffesiynol gyda'r penaethiaid, athrawon a gweddill y staff. Mae hyn wedi ei gadarnhau gan yr YCG yn ystod ymweliadau drwy deithiau dysgu a chyd graffu gwaith gyda'r ysgolion yn ogystal â chyfleoedd i drafod eu gwaith gyda disgyblion. Mae nifer o enghreifftiau ble defnyddiwyd gwaith athrawon unigol neu grwpiau'r clystyrau i gyfrannu at hyfforddiant rhanbarthol, neu gyflwyniadau Cenedlaethol ym maes Addysgeg.

Mae disgwyliadau uchel yn y rhan fwyaf o'r ysgolion gyda gwaith ac asesiadau'r disgyblion yn dal y cynnydd maent yn ei wneud drwy ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd o brofiadau cyfoethog.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion 3 i 8 yn gryfder mewn mwyafrif o'r ysgolion gyda meddylfryd y Dysgu Sylfaen a'r defnydd effeithiol o ardaloedd tu allan wedi eu gwreiddio yn gadarn ers amser. Mae llawer o ysgolion yn raddol drosglwyddo'r meddylfryd i ddatblygu ymagweddau tebyg o ran dysgu yn yr awyr agored i bob dosbarth.

Mae datblygu disgyblion annibynnol yn gryfder yn y mwyafrif o'r ysgolion. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i ddylanwadu ar eu dysgu ac i gael llais strategol yng ngweithgarwch eu hysgolion.

Mae trefniadau ar gyfer disgyblion ar gofrestr ADY yn dda neu well yn bron pob ysgol a chlwstwr. Mewn rhai clystyrau mae cydlynwyr pob ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd dan arweiniad eiriolwr y dalgylch ac mae gwaith cydlynwyr wedi ei ddefnyddio fel arfer dda ranbarthol. Mae arbenigedd cymorthyddion hefyd yn gyrru cynnydd cadarn gan y grwpiau yma o ddisgyblion.

Mae'r berthynas waith glos rhwng y staff a'r plant yn gryfder yn yr holl glystyrau gyda'r gofal a'r parch yn sicrhau awyrgylch a naws hyfryd yn mhob ysgol. Mae'r staff dysgu yn y rhan fwyaf o ysgolion yn modelu iaith lafar dda sy'n dylanwadau yn effeithiol ar ddatblygiad iaith y plant. Mae'r brwdfrydedd a gofal y staff yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yn sicrhau bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol iawn at eu dysgu gan ddangos diddordeb ac yn ymroi i'w gwaith. Mae gan y rhan fwyaf o'r ysgolion ymyraethau llesiant pwrpasol ar gyfer yr ychydig o ddisgyblion ble nad yw'r agwedd yma cystal. Mae'r athrawon ymhob ysgol yn rhoi llais i'w disgyblion ac yn sicrhau cyfleon gwerthfawr iddynt fod yn dylanwadu ar eu dysgu.

Mae llawer o ysgolion y clystyrau yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu dealltwriaeth eu staff o les. Mae canran uchel o staff y clystyrau, yn benaethiaid, athrawon a chymorthyddion wedi, neu yn y broses o ddilyn rhaglen hyfforddiant diploma Trauma Informed Schools. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion yn y rhan fwyaf o'r ysgolion.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Parhau gyda'r gwaith cydweithio effeithiol mewn grwpiau clwstwr
- Sicrhau amser i athrawon fod yn rhannu agweddau o ddysgu rhagorol ar draws y clwstwr.
- Parhau i ddatblygu darpariaeth y Gymraeg gan hyrwyddo safonau uchel a defnydd cymdeithasol cyson ymysg y disgyblion.

**Cwricwlwm a Darpariaeth: Cynnydd ac Effaith mewn Clystyrau Ysgolion Cynradd**

Mae paratoadau ar gyfer cyflwyno y Cwricwlwm i Gymru o Fedi 2022 wedi bod yn dda neu well yn y rhan fwyaf o'r ysgolion. Mae gan bob ysgol weledigaeth glir sydd wedi ei datblygu drwy drafodaethau a chasglu barn yr holl rhanddeiliaid. Mae rhai ysgolion wedi eu hadnabod i arddangos arferion llwyddiannus yn Rhanbarthol ac yn Genedlaethol o ran eu dulliau llunio gweledigaeth a cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm newydd.

Mae pob ysgol wedi troi eu gweledigaeth yn ddyluniad cwricwlwm effeithiol sydd yn parhau i ddatblygu ac esblygu fel mae'r dyfnder o wybodaeth a'r cynlluniau darpariaeth yn aeddfedu.

Mae'r Gymraeg yn cael lle amlwg yn nyluniad cwricwlwm yr ysgolion ac mae'r ddarpariaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus. Mae ethos yr ysgolion a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau'r Gymraeg a llythrennedd yn gyfoethog ac mae'r profiadau a gynigir wedi'u cynllunio'n ofalus ac i bwrpas ac yn ysgogol a chyfoes. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn deall

pwysigrwydd eu rolau ar gyfer modelu a datblygu'r iaith. O ganlyniad, mae hyn yn hybu mwynhad y dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn gwersi a thu hwnt i'r dosbarthiadau.

Eleni mae pob ysgol wedi parhau i ddatblygu dealltwriaeth o'r 4 diben ac fe'i gwelir yn cael eu dathlu mewn dosbarthiadau ac yn ffocws i gynlluniau. Mae pob ysgol hefyd yn parhau i arbrofi â dulliau gwahanol o gynllunio, addysgu ac o sicrhau profiadau cyfoethog. Mae'r broses o gynllunio dros amser i sicrhau cynnydd gan roi sylw i bob datganiad o'r hyn sy'n bwysig a'r elfennau mandadol yn parhau i gael ei datblygu.

Mae mwyafrif y clystyrau hefyd wedi creu grwpiau i drafod a datblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, mae hyn wedi sicrhau bod pob aelod o staff ymhob ysgol wedi cael bod yn sŵn y drafodaeth o fynd i wraidd y meysydd, dod i ddeall y camau cynnydd a'r disgrifiadau dysgu a chydweithio wrth ystyried y cynllunio. Defnyddiwyd sesiynau Hyfforddiant Mewn Swydd a gwyll yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer rhaeadru gwybodaeth o'r naill grŵp i'r llall.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Parhau i adnabod sut mae cynnydd yn edrych er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn fwriadus dros amser.
- Parhau i gynnal trafodaethau / deialog proffesiynol am gynnydd dysgwyr gyda'r dysgwyr eu hunain, gyda staff yr ysgol yn ogystal â staff ysgolion eraill.

**Safonau a Chynnydd Dysgwyr: Cynnydd ac Effaith mewn Clystyrau Ysgolion Cynradd**

Mae safonau a'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud yn dda yn y rhan fwyaf o'r ysgolion ac yn dda iawn yn y mwyafrif.

Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn datblygu yn dda ac yn cael eu cymhwyso ar draws y cwricwlwm yn y mwyafrif o ysgolion gyda'r sgiliau digidol yn datblygu yn dda. Mae sgiliau Cymraeg da neu well gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y rhan fwyaf o'r ysgolion ac maent yn gwrando, siarad a chyfathrebu yn gynyddol hyderus yn yr iaith. Fodd bynnag mae effaith y pandemig yn parhau i ddylanwadu ar fedrau llafaredd y lleiafrif o'r disgyblion, yn enwedig y disgyblion ieuengaf ac ar waith ysgrifennu estynedig a chymhwyso rhifedd ychydig o ddisgyblion hŷn. Mae'r agweddau yma yn cael sylw o fewn cynlluniau gwella a rhaglenni ymyrraeth yn yr ysgolion hyn.

Mae'r mwyafrif o ysgolion wedi cydweithio er mwyn sicrhau trefn bwrpasol o adnabod gwaelodlin disgyblion fel y maent yn cychwyn yr ysgolion. Mae llawer o ysgolion hefyd yn datblygu trefniadau asesu cynnydd priodol ar gyfer disgyblion wrth iddynt ddilyn y cwricwlwm newydd.

Yn y mwyafrif o ysgolion mae cytundeb traws glwstwr i roi y pwyslais ar ddal cynnydd unigolion yn eu dosbarth drwy weithdrefnau asesu ar gyfer dysgu.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion defnyddir taenlenni gwahanol wedi eu personoli ar gyfer disgyblion unigol sy'n dal enghreifftiau o ganlyniadau asesiadau safonol disgyblion yn ogystal â mesuryddion llesiant ac ymagweddau at waith ac ysgol dros amser. Mae llawer o ysgolion hefyd yn treialu offerynnau tracio er mwyn hwyluso gwaith o sicrhau bod asesiadau yn arwain at gynllunio'r camau dysgu nesaf.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Cytuno ar ddulliau o ddal a sicrhau cynnydd yn y medrau gan sicrhau pontio effeithiol.
- Datblygu ymhellach allu disgyblion i ddefnyddio a chymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm.

# ATODIAD 3

**CYNLLUN BUSNES 2022-2023**

**BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH RANBARTHOL 2022-2023**

**AMCAN 1 - CWRICWLWM AC ASESU**

**Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.**

**CONTINWWM ADDYSG 3 i 16**

**Data rhanbarthol:**

**Prosiect pontio addysgeg**

- Ysgolion: 25

**Gweithdy Pontio:**

- Ysgolion: 284

**Pecyn cymorth 3-8 Tymor:**

- Cymorth i ysgolion: 74
- Nifer o ymweliadau: 184
- Cymorth clwstwr (nifer ysgolion): 132
- Rhwydwaith 3-8: 735 wedi mynychu yn rhanbarthol
- Gweithdai i Athrawon a Chymorthyddion Dysgu newydd i'r oedran 3-8: 778 wedi mynychu yn rhanbarthol

**Data Awdurdod Lleol:**

**Prosiect Pontio Addysgeg**

| | **Clystyrau** |
|---|---|
| Gwynedd: | 3 |

| | **Ysgolion** |
|---|---|
| Gwynedd: | Y Moelwyn/Maenofferen<br>Dyffryn Ogwen/Bodfeurig/Tregarth<br>Ardudwy /Cefn Coch |

**Pontio Workshops:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 71 |

**Pecyn cymorth 3-8**

| | Nifer ysgolion | Nifer ymweliadau |
|---|---|---|
| Gwynedd: | 18 | 39 |

**Cymorth clwstwr (nifer ysgolion)**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 65 |

**Rhwydwaith:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 180 |

**Gweithdai:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 191 |

**GWIREDDU'R CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU)**

**Data Rhanbarthol:**

**Data Awdurdod Lleol:**

<table>
<tr><td>Niferoedd yn mynychu'r sesiynau Dysgu Proffesiynol CiG cenedlaethol ar-lein:<br>• Cyfanswm o 668 ar draws Cymru - 251 o GwE</td><td><table><tr><td>Gwynedd:</td><td>39</td></tr></table></td></tr>
<tr><th colspan="2">TIMAU MDaPh</th></tr>
<tr><td>Data rhanbarthol :<br><br>Mwy o ymweliadau â'r wefan - mynediad i ddeunyddiau ac enghreifftiau a rennir gan rwydweithiau ac ysgolion:<br><br>Rhwng 1/9/21 a 20/1/23<br>• 8418 CfW GwE Support Centre<br>• 8100 CiG Canolfan Cefnogaeth GwE<br><br>Between 1/9/21 a 30/3/23:<br>• 9021 CfW GwE Support Centre<br>• 8504 CiG Canolfan Cefnogaeth GwE</td><td>Data Awdurdod Lleol:<br><br>D/B</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">AMCAN 2 - DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL<br><br>Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion</th></tr>
<tr><th colspan="2">IEITHOEDD TRAMOR MODERN</th></tr>
<tr><td>Data Rhanbarthol:<br><br>Webinars cynradd<br>• Power Language + Institut français: Mai - Mehefin 2022: 35 ysgol (41 o athrawon)</td><td>Data Awdurdod Lleol:<br><br>Webinars cynradd<table><tr><td>Gwynedd:</td><td>7</td></tr></table><br>Power Language - Tanysgrifiad 3 blynedd<br>Gwynedd (31.10.22): 2<br>Gwynedd (31.03.22): 15<br>Gwynedd (04.07.22): 16</td></tr>
<tr><td>Uwchsgilio cynradd:<br>• Mehefin - Gorffennaf 2022- 3 sesiwn - 8 ysgol (13 o athrawon)<br>• Tachwedd 2023 - 1 sesiwn - 7 ysgol - (9 o athrawon)<br>• Ionawr 2023 - 2 sesiwn - 8 ysgol (10 o athrawon)</td><td>Uwchsgilio cynradd:<br>Gwynedd (Mehefin/Gorffennaf 2022): 2<br>Gwynedd (Tachwedd 2023): 1</td></tr>
<tr><td>Power Language – Hyfforddiant Cynradd:<br>• 16.11.22 - 28 ysgol (30 o athrawon)<br>• 21.3.23 - 31 ysgol (36 o athrawon)</td><td>Power Language – Hyfforddiant Cynradd:<table><tr><td></td><td>16.11.22</td><td>21.3.23</td></tr><tr><td>Gwynedd:</td><td>4</td><td>4</td></tr></table></td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod Rhwydwaith Cynradd**<br>• Chwefror- Mawrth 2023 – Nifer ysgolion: 25 | **Cyfarfod Rhwydwaith Cynradd**<br>Gwynedd: 10 |
| **Cerdd Iaith Almaeneg:**<br>• Nifer yr ysgolion: 3 | **Cerdd Iaith Almaeneg:**<br>Gwynedd: 1 |
| **Rhannu arferion llwyddiannus Cynradd Chwefror 2023**<br>• Nifer yr ysgolion: 6 | **Rhannu arferion llwyddiannus Cynradd Chwefror 2023**<br>Gwynedd: 0 |
| **Rhaglen Dylunio ar gyfer Ieithoedd**<br>Hydref 2022 – Mawrth 2023<br>• Ieithoedd Rhyngwladol a'r Gymraeg: 26 ysgol | **Rhaglen Dylunio ar gyfer Ieithoedd**<br>Hydref 2022 – Gwynedd: 10<br>Mawrth 2023 – Gwynedd: 8 |
| **Cyfarfod Rhwydwaith Uwchradd**<br>• Tachwedd 2022 - Nifer yr ysgolion: 29<br>• Chwefror 2023 - Rhannu Arferion Llwyddiannus: 15 ysgol | **Cyfarfod Rhwydwaith Uwchradd**<br>Tachwedd 2022 – Gwynedd: 7<br>Chwefror 2023 – Gwynedd: 4 |
| **CALU - LLDC** | |
| **Data rhanbarthol :** | **Data Awdurdod Lleol:** |
| **Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi:**<br>• 62 | **Ymsefydlu**<br>Gwynedd: 3 |
| **Cymorthyddion wrth eu Gwaith:**<br>• 137 | **Cymorthyddion wrth eu Gwaith**<br>Gwynedd: 20 |
| **Darpar CALU Cylch 4, 5 a 6:**<br>• 88 | **Darpar CALU Cylch 4, 5 a 6**<br>Gwynedd: 7 |
| **Statws CALU Cylch 3 a 4:**<br>• 38 | **Statws CALU Cylch 3 & 4**<br>Gwynedd: 3 |
| **Hyfforddiant Aseswyr CALU newydd:**<br>• 5 | **Hyfforddiant Aseswyr CALU newydd**<br>Gwynedd: 0 |
| **Cyflwyniad i Cwricwlwm i Gymru:**<br>• 219 | **Cyflwyniad i Cwricwlwm i Gymru**<br>Gwynedd: 30 |

## Y Gymraeg (DP)

**Data Rhanbarthol:**

**Cyrsiau Sabothol 2022-2023:**
- 27

**GwE yn mynychu fforymau penaethiaid:**
- 7

**Ein Llais Ni**
- Astudiaethau achos wedi eu cyflwyno: 65
- Ysgolion wedi ymrwymo i'r prosiect: 81

**Mynediad i gyrsiau y Ganolfan Dysgu genedlaethol**
- Cyfanswm gweithgareddau dysgu: 54
- Nifer sy'n parhau â'r gweithgareddau dysgu: 23

**Data Awdurdod Lleol:**

Cyrsiau Sabothol 2022-2023: Gwynedd:
- Cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn: 0
- Rhan 2 tymor y Gwanwyn: 0
- Rhan 2+3: 0
- Rhan 3 yn unig tymor yr Haf: 0

**Mynychu fforymau penaethiaid:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 2 |

**Ein Llais Ni – astudiaethau achos wedi eu cyflwyno:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 34 |

**Ein Llais Ni – ymrwymiad ysgolion i'r prosiect:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 41/49 |

**Mynediad i gyrsiau y Ganolfan Dysgu Cenedlaethol**
**Cyfanswm gweithgareddau dysgu**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 11 |

**Nifer sy'n parhau a'r gweithgareddau dysgu**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 9 |

## SAFON UWCH

**Data Rhanbarthol:**

**Nifer fynychodd y gynhadledd i arweinwyr Ôl-16:**
- 35

**Data Awdurdod Lleol:**

**Nifer fynychodd y gynhadledd i arweinwyr Ôl-16:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 11 |

## YMCHWIL A GWERTHUSO

**Data Rhanbarthol:**

**Prosiect Ymchwil gwrth-fwlio KiVa:**
- Nifer o ysgolion: 30

**Data Awdurdod Lleol:**

**Prosiect Ymchwil gwrth-fwlio KiVa:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 3 |

## AGA

**Data Rhanbarthol:**

- Cynnydd sylweddol yn nifer (%) yr athrawon cyflenwi byrdymor (STS) oedd yn bresennol yn sesiynau cenedlaethol 1 a 2 y rhaglen dysgu proffesiynol. Roedd 51 (81%) athro cyflenwi byrdymor newydd gymhwyso sydd mewn gwaith yn Sesiwn 1, sy'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Data Awdurdod Lleol:**

D/B

| | |
|---|---|
| • Rhaglen Dilyswyr Allanol - Mynychodd 100% o Ddilyswyr Allanol GwE (83) a'r Mentoriaid Allanol y gweithdy hyfforddi Cenedlaethol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r Broses Sefyldu ANG.<br><br>• Nifer yr ANG a fynychodd y sesiynau DP gorfodol: 172<br><br>**Data Rhanbarthol:**<br><br>Dadansoddiad o'r ANG a fynychodd y sesiynau DP gorfodol.<br>• 386 | |

## DIGIDOL

**Data Rhanbarthol:**

**Nifer a gofrestrwyd ar gyfer Hyfforddiant Digidol:**

- 386

**Data Awdurdod Lleol:**

Data defnydd Hwb – nifer o ysgolion sy'n ymgysylltu ar gyfartaledd yn ystod chwarter 4:

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 96.5% |

## MATHEMATEG A RHIFEDD

**Data Rhanbarthol:**

| | Nifer yr ysgolion | Nifer ymweliadau |
|---|---|---|
| Cymorth pynciol unigol i ysgolion cynradd | 6 | 18 |
| Cymorth unigol i ysgolion uwchradd | 32 | 79 |
| Cyfarfodydd rhwydwaith i Benaethiaid Mathemateg | 47 | N/A |

**Data Awdurdod Lleol:**

**Cymorth i ysgolion cynradd:**

| | Nifer ysgolion | Nifer o ymweliadau | Nifer clystyrau | Nifer o ymweliadau clwstwr |
|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 0 | 0 | 2 | 2 |

**Cymorth unigol i ysgolion uwchradd**

| | Nifer ysgolion | Nifer ymweliadau |
|---|---|---|
| Gwynedd | 7 | 25 |

**Cyfarfodydd rhwydwaith i Benaethiaid Mathemateg**

| | Nifer Ysgolion (Tachwedd) | Nifer ysgolion (Mawrth 2023) |
|---|---|---|
| Gwynedd | 12 | 12 |

| | |
|---|---|
| | **Cyfarfodydd rhwydwaith Cydlynwyr Rhifedd Uwchradd**<br>Gwynedd: 10<br><br>**Gweithdy Mathemateg Cynradd ac Uwchradd** |

| | Nifer mynychwyr Uwchradd | Nifer mynychwyr Cynradd |
|---|---|---|
| Gwynedd | 23 | 40 |

**SAESNEG A LLYTHRENNEDD**

| Data Rhanbarthol: | Data Awdurdod Lleol: |
|---|---|
| **Cymorth penodol i ysgolion:**<br>• Cynradd: 145<br>• Uwchradd: 50 | |

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 12 - Uwchradd<br>14 - Cynradd |

**CYMRAEG A LLYTHRENNEDD**

| Data Rhanbarthol | Data Rhanbarthol |
|---|---|
| **Cyfarfod Rhwydwaith Cydlynwyr Llythrennedd (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog):**<br>• 20 | **Cyfarfod Rhwydwaith Cydlynwyr Llythrennedd (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog):**<br>• Gwynedd: 10 |
| **Prosiect 'Ein Llais Ni' (GwE)**<br>• Nifer yr ysgolion uwchradd yn rhan o'r prosiect: 12 | **Prosiect 'Ein Llais Ni' (GwE)**<br>• Gwynedd: 6 |
| **Prosiect 'Dylunio ar gyfer Ieithoedd CiG'**<br>• Adrannau y Gymraeg ysgolion uwchradd sy'n rhan o'r prosiect: 6 | **Prosiect 'Dylunio ar gyfer Ieithoedd CiG'**<br>• Gwynedd: 3 |
| **Aelodau o'r Teams / Google Classroom 'GwE':**<br>• Y Gymraeg: 27<br>• Y Gymraeg – Uwchradd YCS: 19 | **Aelodau o'r Teams / Google Classroom 'GwE':**<br>• Y Gymraeg - Gwynedd: 14 |

**GWYDDONIAETH**

| Data Rhanbarthol: | Data Awdurdod Lleol: |
|---|---|
| **Rhwydweithiau Penaethiaid Gwyddoniaeth Tymor yr Hydref 2022:**<br>• 37 | **Rhwydweithiau Penaethiaid Gwyddoniaeth Tymor yr Hydref 2022:**<br>• Gwynedd/Mon: 12 ysgol |
| **Rhwydwaith Grŵp Datblygu Technoleg:** | |

<table>
<tr><td>

• 6 ysgol<br><br>
Rhwydweithiau Penaethiaid Gwyddoniaeth Tymor y Gwanwyn 2023:<br>
• 38<br><br>
Wedi derbyn cymorth ysgol penodol:<br>
• 22
</td><td>
Rhwydweithiau Penaethiaid Gwyddoniaeth Tymor y Gwanwyn 2023:<br>
• Gwynedd/Mon: 11 ysgol<br><br>
Wedi derbyn cymorth ysgol penodol:<br>
• 22
</td></tr>
<tr><td colspan="2">OEDRAN 3-8</td></tr>
<tr><td>
Data Rhanbarthol:<br><br>
Cymorth i ysgolion:<br>
• Nifer ysgolion: 74<br>
• Nifer o ymweliadau: 184<br>
• Cymorth clwstwr (nifer ysgolion): 132<br><br>
Rhwydwaith 3-8 Tymor:<br>
• 735 wedi mynychu yn rhanbarthol<br><br>
Gweithdy i Athrawon a CD yn newydd i'r grŵp oedran 3-8:<br>
• 778 wedi mynychu yn rhanbarthol
</td><td>
Data Awdurdod Lleol:<br><br>
Cymorth i ysgolion:
<table>
<tr><td></td><td>Nifer ysgolion</td><td>Nifer ymweliadau</td></tr>
<tr><td>Gwynedd:</td><td>18</td><td>39</td></tr>
</table>
Cymorth clwstwr:
<table><tr><td>Gwynedd:</td><td>65</td></tr></table>
Rhwydwaith 3-8
<table><tr><td>Gwynedd:</td><td>180</td></tr></table>
Gweithdy:
<table><tr><td>Gwynedd:</td><td>191</td></tr></table>
</td></tr>
</table>

**AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH**

**Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol**

**ARWEINYDDIAETH**

**Data Rhanbarthol:**

| | 2021-22 |
|---|---|
| 1.Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol | 102 |
| 2.Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr | 72 |
| 3.Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (paratoi at CPCP) | 35 |
| 4.Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro | 32 |
| 5.Rhaglen Ddatblygu i Benaethiaid Profiadol | 17 |

| CYFANSWM | 258 |
|---|---|

**Niferoedd yn dilyn Rhaglenni arweinyddiaeth**

| **Rhaglen** | **2021-22** | **2022-23** | **Gwahaniaeth** |
|---|---|---|---|
| MLDP | 74 | 86 | +14% |
| RhDAG | 29 | 41 | +30% |
| SLDP | 44 | 74 | +40% |
| RhDUA | 27 | 30 | +10% |
| | | | |
| Cyfanswm | 174 | 231 | +25% |

| **Rhaglen / Programme** | **2021-22** | **2022-23** |
|---|---|---|
| RhDDB (CPCP) / AHT (NPQH) | 35 | *35 cais |
| Penaethiaid Newydd a Mewn gofal / New and Acting Headteachers / | 15 | 30 |
| Penaethiaid Profiadol / Experienced Headteachers | 17 | 6 |

**AMCAN 4 - YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL**

**Yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant**

**AILGYNAU'R DYSGU**

**Data rhanbarthol :**

**Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR)**

- Mae 52 ysgol a 66 athro wedi cofrestru a chael mynediad at fideos hyfforddiant ar-lein.

**Dyma niferoedd yr athrawon sydd wedi defnyddio Google Classroom:**

- Mae 63 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg
- Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg.
- Ysgolion wedi cofrestru i gael mynediad i'r fideos hyfforddi a'r adnoddau ymyrraeth yn (2021/22):

**Data Lleol:**

**Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR)**

Ysgolion sydd wedi cofrestru i gael mynediad at y fideos hyfforddi a'r adnoddau yn (2021/22)

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 12 |

Ysgolion sydd wedi cofrestru i gael mynediad at y fideos hyfforddi a'r adnoddau yn (Medi 2022)

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 2 |

52

- Ysgolion wedi cofrestru i gael mynediad at y fideos hyfforddi a'r adnoddau ymyrraeth (Medi 2022): 31

**Sesiynau hyfforddi iFOR**

- Cofrestrodd 28 ysgol a 32 o athrawon i gael hyfforddiant ac adnoddau yr ymyraethau rhuglder darllen (Darllen Ailadroddol a Geiriau Amledd Uchel).

**Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR).**

- Niferoedd ysgolion GwE yn cymryd rhan: 45

**Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR).**
Dyma fanylion ynghylch niferoedd athrawon a rhieni ac ymweliadau â'r adnoddau ar-lein:

- Nifer a fynychodd: 9

**Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR)**

- Cyfanswm ysgolion GwE a ymgysylltwyd: 45
- Cofrestrodd wyth ysgol ac 16 athro i gael mynediad i Weminar 1 ac 1 ysgol ac ymunodd 1 athro i gael mynediad i Weminar 2.

**Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR).**
Nifer ysgolion sy'n cymryd rhan:

| | 2022-23 |
|---|---|
| Gwynedd: | 6 |

Webinar:

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 1 |

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - CAM 2**

- Hyfforddwyd 33 o ysgolion mewn RILL (58 o athrawon) yn ystod blwyddyn ysgol 2021-22, gyda'r mwyafrif yn gyfrwng Cymraeg
- Mae chwe deg un o ysgolion wedi eu hyfforddi mewn RILL yn ystod tymor yr Hydref 2022 (RILL Cymraeg = 27 ysgol, 39 o athrawon; RILL Saesneg = 34 ysgol, 60 o athrawon).

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL)**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 21 |

**Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR)**

| | 07/2021 | 07/2022 |
|---|---|---|
| Nifer yr ysgolion sydd wedi adnewyddu trwydded(au) yn uniongyrchol gyda SR ers mis Medi 2021 | 30 | 15 |
| Nifer y disgyblion sydd wedi ymuno â Google Classroom | 40 | 40 |
| Nifer y staff sydd wedi ymuno â Hwb | 71 | 73 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Headsprout gartref | 399 | 513 |

| | | |
|---|---|---|
| (Rhieni ac aelodau staff) | | |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i ddefnyddio straeon Headsprout (Rhieni) | 106 | 363 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i weinyddu Meincnodau (Rhieni) | 18 | 46 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i weinyddu Meithrin Rhuglder (Rhieni) | 13 | 54 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i drefnu treial am ddim/prynu neu adnewyddu trwydded (Staff ysgol) | 65 | 77 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i ychwanegu disgyblion at y rhaglen (Staff ysgol) | 84 | 135 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i wirio sgorau (Staff ysgol) | 39 | 85 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i fewnbynnu sgorau Meincnod (Staff ysgol) | 16 | 25 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i gael mynediad i Google Classroom (Rhieni) | 33 | 50 |
| Gweminar 1 Cychwyn arni gyda Headsprout | - | 2 |
| Gweminar 2 Monitro cynnydd wrth ddefnyddio Headsprout | - | 0 |

**STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI/GOFALWYR**

**Data Rhanbarthol:**

**Defnyddwyr wedi cofrestru ar draws y rhanbarth:**

- Helpu Eich Plentyn i Ddysgu: 378
- Helpu Eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu: 451

**Data Awdurdod Lleol:**

**Helpu Eich Plentyn i Ddysgu:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 83 |

**Helpu Eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 11 |

**AMCAN 5- CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA**

**Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r capasiti i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson**

**YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID**

**Data Rhanbarthol:**

**Nifer o ysgolion/clystyrau/cynghreiriau wedi ymrwymo:**

- 206 / 37

**Nifer o Adolygwyr Cymheiriaid a hyfforddwyd:**

- 266

**Nifer o Hwyluswyr Gwelliant a hyfforddwyd:**

- 226

**YSGOLION SY'N DESTUN PRYDER**

**Data Rhanbarthol:**

**Ysgolion uwchradd**
- Mesurau Arbennig: 3
- Gwelliant Sylweddol: 1

**Ysgolion cynradd**
- Mesurau Arbennig: 2
- Gwelliant Sylweddol: 2

**Data Awdurdod Lleol**

**Ysgolion uwchradd mewn categori statudol:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 0 |

**Ysgolion cynradd mewn categori statudol:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 0 |

**CYMELL A MENTORA**

**Data Rhanbarthol:**

**Hyfforddiant Cymraeg Hyfforddi'r Hyfforddwr:**
- 21 (56% o'r cohort Cymraeg Cymru gyfan)

**Hyfforddiant Saesneg Hyfforddi'r Hyfforddwr:**
- 32

**Data Awdurdod Lleol:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | Cym: 9 |

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 23 Ionawr 2024 |
| **SWYDDOG PERTHNASOL** | Debbie Anne Williams Jones<br>Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Beca Brown,<br>Aelod Cabinet dros Addysg |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Bu i Addysg Ôl-16 gael ei adnabod fel un o brif flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2018-23, a cheir cyfeiriad ato hefyd fel rhan o flaenoriaethau'r cynllun cyfredol sef Cynllun y Cyngor 2023-28.

1.2 Yn Ionawr 2018, cyflwynwyd adroddiad gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi oedd yn nodi'r bwriad i gynnal asesiad o'r ddarpariaeth bresennol gan nodi'r posibilrwydd y byddai canfyddiadau'r asesiad yn sail i drafodaeth bellach ar lwybr y ddarpariaeth ôl-16 yn y sir i'r dyfodol.

1.3 Yn ogystal, cymeradwyodd y Cabinet yn eu cyfarfod ar 12 Mehefin 2018, yr egwyddor o ystyried sefyllfa bresennol ôl-16, gan sicrhau na fyddai'r awdurdod yn colli'r cyfle i gryfhau'r ddarpariaeth yn Arfon, pe bai achos ar gyfer gwneud hynny. I'r perwyl hwn, adnabuwyd swm o £18m o'r rhaglen Band B, Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

## 2. CEFNDIR

2.1 Fel rhan o'r gwaith o edrych ar y maes, comisiynwyd cwmni Iaith Cyf i gyflawni gwaith ymchwil ar ran yr Adran, er mwyn cyfoethogi a dilysu'r sylfaen dystiolaeth a gasglwyd o ymchwil pen-desg.

2.2 Yn dilyn ystyried y dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r ymchwil, lluniwyd adroddiad "Trosolwg Addysg Ôl-16", a oedd yn awgrymu ar y pryd fod achos dros newid. Gellir gweld copi o'r adroddiad drwy ddilyn y ddolen yma.

2.3 Ar 10 Mawrth 2020, cyflwynwyd adroddiad gerbron Cabinet Cyngor Gwynedd yn gofyn caniatâd:

> *"...i gynnal trafodaethau gyda rhan-ddeiliaid er mwyn ystyried y ddarpariaeth bresennol ac amlygu'r ystyriaethau allweddol er mwyn cyd-adnabod y cyfeiriad a chyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Arfon. Yn dilyn hynny, disgwylir i adroddiad pellach gael ei gyflwyno gerbron y Cabinet er mwyn adrodd yn ôl ar ganlyniad y trafodaethau."*

2.4 Cynhaliwyd cyfnod o ymgysylltu anffurfiol am gyfnod o 6 wythnos rhwng 10 Tachwedd a 22 Rhagfyr 2020. Pwrpas yr ymgysylltu oedd rhoi cyfle i ran-ddeiliaid megis dysgwyr, rhieni, staff, llywodraethwyr a'r gymuned yn ehangach gyflwyno sylwadau a syniadau ynglŷn â'r gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon, o fewn cyd-destun, gweledigaeth, ac amcanion y Cyngor.

2.5 Fel rhan o'r broses ymgysylltu, cyhoeddwyd y ddogfennaeth gefndirol ganlynol ar wefan y Cyngor:

- Adroddiad Cabinet 10 (Mawrth 2020)
- Trosolwg Addysg Ôl-16 (Mawrth 2020)
- Adroddiad IAITH Cyf 'Asesiad o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 bresennol yng Ngwynedd' (Ebrill 2019)
- Cyflwyniad (Hydref 2020)
- Y Weledigaeth ac Amcanion
- Ffurflen Ymateb

Gellir cael mynediad i'r dogfennau hyn drwy ddilyn y ddolen yma.

2.6 Cyflwynwyd adroddiad ar y broses ymgysylltu anffurfiol ar addysg ôl-16 gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 4 Chwefror 2021. Gellir cael mynediad i'r adroddiad drwy ddilyn y ddolen yma.

**3. Cabinet 7 Mawrth 2023**

3.1 Ar 7 Mawrth 2023, cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cabinet yn adrodd yn ôl ar brif negeseuon yr ymgysylltu anffurfiol a gynhaliwyd. Gellir gweld copi o'r adroddiad drwy ddilyn y ddolen yma.

3.2 Yn yr adroddiad, manylir ar y prif sylwadau a dderbyniwyd o dan y themâu isod -

- Ansawdd Addysg
- Y Gymraeg
- Lles y dysgwyr
- Teithio
- Cyfleusterau / amgylchedd dysgu
- Dysgu rhithiol

3.3 Rhoddwyd sylw hefyd i ystyriaethau newydd a ddaeth i'r amlwg yn sgil y pandemig, sef:

- Dysgu Rhithiol
- E-Sgol
- Tocyn Teithio Ôl-16
- Adroddiad Thematig Estyn 'Partneriaethau Ôl-16'

3.4 Yn sgil adrodd yn ôl ar yr ymgysylltu, gofynnwyd am ganiatâd y Cabinet "*i wneud gwaith pellach gyda rhanddeiliaid sy'n ffurfio Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn datblygu modelau posib ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon sy'n deillio o'r ymgysylltu anffurfiol a gynhaliwyd ar addysg ôl-16 yn Arfon yn nhymor yr hydref 2020.*"

**4 Cabinet 28 Tachwedd 2023**

4.1 Ar 28 Tachwedd 2023, cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cabinet yn adrodd yn ôl yn sgil y ddau weithgor a gynhaliwyd gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd Arfon yn Nhymor yr Haf 2023. Gellir gweld copi o'r adroddiad drwy ddilyn y ddolen yma.

4.2 Nodwyd yr egwyddorion cyffredin canlynol gan y penaethiaid yn dilyn y drafodaeth yn y gweithgorau, ynghyd â'r hyn a ddeisyfir ar gyfer y gyfundrefn i'r dyfodol:

- Tegwch i'r dysgwyr
- Safonau
- Cymreictod
- Llais y rhanddeiliaid
- Cyd-berchnogi
- Ceisio gweld y darlun mawr
- Effaith unrhyw newid ar y gymuned
- Cyfundrefn gynaliadwy

4.3 Nodwyd yn gyffredinol gan y penaethiaid bod y drefn bartneriaethol bresennol (Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn) a chydweithio rhwng ysgolion yn gweithio'n dda.

4.4 Ar 13 Medi 2023, rhannodd yr Adran Addysg gasgliadau'r ddau weithgor a gynhaliwyd gyda phenaethiaid uwchradd Arfon a oedd yn amlygu'r rhesymau pam nad oedd yr achos dros newid bellach mor gryf, sef bod:

- Adroddiad Thematig Estyn 'Partneriaethau Ôl-16' (Ionawr 2021) yn cydnabod Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn fel arfer dda.
- Adroddiad Estyn ar Wasanaethau Addysg yng Nghyngor Gwynedd (Mehefin 2023) yn nodi nad oes diffygion amlwg yn y ddarpariaeth ôl-16 yn Arfon, er y nodir bod oedi o safbwynt symud ymlaen gyda'r prosiect hwn dros y blynyddoedd diwethaf.
- Canlyniadau Safon Uwch ysgolion uwchradd Arfon haf 2023 yn ymddangos yn gadarnhaol ar y cyfan – er bod yn rhaid cydnabod nad oedd y data cychwynnol hwn wedi ei ddilysu a bod amrywiaeth yn parhau rhwng cyrsiau a rhwng sefydliadau.
- Cydweithio rhwng ysgolion uwchradd Arfon yn dda, ac nad oes dymuniad i unrhyw newid i'r gyfundrefn gael effaith niweidiol ar rai ysgolion uwchradd yn Arfon.
- Sicrhau llesiant dysgwyr yn allweddol, a rhan allweddol o hynny yw galluogi dysgwyr i barhau gyda'u haddysg ôl-16 yn eu cymunedau.
- Yr angen i edrych ar y gyfundrefn uwchradd yn ei chyfanrwydd, ac na ellir edrych ar addysg ôl-16 ar ei ben ei hun, heb ystyried yr effaith ar CA3 a CA4 ((11-16 oed) hefyd.
- Yr angen i ystyried effaith tebygol newid demograffeg ar y gyfundrefn ysgolion yn ei chyfanrwydd i'r dyfodol.
- Yr her o orfod cyflwyno achos busnes llwyddiannus i Lywodraeth Cymru er mwyn rhyddhau'r arian (yn cynnwys arian cyfatebol gan y Cyngor) pan fo'r achos dros newid yn wan, neu'n fwy tebygol, yr her o gyflwyno achos busnes llwyddiannus i Lywodraeth Cymru ar gyfer parhau gyda'r status quo.

4.5 Yn sgil adrodd yn ôl o'r gweithgorau gyda'r penaethiaid, gofynnwyd am ganiatâd y Cabinet *"i gymeradwyo arallgyfeirio rhan o gyllideb prosiect Addysg ôl-16 yn Arfon ar gyfer cyfarch y bwlch ariannol sydd ym mhrosiectau Band B yn unol â'r adroddiad, nad oes modd symud ymlaen â hwy ar hyn o bryd gan nad oes cyllideb ddigonol ar eu cyfer yn sgil cynnydd mewn costau."*

4.6 Gofynnwyd hefyd am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Pennaeth Addysg gynnal trafodaethau ar adolygu y memorandwm o ddealltwriaeth gyda'r rhan-ddeiliaid sydd yn ffurfio Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r bwriad o gryfhau y trefniadau ac adrodd yn ôl i'r Cabinet gydag argymhellion ar gyfer y diwygiadau a gytunwyd.

**5. Camau Nesaf**

5.1 Eisoes mae'r Adran Addysg wedi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru gymeradwyo arallgyfeirio cyllideb prosiect Addysg ôl-16 yn Arfon ar gyfer cyfarch y bwlch ariannol sydd ym mhrosiectau Band B yn dilyn derbyn cymeradwyaeth y Cabinet.

5.2 Bydd yr Adran Addysg yn cyflwyno cais gerbron Grŵp Arweiniol Consortiwm Addysg Gwynedd ac Ynys Môn yn fuan yn 2024 er mwyn gofyn caniatâd i gynnal trafodaeth ar adolygu y memorandwm o ddealltwriaeth gyda'r rhan-ddeiliaid sydd yn ffurfio Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r bwriad o gryfhau y trefniadau ac adrodd yn ôl i'r Cabinet gydag argymhellion ar gyfer y diwygiadau a gytunwyd.

**6. Argymhellion**

6.1 Gofynnir i'r aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau ar y camau a weithredwyd a'r camau nesaf o safbwynt addysg ôl-16 yn Arfon.